CYNGOR GWYNEDD

# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 5ED MEDI, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 29 Awst 2024)

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Ioan Thomas | Edgar Wyn Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Menna Baines | Elfed Wyn ap Elwyn | Meryl Roberts |
| Huw Rowlands | Sedd wag | |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Angela Russell | Richard Glyn Roberts |
| Rob Triggs | Elwyn Jones |

## Aelodau Lleyg (6)

Clare Hitchcock
Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Sharon Warnes
H Eifion Jones
Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23ain o Fai 2024 fel rhai cywir

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR** 21 - 26

I ystyried yr adroddiad a chynnig sylwadau

**6. DATGANIAD O GYFRIFON 2023/24** 27 - 122

I ystyried y Datganiad o Gyfrifon Statudol (drafft amodol ar archwiliad) er gwybodaeth

**7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2023/24** 123 - 147

I ystyried a chymeradwyo’r Datganiad at bwrpasau ei arwyddo gan Arweinydd y Cyngor a’r Prif Weithredwr

**8. RHEOLAETH TRYSORLYS 2023/24** 148 - 156

I ystyried yr adroddiad er gwybodaeth

**9. ARCHWILIO CYMRU - DIWEDDARIAD CHWARTER 1** 157 - 172

I ystyried yr adroddiad

**10. ARCHWILIO CYMRU - CYNGOR GWYNEDD CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2024** 173 - 198

I ystyried yr adroddiad

**11. ADRODDIAD AROLYGIAD GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID GWYNEDD AC YNYS MÔN** 199 - 250

I ystyried a derbyn yr adroddiad ar ganfyddiad ac argymhellion yr archwiliad a gynhaliwyd ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

**12. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL AC HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2023/24** 251 - 304

I ystyried cynnwys y ddogfen drafft ar gyfer 2023/24 gan gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion.

**13. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR** 305 - 306

I ystyried y rhaglen waith

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 23 Mai 2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes, Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock, Carys Edwards a Rhys Parry

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Delyth Thomas Jones (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Caleb Lewis (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), Iwan Evans (Swyddog Monitro) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Cyllid) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

| | |
|---|---|
| Eitem 14 ac 15: | Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) |
| Eitem 18: | Alan Hughes (Archwilio Cymru) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |
| Eitem 19 : | Alan Hughes (Archwilio Cymru), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) |
| Eitem 20: | Alan Hughes (Archwilio Cymru) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |
| Eitem 21: | Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ethol Carys Edwards yn gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2024 /25**

2. **ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ethol Rhys Parry yn ddirprwy gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2024 / 25**

   Diolchodd Sharon Warnes i'r aelodau a'r swyddogion am eu cefnogaeth dros ei chyfnod fel Cadeirydd y Pwyllgor.

   Llongyfarchwyd y Cyng. Paul Rowlinson ar ei benodiad i'r Cabinet fel yr Aelod Cabinet dros Cyllid.

3. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Rob Triggs, Menna Baines ac Arwyn Herald Roberts; y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (ar gyfer eitem 15)

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

- Cynghorydd Richard Glyn Roberts - Eitem 9 - Cefnogaeth Ariannol i Gwmni Byw'n Iach. Nododd ei fod ar Fwrdd Byw'n Iach. Yn dilyn arweiniad gan y Swyddog Monitro, nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu gan fod y pwnc yn rhan o adroddiad ehangach. Nid oedd rhaid iddo adael y cyfarfod
- Carys Edwards - Aelod Lleyg  Eitem 13 - Manddaliadau. Nododd ei bod yn denant ar un o fanddaliadau'r Cyngor. Yn dilyn arweiniad gan y Swyddog Monitro, nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu gan fod y pwnc yn rhan o adroddiad ehangach. Nid oedd rhaid iddi adael y cyfarfod

## 5. MATERION BRYS

Derbyniwyd cais i drafod cylch gorchwyl gweithdrefnau mewnol yr Adran Addysg yn dilyn achos llys cyn-bennaeth Ysgol Friars ym Mangor, a herio canlyniad arolygiad Estyn (Mehefin 2023) o wasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd. Mewn ymateb i'r cais nododd y Swyddog Monitro bod y mater yn destun ymchwiliad ffurfiol allanol ar hyn o bryd ac mai rôl y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fyddai craffu trefniadau mewnol yr Adran Addysg. Er yn gynamserol, nododd bod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl o roi trosolwg ar wybodaeth, data a chadernid prosesau ac felly bydd modd ystyried y mater wedi i ganfyddiadau'r ymchwiliad gael ei gwblhau.

## 6. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 18 Ionawr 2024 a 8fed o Chwefror 2024 fel rhai cywir.

Mewn ymateb i sylw nad oedd eitem Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor ar yr agenda a  phryder y byddai'r eitem yma yn cael ei golli, nodwyd gyda'r nifer uchel o eitemau ar y rhaglen, bod rhaid torri eitemau ar gyfer y cyfarfod hwn. Bydd yr eitem i'w gynnwys, gyda diweddariad llawn i'r aelodau yn y cyfarfodydd nesaf.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL  PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023-24

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol gan Gadeirydd y Pwyllgor. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno a hynny mewn ymateb i argymhelliad cryf gan CIPFA oedd yn nodi y dylai'r Pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sydd yn rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn gallu dangos effaith. Pwrpas yr adroddiad yw cwmpasu gwaith y Pwyllgor dros y flwyddyn 2023-24 ac amlygu sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol ynghyd ag ychwanegu gwerth i drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd.

Roedd y Cadeirydd yn croesawu sylwadau gan yr Aelodau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid am ei waith o baratoi'r adroddiad ac i Mr Hywel Eifion Jones (cyn ddirprwy gadeirydd y Pwyllgor) am ei gefnogaeth werthfawr.

Ategodd y Pennaeth Cyllid bod yr adroddiad yn ymateb i ofynion statudol Llywodraeth Cymru ac wedi ei osod allan yn unol â swyddogaethau'r Pwyllgor (rhai yn swyddogaethau mandadol ac eraill yn swyddogaethau sydd wedi eu pennu gan Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd). Tynnwyd sylw at effeithiolrwydd y Pwyllgor a'r nifer eitemau a drafodwyd yn adlewyrchu gwaith y pwyllgor ynghyd ag adborth ynglŷn â threfniadau'r Cyngor. Yn dilyn

cynnal gweithdy hunan-arfarniad, amlygwyd bwriad o gynnwys allbwn y gweithdy hwnnw fel atodiad i'r adroddiad terfynol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod yr adroddiad yn un da – yn croesawu'r adroddiad gan ychwanegu diolchiadau i'r Cadeirydd am ei gwaith a'i harweiniad dros y flwyddyn
- Bod y frawddeg ynglŷn â newidiadau i gyfansoddiad y Pwyllgor ac o ganlyniad mwy o aelodau dibrofiad yn aelodau ar y pwyllgor 'wedi cymryd dwy flynedd i setlo', yn ymddangos yn nawddoglyd. Aelodau wedi datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac wedi cynnig sylwadau newydd.

Mewn ymateb i sylw bod adroddiad Estyn (Mehefin 2023) yn annigonol a diffygiol a bod hyn yn fater difrifol, a sut felly byddai derbyn gwybodaeth ychwanegol yn newid y sefyllfa, nodwyd mai rôl y Pwyllgor yw derbyn adroddiadau, ac mai adlewyrchiad / argraff gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor ynghyd ag ymateb yr Adran. Mewn ymateb, nodwyd, i'r dyfodol bod angen ystyried trefn sydd yn herio gwybodaeth yn hytrach na derbyn yn unig.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 gan argymell i'r Cyngor Llawn ei dderbyn yn derfynol**

## 8. HUNANASESIAD O YMARFER DA Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn cyflwyno canlyniadau a chynllun gweithredu gweithdy hunanasesiad o ymarfer da. Fel Pwyllgor sydd wedi ei ddynodi fel 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu,' mae'n ofynnol i gynnal hunanasesiad cyfnodol o'i effeithiolrwydd, penderfynodd y Pwyllgor, yng nghyfarfod Rhagfyr 2023, gynnal gweithdy i fynd i'r afael â chynnal ymarferiad hunanasesiad wyneb yn wyneb gyda holl aelodau'r Pwyllgor o dan arweiniad hwylusydd allanol.

Wrth gyflwyno gwybodaeth am yr angen i gynnal hunanasesiad, amlygwyd yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 (Mehefin 2012), fod y Llywodraeth eisoes wedi cymeradwyo cyhoeddiad CIPFA, "Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities", ac yn cynghori awdurdodau lleol i fwrw golwg ar y dogfennau hyn fel rhai atodol i'r canllawiau statudol. Amlygwyd bod canllawiau CIPFA yn cynnwys arfau er mwyn cynorthwyo aelodau pwyllgorau archwilio i gynnal hunanasesiad ac y byddai canlyniad yr asesiad yma yn dystiolaeth ar gyfer cofrestr risg y Cyngor (risg L18, Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu un ai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli) ac i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Amlygwyd bod y gweithdy wedi bod yn gyfle i'r aelodau ddod i adnabod ei gilydd a thrafod disgwyliadau'r pwyllgor. Ategwyd bod y cynllun gweithredu yn gosod cyfeiriad i'r pwyllgor ac yn adnabod materion i'w hystyried i'r dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r Rheolwr Archwilio am drefnu'r diwrnod. Amlygodd bod fformat y gweithdy yn broffesiynol a'r gwaith sydd angen ei gyflawni yn rhoi hyder i ddyfodol y pwyllgor.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol;

- Bod angen trefnu i'r Pwyllgor gwrdd gydag archwilio mewnol ac archwilio allanol ar wahân fel bo modd atgyfnerthu'r berthynas - byddai hefyd yn gyfle i adolygu'r drefn a derbyn adborth.

- Bod rôl y pwyllgor yn un 'cynghorol' - dylid ystyried i'r dyfodol bod angen hawl i gynnig sylwadau ac nid derbyn y wybodaeth yn unig. Awgrym i ailymweld â disgwyliadau a chynnig sylwadau yn hytrach na phenderfyniadau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y gellir gwella trefniadau mewn perthynas ag adroddiadau gan reoleiddwyr allanol, nodwyd yr angen i'r pwyllgor dderbyn diweddariad gan y rheoleiddwyr ar gynnydd yn y gwelliannau a argymhellwyd.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo cynnwys yr hunanasesiad**
- **Cefnogi'r camau gweithredu**

Nodyn;
Angen adnabod cyfleoedd i atgyfnerthu perthynas rheoleiddwyr allanol ac Archwilio Mewnol

**9. CYFRIFON TERFYNOL 2022 / 23 – ALLDRO REFENIW**

Amlygodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet 14 Mai 2024 lle cymeradwywyd y trosglwyddiadau. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu a chynnig sylwadau ar y penderfyniad.

Nodwyd bod yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2023/24, sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant yr adrannau unigol, a'r rhesymau am hynny. Cyfeiriwyd at dalfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau sy'n amlygu'r symiau i'w parhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ynghyd â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol. Amlygwyd,

- Adran Oedolion Iechyd a Llesiant: Gwelwyd lleihad yn y gorwariant i £3.9 miliwn o'i gymharu ag adolygiad diwedd Tachwedd gan i'r adran dderbyn grantiau ac incwm ers yr adolygiad diwethaf, sydd wedi cynorthwyo'r sefyllfa. Nodwyd bod £1.8 miliwn o orwariant oherwydd pwysau cynyddol a chostus llety cefnogol yn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu. Yn y maes Gofal Cartref, mae costau staffio uwch a lefelau salwch a chyfraddau oriau digyswllt yn uchel, tra bod pwysau ar y gyllideb darparwyr gofal cartref preifat. Nodwyd bod bid o £1.6miliwn i gynyddu'r gyllideb i ddelio â Gwasanaethau Anabledd Dysgu wedi ei wneud ynghyd a bod gwaith ar y gweill i geisio gwell rheolaeth ar y cyllidebau – y gorwariant yn ormodol ac felly rhaid mynd i'r afael a hyn.
- Adran Plant: Ers adolygiad Tachwedd, gorwariant yr Adran wedi cynyddu o £1.3 miliwn i £2.6 miliwn, oherwydd cynnydd yng nghostau lleoliadau all-sirol o ganlyniad i gymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol ddiweddar o leoliadau heb eu cofrestru, sy'n fwy costus. Bod gobaith i geisio trefn i fewnoli'r gwasanaeth fel bod modd mynd i'r afael â'r gorwariant. Pwysau hefyd i'w weld ar gyllideb y Gwasanaeth Derwen.
- Adran Addysg: Tuedd o bwysau cynyddol ar y gyllideb tacsis a bysus ysgolion yn parhau gyda gorwariant o £1.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Bod adolygiad strategol i'r sefyllfa gyda swyddog neilltuol wedi ei benodi i ddelio â hyn. Trosiant staff, derbyniad incwm a grantiau, a llai o bwysau ar gyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant i £95 mil. Yr adran yn defnyddio £95 mil o'u cronfa tanwariant adrannol i ddiddymu'r gorwariant.
- Adran Economi / Byw'n Iach. Yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550 mil o gefnogaeth ariannol i Gwmni Byw'n Iach uwchlaw taliad cytundebol y contract ddarparu, er mwyn iddynt gynnal eu gwasanaethau a pharhau'n hyfyw fel cwmni. Y gefnogaeth ariannol yn parhau eleni, a'r swm gofynnol wedi lleihau i £308 mil. Rhagweld na fydd angen cefnogaeth i'r dyfodol.

- Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gorwariant o £687 mil, oherwydd pwysau ar y gyllideb cynnal ffyrdd a goleuo a lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol. Yn y maes bwrdeistrefol, gwelir pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff, a cholled incwm. Er hynny, Ymgynghoriaeth Gwynedd yn rhagori ar y gyllideb.
- Adran Amgylchedd: Tuedd o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau ac yn £1.2 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Yr Adran yn gweithredu argymhellion WRAP Cymru i geisio mynd i'r afael a'r gorwario. Diffyg hefyd o £601 mil ar incwm parcio.
- Adran Tai ac Eiddo: Tuedd o bwysau sylweddol llety dros dro digartrefedd yn parhau i fod yn ddwys gyda gorwariant o £2 miliwn (er bod cyllideb ychwanegol o £3 miliwn o bremiwm treth cyngor a grant o £597 mil gan y Llywodraeth wedi ei ddyrannu i'r maes). Bod digartrefedd yn broblem sylweddol ac yn creu pwysau gorwariant sylweddol. Y defnydd o ddyraniad un tro £1.4m o ddarpariaeth covid corfforaethol a chronfa tanwariant adrannol yn lleihau'r gorwariant a adroddir ar gyfer yr adran i £255 mil**.**
- Ysgolion: Bod balansau'r ysgolion wedi gweld gostyngiad o £3.4 miliwn, gan leihau o £11.9 miliwn yn 2022/23 i £8.5 miliwn yn 2023/24. Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol ym malansau ysgolion yn dilyn derbyn grantiau sylweddol, ond rhagwelir y byddant yn ôl i lefelau arferol erbyn diwedd 2024/25.
- Bod adolygiad digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor wrth gau'r cyfrifon, llwyddwyd i gynaeafu £2.8 miliwn o adnoddau.

O ran camau nesaf, nodwyd bod gwaith ar y gweill i gwblhau'r datganiadau ariannol statudol 2023/24 i'w cyflwyno i Archwilio Cymru i'w harchwilio

Diolchwyd am yr adroddiad a chydnabuwyd bod y cyfnod yn un heriol iawn i wasanaethau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod derbyn adroddiadau parhaus ar y sefyllfa yn fuddiol, ond bod gorwariant sylweddol gan y Cyngor – ffodus o arian wrth gefn
- Bod risg i'r gorwariant waethygu yn y tymor hwy gyda phroblemau i'w rhagweld gyda nifer pobl hŷn yn cynyddu bydd yn arwain at gynnydd mewn defnydd gwasanaethau ac felly'n cynyddu'r risg gyllidebol i'r dyfodol - awgrym i ystyried allanoli gwasanaethau
- Bod gorwariant mewn rhai meysydd yn ganlyniad i dan-gyllido – disgwyliadau uchel gydag ychydig o fuddsoddiad
- Byddai cynnwys symiau'r ysgolion hynny sydd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa
- Bod toriadau wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus ac anodd
- Yng nghyd-destun digartrefedd, angen deall y sefyllfa a derbyn gwybodaeth am y niferoedd. Awgrym i ystyried cynnal sesiwn gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod y gost mor uchel

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd yr Aelod Cabinet mai'r prif reswm dros y gorwariant yw nad oes cyllideb ddigonol a thoriadau yn mynd yn anoddach pob blwyddyn sy'n cael ei adlewyrchu mewn meysydd gorwariant newydd. Ategodd bod gwaith ar y gweill i ddelio gyda'r gorwariant gyda camau i reoli drwy drefn o rybudd cynnar wedi ei ychwanegu ar adroddiadau. Nododd hefyd bod pwysau ariannol yn rhoi pwysau ar wasanaethau sydd yn eu tro yn arwain at golli gwasanaeth ac felly yn cael effaith ar drigolion Gwynedd a hyn o ganlyniad i dangyllido gan Lywodraeth Ganolog.

**PENDERFYNWYD**
- **Derbyn yr adroddiad**

- **Nodi'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi penderfyniadau'r Cabinet (14 Mai 2024) i gymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen; i gymeradwyo'r holl argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol**

Nodyn:

- Darparu gwybodaeth am yr ysgolion hynny oedd efo diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r symiau perthnasol.
- Ystyried cynnal sesiwn gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod y gost mor uchel

**10. RHAGLEN GYFALAF 2023 / 24 ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 Mawrth 2024)**

Amlygodd yr Aelod Cabinet mai prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (sefyllfa 31 Mawrth 2024), a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet 14 Mai 2024 lle cymeradwywyd yr holl argymhellion. Gofynnwyd i'r Pwyllgor dderbyn y wybodaeth ac ystyried y risgiau oedd yn ymwneud a'r rhaglen gyfalaf.

Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £189 miliwn am y 3 blynedd 2023/24 - 2025/26 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £3 miliwn ers yr adolygiad diwethaf.

Prif gasgliadau'r adolygiad oedd bod y Cyngor wedi llwyddo i wario £57 miliwn yn 2023/24 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £33 miliwn (58%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.

Eglurwyd bod effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf. Nodwyd bod £34 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2023/24 i 2024/25 a 2025/26 a'r prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol yn cynnwys:

- £16 miliwn Cynlluniau Strategaeth Tai
- £14.6 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill)
- £6.4 miliwn Cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin
- £5.7 miliwn Adnewyddu Cerbydau ac Offer
- £4.1 miliwn Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar
- £3.8 miliwn Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro

Yn ogystal, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf, oedd yn cynnwys y grantiau canlynol:

- £1.755 miliwn – Grant tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor.
- £1.1 miliwn – Grant cyfalaf Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru.
- £659 mil – Grant Llywodraeth Cymru tuag at bryniant eiddo i gwrdd â gofynion yn y maes Digartrefedd.
- £392 mil - Grant Isadeiledd Sbwriel gan Lywodraeth Cymru
- £358 mil – Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2023/24 gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriwyd at y wybodaeth am Ddangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor sy'n ofyn adrodd newydd yn 2023-24 ac amlygwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio efo'r polisi ar fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r risgiau perthnasol**

- **Cefnogi penderfyniadau'r Cabinet (14 Mai 2024) i gymeradwyo'r ariannu addasedig**

**11. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 Mawrth 2024**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau. Eglurwyd, yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 bod rhaid i Cyngor Gwynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Abermaw, Aberdyfi, Pwllheli a Porthmadog. Gyda throsiant yr harbyrau yn is na £2.5m, fe'i hystyriwyd yn gorff llywodraeth leol llai o faint ac felly bod gofyn cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru i gwrdd â'r gofynion statudol.

Cyfeiriwyd at y cyfrif incwm a gwariant, ac amlygwyd bod £31mil o danwariant ar ddiwedd y flwyddyn. O'r swm yma, adroddwyd bod tanwariant ar staffio a chynnal adeiladau yn tanwario £4 mil yr un, tra bod gorwariant o £35 mil ar gyflenwadau a gwasanaethau ac yn benodol ar offer yn cynnwys offer diogelwch, ond sydd yn cael ei gyllido o gronfa. O ran yr incwm, adroddwyd bod y lefelau ffioedd £9 mil uwchlaw'r targed incwm.

Tynnwyd sylw at ffurflen safonol yr archwilwyr allanol ynghyd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd yn sicrhau system rheolaeth fewnol gadarn. Amlygwyd bod y cyfrifon eisoes wedi bod yn destun archwiliad mewnol a bellach wedi eu hanfon at yr Archwiliwr allanol, Archwilio Cymru i'w harchwilio. Ategwyd mai dim ond os bydd angen gweithredu newidiadau yn dilyn archwiliad y bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r Cyfrifon am 2023/24 ac i'r Cadeirydd arwyddo'r ffurflen yn electroneg ar dudalen 104.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo:**
- **Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2023/24**
- **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru**
- **Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen yn electroneg**

**12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod hyd 31 Mawrth 2024. Amlygwyd bod 12 o archwiliadau'r cynllun gweithredol wedi eu cwblhau ac wedi ei gosod ar lefel sicrwydd uchel; digonol neu gyfyngedig.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol
Incwm Masnachol
- Pryder ynglŷn â busnesau sydd gyda symiau yn ddyledus yn parhau i dderbyn gwasanaeth - angen sicrwydd nad ydy hyn yn digwydd eto yn dilyn archwiliad mewnol.
- Cais am gydnabyddiaeth / ffigwr fyddai'n gosod swm ar y dyledion i geisio darlun llawn. Yr Adran yn gorwario, ond eto nid ydynt yn dilyn trefn adfer dyledion.

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi derbyn lefel sicrwydd cyfyngedig oherwydd sefyllfa'r ôl-ddyledion a bod y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu wedi ymrwymo i weithredu camau i liniaru'r risgiau a amlygwyd. Bydd adolygiad dilynol yn cael ei weithredu ynghyd ag ail ymweld â'r camau gweithredu. Ategodd bod rhai sefyllfaoedd lle gwelwyd busnesau yn symud o eiddo treth Cyngor i dreth busnes a bod posibilrwydd o incwm yn cael ei golli yma - yn sicr angen gweld gwell trefn.

Trefniadau Diogelu – Sefydliadau

Pryder bod hanfod cyfrifoldeb yn cael ei golli yn y swmp o wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno i godi ymwybyddiaeth.

Mewn ymateb i'r sylw pwysleisiodd y Rheolwr Archwilio bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i gwblhau modiwl hyfforddiant statudol ym maes diogelu - y mater yn cael ei drafod fel maes blaenoriaeth yn y panel diogelu trawsadrannol.

Cartref Cefn Rodyn

Mewn ymateb i gwestiwn ar ba ffurf fydd tystiolaeth o gyflawni'r camau gweithredu yn cael ei adrodd yn ôl i'r Gwasanaeth / Pwyllgor, nodwyd y bydd Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad dilynol lle bydd gofyn cyflwyno tystiolaeth - os nad fydd ymateb, yna bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Gyda'r archwiliad wedi derbyn lefel sicrwydd 'digonol', nid oedd y mater i weld yn risg uchel iawn, ond bydd adroddiad ar y camau yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Dilyniant Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid - Lefel sicrwydd cyfyngedig

Pryder bod y Cyngor yn cael eu cosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Deddfau Cyfreithiol yn ymwneud â DoLS (Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid). Cais am wybodaeth am y niferoedd sydd ar y rhestr yng Ngwynedd ynghyd â sesiwn hyfforddiant am y sefyllfa.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**

Nodyn: Yng nghyd-destun Dilyniant Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid - amlygu hwn fel risg

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2023 / 24

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn mynegi barn Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheolaethol gyffredinol o fewn yr Awdurdod yn ystod 2023/24 gan ddarparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Nodwyd na all sicrwydd fyth fod yn llwyr ac y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol. Eglurwyd bod barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar dair agwedd o drefniadau'r Awdurdod - Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol.

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2023/2024, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/2024 yn

gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Roedd 30 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2023/2024. Cafodd 29 o aseiniadau eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2024, sy'n cynrychioli 96.67% o'r cynllun. O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2023/2024 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 88.46% ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel". Derbyniodd 3 archwiliad 'lefel cyfyngedig' ac ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel 'dim sicrwydd'.

Yng nghyd-destun gwaith dilyniant, adroddwyd allan o 104 gweithrediad cytunedig a wnaethpwyd yn 2022/23 bod 3 bellach yn amherthnasol. Ar gyfer y 101 oedd yn weddill, roedd gweithrediad derbyniol ar 95% ohonynt erbyn 31 Mawrth 2024.

Yng nghyd-destun Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant, nodwyd bod canlyniadau'r hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) ynghyd â Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng Ngorffennaf 2017. Bydd canlyniadau'r hunanasesiad yn erbyn y safonau a Nodyn diwygiedig i Lywodraeth Leol (2019) yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod 2024/25 yn ogystal â chanlyniadau'r asesiad allanol.

Diolchwyd am yr adroddiad eglur a chalonogol.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol
- Angen ail sefydlu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau
- Tri maes cyfyngedig wedi eu hadnabod Cynllunio - Trefniadau Cyfathrebu, Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid a Manddaliadau. Amserlen wedi llithro felly ac angen ail ymweld â hwy neu alw'r mater gerbron y Gweithgor Gwella.
- Ble digwyddodd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, nodwyd yn y Gymraeg bod y materion hyn wedi cael sylw gan y Pwyllgor - yn y fersiwn Saesneg mae'n adrodd bod y materion wedi cael eu datrys (resolve) gan y Pwyllgor - dylai'r frawddeg nodi 'drawn attention'

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â lleihad mewn nifer dyddiau cynhyrchiol ac os oedd hyn wedi arwain at ganslo archwiliadau, ac os bydd gwelliant i'r dyfodol, nodwyd bod y lleihad yn y dyddiau oherwydd salwch tymor hir, mamolaeth, salwch ac estyniad secondiad mewn sefydliad arall (oedd yn dod a ffynhonnell incwm i'r gwasanaeth), ond angen bod yn wyliadwrus o'r sefyllfa i'r dyfodol. Ategodd bod pwysau i gynyddu'r incwm gyda tharged arbedion o £42 mil yn sylweddol mewn tîm bychan.

**PENDERFYNWYD**
- **Derbyn yr adroddiad yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2023/24**

## 14. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid mewn ymateb i'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Pwrpas y cynllun yw gosod allan y rhagolygon am sefyllfa'r Cyngor dros y dair blynedd ariannol nesaf gan gynnig rhagdybiaethau yn ogystal a chynigion i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu. Amlygwyd bod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet (14 Mai 2024)

Eglurodd y Prif Weithredwr nad yw canfod toriadau ar gyllideb a gwasanaethau'r Cyngor yn broses newydd gan fod toriadau wedi cael ei gyflwyno yn flynyddol ers 18 mlynedd. Ymfalchïwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i gynnal gwasanaethau er lleihad yng

nghyllidebau adrannau ond cydnabuwyd yr angen i ddod a rhai gwasanaethau i ben yn y dyfodol.

Cadarnhawyd bod y gyllideb ar gyfer eleni wedi ei gosod a rhagwelir diffyg sylweddol yn incwm y Cyngor erbyn 2027/28 ac felly mae gwaith yn mynd rhagddo i ymdrechu i lenwi'r bwlch drwy gynllun ffeithiol. Pwysleisiwyd bod y rhagdybiaethau yn seiliedig ar sail gwybodaeth y blynyddoedd diwethaf a'i fod yn gynllun cychwynnol i fynd i'r afael â chyllideb y tymor canolig.

Cyfeiriwyd ar grynodeb o'r cynllun gan nodi ei fod yn manylu ar ffactorau hysbys sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod y tymor canolig (rhwng 2025/26 hyd at ddiwedd 2027/28). Manylwyd y rhagwelir chwyddiant ar gyflogau staff y Cyngor yn ogystal â phrisiau nwyddau, yn ogystal â chynnydd ardollau yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor o fewn y cyfnod hwn. Er hyn, pwysleisiwyd nad oes cytundeb i gynyddu cyflogau gyda'r undebau ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd hefyd nad oedd ystyriaeth fanwl wedi ei roi i addasu lefelau treth Cyngor, a byddai unrhyw addasiad angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

Esboniwyd fod y gyfradd chwyddiant a ddefnyddir yn y Cynllun yn seiliedig ar ragolwg Banc Lloegr a chyngor gan gwmni Arlingclose, sef ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor. Nodwyd bod swyddogion wedi selio cyfradd chwyddiant rhagdybiaethol i 2% ar gyfer nifer o flynyddoedd y tymor canol er mwyn cynllunio i gyfarch y bwlch hwnnw. Cydnabuwyd bod galw blynyddol am gyllideb ychwanegol uwchlaw chwyddiant mewn rhai meysydd a rhagwelir bydd angen £3 miliwn y flwyddyn er mwyn ymdrin â'r galw hwn. Pwysleisiwyd mai darpariaeth ddarbodus yw hyn, nid targed gwariant a bydd unrhyw fid ariannol yn derbyn ystyriaeth ofalus.

Adroddwyd bod y Cynllun yn amcangyfrif bwlch ariannol o £36,200mil (cyn ystyried unrhyw gynnydd Treth Cyngor ac arbedion sydd eisoes wedi eu hadnabod) yn ystod y tymor canol yn seiliedig ar ragdybiaethau ac amcanion. Cadarnhawyd y gobeithir cyflwyno amrywiol opsiynau ar gamau nesaf i'r dyfodol a nodwyd yr angen i ganfod cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau ac addasu lefelau treth Cyngor.

Penderfynodd y Cabinet gomisiynu'r Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o fesurau a phecynnau gwaith, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried dulliau enwyd o ariannu gwasanaethau, yn rhoi darlun clir o gynaliadwyedd y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn gymorth i wneud penderfyniadau mewn cyfnod anodd. Ategwyd bod y Cynllun yn gynllun byw fydd yn cael ei ddiweddaru fel bydd gwybodaeth yn dod i law.

Diolchwyd am yr adroddiad – yn gynllun allweddol sy'n gosod darlun o'r sefyllfa i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â modd cynnal sesiynau penodol gydag Aelodau'r Pwyllgor ar gynlluniau tymor canolig fel sail i drafodaethau, nododd y Prif Weithredwr, yn dilyn llwyddiant y sesiynau briffio yn ystod 2023/24, y byddai cyfres newydd o sesiynau yn cael eu trefnu - bydd y sesiynau hyn yn amlygu'r heriau sydd yn wynebu'r Cyngor. Ategodd bod cyfathrebu clir yn rhan greiddiol o'r broses

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr adroddiad yn amserol
- Eu bod yn cytuno gyda'r argymhellion a briff y comisiwn i'r Prif Weithredwr
- Bod yn hanfodol ystyried ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau (statudol a hanfodol) - sector breifat a'r trydydd sector

Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â'r comisiwn, nododd y Prif Weithredwr bod amrywiol feysydd yn cael sylw. Er profiad o ystyried ffyrdd o newid gwasanaethau, rhaid canfod £17 miliwn mewn dull gwahanol. Nid yw'r Llywodraeth yn debygol o ariannu'r gofod ariannol ac felly

gofyn ar yr Awdurdodau Lleol i gyflawni a chynnig y gwasanaethau. Y gobaith yw y bydd y cynllun yma yn cynnig opsiynau i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r risgiau perthnasol sy'n deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig**
- **Cefnogi penderfyniadau'r Cabinet (14 Mai 2024)**

**15. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU 2024-2034**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn gofyn i'r aelodau graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau bod y ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno yn seiliedig ar wybodaeth gadarn a bod priodoldeb y broses o sefydlu'r blaenoriaethau wedi eu hystyried yn llawn, cyn i'r Cabinet ystyried y Cynllun yn ei gyfarfod Mehefin 11eg 2024.

Eglurwyd bod y Cyngor yn derbyn grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau rheoli asedau. Pan fabwysiadwyd y Cynllun Rheoli Asedau yn 2019, adroddwyd bryd hynny bod y Cyngor yn derbyn £6.6miliwn o adnodd cyfalaf bob blwyddyn, ac nid yw wedi cynyddu ers sefydlu Cynllun blaenorol yn 2009. Rhwng 2018 a 2023, derbyniwyd symiau uwchlaw hynny( oddeutu £2miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd), ar ffurf grantiau i bwrpas penodol.

Fodd bynnag, amlygwyd pryder y bydd y grantiau ychwanegol yn dod i ben, a'r grant cyfalaf craidd yn parhau ar yr un lefel - £6.6miliwn y flwyddyn. Bydd hyn yn golygu na fydd modd cyflawni cymaint gyda'r adnodd craidd - o ystyried lefelau chwyddiant dros y 5 mlynedd diwethaf y mae gwerth £6.6miliwn yn 2009 gyfwerth â £4.3miliwn heddiw, sy'n lleihad o 34%.

Wrth osod y cynllun 10 mlynedd newydd, rhagdybiwyd fod £47.7miliwn o arian cyfalaf ar gael i ymestyn y cynllun am 5 mlynedd ychwanegol. Daethpwyd i'r casgliad yma drwy ystyried swm grant cyfalaf blynyddol ynghyd â chyfalaf a chronfeydd sydd heb eu dyrannu yn y Cynllun Rheoli Asedau presennol. Ategwyd, er mwyn ymateb i gynlluniau newydd sy'n codi lle nad oes modd eu rhagweld wrth osod y cynllun hwn, y bwriad yw parhau i gynnal darpariaeth o £0.5miliwn y flwyddyn er mwyn cyfarch y gofynion hynny. Nodwyd y byddai hyn yn dod â'r swm ychwanegol sydd ar gael i ymestyn y Cynllun Rheoli Asedau hyd at 2034 i £45.2miliwn.

Wrth sefydlu'r Cynllun 10 mlynedd, adroddwyd bod gwahoddiadau am geisiadau wedi eu gwneud i'r Adrannau i nodi eu hanghenion cyfalaf dros y 10 mlynedd nesaf - derbyniwyd 70 o geisiadau gyda chyfanswm gwariant o £129.3 miliwn. Aseswyd yr holl gynlluniau gan y Prif Weithredwr gan osod mewn categori risg uchel, risg cymedrol a risg isel. Cyflwynwyd y wybodaeth i Aelodau Etholedig i gasglu barn ar yr asesiad risg ar bob un o'r cynlluniau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag astudiaethau dichonoldeb ac os bydd unrhyw welliant yn ddibynnol ar astudiaeth dichonoldeb, nodwyd mai rhan helaeth o'r broses fydd ymgeisio am grantiau drwy ffynonellau eraill a'r angen i ystyried bod cwtogi ddim yn amharu yn ormodol.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Yn diolch am y gwahoddiad i'r sesiwn briffio
- Croesawu trefn i gyfarch y bwlch
- Croesawu cyfraniad premiwm tai i ariannu buddsoddiad brys i ddelio gyda risgiau iechyd a diogelach mân ddaliadau

- Ystyried cyfalaf ychwanegol drwy werthu eiddo - a yw pob adeilad yn cael defnydd llawn? A oes adolygiad wedi ei wneud ers covid i adolygu defnydd adeiladau? A yw adeiladau yn cael eu defnyddio yn rhesymol?

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â gwerthu adeiladau i gynhyrchu cyfalaf ychwanegol, nodwyd bod y rhestr eiddo diddefnydd yn cael ei adolygu a bod defnydd ar hyn o bryd i bob adeilad ar wahân i'r rhai hynny sydd wedi eu clustnodi ar gyfer datblygiadau tai. Os na fydd yr eiddo yn briodol ar gyfer tai, y bwriad yw gwerthu. Yng nghyd-destun swyddfeydd, gyda'r cynllun toriadau a lleihad yn y gwariant refeniw, bydd staff yn cael eu gwasgu i lai o adeiladau gyda bwriad o ddefnyddio asedau gwag ar gyfer darparu gwasanaethau.

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd atal llifogydd ar yr A499 yn cael ei ystyried yn faes blaenoriaeth, nodwyd bod yr adran mewn trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru gan mai CNC fyddai'n ariannu cynllun o'r fath.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo priodoldeb y broses o sefydlu blaenoriaethau'r Cynllun**
- **Cefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet (11 Mehefin 2024) i gymeradwyo'r Cynllun**

## 16. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL 2023/2024

Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus 2013 (diwygiedig 2017) rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol gyda chynnwys y Siarter yn cyfarch Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) a gyhoeddwyd gan CIPFA. Cyflwynwyd Siarter Archwilio Mewnol Gwynedd gan y Rheolwr Archwilio gan nodi mai cyfrifoldeb y Pwyllgor yw cymeradwyo'r siarter yn flynyddol.

Tynnwyd sylw at yr angen yn y flwyddyn nesaf i ddiweddaru'r Siarter Archwilio i adlewyrchu gofynion newydd "Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang" (Global Internal Audit Standards) fel y cyhoeddwyd gan yr Institute of Internal Auditors (IIA). Bydd angen i'r addasiadau fod yn weithredol erbyn 2025.

Cyfeiriwyd hefyd at un newid arall ers cymeradwyo siarter 2023/24 sef bod pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ei ehangu.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol**

## 17. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL

Cyflwynwyd, yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, gynllun yn seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch Archwilio Mewnol sydd yn gyson ag amcanion y Cyngor. Eglurwyd bod y cynllun gyda hyblygrwydd i sicrhau rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg, ac y bydd unrhyw addasiadau / newidiadau i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor. Cyfeiriwyd at ddefnydd methodoleg AGILE sydd yn darparu modd hyblyg a dynamig i Gynllun Archwilio Mewnol o ganlyniad i fonitro risg yn barhaus. Rhagwelir y bydd oddeutu 660 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2024/25. Bydd hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd a darpariaeth resymol ar gyfer gwaith ymatebol a dilyniant.

Tynnwyd sylw at waith sydd yn cael ei wneud gyda Polisi Canu'r Gloch y Cyngor gan nodi pryder mai ychydig iawn o faterion ffurfiol sydd yn cael eu cyfeirio - nodwyd bod holiadur adborth yn cael ei ystyried. Cyfeiriwyd at yr archwiliadau unigol gan dynnu sylw at archwiliad Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio i wirio rheolaethau priodol y modiwl salwch newydd ynghyd â sicrhau sicrwydd bod cefnogaeth addas i reolwyr gefnogi eu timau: Archwiliad Clybiau Brecwast fydd yn sicrhau trefniadau Iechyd a Diogelwch megis alergedd bwyd a bod trefniadau priodol i gofnodi hynny; Trefniadau Dosbarthu Biniau - cais yma gan Bennaeth yr Adran i adnabod arbedion posib. Archwiliad dilynol i faes Manddaliadau i sicrhau bod cynnydd digonol wedi ei wneud ers cynnal archwiliad yn 2022/23

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol**

**18. ARCHWILIO CYMRU – DIWEDDARIAD CHWARTER 4**

Croesawyd Alan Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru) i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad

Cyflwynwyd diweddariad ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru hyd ddiwedd Mawrth 2024.

Amlygodd bod gwaith ar ddarparu barn ynglŷn â chywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2024 yn dechrau yn fuan gydag archwiliad terfynol i'w gwblhau rhwng Medi a Thachwedd 2024. Nodwyd hefyd bod Ardystio Ffurflenni Grantiau Cymhorthdal Budd-dal Tai 2022/23 hefyd wedi ei ardystio yn Mai 2024.

Yng nghyd-destun Adolygiad Thematig Digidol (cyflwynwyd i'r Pwyllgor Rhagfyr 2023), adroddwyd bod bwriad rhannu negeseuon o'r adolygiad a gwblhawyd ar draws awdurdodau Cymru, ddiwedd yr Haf.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad**

**19. ARCHWILIO CYMRU - DATBLYGU CYNALIADWY? - GWNEUD Y DEFNYDD GORAU O DIR LLWYD AC ADEILADAU GWAG**

Cyflwynwyd adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru yn cyfeirio at archwiliad a wnaed Ionawr 2024, i ganfod os yw awdurdodau lleol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i roi cefnogaeth ac anogaeth i ail-bwrpasu eiddo gwag, annomestig a safleoedd tir llwyd gwag yn gartrefi neu ar gyfer defnyddiau eraill. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn hybu'r arfer o ddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen ac ail-bwrpasu adeiladau gwag, lle bynnag bydd hyn yn bosib.

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried canfyddiadau a thri argymhelliad Archwilio Cymru. Cyflwynwyd ymateb y sefydliad i'r argymhellion ac i'r Pwyllgor eu hystyried, gan Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd). Amlygodd, y bydd adnabod ac asesu safleoedd posib yn rhan o'r broses o greu Cynllun Datblygu Lleol newydd i Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd y broses yn galw am dystiolaeth drwyadl o adnabod safleoedd allai fod ar gael er mwyn diwallu anghenion datblygu ar gyfer defnydd

tai a chyflogaeth. Bydd y broses hefyd yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori i sicrhau cyfraniad rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Ategwyd bod y Cyngor wedi datblygu Fframwaith Adfywio ar gyfer y Sir sydd yn cynnwys 13 o gynlluniau adfywio ar gyfer dalgylchoedd lleol oedd wedi eu llywio gan anghenion cymunedau lleol. Bydd y gwaith o wreiddio'r cynlluniau hyn yn digwydd yn y misoedd nesaf.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am yr ymateb.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Y ddogfen wreiddiol yn rhagdybio'r angen am ddatblygiadau ar raddfa fawr - dim yn argyhoeddedig y byddai trwch trigolion y Sir yn cyfarch hyn.
- Tuedd o ddefnyddio tir glas. Os defnyddio tir llwyd a thir glas a fydd hyn yn ymylu ar orddatblygu?
- Bod prinder tai yn y Sir - angen defnyddio pob adnodd, pob adeilad a phob tŷ gwag i gyfarch yr angen - gweld defnydd i'r adroddiad
- Stryd fawr yn dirywio - siopau gwag - rhaid ystyried defnydd gwahanol
- Ystyried cynyddu premiwm tai gwag
- Bod enghreifftiau da o sut mae'r system cynllunio yn cydweithio gyda threftadaeth a diwylliant drwy ddod ag adeiladu rhestredig yn nol i ddefnydd

Mewn ymateb i'r sylwadau nodwyd bod adfywio canol trefi / dinasoedd yn her genedlaethol ond yn lleol bod y newid yn rhywbeth sydd angen ei gyfarch yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd ac yn y Strategaeth Economaidd. Ategodd bod Premiwm Tai Gwag, cyfarwyddyd Erthygl 4 a gosod amodau llety gwyliau i gyd yn ymyraethau all fynd i'r afael i ddiwallu anghenion tai Gwynedd. Yng nghyd-destun trosi adeiladu rhestredig, nodwyd yr angen i fod yn ofalus peidio tanseilio cymeriad hanesyddol unrhyw eiddo, ond cefnogaeth ar gael i hwyluso'r broses.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth**
- **Croesawu ymateb y Rheolwyr**

**20. ARCHWILIO CYMRU – GOSOD AMCANION LLESIANT – CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru yn cyfeirio at archwiliad a wnaed yng Nghyngor Gwynedd i sefydlu sut wnaeth y Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant. Amlygwyd bod Cyngor Gwynedd wedi dechrau'r gwaith o osod amcanion llesiant newydd yn ystod 2022 gan gyhoeddi saith amcan newydd ym Mawrth 2023 fel rhan o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2023 - 2028.

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried canfyddiadau a phedwar argymhelliad Archwilio Cymru. Cyflwynwyd ymateb y sefydliad i'r argymhellion ac i'r Pwyllgor eu hystyried, gan Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) Nodwyd bod bwriad adnabod mesurau addas i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau adrodd ar berfformiad. Ategodd gwaith mapio amcanion llesiant amcanion partneriaid wedi ei gwblhau i sicrhau bod yr amcanion yn plethu ac yn ychwanegu gwerth. Ategodd bod gwaith hefyd yn cael ei wneud i ymestyn rhwydweithiau rhanddeiliaid wrth geisio cynnwys pobl i adlewyrchu amrywiaeth lawn y Sir - enghraifft o hyn yw ceisio mwy o aelodau cynrychioladol o boblogaeth y Sir ar y Panel Trigolion.

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth**

- **Croesawu ymateb y Rheolwyr**

**21. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 – ASESIAD PERFFORMIAD PANEL**

Cyflwynwyd diweddariad ar y gwaith o gynnal Asesiad Perfformiad Panel o fewn y Cyngor gan roi cyfle i'r Pwyllgor roi mewnbwn i'r ddogfen cwmpasu ynghyd ag adnabod meysydd posibl i'r Panel edrych arnynt. Bwriad yr asesiad yw edrych yn benodol ar y graddau mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol, yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol a bod trefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau hyn.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru (2021) yn gosod cyfrifoldeb ar y Cynghorau i gynnal Asesiad Perfformiad Panel unwaith o fewn cylch etholiadau. Yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn Medi 2023, gosodwyd y swyddogaeth o drefnu a phenodi panel gyda'r Cabinet ond fod yr ymateb i'r adroddiad ar argymhellion yn cael eu cadw i'r Cyngor Llawn. Y Cabinet fydd hefyd yn gyfrifol am sefydlu'r cylch gorchwyl ar gyfer yr asesiad a phenderfynu ar yr enwebiadau ar gyfer y Panel.

Adroddwyd bod Grŵp Llywodraethu'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd lle byddai ystyriaeth y Panel yn cael ei groesawu ac y byddai unrhyw sylwadau / awgrymiadau gan y Pwyllgor ynghylch meysydd posib i'r Panel edrych arnynt yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn cytuno ar ddogfen gwmpasu derfynol.

Ategwyd bod bwriad cwblhau'r ddogfen cwmpasu yn derfynol yn ystod mis Gorffennaf ac yn dilyn hynny, adnabod a chadarnhau aelodau'r Panel dros yr Haf cyn cynnal yr adolygiad yn yr Hydref. Yn dilyn hynny, bydd disgwyl adroddiad gydag argymhellion mis Rhagfyr gydag adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn 2025.

Diolchwyd am yr adroddiad

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod cynnal yr asesiad yn ofyn statudol felly angen sicrhau derbyn yr arbenigaeth sydd ar gael
- Bod diffygion dilyniant rheolaethol o fewn adrannau ar draws y Cyngor
- Bod angen sicrhau bod y sgiliau iawn yn y lle iawn o fewn y Cyngor - angen gwell cynllunio

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad a diweddariad ar y gwaith o gynnal Asesiad Perfformiad Panel o fewn y Cyngor**

Nodyn:

I ystyried cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol fel meysydd posib i'r Panel edrych arno

**22. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2023/24 hyd Rhagfyr 2023, yn erbyn Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2023/24 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn Mawrth 2023. Nodwyd bod y strategaeth yn gofyn i'r Rheolwr Buddsoddi adrodd ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys yn chwarterol gydag adolygiad o'r flwyddyn ariannol llawn hefyd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor pan yn amserol.

Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw a bod y cyfraddau llog wedi bod yn uchel ac wedi cynhyrchu incwm llog sylweddol.

Ar 31ain Rhagfyr 2023, roedd y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd y lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys arian y Bwrdd Uchelgais a'r Gronfa Bensiwn.

Cyfeiriwyd at y Dangosyddion Darbodus gan dynnu sylw penodol at y Meincnod Ymrwymiadau gan nodi ei fod yn arf pwysig i ystyried os yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly yn siapio ffocws strategol a miniogi penderfyniadau. Eglurwyd bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthyca uwchlaw ei feincnod atebolrwydd hyd at 2027 a hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn gyda'r llif arian hyd yma, wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Nodwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA ar wahân i un dangosydd (Datguddiad Cyfraddau llog). Eglurwyd bod y dangosydd yma wedi ei osod yn amodau llog isel Chwefror 2023 ac felly'n rhesymol bod y symiau mor wahanol. Ategwyd bod hyn wedi ei drafod yn y Pwyllgor diwethaf a'r mater i'w drafod ymhellach gydag Arlingclose i osod dangosydd gwahanol ar gyfer 2024/25.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod Gwynedd yn ffodus iawn bod arian digonol wrth gefn a bod y sefyllfa yn cael ei fonitro yn rheolaidd
- Pryderon Adran 114 yn cynyddu o fewn Cynghorau - angen cadw llygad ar y sefyllfa

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

**23. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO HYD CHWEFROR 2025**

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Chwefror 2025.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn y blaen raglen ar gyfer 2024/25**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:30

__________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MEDI 2024** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd I'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r weithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYLDU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 9 Chwefror 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion 'Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>• Cyflwyno adroddiad ymhen 6 mis i ddiweddaru'r Pwyllgor ar drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel bod modd symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff<br>• Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion ''Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio" | **O safbwynt trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, mae'r cynllun yn symud yn ei flaen ar lefel rhanbarthol. Y dyddiad targed trosglwyddo bellach yw 1 Tachwedd 2024.** |

**Cyfarfod 25 Mai 2023**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad.<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol.<br>• Cyfeirio 3 maes cyfyngedig i'r Gweithgor Gwella.<br>1. Cynllunio – Trefniadau Cyfarthrebu<br>2. Mesurau Diogel Amddiffyn Rhyddid<br>3. Manddaliadau | **Am resymau capasiti staff ni fu modd sefydlu cyfarfod o'r Gweithgor yn dilyn cyfarfod 25 Mai 2023. Yn dilyn hynny, mae adroddiad dilyniant eisoes wedi bod gerbron y Pwyllgor ar gyfer Trefniadau Cyfathrebu Cynllunio a Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ac mae archwiliad llawn o Manddaliadau wedi ei gynnwys yng nghynllun archwilio 2024/25.** |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad yn unol a gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Ail-sefydlu Gweithgor Gwella Rheolaethau. | **Bydd y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn cael ei sefydlu pan fydd meysydd yn cael eu hadnabod.** |

**Cyfarfod 8 Chwefror 2024**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR | • Derbyn yr adroddiad<br>• Croesawu adborth o ymatebion a dderbyniwyd gan y Cabinet (23/01/24) i sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar yr eitem Cyllideb Refeniw 2023/24. | **Cafodd sylwadau eu cyflwyno ar lafar yn yng nghyfarfod y Pwyllgor.** |
| ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL | • Derbyn a nodi bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella yn cael eu gweithredu.<br><br>Nodyn:<br>• Ymateb i Argymhelliad 5 'Amser am newid - Tlodi yng Nghymru' - Darparu rhif ar gyfer y nifer y mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â hwy.<br>• Addasu fformat yr adroddiad i'r dyfodol fel bod cynnwys yr argymhellion yn gyson. | **Manylion pellach ar Argymhelliad 5 'Amser am newid - Tlodi yng Nghymru' wedi cael ei ddarparu.**<br><br>**Mae fformat yr adroddiad i'r dyfodol yn derbyn sylw ar hyn o bryd.** |
| ARBEDION 2024/25 | • Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion.<br>• Bod yr arbedion a gynigwyd yn rhesymol a chyraeddadwy.<br>• Bod y risgiau a'r goblygiadau'r penderfyniad yn glir.<br>• Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion.<br>• Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr adroddiad i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo'r Cynllun Arbedion 2024/25 yn eu cyfarfod 20/2/24.<br><br>Nodyn: Bod cynllun cyfathrebu clir mewn lle. | **Cafodd arsylwadau'r Pwyllgor eu nodi yn y cyflwyniad i'r Cabinet.** |
| CYLLIDEB 2024/25 | • Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys.<br>• Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol.<br>• Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2023/24 yn eu cyfarfod 20/2/24. | **Cafodd arsylwadau'r Pwyllgor eu nodi yn y cyflwyniadau i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn.** |

**Cyfarfod 23 Mai 2024**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2024/25 | • Ethol Carys Edwards yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2024/25. | **Dim gweithrediad pellach** |
| ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD AR GYFER 2024/25 | • Ethol Elwyn Rhys Parry yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2024/25. | **Dim gweithrediad pellach** |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24 | • Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 gan argymell i'r Cyngor Llawn ei dderbyn yn derfynnol. | **Dim gweithrediad pellach** |
| HUNANASESIAD O YMARFER DA Y PWYLLGOR | • Derbyn yr adroddiad<br>• Cymeradwyo cynnwys yr hunanasesiad<br>• Cefnogi'r camau gweithredu<br><br>Nodyn; Angen adnabod cyfleoedd i atgyfnerthu perthynas rheoleiddwyr allanol ac Archwilio Mewnol | **Bydd cyfleoedd o'r fath yn cael eu hadnabod wrth ddatblygu strategaethau gweithio Archwilio Mewnol.** |
| CYFRIFON TERFYNOL 2023/24 – ALLDRO REFENIW | • Derbyn yr adroddiad<br>• Nodi'r risgiau perthnasol<br>• Cefnogi penderfyniadau'r Cabinet (14 Mai 2024) i gymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen; i gymeradwyo'r holl argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol<br><br>Nodyn: Darparu gwybodaeth am yr ysgolion hynny oedd efo diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r symiau perthnasol. | **Gwybodaeth am yr ysgolion oedd mewn diffyg wedi ei ddarparu** |
| RHAGLEN GYFALAF 2022-23 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2024) | • Derbyn yr adroddiad<br>• Nodi'r risgiau perthnasol<br>• Cefnogi penderfyniadau'r Cabinet (14 Mai 2024) i gymeradwyo'r ariannu addasedig | **Dim gweithrediad pellach** |
| CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2024 | • Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r;<br>• Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2023/24<br>• Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru<br>• Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen yn electroneg | **Dim gweithrediad pellach** |
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL (1 RHAGYR 2023 hyd 31 MAWRTH 2024) | • Derbyn yr adroddiad<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnaso | **Dim gweithrediad pellach** |

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2023/2024 | • Derbyn yr adroddiad yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2023/24 | **Dim gweithrediad pellach** |
| CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2025/26 – 2027/28 | • Derbyn yr adroddiad<br>• Nodi'r risgiau perthnasol sy'n deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>• Cefnogi penderfyniadau'r Cabinet (14 Mai 2024) | **Dim gweithrediad pellach** |
| CYNLLUN RHEOLI ASEDAU 2024-2034 | • Derbyn yr adroddiad<br>• Cymeradwyo priodoldeb y broses o sefydlu blaenoriaethau y Cynllun<br>• Cefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet (11 Mehefin 2024) i gymeradwyo'r Cynllun | **Dim gweithrediad pellach** |
| SIARTER ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol | **Dim gweithrediad pellach** |
| STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2024/25 | • Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol | **Dim gweithrediad pellach** |
| ARCHWILIO CYMRU - DIWEDDARIAD CHWARTER 4 | • Derbyn yr adroddiad | **Dim gweithrediad pellach** |
| ARCHWILIO CYMRU - DATBLYGU CYNALIADWY? - GWNEUD Y DEFNYDD GORAU O DIR LLWYD AC ADEILADAU GWAG | • Derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth<br>• Croesawu ymateb y Rheolwyr | **Dim gweithrediad pellach** |
| ARCHWILIO CYMRU - GOSOD AMCANION LLESIANT – CYNGOR GWYNEDD | • Derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth<br>• Croesawu ymateb y Rheolwyr | **Dim gweithrediad pellach** |
| DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - ASESIAD PERFFORMIAD PANEL | • Derbyn yr adroddiad a diweddariad ar y gwaith o gynnal Asesiad Perfformaid Panel o fewn y Cyngor<br><br>Nodyn: I ystyried cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol fel meysydd posib i'r Panel edrych arno | **Yn dilyn derbyn y sylwadau hyn gan y Pwyllgor fe ychwanegwyd y materion hyn i'r Ddogfen Gwmpas i'r Asesiad Perfformiad Panel Statudol fydd yn cymryd lle yn yr hydref.** |

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS | • Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth | **Dim gweithrediad pellach** |
| BLAENRAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO HYD CHWEFROR 2025 | • Derbyn y blaen raglen ar gyfer 2024/25 | **Dim gweithrediad pellach** |

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **5 MEDI 2024** |
| TEITL: | **DATGANIAD O GYFRIFON 2023/24** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **DERBYN Y DATGANIAD O GYFRIFON STATUDOL (DRAFFT AMODOL AR ARCHWILIAD) ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PAUL ROWLINSON** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

1.2 Y Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol yw'r ddogfen ddilynol, 94 tudalen o hyd mewn un iaith.

1.3 Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio a cyflwynir y fersiwn derfynol yn dilyn archwiliad er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 28 Tachwedd 2024 o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1.4 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae gofynion o dan God Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) ac wedi eu gweithredu yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2023/24. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau yn dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w ddeall.

1.5 Cyflwynwyd adroddiad "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2023/24 i'r Cabinet ar 14 Mai 2024 ac i gyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Mai 2024. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## 2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

2.1 Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor. Er hyn, mae'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft gan y Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yn Cyngor Gwynedd).

2.2 Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor, ond rydym yn ystyried fod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

2.3 Bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r fersiwn terfynol ar 28 Tachwedd 2024 ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru. Ond mae cyflwyno'r fersiwn ddrafft rŵan yn gyfle i aelodau'r pwyllgor ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth perthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

## 3. CAMAU DILYNOL

3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae Datganiad o Gyfrifon 2023/24, ynghyd â phob datganiad perthnasol arall, yn destun y broses archwilio blynyddol gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a gafodd eu hapwyntio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.2 Fel a nodwyd ym mharagraff 1.3 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i harchwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon 2023/24 y Cyngor i gyfarfod 28 Tachwedd 2024 o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.3 Wedi hynny, bwriad yr Adran Cyllid yw i ddarparu linc i'r Datganiad terfynol i holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor, yn ogystal ag i eraill sydd â diddordeb.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2023/24.

# Cyngor Gwynedd

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2023/24

*Amodol ar Archwiliad*

Adran Cyllid
www.gwynedd.llyw.cymru

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 - 7 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 8 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 9 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 10 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 11 |
| Y Fantolen | 12 |
| Datganiad Llif Arian | 13 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 14 – 89 |
| Atodiad A – Y Gronfa Degwm | 90 |
| Atodiad B – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | 91 |
| Geirfa | 92 – 93 |

# ADRODDIAD NARATIF

**Rhagarweiniad**

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2023/24 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 9 i 93.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** - Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan Awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw'r Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2023/24 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

**Gweledigaeth a Blaenoriaethau Gwynedd**

Mae gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2023 - 2028, pwrpas y Cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028. Mae'r Cynllun yn dangos pam ein bod am ganolbwyntio ein hegni a'n hadnoddau mewn rhai meysydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth:

- Gwynedd Yfory - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc,
- Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng,
- Gwynedd Glyd - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau,
- Gwynedd Ofalgar - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau,
- Gwynedd Gymraeg - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned,
- Gwynedd Werdd - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd,
- Gwynedd Effeithlon - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 rydym hefyd wedi adolygu ein hamcanion llesiant.

Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 – 2028 ar gael yn Cynllun-y-Cyngor-2023-28.pdf (llyw.cymru)

**Strategaeth Ariannol**

Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor a Chyllideb 2023/24 a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2023 yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r meysydd blaenoriaeth, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y meysydd blaenoriaeth. Mae'r strategaeth ar gael yn:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cyllid/Strategaeth-ariannol.aspx

Yn 2023/24 gwelwyd cynnydd mewn grant Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf y setliad ychydig yn uwch na'r disgwyl, roedd nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar ein gwasanaethau wrth osod Cyllideb 2023/24. Roedd pwysau galw am wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn parhau'n uchel yn golygu bod yn rhaid cyflwyno arbedion newydd a chodi lefel y Dreth Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys. Yn ychwanegol, ar y 1af o Ragfyr 2022, penderfynodd y Cyngor Llawn i gynyddu'r premiwm ymhellach ar ail gartrefi. Ac felly, rhagwelwyd cynnyrch Treth Cyngor ychwanegol o £3m, a fyddai'n cael ei ddefnyddio er mwyn cynyddu'r gyllideb yn y maes digartrefedd.

Wrth osod y gyllideb, rydym wedi ceisio cadw effaith yr arbedion ar drigolion Gwynedd i'r lleiafswm posib. Felly, bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn felly yn parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd hynny sydd wedi eu cymeradwyo eisoes a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn isafu unrhyw doriadau i wasanaethau.

Mae'r sefyllfa economaidd fyd eang a graddfeydd uchel chwyddiant wedi profi i gael effaith ar werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyngor a bu'n rhaid ail brisio mwy o asedau nag a gynlluniwyd oherwydd y cynnydd mewn costau. Mi fydd angen adolygu'r tybiaethau yn rheolaidd.

**Mesur Perfformiad**

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn gylch sy'n cefnogi cynllunio, rheoli ac adrodd ar berfformiad ein gwasanaethau, er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd yn adrodd ar ein llwyddiant i gyflawni ein blaenoriaethau gwella a hefyd darparu gwybodaeth ar berfformiad adrannau'r Cyngor a sut maent yn cynorthwyo pobl Gwynedd. Mae'r adroddiad ar gael yn:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Perfformiad-y-Cyngor/Mesur-Perfformiad.aspx

**Perfformiad Ariannol 2023/24**

- Er gwaethaf y pwysau ar wasanaethau'r Cyngor gyda gorwariant o £9m yn bennaf yn y maes gofal oedolion a phlant, digartrefedd a'r maes gwastraff, bu i danwariant ar gyllidebau corfforaethol ynghyd â chynaeafu cronfeydd a defnydd o gronfa covid ar ddiwedd y flwyddyn olygu fod y sefyllfa gorwariant wedi ei gyllido. Adroddwyd ar sefyllfa alldro ariannol 2023/24 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2024. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet orwariant net gwasanaethau o £472k am y flwyddyn.

- Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw ddiwethaf a wnaed ar sefyllfa diwedd Tachwedd 2023, rhagwelwyd diffyg o £8.1m. Ers hynny, bu i sefyllfa gorwariant y maes gofal plant a gwastraff ddwysau, gyda sefyllfa maes gofal oedolion wedi gwella yn dilyn derbyn grantiau ychwanegol. Gyda'r sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24, adroddir ar sefyllfa gorwariant gan 5 adran sydd o ganlyniad i nifer o ffactorau. Mae'r tueddiad yn parhau ac yn dwysáu gyda phwysau sylweddol ym meysydd gofal oedolion a plant a gwastraff.

- Bu i sefyllfa ariannol 2023/24 gael ei chymryd i ystyriaeth yn y broses o sefydlu cyllideb 2024/25, gyda bidiau wedi eu dyrannu i rai o'r meysydd sydd yn gorwario.

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £534m yn ystod 2023/24, gyda'r sefyllfa net yn £326m.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae cyllideb net y Cyngor yn cael ei gyllido gan dreth cyngor, grantiau cyffredinol y llywodraeth a threthi annomestig cenedlaethol yn bennaf ac yn £340m ar gyfer 2023/24.

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | Cyllideb | Gwir | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant Net ar Weithrediadau | 339,870 | 340,657 | 787 |
| Swm Adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn | 0 | (472) | (472) |
| | 339,870 | 340,185 | 315 |
| Ariannwyd gan - | | | |
| Incwm y Dreth Cyngor | (111,834) | (112,149) | (315) |
| Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol | (39,172) | (39,172) | 0 |
| Grantiau Llywodraeth Cyffredinol | (188,864) | (188,864) | 0 |
| Cyfraniad o Falans y Gronfa Gyffredinol | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 10 a 11 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

**TABL 2 - Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u> sydd yn adlewyrchu'r Strwythur Rheolaethol Adrannol.**

| **Adran** | **Adroddiad Perfformiad (Alldro)** | **Addasiad Trawsddodiad** | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo** | **Datganiad Incwm a Gwariant** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 105,694 | 3,457 | **109,151** | 6,244 | **115,395** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,068 | 31 | **8,099** | 28 | **8,127** |
| Cyllid | 7,383 | (129) | **7,254** | 1,612 | **8,866** |
| Economi a Chymuned | 4,887 | (1,084) | **3,803** | 3,951 | **7,754** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 76,614 | (115) | **76,499** | 289 | **76,788** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 24,358 | 65 | **24,423** | 146 | **24,569** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd) | 17,552 | (145) | **17,407** | 5,211 | **22,618** |
| Amgylchedd | 19,229 | (346) | **18,883** | 4,046 | **22,929** |
| Tai ac Eiddo | 10,344 | 491 | **10,835** | 4,793 | **15,628** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,716 | (5) | **2,711** | (10) | **2,701** |
| Corfforaethol | 14,041 | 2,883 | **16,924** | 3,656 | **20,580** |
| **Cost Gwasanaethau** | 290,886 | 5,103 | **295,989** | 29,966 | **325,955** |
| Eraill (Yn cynnwys Addasiad Canolog a Chorfforaethol) | 49,299 | (5,103) | **44,196** | (29,966) | **14,230** |
| **Cyfanswm** | 340,185 | 0 | **340,185** | 0 | **340,185** |

*Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.*

- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

  Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:

  - (£6m) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).
  - Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net yn deillio o ailbrisio asedau sefydlog i'r Reserf Ailbrisio yn £14m (Nodyn 23.1) a chost ailbrisio a'r amhariad i'r Gwasanaethau yn £5m (Nodyn 15).

- **Materion Eraill**
  - Mae ansefydlogrwydd economaidd a risgiau ariannol yn parhau yn y DU ac yn fyd-eang. Tra fod cyfraddau chwyddiant wedi gostwng a disgwyliad y bydd lleihad yn y cyfraddau llog, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn cydnabod bod rhagolwg cyllidol tymor canolig y DU yn parhau i fod yn un heriol. Mae'r Cyngor wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
  - Mae'r Cyngor fel pob corff cyhoeddus arall yn parhau i wynebu heriau ariannu sylweddol, yn benodol ansicrwydd ynghylch lefel y Grant Cynnal Refeniw a dderbynnir gan y Llywodraeth. Does dim sicrwydd o unrhyw gynnydd yn y grant ar gyfer y tymor canolig. Hefyd, wrth osod Cyllideb 2024/25, gwelwyd effaith

Cyfrifiad 2021 (ble roedd gostyngiad sylweddol ym mhoblogaeth Gwynedd) ar ddyraniad grant y Cyngor Gwynedd o'i gymharu â awdurdodau eraill, rhagwelir caiff hyn effaith am flynyddoedd eto.

- O ganlyniad i gynlluniau'r Llywodraeth Ganolog gan gynnwys Cronfa Ffyniant Bro, derbyniwyd grantiau sylweddol yn ystod 2023/24, sydd wedi cyfrannu at y cynnydd sylweddol yn y gwariant refeniw sydd yn cael ei ariannu o gyfalaf dan statud, sydd yn £20m (Nodyn 34), tra fod yr incwm grant cysylltiedig i'w ariannu yn £17m (Nodyn 32).
- Mae gwerth dibrisiant asedau y Cyngor yn £20m (Nodyn 15).

**Gwariant Cyfalaf yn 2023/24**

Yn 2023/24 gwariodd y Cyngor £56.9m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

## TABL 3 - CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| 7,573 | Addysg | 12,972 |
| 8,254 | Amgylchedd * | 5,084 |
| 7 | Cefnogaeth Gorfforaethol | 0 |
| 948 | Cyllid | 716 |
| 2,232 | Economi a Chymuned | 18,551 |
| 6,798 | Tai ac Eiddo | 10,319 |
| 428 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 382 |
| 1,213 | Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,131 |
| 9,678 | Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd * | 7,717 |
| 0 | Prif Weithredwr | 39 |
| **37,131** | | **56,911** |
| | **ARIANNWYD GAN -** | |
| 8,243 | Benthyciadau | 8,108 |
| 19,942 | Grantiau a Chyfraniadau | 37,224 |
| 695 | Derbyniadau Cyfalaf | 250 |
| 8,251 | Refeniw a Chronfeydd Eraill | 11,329 |
| **37,131** | | **56,911** |

* Mae ffigyrau 2022/23 yr Adran Amgylchedd a'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu y newid i strwythur yr adrannau er mwyn galluogi cymhariaeth gyda 2023/24.

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £19.9m yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm ychwanegiadau Asedau Anghyfredol ac Asedau ar Gael i'w Gwerthu oedd £37.3m fel y dangosir yn Nodyn 15 a 20.

- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2024 yn £100m – lleihad o £2.5m (o £102.5m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £2.5m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

**Darpariaethau ac Arian wrth Gefn**

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol heb ei glustnodi o £7.9m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £9m, reserfau eraill a glustnodwyd o £101.8m a balansau ysgolion o £8.5m. Cyfanswm y rhain oedd £127.2m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 22.

Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd. Llwyddodd yr adolygiad i gynaeafu £1,703k o adnoddau, a chymeradwyodd y Cabinet (yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2024) i ddefnyddio'r cyfan ohono i gynorthwyo sefyllfa ariannol 2023/24.

**Cronfa Bensiwn**

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad net o ddim yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd fel a ddangosir ar y Fantolen ar 31 Mawrth 2024. Cyfrifwyd hyn gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, gan gydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Gweler Nodyn 38 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr, ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd y prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2022, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2025.

**Llywodraethu**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu cyfarwyddiadau CIPFA yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24.

**Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
Cyfrifeg a Phensiynau
01286 679133

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

# CYNGOR GWYNEDD

# DATGANIAD O'R CYFRIFON

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

### CYFRIFOLDEB Y CYNGOR

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyngor hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

### CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2024, ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



**21 Mehefin 2024**

**Dewi Aeron Morgan CIPFA**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu i bwrpas gwneud penderfyniadau rhwng adrannau y Cyngor. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU**

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 111,136 | 13,136 | 124,272 | Addysg * | 109,151 | 6,244 | 115,395 |
| 8,121 | 1,583 | 9,704 | Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,099 | 28 | 8,127 |
| 7,204 | 3,026 | 10,230 | Cyllid | 7,254 | 1,612 | 8,866 |
| 4,446 | 4,433 | 8,879 | Economi a Chymuned | 3,803 | 3,951 | 7,754 |
| 70,351 | 7,217 | 77,568 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 76,499 | 289 | 76,788 |
| 12,418 | 2,625 | 15,043 | Plant a Chefnogi Teuluoedd * | 24,423 | 146 | 24,569 |
| 15,916 | 10,513 | 26,429 | Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd **) *** | 17,407 | 5,211 | 22,618 |
| 16,982 | 7,326 | 24,308 | Amgylchedd *** | 18,883 | 4,046 | 22,929 |
| 10,022 | 5,042 | 15,064 | Tai ac Eiddo | 10,835 | 4,793 | 15,628 |
| 2,396 | 297 | 2,693 | Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,711 | (10) | 2,701 |
| 18,525 | 1,777 | 20,302 | Corfforaethol | 16,924 | 3,656 | 20,580 |
| **277,517** | **56,975** | **334,492** | **Cost Gwasanaethau** | **295,989** | **29,966** | **325,955** |
| 27,931 | (123) | 27,808 | Gwariant Gweithredol Arall | 30,830 | 4 | 30,834 |
| 19,724 | (8,637) | 11,087 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 18,468 | (16,768) | 1,700 |
| (317,925) | (16,075) | (334,000) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (340,184) | (20,629) | (360,813) |
| **7,247** | **32,140** | **39,387** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **5,103** | **(7,427)** | **(2,324)** |
| (130,647) | | | Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol | (123,400) | | |
| 7,247 | | | (Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn | 5,103 | | |
| **(123,400)** | | | Balans Cau y Gronfa Gyffredinol | **(118,297)** | | |

* Mae ffigyrau 2022/23 yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu y newid i strwythur yr adrannau er mwyn galluogi cymhariaeth gyda 2023/24.

** Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

*** Mae ffigyrau 2022/23 yr yr Adran Amgylchedd a'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu y newid i strwythur yr adrannau er mwyn galluogi cymhariaeth gyda 2023/24.

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

| 2022/23 | | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | ***Nodyn*** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 158,705 | (34,433) | 124,272 | Addysg * | | 147,388 | (31,993) | 115,395 |
| 10,696 | (992) | 9,704 | Cefnogaeth Gorfforaethol | | 9,035 | (908) | 8,127 |
| 14,060 | (3,830) | 10,230 | Cyllid | | 12,766 | (3,900) | 8,866 |
| 19,313 | (10,434) | 8,879 | Economi a Chymuned | | 60,662 | (52,908) | 7,754 |
| 105,391 | (27,823) | 77,568 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | | 107,514 | (30,726) | 76,788 |
| 31,655 | (16,612) | 15,043 | Plant a Chefnogi Teuluoedd * | | 37,184 | (12,615) | 24,569 |
| 41,959 | (15,530) | 26,429 | Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd **) *** | | 40,775 | (18,157) | 22,618 |
| 41,986 | (17,678) | 24,308 | Amgylchedd *** | | 40,431 | (17,502) | 22,929 |
| 26,314 | (11,250) | 15,064 | Tai ac Eiddo | | 29,455 | (13,827) | 15,628 |
| 3,283 | (590) | 2,693 | Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | | 3,615 | (914) | 2,701 |
| 44,483 | (24,181) | 20,302 | Corfforaethol | | 44,871 | (24,291) | 20,580 |
| **497,845** | **(163,353)** | **334,492** | **Cost Gwasanaethau** | | **533,696** | **(207,741)** | **325,955** |
| 27,931 | (123) | 27,808 | Gwariant Gweithredol Arall | *11* | 30,834 | 0 | 30,834 |
| 12,928 | (1,841) | 11,087 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *12* | 5,774 | (4,074) | 1,700 |
| 0 | (334,000) | (334,000) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | *13* | 0 | (360,813) | (360,813) |
| **538,704** | **(499,317)** | **39,387** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **570,304** | **(572,628)** | **(2,324)** |
| | | (28,694) | (Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisio Asedau Sefydlog | *23.1* | | | (13,652) |
| | | 1,190 | (Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisio Offerynnau Ariannol | *23.3* | | | 69 |
| | | (284,950) | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *23.5* | | | 6,243 |
| | | **(312,454)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(7,340)** |
| | | **(273,067)** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(9,664)** |

* Mae ffigyrau 2022/23 yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu y newid i strwythur yr adrannau er mwyn galluogi cymhariaeth gyda 2023/24.

** Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

*** Mae ffigyrau 2022/23 yr yr Adran Amgylchedd a'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu y newid i strwythur yr adrannau er mwyn galluogi cymhariaeth gyda 2023/24.

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyngor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | *Gwybodaeth ychwanegol* | | | **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | *Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi* | *Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd* | *Cyfanswm Balansau Ysgolion* | Balans Cronfa Gyffredinol | Reserf Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyngor** |
| | | *£'000* | *£'000* | *£'000* | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2022 a ddygwyd ymlaen** | | *(7,912)* | *(106,040)* | *(16,695)* | (130,647) | (2,579) | (9,367) | **(142,593)** | **(117,332)** | **(259,925)** |
| <u>Symudiad mewn reserfau yn 2022/23</u> | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | *39,387* | *0* | *0* | 39,387 | 0 | 0 | **39,387** | **(312,454)** | **(273,067)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | 9 | *(32,140)* | *0* | *0* | (32,140) | 327 | 1,326 | **(30,487)** | **30,487** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23** | | *7,247* | *0* | *0* | 7,247 | 327 | 1,326 | **8,900** | **(281,967)** | **(273,067)** |
| *Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd* | *10* | *(7,247)* | *2,469* | *4,778* | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| *(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)* | | *0* | *2,469* | *4,778* | 7,247 | 327 | 1,326 | **8,900** | **(281,967)** | **(273,067)** |
| **Balans 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen** | | *(7,912)* | *(103,571)* | *(11,917)* | (123,400) | (2,252) | (8,041) | **(133,693)** | **(399,299)** | **(532,992)** |
| <u>Symudiad mewn reserfau yn 2023/24</u> | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | *(2,324)* | *0* | *0* | (2,324) | 0 | 0 | **(2,324)** | **(7,340)** | **(9,664)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | 9 | *7,427* | *0* | *0* | 7,427 | (68) | 302 | **7,661** | **(7,661)** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24** | | *5,103* | *0* | *0* | 5,103 | (68) | 302 | **5,337** | **(15,001)** | **(9,664)** |
| *Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd* | *10* | *(5,103)* | *1,728* | *3,375* | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| *(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)* | | *0* | *1,728* | *3,375* | 5,103 | (68) | 302 | 5,337 | (15,001) | (9,664) |
| **Balans 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen** | | *(7,912)* | *(101,843)* | *(8,542)* | (118,297) | (2,320) | (7,739) | **(128,356)** | **(414,300)** | **(542,656)** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyngor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2023** | | *Nodyn* | **31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 570,819 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | *15* | 596,761 |
| 59 | Asedau Treftadaeth | | 60 |
| 165 | Eiddo Buddsoddi | *16* | 165 |
| 2,193 | Asedau Gweddilliol | *15* | 2,133 |
| 17 | Buddsoddiadau Tymor Hir | *17* | 17 |
| 4,335 | Dyledwyr Tymor Hir | *17* | 5,930 |
| **577,588** | **Asedau Tymor Hir** | | **605,066** |
| 89,851 | Buddsoddiadau Tymor Byr | *17* | 97,568 |
| 47 | Asedau ar gael i'w Gwerthu | *20* | 0 |
| 1,686 | Stoc | | 1,589 |
| 85,878 | Dyledwyr Tymor Byr | *18* | 121,201 |
| 62,880 | Arian a Chywerthoedd Arian | *19* | 43,939 |
| **240,342** | **Asedau Cyfredol** | | **264,297** |
| (16,886) | Gorddrafft Banc | *19* | (8,591) |
| (2,907) | Benthyciadau Tymor Byr | *17* | (6,033) |
| (134,845) | Credydwyr Tymor Byr | *21* | (177,868) |
| (362) | Darpariaethau Tymor Byr | *22* | (346) |
| (17,894) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw | *32* | (25,437) |
| **(172,894)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(218,275)** |
| (9,111) | Darpariaethau Tymor Hir | *22* | (8,703) |
| (99,595) | Benthyciadau Tymor Hir | *17* | (94,006) |
| 4,482 | Ymrwymiad Pensiwn | *38* | 0 |
| (997) | Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol | *35* | (793) |
| (6,823) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw | *32* | (4,930) |
| **(112,044)** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **(108,432)** |
| **532,992** | **Asedau Net** | | **542,656** |
| | | | |
| (133,693) | Reserfau Defnyddiadwy | | (128,356) |
| (399,299) | Reserfau na ellir eu defnyddio | *23* | (414,300) |
| **(532,992)** | **Cyfanswm Reserfau** | | **(542,656)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o Weithgareddau Ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

| **2022/23**<br>**£'000** | | ***Nodyn*** | **2023/24**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|
| 39,387 | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | | (2,324) |
| (133,520) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | *24a* | (32,816) |
| 278 | Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | *24b* | 285 |
| (93,855) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (34,855) |
| 42,688 | Gweithgareddau Buddsoddi | *25* | 44,136 |
| 1,541 | Gweithgareddau Ariannu | *26a* | 1,365 |
| (49,626) | (Cynnydd)/lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian | | 10,646 |
| 3,632 | Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | (45,994) |
| **(45,994)** | **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | *19* | **(35,348)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 - POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor yn y flwyddyn ariannol 2023/24 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2024. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach nag i'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar refeniw yn gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan y Cyngor, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, a gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cywerthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y Fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

### 1.4 Asedau Dibynnol / Ymrwymiadau Dibynnol

Ceir ased dibynnol pan fo digwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Cyngor ble bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyngor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw asedau ac ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach o fewn y nodyn Ymrwymiadau Dibynnol ac Asedau Dibynnol yn y cyfrifon.

## NODYN 1 - POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.5 Corfforaethol

Mae'r pennawd Corfforaethol yn cynnwys eitemau yn ymwneud â ffurfio polisïau corfforaethol a gweithgareddau aelodau, a chostau sydd yn gysylltiedig â rhedeg y Cyngor.

### 1.6 Buddiannau Gweithwyr

### 1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwyr yn gwasanaethu'r Cyngor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

### 1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell Gwasanaethau Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyngor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyngor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r gronfa bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiwn ychwanegol a rhoi'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth y DU.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau ymddeoliad) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion hynny yn cael eu hadnabod i'r Cyngor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen. Mae'r llinellau Addysg a Plant a Chefnogi Teuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa disgownt o 4.85% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle roedd y gweithwyr yn gweithio.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyngor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Addasiad nenfwd ased – cyfyngir i werth nenfwd yr ased a gyfrifwyd os yw'n llai na sefyllfa'r ased.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i mewn neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o'r effaith i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyngor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

### 1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith materol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai ei fod yn anfaterol neu a nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.9 Offerynnau Ariannol

#### Ymrwymiadau Ariannol

Cydnabyddir ymrwymiadau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Mae'r llog taladwy blynyddol sydd yn cael ei gynnwys ar y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar werth cario yr ymrwymiad, wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Y cyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sydd yn disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sydd yn weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a gaiff ei ddatgan yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Mewn achosion lle codwyd premiymau a disgownts ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatau i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei rannu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o rannu'r enillion neu golledion dros y tymor sydd yn weddill ar y benthyciad ble'r oedd y premiwm yn daladwy neu'r gostyngiad yn dderbyniadwy pan fyddai'n cael ei ad-dalu. Mae cysoni'r swm a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad mewn Reserfau.

#### Asedau Ariannol

Dosbarthir asedau ariannol yn unol â dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Cyngor yn dal asedau ariannol wedi eu mesur ar:

- gost amorteiddiedig, a

- gwerth teg drwy elw a cholled, a
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Mae angen polisi ar wahân ble mae Awdurdod yn dal asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant arall.

Model busnes y Cyngor yw i ddal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Mae offerynnau ariannol felly yn cael eu dosbarthu fel cost amorteiddiedig, ag eithrio rheiny nad yw eu taliadau cytundebol yn daliad o brifswm a llog yn unig (h.y ble nad yw llif arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

**Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost Amorteiddiedig**

Cydnabyddir asedau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd credyd blynyddol i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y llog a dderbynnir yn seiliedig ar werth cario yr ased wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sydd yn weddill (yn ogystal â'r llog cronedig) gyda'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Model Colled Credyd Disgwyliedig**

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gostau wedi'u hamorteiddio, unai ar sail 12 mis neu oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn gymwys i symiau derbyniadwy ar brydles ac asedau contract. Dim ond colledion oes a gydnabyddir ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a ddelir gan y Cyngor. Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r posibilrwydd na fydd y llif arian yn digwydd yn y dyfodol o ganlyniad i'r benthyciwr yn diffygdalu ei ymrwymiad.

**Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg Drwy Incwm Cynhwysfawr Arall**

Caiff asedau ariannol a fesurir ar WTICA eu cydnabod ar y fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offerynnau ariannol ac yn cael eu mesur yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt godi mewn incwm cynhwysfawr arall.

**Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Werth Teg Drwy Elw a Cholled**

Cydnabyddir asedau ariannol sydd wedi eu mesur ar werth teg drwy elw a cholled ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt gyrraedd y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

**Mesuriad Gwerth Teg o Asedau Ariannol**

Gwerth teg ased yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesuriad gwerth teg asedau ariannol y Cyngor yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- Offerynnau sydd â phris marchnad wedi ei ddyfynnu – pris y farchnad
- Offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categoreiddio yn unol â'r tri lefel isod;

- Mewnbwn Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif am asedau yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbwn Lefel 2 – mewnbwn heblaw am brisiau a ddyfynnwyd sy'n gynwysiedig o fewn Mewnbwn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbwn Lefel 3 – mewnbwn anweladwy i'r ased.

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae mesuriad ein hasedau a ddelir ar WTICA yn bris cais uned ar y dyddiad mesur.

### 1.10 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyngor wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Cyngor yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

### 1.11 Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Lluniau a Phaentiadau
- Teyrndlysau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Defnyddiodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de minimis i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.17.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad – gweler polisi 1.17.

### 1.12 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y Fantolen ar sail yr isaf o gost a gwir werth, yn unol â darpariaethau'r Côd Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost gyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 1.13 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu. Caiff yr eiddo yma eu prisio ar sail gwerth teg. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thair lefel. Lefel

3 yw holl fewnbynnau y Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o natur unigryw yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.14 Prydlesau

Caiff prydlesau eu hystyried yn brydlesi cyllidol pan fo telerau trosglwyddiad y brydles a'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu hystyried yn brydlesau gweithredol.

**Y Cyngor fel Prydlesai:**

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu hadnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymedigaeth y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisïau arferol, a chaiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

**Y Cyngor fel Prydleswr:**

Ble mae'r Cyngor yn caniatáu prydles gyllidol ar eiddo, mae'r ased perthnasol yn cael ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad, sydd i'w gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw gwerth y gwarediad a ysgrifennir allan yn gost a roir yn erbyn y dreth cyngor, gan fod cost asedau tymor hir yn cael eu darparu o dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae'r symiau felly yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o'r Balans Cronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

### 1.15 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol y Cyngor eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar werth y farchnad. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.16 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae rhai costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu dosrannu i'r gwasanaethau priodol yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

### 1.17 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob pum mlynedd. Ers y flwyddyn ariannol 2015/16, mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisio gwahanol gategorïau o'r asedau yma yn flynyddol, gydag ailbrisiad fel arfer yn effeithiol ar 31 Mawrth pob blwyddyn. Mae hyn yn unol â'r Côd a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (CAD) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisïau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer Tir ac Adeiladau Gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer asedau megis Tir ac Adeiladau, ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

### Amhariad a Dibrisiant

#### Amhariad

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu ei asedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd ailbrisio ar gyfer ased o fewn y Reserf Ailbrisio, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronedig).

- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbrisio ar gyfer ased neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

#### Dibrisiant

Prif elfen SCRh 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. Trothwy ar gyfer 2023/24 yw 1% o werth yr holl adeiladau ar gychwyn y flwyddyn. Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de minimis ydi:
a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianneg, ac
b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (CAD), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol fyrrach; e.e. boeleri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianneg sydd angen eu cydrannu ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y Fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

(i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifiedig (3–15 mlynedd, neu fwy os oes tystiolaeth cefnogol)
(ii) Dibrisir Is adeiladwaith dros 40 mlynedd
(iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
(iv) Ni ddibrisir Tir
(v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd defnyddiol gweddilliol amcangyfrifiedig (5–80 mlynedd)
(vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

### Lleiafswm Darpariaeth Refeniw

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (LIDR) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn LIDR sydd ar gael:
- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull Gofyn Cyllido Cyfalaf
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

*D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.*

LIDR yn 2023/24: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Dim-CRT) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad LIDR i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2023/24. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad LIDR gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad gan asesu mai mesuriad darbodus fyddai dros 50 mlynedd, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr LIDR yng nghyswllt lesau a chynlluniau Menter Cyllid Preifat (MCP) a brynwyd ar y Fantolen dan y Côd Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar y SAARh yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Mae'r Cyngor yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Côd Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddosbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

### 1.18 Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol

Mae incwm Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol am y flwyddyn yn cael eu trin fel incwm cronedig, ac yn cael eu cynnwys ar linell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod bilio Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol. Mae'n casglu Treth Cyngor ar ran ei hun ac ar ran awdurdodau eraill, ac yn casglu Trethi Annomestig fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru.

### 1.19 Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen:
- sy'n rhoi rhwymedigaeth bresennol i'r Cyngor
- sy'n debyg o fod angen setliad trwy drosglwyddiad o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Os nad yw'n glir os yw digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen, ystyrir ei fod yn arwain at rwymedigaeth bresennol os yw, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth bresennol fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff setliadau amcangyfrifedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd yn awr (neu y gwneir setliad is na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

## NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

### 1.20 Reserfau (a Balansau)

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992, mae'r Cygnor yn cynnal –

- Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") y Cyngor, sef balans gweithredol i helpu lliniaru effaith llif arian anwastad ag i'w gadw wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

- Nifer o reserfau penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau arbennig, sef arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymiadau a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o ddigonolrwydd a defnydd o reserfau penodol.

- Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu'r risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r strategaeth ariannol tymor canol, bydd y Cyngor yn gosod allan ei fwriad ynghylch lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd, yng nghyd-destun yr holl risgiau perthnasol. Gweler cymeradwyaeth o'r polisi llawn ar gyfer cronfeydd gan Gabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015.

- Cedwir rhai reserfau eraill, sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyngor.

### 1.21 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoreiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

### 1.22 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

### 1.23 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, a hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

### 1.24 Dyrannu Llog a Difidendau Derbyniadwy

Mae'r Cyngor yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at 13 mis (ac eithrio buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun) a thelir y llog i'r Gronfa Gyffredinol, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau a chyd-bwyllgorau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir. Telir y difidendau o'r cronfeydd cyfun i'r Gronfa Gyffredinol.

### 1.25 Costau Benthyca

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Côd.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

### 1.26 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Mae gan y Cyngor ddiddordebau mewn cwmnïau ac endidau eraill y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Yn unol ag ystyriaethau materoldeb, mae Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'i gynnwys o fewn datganiadau ariannol y Cyngor. Cynhaliwyd y gwaith atgyfnerthu ar sail llinell wrth linell a'i

ddosrannu i bob awdurdod ar drafodion gwirioneddol yn y lle cyntaf gyda'r trafodion a'r balansau sy'n weddill wedi'u rhannu yn unol â'u Cytundeb Llywodraethu. Mae'r trafodion ar gyfer y gweithrediad ar y cyd Cynllun Argyfwng Bysus hefyd wedi cael ei gyfuno i ddatganiad ariannol y Cyngor.

Yn seiliedig ar fateroldeb, nid yw'r cyd-bwyllgorau canlynol wedi cael eu cyfuno i ddatganiad ariannol y Cyngor:-

- GwE
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Yn seiliedig ar fateroldeb, nid yw cyfrifon grŵp wedi eu cynhyrchu i gynnwys Cwmni Byw'n Iach.

### 1.27 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth ailddosbarthu. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.28 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi ei gronni ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### 1.29 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir asedau gan y Cyngor mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

### 1.30 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Menter Cyllid Preifat (MCP), yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth dan gyfrifoldeb y contractwr MCP am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gytuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

### 1.31 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyngor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyngor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

### 1.32 Ysgolion

Mae'r *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (h.y. yr ysgolion hynny sy'n cael eu hadnabod yn y Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd), yn gorwedd efo'r awdurdod lleol. Mae'r Côd hefyd yn datgan bod asedau, ymrwymiadau, reserfau a llif arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon yr awdurdod lleol (ac nid mewn Cyfrifon Grŵp). O ganlyniad, mae trafodion, llif arian a balansau yr ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol y Cyngor fel petaent yn drafodion, llif arian a balansau y Cyngor.

## NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)

### 1.33 Mesuriad Gwerth Teg o Asedion An-Ariannol

Mae polisi'r Cyngor ar fesuriad gwerth teg ased ariannol wedi ei osod allan yn nodyn 1.9. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi mesuriad gwerth teg ar rai o asedau an-ariannol y Cyngor megis asedau gweddilliol, eiddo buddsoddi a rhai o offerynnau ariannol ar bob cyfnod adrodd. Gwerth teg yw'r pris gwerthu a dderbynnir ar gyfer yr ased mewn modd trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad y mesuriad. Mae'r mesuriad gwerth teg yn tybio bod y trefniant o werthu'r ased neu drosglwyddo'r ymrwymiad yn cymryd lle unai:

a. yn y brif farchnad i'r ased, neu
b. yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad sydd fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased.

Wrth fesur gwerth teg ased neu ymrwymiad, defnyddia'r Cyngor ragdybiaethau y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu ymrwymiad, gan gymryd bod cyfranogwyr y farchnad yn gweithredu er eu budd economaidd mwyaf.

Wrth fesur gwerth teg ased an-ariannol, mae'r Cyngor yn ystyried gallu cyfranogwyr y farchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y modd gorau bosib, neu drwy ei werthu i gyfranogwr arall y farchnad fyddai'n defnyddio'r ased yn y modd gorau bosib.

Defnyddia'r Cyngor dechnegau prisio sydd yn addas i'r amgylchiadau ac sydd â data digonol ar eu cyfer, gan uchafu'r defnydd o fewnbwn gweladwy perthnasol ac isafu'r defnydd o fewnbwn anweladwy.

Mae'r mewnbwn i'r technegau prisio sy'n berthnasol i'r asedau hynny ble mesurir neu ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer yn natganiadau ariannol y Cyngor yn cael eu categoreiddio yn hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ymrwymiadau unfath y gall y Cyngor eu cyrchu ar ddyddiad y mesuriad;
- Lefel 2 – mewnbwn ar wahân i'r prisiau a ddyfynnir yn Lefel 1, sydd yn weladwy ar gyfer yr ased, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; neu
- Lefel 3 – mewnbwn anweladwy ar gyfer ased.

### 1.34 Polisïau Eraill

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisïau ar gyfer y canlynol, ond nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn faterol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24:
- Asedau Anniriaethol
- Trosi Arian Tramor.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24.

## NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Mae'r eitemau isod wedi eu haddasu yn 2022/23 ar gyfer y cyfnod blaenorol er mwyn adlewyrchu newidiadau i strwythur y Cyngor. Mae un o'r newidiadau yn cynnwys ail-leoli'r Gwasanaeth Ieuenctid o'r Adran Plant a Chefnogi Theuluoedd i'r Adran Addysg. Mae newidiadau eraill yn ymwneud â'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, lle mae'r unedau Gwastraff ac Ailgylchu wedi eu trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd ac Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi ei gyfuno i greu Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC.

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2022/23 | | | Addasiad | | | Ailddatgan 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 101,997 | 13,062 | 115,059 | 9,139 | 74 | 9,213 | 111,136 | 13,136 | 124,272 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,121 | 1,583 | 9,704 | 0 | 0 | 0 | 8,121 | 1,583 | 9,704 |
| Cyllid | 7,204 | 3,026 | 10,230 | 0 | 0 | 0 | 7,204 | 3,026 | 10,230 |
| Economi a Chymuned | 4,446 | 4,433 | 8,879 | 0 | 0 | 0 | 4,446 | 4,433 | 8,879 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 70,351 | 7,217 | 77,568 | 0 | 0 | 0 | 70,351 | 7,217 | 77,568 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 21,557 | 2,699 | 24,256 | (9,139) | (74) | (9,213) | 12,418 | 2,625 | 15,043 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | 29,601 | 10,809 | 40,410 | (29,601) | (10,809) | (40,410) | 0 | 0 | 0 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | 0 | 0 | 0 | 15,916 | 10,513 | 26,429 | 15,916 | 10,513 | 26,429 |
| Amgylchedd | 3,177 | 5,472 | 8,649 | 13,805 | 1,854 | 15,659 | 16,982 | 7,326 | 24,308 |
| Tai ac Eiddo | 10,022 | 5,042 | 15,064 | 0 | 0 | 0 | 10,022 | 5,042 | 15,064 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,396 | 297 | 2,693 | 0 | 0 | 0 | 2,396 | 297 | 2,693 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 120 | 1,558 | 1,678 | (120) | (1,558) | (1,678) | 0 | 0 | 0 |
| Corfforaethol | 18,525 | 1,777 | 20,302 | 0 | 0 | 0 | 18,525 | 1,777 | 20,302 |
| **Cost Gwasanaethau** | **277,517** | **56,975** | **334,492** | **0** | **0** | **0** | **277,517** | **56,975** | **334,492** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 27,931 | (123) | 27,808 | 0 | 0 | 0 | 27,931 | (123) | 27,808 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 19,724 | (8,637) | 11,087 | 0 | 0 | 0 | 19,724 | (8,637) | 11,087 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (317,925) | (16,075) | (334,000) | 0 | 0 | 0 | (317,925) | (16,075) | (334,000) |
| **(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **7,247** | **32,140** | **39,387** | **0** | **0** | **0** | **7,247** | **32,140** | **39,387** |
| Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol | (130,647) | | | 0 | | | (130,647) | | |
| (Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn | 7,247 | | | (0) | | | 7,247 | | |
| Balans Cau y Gronfa Gyffredinol | **(123,400)** | | | **(0)** | | | **(123,400)** | | |

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

| | | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2022/23 | | | Addasiad | | | Ailddatgan 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | | 148,925 | (33,866) | 115,059 | 9,780 | (567) | 9,213 | 158,705 | (34,433) | 124,272 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | | 10,696 | (992) | 9,704 | 0 | 0 | 0 | 10,696 | (992) | 9,704 |
| Cyllid | | 14,060 | (3,830) | 10,230 | 0 | 0 | 0 | 14,060 | (3,830) | 10,230 |
| Economi a Chymuned | | 19,313 | (10,434) | 8,879 | 0 | 0 | 0 | 19,313 | (10,434) | 8,879 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | | 105,391 | (27,823) | 77,568 | 0 | 0 | 0 | 105,391 | (27,823) | 77,568 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | | 41,435 | (17,179) | 24,256 | (9,780) | 567 | (9,213) | 31,655 | (16,612) | 15,043 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | | 57,250 | (16,840) | 40,410 | (57,250) | 16,840 | (40,410) | 0 | 0 | 0 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | | 0 | 0 | 0 | 41,959 | (15,530) | 26,429 | 41,959 | (15,530) | 26,429 |
| Amgylchedd | | 19,100 | (10,451) | 8,649 | 22,886 | (7,227) | 15,659 | 41,986 | (17,678) | 24,308 |
| Tai ac Eiddo | | 26,314 | (11,250) | 15,064 | 0 | 0 | 0 | 26,314 | (11,250) | 15,064 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | | 3,283 | (590) | 2,693 | 0 | 0 | 0 | 3,283 | (590) | 2,693 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | | 7,595 | (5,917) | 1,678 | (7,595) | 5,917 | (1,678) | 0 | 0 | 0 |
| Corfforaethol | | 44,483 | (24,181) | 20,302 | 0 | 0 | 0 | 44,483 | (24,181) | 20,302 |
| **Cost Gwasanaethau** | | **497,845** | **(163,353)** | **334,492** | **(0)** | **(0)** | **(0)** | **497,845** | **(163,353)** | **334,492** |
| Gwariant Gweithredol Arall | *11* | 27,931 | (123) | 27,808 | 0 | 0 | 0 | 27,931 | (123) | 27,808 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *12* | 12,928 | (1,841) | 11,087 | 0 | 0 | 0 | 12,928 | (1,841) | 11,087 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | *13* | 0 | (334,000) | (334,000) | 0 | 0 | 0 | 0 | (334,000) | (334,000) |
| **(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **538,704** | **(499,317)** | **39,387** | (0) | (0) | (0) | **538,704** | **(499,317)** | **39,387** |
| (Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbrisio Asedau Sefydlog | *23* | | | (28,694) | | | 0 | | | (28,694) |
| (Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbrisio Offerynnau Ariannol | *23* | | | 1,190 | | | 0 | | | 1,190 |
| Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *23* | | | (284,950) | | | 0 | | | (284,950) |
| **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(312,454)** | | | **0** | | | **(312,454)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(273,067)** | | | **(0)** | | | **(273,067)** |

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU

| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2022/23 | | | | | | Addasiad | | | | | | Ailddatgan 2022/23 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** | **Cyfanswm Addasiadau Statudol** | **Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)** | **Cyfanswm Addasiadau** | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** | **Cyfanswm Addasiadau Statudol** | **Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)** | **Cyfanswm Addasiadau** | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** | **Cyfanswm Addasiadau Statudol** | **Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 6,821 | 6,241 | 0 | **13,062** | 0 | **13,062** | 0 | 74 | 0 | **74** | 0 | **74** | 6,821 | 6,315 | 0 | **13,136** | 0 | **13,136** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 0 | 1,583 | 0 | **1,583** | 0 | **1,583** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | 1,583 | 0 | **1,583** | 0 | **1,583** |
| Cyllid | 1,341 | 1,685 | 0 | **3,026** | 0 | **3,026** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 1,341 | 1,685 | 0 | **3,026** | 0 | **3,026** |
| Economi a Chymuned | 3,418 | 1,015 | 0 | **4,433** | 0 | **4,433** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 3,418 | 1,015 | 0 | **4,433** | 0 | **4,433** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 547 | 6,883 | 0 | **7,430** | (213) | **7,217** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 547 | 6,883 | 0 | **7,430** | (213) | **7,217** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 69 | 2,630 | 0 | **2,699** | 0 | **2,699** | 0 | (74) | 0 | **(74)** | 0 | **(74)** | 69 | 2,556 | 0 | **2,625** | 0 | **2,625** |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | 4,457 | 6,352 | 0 | **10,809** | 0 | **10,809** | (4,457) | (6,352) | 0 | **(10,809)** | 0 | **(10,809)** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 4,701 | 5,812 | 0 | **10,513** | 0 | **10,513** | 4,701 | 5,812 | 0 | **10,513** | 0 | **10,513** |
| Amgylchedd | 4,044 | 1,428 | 0 | **5,472** | 0 | **5,472** | 213 | 1,641 | 0 | **1,854** | 0 | **1,854** | 4,257 | 3,069 | 0 | **7,326** | 0 | **7,326** |
| Tai ac Eiddo | 3,750 | 1,292 | 0 | **5,042** | 0 | **5,042** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 3,750 | 1,292 | 0 | **5,042** | 0 | **5,042** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1 | 296 | 0 | **297** | 0 | **297** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 1 | 296 | 0 | **297** | 0 | **297** |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 457 | 1,101 | 0 | **1,558** | 0 | **1,558** | (457) | (1,101) | 0 | **(1,558)** | 0 | **(1,558)** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Corfforaethol | 1 | 843 | 1,042 | **1,886** | (109) | **1,777** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 1 | 843 | 1,042 | **1,886** | (109) | **1,777** |
| **Cost Gwasanaethau** | **24,906** | **31,349** | **1,042** | **57,297** | **(322)** | **56,975** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **24,906** | **31,349** | **1,042** | **57,297** | **(322)** | **56,975** |
| Gwariant Gweithredol Arall | (123) | 0 | 0 | **(123)** | 0 | **(123)** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | (123) | 0 | 0 | **(123)** | 0 | **(123)** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (15,769) | 6,954 | (144) | **(8,959)** | 322 | **(8,637)** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | (15,769) | 6,954 | (144) | **(8,959)** | 322 | **(8,637)** |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (16,075) | 0 | 0 | **(16,075)** | 0 | **(16,075)** | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | (16,075) | 0 | 0 | **(16,075)** | 0 | **(16,075)** |
| **(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(7,061)** | **38,303** | **898** | **32,140** | **0** | **32,140** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(7,061)** | **38,303** | **898** | **32,140** | **0** | **32,140** |

*Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

## NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côd 2024/25*:*

- SAARh 16 Prydlesi a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016.
- Dosbarthu Ymrwymiadau fel rhai Cyfredol neu Hir Dymor (Diwygiadau i SCRh 1) a gyhoeddwyd yn Ionawr 2020.
- Ymrwymiadau Prydles wrth Werthu ac Adlesu (Diwygiadau i SAARh 16) a gyhoeddwyd ym Medi 2022.
- Ymrwymiadau Hir Dymor gyda Chyfamodau (Diwygiadau i SCRh 1) a gyhoeddwyd yn Hydref 2022.
- Diwygio Treth Ryngwladol: Rheolau Model Colofn Dau (Diwygiadau i SCRh 12) a gyhoeddwyd ym Mai 2023.
- Trefniadau Cyllid Cyflenwr (Diwygiadau i SCRh 7 ac SAARh 7) a gyhoeddwyd ym Mai 2023.

Mae'n ofynnol fod y Côd yn weithredol o 1 Ebrill 2024 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2023/24. Ac eithrio SAARh 16, ni ddisgwylir y bydd yr eitemau eraill uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol 2024/25.

## NODYN 5 – BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyngor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyngor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansicrwydd economaidd yn parhau, gyda lefel uchel o chwyddiant a chyfraddau llog, tra bod effaith Covid yn parhau mewn rhai meysydd o'r Cyngor. Er hynny, mae'r Cyngor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r gwasanaeth a ddarperir yn sylweddol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbrisio, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiad yr actiwari o asedau a ymrwymiadau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

| **Eitem** | **Ansicrwydd** | **Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau** |
|---|---|---|
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol â chyfrifeg safonol ac arferion cysylltiedig. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn creu ansicrwydd ymysg cynghorau am eu gallu i gynnal y gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw. Bydd goblygiadau o hyn ar fywyd ased. Mae Tir ac Adeiladau yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd, ac ers 2015/16 cyflwynwyd rhaglen dreigl ailbrisio. Mae angen dod i farn yn aml fel rhan o'r broses asesiad ailbrisio ac amhariad. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd, a'r angen am dybiaethau ac ymateb yn briodol iddynt. | Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Lle bo angen, bydd unrhyw oblygiadau tymor hir yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth ariannol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15. |
| Darpariaethau | Mae darpariaethau yn gynwysedig yn y cyfrifon, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, gweler Nodyn 22 am y manylion, sydd yn cynnwys darpariaeth am Safleoedd Gwastraff. Nid oes modd cadarnhau cywirdeb y ddarpariaeth hyd nes bod y materion wedi diweddu. | Os yw'r darpariaethau yn annigonol, bydd y costau ychwanegol yn cael eu hariannu o refeniw neu o gronfeydd wrth gefn. |
| Ymrwymiad Pensiwn | Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.<br><br>Cafodd Brexit a Covid effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn, bellach ceir cyfraddau chwyddiant a llogau uchel, ond mae'n ymddangos bod y farchnad yn gwella ac yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai pandemig neu argyfwng byd eang arall gael effaith niweidiol ar adenillion asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno cynnydd chwyddiant o ganlyniad i'r adferiad. | Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi ei nodi yn Nodiadau 37 a 38. |
| Lwfans Colled Amhariad | Mae lefel o amhariad dyledion drwg sydd wedi ei gynnwys yn y cyfrifon yn seiliedig ar bolisi penodol. Mae lefel yr amhariad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd ac unrhyw addasiad i ymateb i'r sefyllfa yn cael ei weithredu'n briodol yn y cyfrifon. Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor falans dyledwyr tymor byr net o £121m (Nodyn 18a), ac mae'r balans hwn yn net o'r amhariad ar ddyledion drwg o £9m. | Os yw'r amhariad yn annigonol, bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ariannu o refeniw neu o gronfeydd wrth gefn. |

## NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:

- (£6m) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).
- Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net yn deillio o ailbrisio asedau sefydlog i'r Reserf Ailbrisio yn £14m (Nodyn 23.1) a chost ailbrisio a'r amhariad i'r Gwasanaethau yn £5m (Nodyn 15).
- O ganlyniad i gynlluniau'r Llywodraeth Ganolog gan gynnwys Cronfa Ffyniant Bro, derbyniwyd grantiau sylweddol yn ystod 2023/24, sydd wedi cyfrannu at y cynnydd sylweddol yn y gwariant refeniw sydd yn cael ei ariannu o gyfalaf dan statud, sydd yn £20m (Nodyn 34), tra fod yr incwm grant cysylltiedig i'w ariannu yn £17m (Nodyn 32).
- Mae gwerth dibrisiant asedau y Cyngor yn £20m (Nodyn 15).

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| 2023/24 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** | **Cyfanswm Addasiadau Statudol** | **Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 7,602 | (1,358) | 0 | **6,244** | 0 | **6,244** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 15 | 13 | 0 | **28** | 0 | **28** |
| Cyllid | 1,628 | (16) | 0 | **1,612** | 0 | **1,612** |
| Economi a Chymuned | 4,011 | (60) | 0 | **3,951** | 0 | **3,951** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 548 | 36 | 0 | **584** | (295) | **289** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 127 | 19 | 0 | **146** | 0 | **146** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd *) | 5,254 | (43) | 0 | **5,211** | 0 | **5,211** |
| Amgylchedd | 4,020 | 26 | 0 | **4,046** | 0 | **4,046** |
| Tai ac Eiddo | 4,796 | (3) | 0 | **4,793** | 0 | **4,793** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1 | (11) | 0 | **(10)** | 0 | **(10)** |
| Corfforaethol | 4 | (132) | 3,735 | **3,607** | 49 | **3,656** |
| **Cost Gwasanaethau** | **28,006** | **(1,529)** | **3,735** | **30,212** | **(246)** | **29,966** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 4 | 0 | 0 | **4** | 0 | **4** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (16,581) | (231) | (202) | **(17,014)** | 246 | **(16,768)** |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (20,629) | 0 | 0 | **(20,629)** | 0 | **(20,629)** |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(9,200)** | **(1,760)** | **3,533** | **(7,427)** | **0** | **(7,427)** |

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

| 2022/23 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** | **Cyfanswm Addasiadau Statudol** | **Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg * | 6,821 | 6,315 | 0 | **13,136** | 0 | **13,136** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 0 | 1,583 | 0 | **1,583** | 0 | **1,583** |
| Cyllid | 1,341 | 1,685 | 0 | **3,026** | 0 | **3,026** |
| Economi a Chymuned | 3,418 | 1,015 | 0 | **4,433** | 0 | **4,433** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 547 | 6,883 | 0 | **7,430** | (213) | **7,217** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd * | 69 | 2,556 | 0 | **2,625** | 0 | **2,625** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd **) *** | 4,701 | 5,812 | 0 | **10,513** | 0 | **10,513** |
| Amgylchedd *** | 4,257 | 3,069 | 0 | **7,326** | 0 | **7,326** |
| Tai ac Eiddo | 3,750 | 1,292 | 0 | **5,042** | 0 | **5,042** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1 | 296 | 0 | **297** | 0 | **297** |
| Corfforaethol | 1 | 843 | 1,042 | **1,886** | (109) | **1,777** |
| **Cost Gwasanaethau** | **24,906** | **31,349** | **1,042** | **57,297** | **(322)** | **56,975** |
| Gwariant Gweithredol Arall | (123) | 0 | 0 | **(123)** | 0 | **(123)** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (15,769) | 6,954 | (144) | **(8,959)** | 322 | **(8,637)** |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (16,075) | 0 | 0 | **(16,075)** | 0 | **(16,075)** |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(7,061)** | **38,303** | **898** | **32,140** | **0** | **32,140** |

* Mae ffigyrau 2022/23 yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu y newid i strwythur yr adrannau er mwyn galluogi cymhariaeth gyda 2023/24.

** Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

*** Mae ffigyrau 2022/23 yr Adran Amgylchedd a'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu y newid i strwythur yr adrannau er mwyn galluogi cymhariaeth gyda 2023/24.

### (i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac elw a cholledion ailbrisiad.
- **Gwariant Gweithredol Arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau â ddileuwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – mae'r costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf, h.y. darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig.
- **Treth ac Incwm Grant Amhenodol** - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano dan ymarferion cyfrifo. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i rai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle mae amodau wedi eu bodloni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei chredydu gyda grantiau cyfalaf derbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle mae'r amodau wedi eu bodloni yn y flwyddyn.

**(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau**

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyngor fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**(iii) Gwahaniaethau Eraill**

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

**(iv) Addasiadau (Anstatudol) Eraill**

- **Gwasanaethau** - mae'r lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol wedi'i ddidynnu ac wedi trosglwyddo i wariant ac incwm ariannu a buddsoddi.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – wedi'i addasu i drosglwyddo lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol o wasanaethau.

## NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyngor i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| **2023/24**<br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserfau Defnyddiadwy** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| *Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol* | | | | |
| Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau) | 1,760 | 0 | 0 | (1,760) |
| Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol) | (67) | 0 | 0 | 67 |
| Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig) | (3,515) | 0 | 0 | 3,515 |
| Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | (7,377) | 0 | 0 | 7,377 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **(9,199)** | **0** | **0** | **9,199** |
| **Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 45 | (318) | 0 | 273 |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 2,756 | 0 | 0 | (2,756) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,496 | 0 | 0 | (2,496) |
| Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | 11,329 | 0 | 0 | (11,329) |
| **Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **16,626** | **(318)** | **0** | **(16,308)** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 250 | 0 | (250) |
| Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 0 | 302 | (302) |
| Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | **0** | **250** | **302** | **(552)** |
| **CYFANSWM ADDASIADAU** | **7,427** | **(68)** | **302** | **(7,661)** |

## NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU (parhad)

| **2022/23**<br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserfau Defnyddiadwy**<br>**Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| *Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol* | | | | |
| Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau) | (38,303) | 0 | 0 | 38,303 |
| Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol) | (29) | 0 | 0 | 29 |
| Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig) | (948) | 0 | 0 | 948 |
| Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | (8,707) | 0 | 0 | 8,707 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **(47,987)** | **0** | **0** | **47,987** |
| **Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 79 | (368) | 0 | 289 |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,352 | 0 | 0 | (5,352) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,165 | 0 | 0 | (2,165) |
| Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | 8,251 | 0 | 0 | (8,251) |
| **Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **15,847** | **(368)** | **0** | **(15,479)** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 695 | 0 | (695) |
| Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 0 | 1,326 | (1,326) |
| Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | **0** | **695** | **1,326** | **(2,021)** |
| **CYFANSWM ADDASIADAU** | **(32,140)** | **327** | **1,326** | **30,487** |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

**Balansau Ysgolion**

Cynrychiolai'r swm yma'r elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac sydd yn leihad net o £3.4m o'i gymharu â'r balans ar 31 Mawrth 2023:

| 2023/24 | Balans 31 Mawrth 2023 £'000 | Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd £'000 | mewn £'000 | allan £'000 | Balans 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Balansau Ysgolion | 11,917 | (26) | 436 | (3,785) | 8,542 |
| **Cyfanswm** | **11,917** | **(26)*** | **436** | **(3,785)** | **8,542** |

* Trosglwyddiad i Reserfau Eraill a Glustnodwyd (gweler tudalen 38).

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

**Reserfau a Glustnodwyd**
Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24, gyda lleihad net o £1.7m ers sefyllfa 31 Mawrth 2023.

| | 2023/24 | Balans | Trosglwyddiadau | | | Balans |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 31 Mawrth | rhwng cronfeydd | mewn | allan | 31 Mawrth |
| Nodyn | | 2023 | | | | 2024 |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| *10.1* | Reserfau Adnewyddu | 6,242 | 0 | 2,968 | (3,535) | 5,675 |
| *10.2* | Reserf Adnewyddu Strategaeth Ddigidol Ysgolion | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 |
| *10.3* | Reserfau Cyfalaf | 28,566 | 0 | 247 | (2,349) | 26,464 |
| *10.4* | Reserfau Yswiriant | 2,047 | 0 | 929 | (1,550) | 1,426 |
| *10.5* | Cronfa Gwasanaethau | 4,439 | 386 | 608 | (1,715) | 3,718 |
| *10.6* | Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant | 668 | 0 | 16 | (255) | 429 |
| *10.7* | Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion | 3,176 | 0 | 0 | (1,075) | 2,101 |
| *10.8* | Hyfforddiant Canolog | 1,028 | 450 | 0 | (557) | 921 |
| *10.9* | Reserfau Gwasanaethau Addysg | 4,124 | 224 | 577 | (683) | 4,242 |
| *10.10* | Reserfau Economi a Chymuned | 657 | 0 | 39 | (18) | 678 |
| *10.11* | Reserfau Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 499 | (36) | 0 | (179) | 284 |
| *10.12* | Reserfau Amgylchedd | 479 | 99 | 125 | (89) | 614 |
| *10.13* | Reserfau Tai ac Eiddo | 728 | 0 | 462 | (825) | 365 |
| *10.14* | Reserfau Gofal | 1,303 | (548) | 305 | (292) | 768 |
| *10.15* | Cronfa Trawsnewid Busnes | 941 | 0 | 0 | 0 | 941 |
| *10.16* | Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon | 564 | 0 | 0 | 0 | 564 |
| *10.17* | Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor | 11,207 | 1,412 | 45 | (1,511) | 11,153 |
| *10.18* | Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo | 1,751 | 0 | 178 | (397) | 1,532 |
| *10.19* | Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai | 79 | 0 | 0 | (52) | 27 |
| *10.20* | Gwarant Amgylcheddol Tai | 480 | 0 | 0 | 0 | 480 |
| *10.21* | Reserfau Technoleg Gwybodaeth | 921 | 0 | 0 | 0 | 921 |
| *10.22* | Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol | 9,024 | (1,862) | 8,013 | (27) | 15,148 |
| *10.23* | Cronfa Maes Lles | 100 | 0 | 0 | (100) | 0 |
| *10.24* | Trefniadau Partneriaethu | 339 | (99) | 0 | (104) | 136 |
| *10.25* | Cronfa Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru | 301 | 0 | 385 | (34) | 652 |
| *10.26* | Cronfa Premiwm Treth Cyngor | 15,058 | 0 | 6,000 | (3,857) | 17,201 |
| *10.27* | Cronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid-19 | 4,949 | 0 | 0 | (4,949) | 0 |
| *10.28* | Cronfa Strategaeth Ddigidol | 852 | 0 | 0 | (66) | 786 |
| *10.29* | Cronfa Cynllun Ffyniant Gyffredin | 102 | 0 | 1,620 | 0 | 1,722 |
| *10.30* | Amrywiol Reserfau Eraill | 947 | 0 | 39 | (91) | 895 |
| | **Cyfanswm** | **103,571** | **26*** | **22,556** | **(24,310)** | **101,843** |

* Trosglwyddiad o Falansau Ysgolion (gweler tudalen 37).

Nid yw sefyllfa balans terfynol reserfau a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2024 yn adlewyrchu'r lefel o ymrwymiadau a wnaethpwyd yn eu herbyn. Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

10.1 Mae'r Reserfau Adnewyddu yn cael eu defnyddio gan adrannau amrywiol o'r Cyngor i adnewyddu cerbydau ac offer.

10.2 Reserf Adnewyddu Strategaeth Ddigidol Ysgolion ar gyfer ariannu adnewyddu offer TG ysgolion.

10.3 Mae'r Reserfau Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i gynorthwyo ariannu Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a gofynion eraill.

10.4 Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserfau Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Gyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

10.5 Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.

10.6 Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.

10.7 Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.

10.8 Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor gan gynnwys cyfraniad tuag at gyllido cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory.

10.9 Reserfau Gwasanaethau Addysg – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol cysylltiedig â gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.

10.10 Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.

10.11 Mae Reserfau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad rhai meysydd gwaith.

10.12 Reserfau Amgylchedd - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i Drafnidiaeth, cynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau cynlluniau ar wahân, ynghyd â gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol, a symiau ar gyfer sefyllfaoedd gwariant anwastad.

10.13 Reserfau Tai ac Eiddo – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib ynghyd â chronfeydd amrywiol ar gyfer anghenion tai ac eiddo'r Cyngor.

10.14 Reserfau Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.

10.15 Cronfa Trawsnewid Busnes – i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes, gwireddu arbedion a chynorthwyo cyflawni nod ac amcanion "Ffordd Gwynedd".

10.16 Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – yn ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon yn rhannol i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd â chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

10.17 Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor – ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor ac ar gyfer newid trefniadau mewnol i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol.

10.18 Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo – cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.

10.19 Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai – swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dŵr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.

10.20 Gwarant Amgylcheddol Tai – neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Adra, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud â chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai cyngor.

10.21 Reserfau Technoleg Gwybodaeth – ar gyfer ymateb i ofynion yn y maes technoleg gwybodaeth gan gynnwys cronfa adnewyddu berthnasol ac i allu ymateb i batrymau gwariant anwastad.

10.22 Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol – cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi strategaeth ariannol y Cyngor.

10.23 Cronfa Maes Lles – darpariaeth ar gyfer ymdrin â phatrymau anwastad yn y gofynion perthnasol.

10.24 Trefniadau Partneriaethu – yn cynnwys symiau a neilltuwyd mewn perthynas â gofynion gwahanol drefniadau partneriaethu a chydweithio.

10.25 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – ar gyfer gofynion ac ymrwymiadau'r cynllun hybu economaidd perthnasol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (elfen Cyngor Gwynedd yn unig).

10.26 Cronfa Premiwm Treth Cyngor – darpariaeth yn deillio o Bremiwm Treth Cyngor ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Dai.

10.27 Cronfa Trefniadau Adfer Sgil Covid-19 – darpariaeth ar gyfer adfer gwasanaethau yn sgil y pandemig.

10.28 Cronfa Strategaeth Ddigidol – Darpariaeth ar gyfer sicrhau fod anghenion digidol y Cyngor yn galluogi adrannau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i drigolion Gwynedd.

10.29 Cronfa ar gyfer llog a dderbyniwyd ar arian Cynllun Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a ddelir yng nghyfrif banc Cyngor Gwynedd ar ran rhanbarth y Gogledd.

10.30 Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymiadau eraill.

## NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Praeseptau** | |
| 17,017 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 18,714 |
| 2,654 | Cynghorau Cymuned | 2,895 |
| 19,671 | | 21,609 |
| | **Lefiau** | |
| 7,018 | Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 7,914 |
| 1,059 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 1,059 |
| 121 | Byrddau Draenio Lleol | 122 |
| 62 | Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd | 126 |
| 8,260 | | 9,221 |
| (123) | (Enillion)/colledion ar waredu a dad-gydnabod asedau anghyfredol | 4 |
| **27,808** | **Cyfanswm** | **30,834** |

## NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 5,642 | Llog taladwy a thaliadau tebyg | 5,528 |
| 6,954 | Llog net ar yr ymrwymiadau (asedau) buddion pensiwn diffiniedig net | (231) |
| (1,841) | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (3,831) |
| 332 | Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol | 234 |
| **11,087** | **Cyfanswm** | **1,700** |

## NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2022/23 £'000 | | *Nodyn* | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|
| (104,710) | Incwm Y Dreth Cyngor | *13a* | (112,148) |
| (45,519) | Trethi Annomestig | *13b* | (39,172) |
| (167,695) | Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi | *32* | (188,864) |
| (16,076) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | *32* | (20,629) |
| **(334,000)** | **Cyfanswm** | | **(360,813)** |

## NODYN 13a - TRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

**CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2023/24**

| **Band Prisio** | **Nifer Eiddo Cyfatebol yn dilyn gostyngiadau a phremiymau** | **Lluosogydd Statudol** | **Nifer cyfatebol Eiddo Band D** |
|---|---|---|---|
| A* | 9 | 5/9 | 4.72 |
| A | 8,122 | 6/9 | 5,414.88 |
| B | 14,244 | 7/9 | 11,078.30 |
| C | 11,802 | 8/9 | 10,490.54 |
| D | 10,518 | 1 | 10,517.97 |
| E | 8,259 | 11/9 | 10,094.14 |
| F | 4,243 | 13/9 | 6,129.14 |
| G | 1,390 | 15/9 | 2,316.25 |
| H | 251 | 18/9 | 502.50 |
| I | 87 | 21/9 | 201.83 |
| | | **Cyfanswm** | 56,750.27 |
| | **Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu** | | 56,182.77 |

Rhoddir dadansoddiad o'r incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:

| **2022/23 £'000** | | **2023/24 £'000** |
|---|---|---|
| (105,392) | Treth Cyngor a godwyd | (112,870) |
| 682 | **Llai** Cynnydd yn y lwfans amhariad ar gyfer diffyg casgliad | 722 |
| **(104,710)** | | **(112,148)** |

## NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r gronfa yma i awdurdodau lleol ar sail poblogaeth.

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (53.5c yn 2023/24) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24 roedd yna 9,479 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £116,280,666.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net cronedig i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| (42,248) | Trethi Annomestig a godwyd | (38,662) |
| 445 | Lwfans Costau Casglu | 482 |
| 4 | Darpariaeth Dyledion Drwg | 441 |
| 0 | Llog | 28 |
| 41,799 | Swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol | 37,711 |
| 0 | | 0 |
| (45,519) | Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol | (39,172) |
| **(45,519)** | **Incwm net o'r Trethi Annomestig** | **(39,172)** |

## NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio, ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i'r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Bu colled yn 2023/24, felly adroddir ar golled cronedig dros gyfnod o dair blynedd.

| 2023/24 | £'000 |
|---|---|
| Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ag eithrio TAW) | (329) |
| Cyfanswm gwariant | 365 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2023/24 | 36 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2022/23 | 135 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2021/22 | 68 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y tair mlynedd diwethaf** | **239** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

### Symudiadau ar Falansau Eiddo, Offer a Chyfarpar

Symudiadau yn 2023/24:

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Asedau Gweddilliol | Asedau heb eu Cwblhau | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.23 | 384,250 | 44,976 | 687 | 2,197 | 19 | 432,129 |
| Ychwanegiadau | 16,675 | 5,052 | 0 | 2 | 4,756 | 26,485 |
| Gwerthiannau | 0 | (2,120) | (253) | (28) | 0 | (2,401) |
| Trosglwyddiadau | (98) | 0 | 0 | 0 | 98 | 0 |
| Ailbrisio - i'r Reserf Ailbrisio | 4,194 | 0 | 173 | (9) | 0 | 4,358 |
| Ailbrisio - i'r Gwasanaethau | (2,659) | 0 | (223) | (30) | 0 | (2,912) |
| **Balans ar 31.03.24** | **402,362** | **47,908** | **384** | **2,132** | **4,873** | **457,659** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.23 | 1,588 | 21,418 | 10 | (1) | 0 | 23,015 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 7,508 | 5,412 | 2 | 13 | 0 | 12,935 |
| Gwerthiannau | 0 | (2,078) | 0 | 0 | 0 | (2,078) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (7,240) | 0 | (13) | (13) | 0 | (7,266) |
| **Balans ar 31.03.24** | **1,856** | **24,752** | **(1)** | **(1)** | **0** | **26,606** |
| **Amhariad** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.23 | 12,726 | 20 | 97 | 5 | 0 | 12,848 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio | 527 | 0 | 0 | 0 | 0 | 527 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 2,396 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,396 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | (94) | 0 | 0 | (94) |
| Trosglwyddiadau | (98) | 0 | 0 | 0 | 98 | 0 |
| Ailbrisio | (2,548) | 0 | (2) | (5) | 0 | (2,555) |
| **Balans ar 31.03.24** | **13,003** | **20** | **1** | **0** | **98** | **13,122** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2024** | **387,503** | **23,136** | **384** | **2,133** | **4,775** | **417,931** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2023** | **369,936** | **23,538** | **580** | **2,193** | **19** | **396,266** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Symudiadau Cymharol yn 2022/23:

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Asedau Gweddilliol | Asedau heb eu Cwblhau | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.22 | 353,238 | 40,654 | 687 | 2,261 | 19 | 396,859 |
| Ychwanegiadau | 11,840 | 6,107 | 0 | 26 | 0 | 17,973 |
| Gwerthiannau | (166) | (1,785) | 0 | 0 | 0 | (1,951) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | (47) | 0 | (47) |
| Ailbrisio - i'r Reserf Ailbrisio | 20,946 | 0 | 0 | (44) | 0 | 20,902 |
| Ailbrisio - i'r Gwasanaethau | (1,608) | 0 | 0 | 1 | 0 | (1,607) |
| **Balans ar 31.03.23** | **384,250** | **44,976** | **687** | **2,197** | **19** | **432,129** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.22 | 1,897 | 18,147 | 8 | (1) | 0 | 20,051 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 6,805 | 5,056 | 2 | 12 | 0 | 11,875 |
| Gwerthiannau | 0 | (1,785) | 0 | 0 | 0 | (1,785) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (7,114) | 0 | 0 | (12) | 0 | (7,126) |
| **Balans ar 31.03.23** | **1,588** | **21,418** | **10** | **(1)** | **0** | **23,015** |
| **Amhariad** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.22 | 11,196 | 20 | 97 | 5 | 0 | 11,318 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio | 383 | 0 | 0 | 0 | 0 | 383 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 2,196 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,196 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (1,049) | 0 | 0 | 0 | 0 | (1,049) |
| **Balans ar 31.03.23** | **12,726** | **20** | **97** | **5** | **0** | **12,848** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2023** | **369,936** | **23,538** | **580** | **2,193** | **19** | **396,266** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2022** | **340,145** | **22,487** | **582** | **2,257** | **19** | **365,490** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Reolwr Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn unol â'r polisïau a nodwyd yn rhan 1.17 o Nodyn 1 o'r Polisïau Cyfrifo ac eiddo an-weithredol (gweddilliol) yn unol â 1.15. Noder fod y Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisio gwahanol gategorïau o'r asedau yma yn flynyddol.

Gweler nodyn 1.17 hefyd ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol gategorïau o asedau.

Defnyddir 11 ysgol sydd o dan lywodraethiant eglwysig gan yr Adran Addysg, gyda 9 o'r adeiladau heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Mae Ysgolion Cae Top, Bangor a Phont y Gof, Botwnnog yn cael eu hystyried ar hyn o bryd fel asedau'r Cyngor yn y cyfrifon oherwydd nid yw teitlau'r eiddo (gweithredoedd) wedi eu trosglwyddo yn ffurfiol i'r Eglwys. Mae'n fwriad cynnal trafodaethau efo'r Eglwys yng Nghymru er mwyn gwireddu hynny ac o ganlyniad gall triniaeth yr asedion yn y cyfrifon newid yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif.

**Isadeiladwaith**

Yn unol â'r Rhyddhad Dros Dro a roddwyd yn y Côd ar asedau isadeiladwaith nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgeliad o gost gros a dibrisiad cronedig i asedau isadeiladwaith oherwydd golyga ymarferion adrodd hanesyddol a'r diffygion yn y wybodaeth o ganlyniad na fyddai hynny'n cynrychioli'n ffyddlon sefyllfa'r ased i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Dewisodd y Cyngor i beidio datgelu'r wybodaeth oherwydd bod ymarferion adrodd blaenorol a'r diffygion yn y wybodaeth o ganlyniad yn golygu nad yw'r gost gros a'r dibrisiad cronedig wedi ei fesur yn fanwl gywir ac ni fyddai'n darparu sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol gymryd penderfyniadau economeg ac eraill yn ymwneud ag asedau isadeiladwaith.

Mae asedau isadeiladwaith yn cael eu dangos ar y fantolen ar gost hanesyddol a ddibriswyd. Gwnaethpwyd ychwanegiadau yn y flwyddyn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu)(Cymru)(Diwygio) 2022 mae gwerth unrhyw gydran o'r asedau Isadeiladwaith a ddisodlwyd wedi ei drin fel dim ac felly mae'r gwerth dadgydnabod yn ddim.

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Gwerth Net ar 1af Ebrill** | **168,610** | **176,746** |
| Ychwanegiadau | 14,411 | 10,852 |
| Dadgydnabod | 0 | 0 |
| Dibrisiant | (6,275) | (6,635) |
| **Gwerth Net ar 31 Mawrth** | **176,746** | **180,963** |

**Gwerth Net Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar**

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| **Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar** | £'000 | £'000 |
| Isadeiladwaith | 176,746 | 180,963 |
| Asedau EOCh Eraill | 396,266 | 417,931 |
| **Cyfanswm Net ar 31 Mawrth** | **573,012** | **598,894** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

### Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymiadau o sylwedd ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

| | Swm | Taliadau hyd yma | Balans |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cae Chwarae Pob Tywydd – Plas Silyn | 579 | 269 | 310 |
| Ysgol Treferthyr, Cricieth | 6,724 | 4,708 | 2,016 |
| Cynllun Atal Llifogydd Hirael | 4,448 | 4,164 | 284 |

## NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 7 | 7 |
| Enillion/(colledion) net | **7** | **7** |

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Cyngor i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl y Cyngor i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan y Cyngor unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na'i wella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 1 Ebrill** | **165** | **165** |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| Elw/(colled) net o addasiadau gwerth teg | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau: | | |
| (i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar | 0 | 0 |
| **Balans 31 Mawrth** | **165** | **165** |

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL

### (i) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

### Ymrwymiadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a all gynrychioli dyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymiadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymiadau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeilliadol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- Trefniant Consesiwn Gwasanaeth (cytundebau Menter Cyllid Preifat (MPC)) a fanylir yn Nodyn 41
- gorddrafft gyda Banc Barclays ccc
- prydlesau cyllidol a fanylir yn Nodyn 35
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

### Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall, neu hawl i gyfnewid asedau ac ymrwymiadau ariannol gyda endid arall sydd yn ffafriol i'r Cyngor. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo o fewn y tri dosbarth a ganlyn:

Cost wedi'i amorteiddio (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny) yn cynnwys:

- arian parod
- cyfrifon banc a chyfrifon adnau
- adneuon cyfnod penodol gyda Llywodraeth y DU, banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- benthyciadau i gwmnïoedd bach
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny yn ogystal â gwerthu'r offeryn; a buddsoddiadau ecwiti mae'r Cyngor wedi eu rhoi'n y categori hwn) yn cynnwys:

- bond cyfun, ecwiti a chronfeydd eiddo a ddelir fel buddsoddiadau strategol

Gwerth teg trwy elw a cholled (asedau ariannol eraill) yn cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd arian

Dangosir asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio yn net o lwfans colled sydd yn adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol na fydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn gallu cyflawni ei ymrwymiadau cytundebol i'r Cyngor.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (ii) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymiadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| **Ymrwymiadau Ariannol** | **Tymor Hir** | | **Tymor Byr** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2023** | **31 Mawrth 2024** | **31 Mawrth 2023** | **31 Mawrth 2024** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| *Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm a fenthycwyd | 99,595 | 94,006 | 2,451 | 5,589 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 456 | 444 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **99,595** | **94,006** | **2,907** | **6,033** |
| *Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Gorddrafft banc | 0 | 0 | 16,886 | 8,591 |
| **Cyfanswm Arian a Ordynnwyd** | **0** | **0** | **16,886** | **8,591** |
| *Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prydlesau cyllidol | 997 | 793 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Tymor Hir** | **997** | **793** | **0** | **0** |
| *Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Dyledion masnachol | 0 | 0 | 27,876 | 48,118 |
| Prydlesau cyllidol | 0 | 0 | 192 | 204 |
| **Cynhwyswyd o fewn Credydwyr *** | **0** | **0** | **28,068** | **48,322** |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **100,592** | **94,799** | **47,861** | **62,946** |

* Mae llinell credydwyr tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £129,546,000 (2022/23: £106,969,000) o gredydwyr (Nodyn 21) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymiad ariannol.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| Asedau Ariannol | Tymor Hir | | Tymor Byr | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 17 | 17 | 81,000 | 85,000 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 208 | 984 |
| Lwfans colled | 0 | 0 | (12) | (2) |
| *Ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall:* | | | | |
| Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy ICA | 0 | 0 | 8,655 | 11,586 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **17** | **17** | **89,851** | **97,568** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 0 | 0 | 2,035 | 921 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 11 | 18 |
| Lwfans colled | 0 | 0 | (1) | 0 |
| *Ar werth teg drwy elw a cholled:* | | | | |
| Gwerth teg | 0 | 0 | 60,835 | 43,000 |
| **Cyfanswm Arian a Chywerthoedd Arian** | **0** | **0** | **62,880** | **43,939** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Derbyniadau Masnachol | 4,335 | 5,930 | 19,648 | 21,531 |
| **Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr *** | **4,335** | **5,930** | **19,648** | **21,531** |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **4,352** | **5,947** | **172,379** | **163,038** |

* Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £99,670,000 (2022/23: £66,229,000) o ddyledwyr (Nodyn 18) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol.

### Benthyciadau Meddal Materol

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthycwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol holl dderbyniadau arian y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Mae Côd Ymarfer 2023/24 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2023/24 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am daliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.24 £3,134,453, 31.03.23 £2,002,934)
- Benthyciadau Ceir a Beiciau i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.24 £992,361, 31.03.23 £817,204)

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Mae'r Cyngor wedi dewis i gyfrifo am y buddsoddiadau canlynol mewn offerynnau ecwiti ar sail gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall oherwydd eu bod yn fuddsoddiad strategol tymor hir gyda'r newidiadau yn eu gwerth teg ddim yn cael ei gynnwys fel rhan o berfformiad ariannol blynyddol y Cyngor.

| | Gwerth Teg | | Difidendau | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | 2022/23 | 2023/24 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| CCLA LAMIT Property Fund | 4,326 | 4,157 | 188 | 215 |
| Ninety One Diversified Income Fund | 1,119 | 1,114 | 47 | 52 |
| Schroder Income Maximiser Fund | 2,109 | 3,144 | 159 | 195 |
| Aegon Diversified Monthly Income Fund | 1,101 | 1,161 | 64 | 78 |
| Payden Absolute Return Bond Fund | 0 | 2,010 | 0 | 68 |
| **CYFANSWM** | **8,655** | **11,586** | **458** | **608** |

### Gwrthbwyso Asedau ac Ymrwymiadau Ariannol

Mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ble mae gan y Cyngor hawl gorfodol cyfreithiol i wrthbwyso ac yn bwriadu setlo ar sail net, neu i wireddu'r asedau a setlo'r ymrwymiadau yn gydamserol. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ar Y Fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol eraill oedd yn destun i drefniant gorfodol neu drefniant tebyg.

| | 31 Mawrth 2023 | | | 31 Mawrth 2024 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau gros (ymrwymiadau) | (Ymrwymiadau) asedau wedi eu gwrthbwyso | Sefyllfa net Y Fantolen | Asedau gros (ymrwymiadau) | (Ymrwymiadau) asedau wedi eu gwrthbwyso | Sefyllfa net Y Fantolen |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfrifon banc mewn credyd | 131,644 | (131,644) | 0 | 55,542 | (55,542) | 0 |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **131,644** | **(131,644)** | **0** | **55,542** | **(55,542)** | **0** |
| Gorddrafft banc | (148,530) | 131,644 | (16,886) | (64,133) | 55,542 | (8,591) |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Ariannol** | **(148,530)** | **131,644** | **(16,886)** | **(64,133)** | **55,542** | **(8,591)** |

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (iii) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| | Ymrwymiadau Ariannol | Asedau Ariannol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cost wedi'i Amorteiddio | Cost wedi'i Amorteiddio | Wedi ethol Gwerth Teg drwy ICA | Gwerth Teg drwy Elw a Cholled | 2023/24 Cyfanswm | 2022/23 Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau llog | 5,528 | 0 | 0 | 0 | 5,528 | 5,642 |
| **Llog taladwy a ffioedd tebyg** | **5,528** | **0** | **0** | **0** | **5,528** | **5,642** |
| Incwm llog | 0 | (2,210) | 0 | 0 | (2,210) | (832) |
| Incwm difidendau | 0 | 0 | (608) | (1,013) | (1,621) | (1,009) |
| **Incwm y llog a'r buddsoddiad** | **0** | **(2,210)** | **(608)** | **(1,013)** | **(3,831)** | **(1,841)** |
| Lwfans colled | 0 | 234 | 0 | 0 | 234 | 332 |
| **Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol** | **0** | **234** | **0** | **0** | **234** | **332** |
| **Effaith net ar (Gwarged)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **5,528** | **(1,976)** | **(608)** | **(1,013)** | **1,931** | **4,133** |
| Enillion wrth ailbrisio | 0 | 0 | (105) | 0 | (105) | 0 |
| Colledion wrth ailbrisio | 0 | 0 | 174 | 0 | 174 | 1,190 |
| **Effaith ar incwm cynhwysfawr arall** | **0** | **0** | **69** | **0** | **69** | **1,190** |
| **(Enillion)/colledion net y flwyddyn** | **5,528** | **(1,976)** | **(539)** | **(1,013)** | **2,000** | **5,323** |

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (iv) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Gwerth teg offeryn ariannol yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased, neu'r pris a fyddai'n cael ei dalu wrth drosglwyddo ymrwymiad, i gyfranogwr arall yn y farchnad mewn trafodyn hyd braich. Pan fydd ymrwymiadau'n cael eu dal fel ased gan barti arall, fel benthyca'r cyngor, amcangyfrifir y gwerth teg o safbwynt y deilydd.

Mae offerynnau ariannol, ar wahân i'r rhai gyda chost wedi ei amorteiddio, wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y mwyafrif o asedion, yn cynnwys cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian, mae'r gwerth teg yn deillio o bris y farchnad.

Mae offerynnau ariannol gyda chost wedi ei amorteiddio wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail cost wedi'i amorteiddio. Amcangyfrifir eu gwerth teg trwy gyfrifo'r gwerth net presennol o'r llifau arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2024, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau'r Cyngor wedi eu prisio trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol dros fywyd yr offeryn ar gyfradd y farchnad sydd yn addas i fenthyciadau awdurdodau lleol.
- Mae gwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi eu disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb yn weddill ar 31 Mawrth.
- Mae gwerth teg gwarantau ariannol wedi eu amcanu yn seiliedig ar y tebygolrwydd y caiff y gwarantau eu galw a'r taliadau tebygol.
- Mae gwerth teg asedau ac ymrwymiadau prydlesau cyllidol ac ymrwymiadau Menter Cyllid Preifat (PFI) wedi eu cyfrifo trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol (ag eithrio'r elfen tâl am wasanaeth) ar gynnyrch priodol bondiau corfforaethol o radd AA.
- Ni chydnabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau ar gyfer offerynnau ariannol.
- Rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion a derbyniadau masnachol, yn cyfateb yn agos i'r swm cario, o ystyried y sefyllfa llog isel sydd ohoni.

Dengys y gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi eu rhannu yn unol â'u lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – gwerth teg sydd yn deillio o brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ymrwymiadau yr un fath, e.e. prisiau bondiau
- Lefel 2 – gwerth teg sydd wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar fewnbynnau yn hytrach na prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer yr ased neu ymrwymiad, e.e. cyfraddau llog neu gynnyrch am offerynnau tebyg
- Lefel 3 – gwerth teg sydd wedi'i bennu trwy ddefnyddio mewnbynnau na ellir eu harsylwi, e.e. data nad yw'n y farchnad fel rhagolwg llif arian neu amcan teilyngdod credyd

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| | Lefel Gwerth Teg | Mantolen 31 Mawrth 2023 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2023 £'000 | Mantolen 31 Mawrth 2024 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Ymrwymiadau Ariannol ar gost wedi'i amorteiddio* | | | | | |
| Benthyciadau gan PWLB | 2 | (84,639) | (92,940) | (82,449) | (91,256) |
| Benthyciadau arall | 2 | (17,863) | (16,117) | (17,590) | (16,048) |
| Prydlesau cyllidol | 2 | (1,189) | (1,230) | (997) | (1,038) |
| **CYFANSWM** | | **(103,691)** | **(110,287)** | **(101,036)** | **(108,342)** |
| Ymrwymiadau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos * | | (44,762) | | (56,709) | |
| **CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | **(148,453)** | | **(157,745)** | |
| *Wedi ei gofnodi ar y Fantolen fel:* | | | | | |
| Credydwyr tymor byr | | (27,876) | | (48,118) | |
| Benthyciadau tymor byr | | (2,907) | | (6,033) | |
| Arian a Ordynnwyd tymor byr | | (16,886) | | (8,591) | |
| Prydlesau cyllidol tymor byr | | (192) | | (204) | |
| Benthyciadau tymor hir | | (99,595) | | (94,006) | |
| Prydlesau cyllidol tymor hir | | (997) | | (793) | |
| **CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | **(148,453)** | | **(157,745)** | |

* Rhagdybir bod gwerth teg ymrwymiadau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys dyledion masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

Mae gwerth teg benthyciadau gan y PWLB yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen. Mae benthyciadau eraill yn is na'r swm cario ar y Fantolen gan fod y llog taladwy yn is na'r cyfraddau cyfredol sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar dyddiad y Fantolen.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| | Lefel Gwerth Teg | Mantolen 31 Mawrth 2023 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2023 £'000 | Mantolen 31 Mawrth 2024 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Gwerth teg offerynnau ariannol:* | | | | | |
| Cronfeydd marchnadoedd arian | 1 | 60,835 | 60,835 | 43,000 | 43,000 |
| Cronfeydd bondidau, ecwiti ac amrywiol | 1 | 4,329 | 4,329 | 7,429 | 7,429 |
| Cronfeydd eiddo | 2 | 4,326 | 4,326 | 4,157 | 4,157 |
| *Asedau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | | |
| Stoc trysorlys | 1 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| **CYFANSWM** | | **69,507** | **69,507** | **54,603** | **54,603** |
| Asedau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos * | | 107,224 | | 114,382 | |
| **CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL** | | **176,731** | | **168,985** | |
| *Wedi ei gofnodi ar y mantolen fel:* | | | | | |
| Dyledwyr tymor hir | | 4,335 | | 5,930 | |
| Buddsoddiadau tymor hir | | 17 | | 17 | |
| Dyledwyr tymor byr | | 19,648 | | 21,531 | |
| Buddsoddiadau tymor byr | | 89,851 | | 97,568 | |
| Arian a chywerthoedd arian | | 62,880 | | 43,939 | |
| **CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL** | | **176,731** | | **168,985** | |

* Rhagdybir bod gwerth teg asedau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys derbyniadau masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Côd Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys CIPFA â'r Côd Darbodus Ariannu Cyfalaf Awdurdodau Lleol, y ddau wedi eu diwygio Rhagfyr 2021.

Yn unol â'r Côd Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys, sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y gyfradd adennill uchaf posib sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau cytundebol, gan beri colled i'r Cyngor.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

**Risg Credyd: Buddsoddiadau**

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygdalu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygdalu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Yn ystod 2023/24 gosodwyd uchafswm o £5m o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (heblaw llywodraeth y DU). Defnyddiwyd terfyn o £10m ar gyfer awdurdodau lleol, buddsoddiadau â sicrwydd, cronfeydd marchnad arian, cronfeydd cyfun strategol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £40m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Ceir crynodeb yn y tabl isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

| | Tymor Byr | |
|---|---|---|
| **Cyfradd Credyd** | **31 Mawrth 2023 £'000** | **31 Mawrth 2024 £'000** |
| AAA (Cronfeydd Marchnad Arian) | 60,835 | 43,000 |
| AA+ | 0 | 0 |
| AA | 0 | 0 |
| AA- | 0 | 0 |
| A+ | 10,000 | 910 |
| A | 19,005 | 5,000 |
| A- | 0 | 0 |
| Llywodraeth y DU | 34,000 | 0 |
| Awdurdodau lleol | 20,000 | 80,000 |
| **Cyfanswm (Prifswm)** | **143,840** | **128,910** |
| Cronfeydd wedi'u cyfuno * | 8,655 | 11,586 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **152,495** | **140,496** |

* Nid yw risg credyd yn berthnasol i gyfranddaliad a chronfeydd wedi'u cyfuno lle nad oes gan y Cyngor hawl gytundebol i gael unrhyw swm o arian.

Mae lwfansau colled ar fuddsoddiadau'r trysorlys ac arian a chywerthoedd arian wedi eu cyfrifo trwy gyfeirio at ddata rhagosodiad hanesyddol gyhoeddwyd gan asiantaethau statws credyd, wedi ei luosi gyda 86% (2022/23: 112%) i ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol ac i'r dyfodol. Rhagdybir y bydd oediad o ddwy flynedd yn y llifau arian mewn achos o ddiffygdalu. Mae buddsoddiadau wedi dioddef cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac wedi eu israddio gan dri neu mwy o nodlau statws credyd, neu gyfatebol, ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, onibai eu bod yn dal sgôr credyd gradd buddsoddi. Ystyrir hwy â nam ar eu credyd os wedi eu dyfarnu â sgôr credyd "D" neu gyfatebol. Ar 31 Mawrth 2024, roedd £2,008 (£13,845 ar 31 Mawrth 2023) o lwfansau colled yn perthyn i fuddsoddiadau'r trysorlys.

Yn ogystal â buddsoddiadau'r trysorlys sydd eisoes wedi'i gwneud, mae'r Cyngor yn agored i'r risg o golled ar gyfleuster credyd cylchdröol cymdeithas tai nas defnyddiwyd o £5m (statws credyd A). Ar 31 Mawrth 2024, y lwfans colled oedd £1,159.

**Risg Credyd: Derbyniadau Masnachol**

Mae proffil oedran y balans masnachol yn ein system dyledwyr ar 31 Mawrth wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:-

| **31 Mawrth 2023** | | **31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 9,123 | Llai na blwyddyn | 8,879 |
| 2,424 | Dros flwyddyn | 2,743 |
| **11,547** | | **11,622** |

Mae profiad hanesyddol o ddiffyg talu ac amodau economaidd presennol ac a ragwelir wedi eu hystyried wrth gyfrifo'r lwfans colled amhariad.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

**Risg Credyd: Benthyciadau, Gwarantau Ariannol ac Ymrwymiadau Benthyciadau**

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg credyd sydd yn gynhenid yn eu benthyciadau i bwrpas gwasanaeth, gwarantau ariannol ac ymrwymiadau benthyciadau, yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi sydd wedi ei chyhoeddi.

**Risg Hylifedd**

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymiadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn dal £43.9m (2022/23: £62.8m) o asedau ariannol hylifol y gellir eu tynnu'n ôl neu eu gwerthu ar fyr rybudd os oes angen i gwrdd ag all-lifau arian parod ar ymrwymiadau ariannol.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o ymrwymiadau ariannol fel a ganlyn, wedi'i ddangos fel ffigurau sydd wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig hyd yn hyn) a heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â thaliadau llog yn y dyfodol);

| Amser tan aeddfedrwydd (blynyddoedd) | Wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig) 31 Mawrth 2023 £'000 | Heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â llog yn y dyfodol) 31 Mawrth 2023 £'000 | Wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig) 31 Mawrth 2024 £'000 | Heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â llog yn y dyfodol) 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 2,949 | 7,947 | 6,048 | 10,877 |
| Dros 1 ond dim dros 2 | 1,167 | 6,455 | 4,018 | 8,995 |
| Dros 2 ond dim dros 5 | 14,128 | 28,473 | 5,836 | 19,728 |
| Dros 5 ond dim dros 10 | 6,125 | 28,155 | 25,136 | 46,496 |
| Dros 10 ond dim dros 20 | 34,595 | 65,376 | 15,464 | 45,002 |
| Dros 20 ond dim dros 40 | 27,352 | 68,216 | 27,352 | 66,289 |
| Dros 40 | 16,200 | 26,797 | 16,200 | 26,113 |
| **Total** | **102,516** | **231,419** | **100,054** | **223,500** |

**Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog**

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymiadau benthyca yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau ar gost wedi ei amorteiddio na benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i'w gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog eu hadlewyrchu yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall neu yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, fel sy'n briodol.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau'r risgiau yma drwy osod terfyn uchaf o effaith refeniw 12 mis o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog.

Petai'r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch (gyda'r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

| | **31 Mawrth 2023 £'000** | **31 Mawrth 2024 £'000** |
|---|---|---|
| Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol | (631) | (444) |
| Gostyngiad yng ngwerth teg y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy Elw a Cholled | 57 | 57 |
| **Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(574)** | **(387)** |
| Gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy ICA | 39 | 52 |
| **Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall** | **39** | **52** |
| Gostyngiad yng ngwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau ar gost wedi'i amorteiddio * | 126 | 123 |
| Gostyngiad yng ngwerth teg benthyca cyfradd sefydlog * | (11,307) | (10,999) |

* Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

**Risg y Farchnad : Risg Pris**

Mae prisiau marchnad buddsoddiadau'r Cyngor mewn bondiau cyfradd sefydlog a'i unedau mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg marchnad sy'n gysylltiedig â'r offerynnau hyn ar y cyd â'r risg cyfraddau llog.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfa eiddo cyfun yn ddarostyngedig i risg o gwymp mewn prisiau eiddo masnachol. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau eiddo wedi'u pwlio o £50m. Canlyniad cwymp o 5% ym mhrisiau eiddo masnachol ar 31 Mawrth 2024 fyddai cost o £0.18m (£0.21m ar 31 Mawrth 2023) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfeydd ecwiti cyfun yn ddarostyngedig i'r risg o ostwng prisiau cyfranddaliadau. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau ecwiti wedi'u pwlio o £50m. Canlyniad cwymp o 5% ym mhrisiau cyfranddaliadau ar 31 Mawrth 2024 fyddai cost o £0.19m (£0.13m ar 31 Mawrth 2023) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

**Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw'n agored i golledion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

## NODYN 18a – DYLEDWYR TYMOR BYR

| 31 Mawrth 2023 | | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 17,925 | Symiau dyledus masnach | 19,667 |
| 2,993 | Blaendaliadau | 5,235 |
| 64,960 | Symiau dyledus eraill | 96,299 |
| **85,878** | **Cyfanswm** | **121,201** |

Mae ffigyrau'r dyledwyr uchod yn net o golledion amhariad.

## NODYN 18b - DYLEDWYR TRETH CYNGOR

Gellir dadansoddi Treth Cyngor dyledus sydd heb ei amharu yn ôl oedran fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2023 | | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 4,320 | Llai na blwyddyn | 4,826 |
| 2,151 | Dros flwyddyn | 3,809 |
| **6,471** | **Cyfanswm** | **8,635** |

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos y balansau hynny lle mae asesiad wedi dangos drwy eithriad nad oes angen unrhyw amhariad.

## NODYN 19 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Arian mewn Llaw | 12 | 7 |
| Cyfrifon Banc Cyfredol | 18 | 4 |
| Cyfrifon Galw | 62,850 | 43,928 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | **62,880** | **43,939** |
| Gorddrafft Banc | (16,886) | (8,591) |
| **Cyfanswm** | **45,994** | **35,348** |

Er mwyn uchafu'r adenillion o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuon banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn ei gyfrifon banc ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), Cyd-bwyllgor GwE a Chronfa Bensiwn Gwynedd. Oherwydd y ffaith fod y buddsoddiadau tymor byr a'r adneuon banc yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen gyda chredydwr cyfatebol ar 31 Mawrth 2024 o £58.9m i'r BUEGC (£57m ar 31 Mawrth 2023), £2.1m i'r Cyd-bwyllgor GwE (£2.6m ar 31 Mawrth 2023) a £31.2m i Gronfa Bensiwn Gwynedd (£18.3m ar 31 Mawrth 2023).

## NODYN 20 – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

| | 2022/23<br>£'000 | 2023/24<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| **Balans 1 Ebrill** | **0** | **47** |
| Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu: | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 47 | 0 |
| Gwariant yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| Colledion Ailbrisio | 0 | 0 |
| Colledion Amharu | 0 | 0 |
| Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu: | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 0 | 0 |
| Asedau wedi eu gwerthu | 0 | (47) |
| **Balans 31 Mawrth** | **47** | **0** |

## NODYN 21 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2023<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Symiau taladwy masnach | 27,876 | 48,322 |
| Symiau taladwy eraill | 106,969 | 129,546 |
| **Cyfanswm** | **134,845** | **177,868** |

## NODYN 22 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

| | Balans ar 31 Mawrth 2023<br>£'000 | (Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad<br>£'000 | Defnydd yn y flwyddyn<br>£'000 | Balans ar 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Darpariaethau Tymor Byr** | | | | |
| Darpariaeth Safleoedd Gwastraff | (362) | (283) | 300 | (345) |
| Ymrwymiadau Benthyciadau | 0 | (1) | 0 | (1) |
| | **(362)** | **(284)** | **300** | **(346)** |
| **Darpariaethau Tymor Hir** | | | | |
| Darpariaeth Safleoedd Gwastraff | (7,928) | 293 | 0 | (7,635) |
| Darpariaeth Hawliadau Yswiriant | (872) | 144 | 0 | (728) |
| Darpariaeth Cyflogau | (311) | (29) | 0 | (340) |
| | **(9,111)** | **408** | **0** | **(8,703)** |
| **Cyfanswm** | **(9,473)** | **124** | **300** | **(9,049)** |

**Darpariaeth Safleoedd Gwastraff** – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofalaeth holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

**Darpariaeth Hawliadau Yswiriant** – i gwrdd â setliadau hawliadau yswiriant posibl.

**Darpariaeth Cyflogau** – yn unol â'r gofynion perthnasol.

**Ymrwymiadau Benthyciadau** – adnabod lwfans colled cyfleuster credyd cylchdröol nas defnyddiwyd.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2023 £'000 | | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| 167,073 | Reserf Ailbrisio | 177,504 |
| 235,399 | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 248,102 |
| (1,345) | Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol | (1,414) |
| (558) | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (625) |
| 4,482 | Reserf Pensiynau | 0 |
| (5,752) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (9,267) |
| **399,299** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **414,300** |

### 23.1 Reserf Ailbrisio

Mae'r Reserf Ailbrisio yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli;
- Defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant; neu
- Gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Dim ond enillion ailbrisio sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **141,054** | **Balans 1 Ebrill** | **167,073** |
| 33,015 | Ailbrisio asedau i fyny | 25,641 |
| (4,321) | Ailbrisio asedau i lawr a cholledion amharu | (11,989) |
| **28,694** | **Gwarged/(diffyg) wrth ailbrisio asedau** | **13,652** |
| | | |
| (2,509) | Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol | (3,146) |
| (166) | Elw cronedig ar asedau a werthwyd | (75) |
| **(2,675)** | **Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf** | **(3,221)** |
| **167,073** | **Balans 31 Mawrth** | **177,504** |

### 23.2 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbrisio i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan y Cyngor fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhodd sydd heb eu treulio eto gan y Cyngor.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crêwyd y Reserf Ailbrisio i gofnodi enillion o'r fath.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **223,932** | **Balans 1 Ebrill** | **235,399** |
| | Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | |
| (21,953) | Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | (24,878) |
| (6,001) | Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (19,923) |
| 0 | Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu | (201) |
| 2,509 | Trosglwyddo o'r Reserf Ailbrisio Cyfalaf | 3,146 |
| | Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn: | |
| 695 | Derbyniadau Cyfalaf | 250 |
| 20,449 | Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf | 37,729 |
| 5,352 | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 2,755 |
| 8,251 | Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol | 11,329 |
| 2,165 | Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,496 |
| **235,399** | **Balans 31 Mawrth** | **248,102** |

### 23.3 Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol

Mae'r Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau gaiff ei mesur ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei golli.
- Gwerthu a'r elw yn cael ei wireddu.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **(155)** | **Balans 1 Ebrill** | **(1,345)** |
| (1,190) | Addasiadau Gwerth Teg | (69) |
| 0 | Ailbrisio buddsoddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gweddill/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau i lawr | 0 |
| **(1,345)** | **Balans 31 Mawrth** | **(1,414)** |

### 23.4 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Côd Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiddymu benthyciadau ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw bremiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p'run bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p'run bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol fel a ganlyn:

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **(529)** | **Balans 1 Ebrill** | **(558)** |
| 60 | Cyfran o bremiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gymwysiedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol | 61 |
| (89) | Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal | (128) |
| **(558)** | **Balans 31 Mawrth** | **(625)** |

### 23.5 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi eu neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd gael eu hariannu fel y mae'r Cyngor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt, gydag anghenion ariannu wedi eu neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd £000** | **BUEGC* £000** | **Cyfanswm £000** | | **Gwynedd £000** | **BUEGC* £000** | **Cyfanswm £000** |
| **(242,047)** | **(118)** | **(242,165)** | **Balans 1 Ebrill** | **4,482** | **0** | **4,482** |
| 284,906 | 44 | **284,950** | Ailfesuriad o'r (ymrwymiadau) / asedau buddion pensiwn diffiniedig net | (6,238) | (5) | **(6,243)** |
| (64,682) | 50 | **(64,632)** | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (25,610) | (18) | **(25,628)** |
| 26,305 | 24 | **26,329** | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 27,366 | 23 | **27,389** |
| **4,482** | **0** | **4,482** | **Balans 31 Mawrth** | **0** | **0** | **0** |

* Mae cyfran Cyngor Gwynedd o 12.5% o reserf pensiynau y BUEGC wedi gynnwys yn y cyfrifon.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

### 23.6 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cydadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| **(4,805)** | **Balans 1 Ebrill** | **(5,752)** |
| (947) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (3,515) |
| **(5,752)** | **Balans 31 Mawrth** | **(9,267)*** |

** £4k yn berthnasol i cyfran Gwynedd o'r BUEGC (£4k yn 2022/23).*

## NODYN 24a – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| (18,150) | Dibrisiant | (19,570) |
| (3,803) | Amhariad ac ailbrisio i lawr | (5,308) |
| (50,793) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (42,370) |
| (20,951) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 36,099 |
| (607) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc | (97) |
| (38,303) | Ymrwymiad pensiwn | 1,760 |
| (166) | Gwerth i'w gario ar asedau anghyfredol sydd wedi eu gwerthu neu dad-gydnabod | (276) |
| (747) | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | (3,054) |
| **(133,520)** | | **(32,816)** |

## NODYN 24b – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| (12) | Prynu buddsoddiadau tymor byr a tymor hir | 12 |
| 290 | Derbyniad o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 273 |
| **278** | | **285** |

## NODYN 24c – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| (2,393) | Difidendau a Llog a dderbyniwyd | (5,673) |
| 5,667 | Llog a dalwyd | 5,539 |

## NODYN 25 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 31,730 | Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 35,860 |
| 521,046 | Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir | 825,325 |
| 324 | Taliadau/derbyniadau eraill am weithgareddau Buddsoddi | 1,595 |
| (368) | Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (319) |
| (510,044) | Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir | (818,325) |
| **42,688** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **44,136** |

## NODYN 26a – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 181 | Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â Phrydlesau Cyllidol | 192 |
| 1,360 | Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir | 1,173 |
| **1,541** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **1,365** |

## NODYN 26b – DATGANIAD LLIF ARIAN – CYSONIAD YMRWYMIADAU YN DEILLIO O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

| | 31 Mawrth 2023 | Ariannu llif arian | Eitemau anariannol | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyciadau tymor hir | (99,595) | 5,589 | 0 | (94,006) |
| Benthyciadau tymor byr | (2,907) | (4,416) | 1,290 | (6,033) |
| Ymrwymiadau MCP ar y fantolen | (1,189) | 192 | 0 | (997) |
| **Cyfanswm ymrwymiadau yn deillio o weithgareddau cyllido** | **(103,691)** | **1,365** | **1,290** | **(101,036)** |

## NODYN 27 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyngor wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| 2022/23 £'000 | Gwariant / Incwm | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Gwariant** | |
| 250,752 | Gwariant buddion gweithwyr | 236,255 |
| 218,529 | Gwariant arall Gwasanaethau | 252,076 |
| 609 | Ad-daliadau cefnogaeth ganolog | 560 |
| 27,955 | Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad | 44,805 |
| 12,928 | Taliadau llog | 5,774 |
| 27,931 | Praeseptau a Lefiau | 30,830 |
| 0 | Colledion ar waredu asedau | 4 |
| **538,704** | **Cyfanswm Gwariant** | **570,304** |
| | **Incwm** | |
| (63,185) | Ffioedd ac incwm arall gwasanaethau | (71,247) |
| (1,841) | Incwm llog a buddsoddi | (4,074) |
| (150,229) | Incwm o'r dreth cyngor a trethi annomestig | (151,320) |
| (283,939) | Grantiau a chyfraniadau llywodraeth | (345,987) |
| (123) | (Enillion) ar waredu asedau | 0 |
| **(499,317)** | **Cyfanswm Incwm** | **(572,628)** |
| **39,387** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(2,324)** |

## NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i sawl cynllun ar ran Llywodraeth Cymru:

- Troi Tai'n Gartrefi – balans cau £195k (£258k yn 2022/23).
- Troi Tai'n Gartrefi 2 – balans cau £465k (£465k yn 2022/23).
- Benthyciadau i Wireddu Gwelliannau – balans cau £615k (£615k yn 2022/23).
- Cronfa Cefnogi Canol Tref Caernarfon – balans cau £615k (£591k yn 2022/23).
- Cronfa Canol Tref Caernarfon a Bangor – balans cau £633k (£619k yn 2022/23).
- Cronfa Canol Tref Bangor a Bethesda – balans cau £500k (£500k yn 2022/23).
- Cynllun Trawsnewid Trefi – balans cau -£187k (£77k yn 2022/23).
- Cronfa Adfywio Trefi Gwynedd – balans cau £348k (£371k yn 2022/23).

Mae'r Cyngor yn gweinyddu un prif grant addysg ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith yn cynnwys derbyn y grantiau a'u dosbarthu i Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a GwE. Roedd cyfanswm y grant a dderbyniwyd ar gyfer 2023/24 fel â ganlyn:

- Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol - £35.3m (£37.2m yn 2022/23).

Mae'r Cyngor hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Y prif weithgaredd yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ardal Partneriaeth Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n ymestyn i 1,080 cilomedr. Cyfanswm y trafodion incwm a gafodd eu hadennill yn ystod 2023/24 oedd £92.9m (£71.3m yn 2022/23).

## NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH (parhad)

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cyngor Gwynedd wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer o grantiau a chefnogaeth ariannol, yn ystod 2023/24 bu i'r Cyngor weinyddu y canlynol:

- Grant Gostyngiad Cyfradd Trethi Annomestig Cenedlaethol - taliadau o £4.8m wedi eu gwneud gan y Cyngor (£5.5m yn 2022/23); (£1.6m) yn ddyledus i Lywodraeth Cymru.
- Cynllun Cyllid Amgen y Cynllun Cymorth Biliau Ynni – taliadau o £114k wedi eu gwneud gan y Cyngor (dim yn 2022/23).
- Taliad Tanwydd Amgen – taliadau o £96k wedi eu gwneud gan y Cyngor (dim yn 2022/23).

Yn ystod 2023/24 mae Cyngor Gwynedd wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru, ar gyfer cynlluniau lletya ffoaduriaid Wcráin gan gynnwys:

- Taliadau Lletya Ffoaduriaid Wcráin – taliadau o £287k wedi eu gwneud gan y Cyngor (£216k yn 2022/23).
- Taliadau Arian Parod Cynllun Wcráin – taliadau o £8k wedi eu gwneud gan y Cyngor (£65k yn 2022/23).

## NODYN 29 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 1,414 | Lwfansau | 1,507 |
| 19 | Treuliau | 23 |
| **1,433** | | **1,530** |

## NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION

**30a.** Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

| | 2022/23 | | Uwch Swyddogion | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr** | **Cyfanswm** | | **Cyflogau** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr** | **Cyfanswm** |
| **£** | **£** | **£** | | **£** | **£** | **£** |
| 115,348 | 23,531 | 138,879 | Prif Weithredwr | 121,595 | 23,033 | 144,628 |
| 64,893 | 13,238 | 78,132 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 103,347 | 19,843 | 123,190 |
| 48,670 | 9,929 | 58,599 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 103,347 | 19,843 | 123,190 |
| 103,064 | 21,025 | 124,089 | Pennaeth Addysg [1] | 78,879 | 9,476 | 88,356 |
| 0 | 0 | 0 | Pennaeth Addysg [2] | 22,383 | 4,298 | 26,681 |
| 80,252 | 16,371 | 96,624 | Pennaeth Cyllid | 85,819 | 16,477 | 102,296 |
| 79,965 | 16,290 | 96,255 | Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 88,627 | 16,995 | 105,622 |
| 81,253 | 16,576 | 97,829 | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant | 88,072 | 16,910 | 104,982 |
| 81,253 | 16,576 | 97,829 | Pennaeth Economi a Chymuned | 88,072 | 16,910 | 104,982 |
| 81,253 | 15,611 | 96,864 | Pennaeth Plant a Theuluoedd | 88,072 | 16,078 | 104,150 |
| 81,253 | 16,576 | 97,829 | Pennaeth Amgylchedd | 88,072 | 16,910 | 104,982 |
| 29,329 | 5,983 | 35,312 | Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol | 81,709 | 15,688 | 97,397 |
| 76,116 | 15,505 | 91,621 | Pennaeth Tai ac Eiddo | 83,968 | 16,122 | 100,090 |
| 73,101 | 14,913 | 88,014 | Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol | 79,443 | 14,527 | 93,970 |

1. Deilydd yn y swydd hyd at 29 Medi 2023.
2. Deilydd yn y swydd ers 1 Ionawr 2024.

## NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

**30b.** Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i'r Cyngor gyfrifo cymhareb tâl. Cymhareb tâl y Prif Weithredwr i'r tâl canolrif o holl weithwyr y Cyngor ar gyfer 2023/24 yw 5.09:1 (5.25:1 yn 2022/23).

**30c.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn pump achos yn 2023/24 (dim achosion yn 2022/23). Ni fyddai pedair o'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn unigol.

**Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:**

| Nifer yn 2022/23 | | | | Nifer yn 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Eraill** | **Cyfanswm** | | **Ysgolion** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| 44 | 14 | 58 | £60,000 - 64,999 | 60 | 19 | 79 |
| 18 | 14 | 32 | £65,000 - 69,999 | 30 | 22 | 52 |
| 14 | 1 | 15 | £70,000 - 74,999 | 13 | 4 | 17 |
| 5 | 2 | 7 | £75,000 - 79,999 | 11 | 2 | 13 |
| 3 | 1 | 4 | £80,000 - 84,999 | 6 | 2 | 8 |
| 1 | 1 | 2 | £85,000 - 89,999 | 2 | 0 | 2 |
| 1 | 0 | 1 | £90,000 - 94,999 | 2 | 0 | 2 |
| 0 | 0 | 0 | £95,000 - 99,999 | 2 | 0 | 2 |
| 1 | 0 | 1 | £100,000 - 104,999 | 1 | 0 | 1 |
| 0 | 0 | 0 | £105,000 - 109,999 | 1 | 0 | 1 |
| 0 | 0 | 0 | £110,000 - 114,999 | 0 | 0 | 0 |
| 1 | 0 | 1 | £115,000 – 119,999 | 1 | 0 | 1 |

Mae gweithiwr o ysgol wirfoddol dan gymorth wedi ei gynnwys yn y band £60,000 - £64,999 uchod.

## NODYN 31 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyngor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol:

| **2022/23** | | **2023/24** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 216 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 230 |
| 103 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliadau statudol | 107 |
| 41 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn | 45 |
| **360** | | **382** |
| (1) | **Llai:** Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Chyfrifon y Cyd-bwyllgorau a'r Harbyrau | (1) |
| 0 | Addasiad ffioedd archwiliadau blynyddoedd blaenorol | (1) |
| **359** | **Ffioedd Net Cyngor Gwynedd** | **380** |

## NODYN 32 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | Nodyn | | 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol** | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi) | 13 | | 167,695 | | 188,864 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth - | | | | | |
| Ysgolion 21ain Ganrif | | 5,549 | | 6,991 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,807 | | 4,172 | |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol | | 2,920 | | 2,888 | |
| Arall | | 3,317 | | 4,178 | |
| | 13 | | 14,593 | | 18,229 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall | 13 | | 1,483 | | 2,400 |
| **Cyfanswm** | | | **183,771** | | **209,493** |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | | |
| Llywodraeth Cymru - | | | | | |
| Grantiau Gwella ac Amddifadedd (Addysg) | | 8,036 | | 7,245 | |
| Grant Cynnig Gofal Plant | | 7,612 | | 2,858 | |
| Grantiau Addysg Awdurdod Lleol | | 6,727 | | 8,327 | |
| Grant Cefnogi Tai | | 6,428 | | 7,148 | |
| Grant Plant a Chymunedau | | 4,764 | | 4,771 | |
| Grant Ôl 16 (Addysg) | | 4,439 | | 4,449 | |
| Grant Rhaglen ARFOR * | | 10 | | 3,656 | |
| Grantiau Cyfalaf | | 2,736 | | 2,317 | |
| Grant Pwysau Gweithlu a Chynaliadwyedd Gofal Cymdeithasol | | 1,732 | | 1,722 | |
| Grant Cronfa Trafnidiaeth Leol * | | 461 | | 1,263 | |
| Grant Tocynnau Teithio Rhad | | 1,108 | | 1,213 | |
| Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy | | 1,002 | | 999 | |
| Cronfa Caledi Covid-19 | | 1,274 | | 0 | |
| Arall * | | 8,035 | | 7,808 | |
| | | | 54,364 | | 53,776 |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | | |
| Adran Gwaith a Phensiynau | | 22,241 | | 22,285 | |
| Cronfa Ffyniant Bro * | | 2,094 | | 39,320 | |
| Arall * | | 22,952 | | 23,512 | |
| | | | 47,287 | | 85,117 |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | | 6,400 | | 6,570 |
| **Cyfanswm** | | | **108,051** | | **145,463** |

** Mae ffigyrau 2022/23 wedi eu hail-gategoreiddio i alluogi cymhariaeth gyda 2023/24.*

## NODYN 32 – INCWM GRANT (parhad)

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| **Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw** | **31 Mawrth 2023 £'000** | **31 Mawrth 2024 £'000** |
|---|---|---|
| **Tymor Hir** | | |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf** | | |
| Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 644 | 498 |
| Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 778 | 807 |
| Bargen Twf Gogledd Cymru | 5,401 | 3,625 |
| | 6,823 | 4,930 |
| **Cyfanswm Tymor Hir** | **6,823** | **4,930** |
| **Tymor Byr** | | |
| **Grantiau a Chyfraniadau Refeniw** | | |
| Grantiau Economi a Chymuned | 9,737 | 20,233 |
| Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 1 | 0 |
| Grantiau Oedolion, Iechyd a Llesiant | 557 | 0 |
| Grantiau Tai | 341 | 1,405 |
| Grantiau Addysg | 1 | 2 |
| Grantiau Plant a Chefnogi Teuluoedd | 126 | 150 |
| Grantiau Eraill | 0 | 306 |
| | 10,763 | 22,096 |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf** | | |
| Bargen Twf Gogledd Cymru | 1,425 | 2,990 |
| Arall | 5,706 | 351 |
| | 7,131 | 3,341 |
| **Cyfanswm Tymor Byr** | **17,894** | **25,437** |
| **Cyfanswm** | **24,717** | **30,367** |

## NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyngor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddogion gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghôd ymarfer CIPFA.

**Llywodraeth Cymru a Chanolog**
Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan y Cyngor o fewn partïon eraill (e.e. treth cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 27 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 32.

**Aelodau**
Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2023/24 yn Nodyn 29.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2023/24 a'r balansau ar 31 Mawrth 2024 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|
| 37,198 | 4,868 | (17,556) | (6,558) |

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2023/24 a'r balansau ar 31 Mawrth 2024 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|
| 3,002 | 154 | (740) | (505) |

**Swyddogion**
Mae Uwch Swyddogion (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas (fel a ddiffinnir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2023/24 a'r balansau ar 31 Mawrth 2024 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|
| 19,661 | 981 | (8,496) | (3,086) |

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**
Mae'r Cyngor yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 38.

Mae gan y Cyngor drefniant cyllideb gyfun gyda holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cael ei letya gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'r trafodion a'r balansau perthnasol yn cael eu manylu yn Nodyn 42 o'r cyfrifon.

## NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

### Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2022, ac roedd hyn yn sgil i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 greu fframwaith i gael trefn gyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol. Mae dyletswyddau CBC y Gogledd yn cynnwys cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol a gall hefyd gynnwys lles economaidd. Mae'r CBC yn cynnwys chwech cyngor cyfansoddol sef Cyngor Bwrdeistrefol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn aelod o'r CBC mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau cynllunio strategol. Mae'r taliadau i'r CBC yn ystod 2023/24 a'r balansau ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|
| 126 | 13 | (42) | (42) |

### Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 |

### Is-Gwmni

Sefydlwyd Cwmni Byw'n Iach Cyf ar y 27 Fehefin 2018 i ddarparu gwasanaeth hamdden i drigolion Gwynedd. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, gyda Cyngor Gwynedd yn unig berchennog ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau rheoli i'r cwmni Hamdden ar y 1af o Ebrill 2019 gyda chontract gwasanaeth ar waith sy'n nodi'r union wasanaethau a chanlyniadau y mae'n ofynnol i'r cwmni eu cyflawni am eu ffi. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cynnwys 7 cyfarwyddwr sy'n aelodau etholedig Cyngor Gwynedd. Mae'r taliadau i Gwmni Byw'n Iach Cyf ar gyfer gwasanaethau Hamdden yn ystod 2023/24 a'r balansau ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Incwm a dderbyniwyd (yn cynnwys dyledwyr) £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|
| 1,960 | 0 | (513) | (92) |

## NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyngor, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyngor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

| **31 Mawrth 2023 £'000** | | **31 Mawrth 2024 £'000** |
|---|---|---|
| 573,284 | Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu | 599,119 |
| (167,073) | Reserf Ailbrisio | (177,504) |
| (235,399) | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (248,102) |
| **170,812** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **173,513** |

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

| **2022/23 £'000** | | **2023/24 £'000** |
|---|---|---|
| **169,339** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill** | **170,812** |
| 11,840 | Tir ac Adeiladau | 16,675 |
| 14,411 | Is adeiladwaith | 10,852 |
| 6,107 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | 5,052 |
| 26 | Asedau Gweddilliol | 2 |
| 0 | Asedau heb eu cwblhau | 4,756 |
| 6,001 | Wedi'u hariannu o gyfalaf drwy statud | 19,923 |
| (695) | Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd | (250) |
| (20,449) | Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (37,729) |
| (8,251) | Gwariant cyfalaf yn erbyn refeniw | (11,329) |
| (5,352) | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | (2,755) |
| | Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd: | |
| (2,165) | Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | (2,496) |
| **170,812** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth** | **173,513** |

## NODYN 35 – PRYDLESAU

### Y Cyngor fel Prydlesai

### Prydlesau Cyllidol

Mae gan y Cyngor eiddo drwy brydlesau cyllidol sydd yn cael eu dangos fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Cynhwysir yma Drefniant Consesiwn Gwasanaeth GwyriAD (Nodyn 41) gyda'r gwerth net canlynol:

| 31 Mawrth 2023 £'000 | | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| 2,245 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | 2,190 |
| **2,245** | | **2,190** |

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan y Cyngor a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan y Cyngor yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r lleiafswm taliadau prydles fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2023 £'000 | | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| | **Ymrwymiadau Prydles Gyllidol** | |
| | (gwerth presennol net o'r lleiafswm taliadau prydles): | |
| 192 | Cyfredol | 204 |
| 997 | Ddim yn gyfredol | 793 |
| **1,189** | Lleiafswm taliadau prydles | **997** |

Mae'r gweddill o'r ased a ddangosir uchod wedi ei gyllido drwy gredyd gohiriedig (gweler Nodyn 41).

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

| | Lleiafswm Taliadau Prydles | | Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
| Dim mwy na blwyddyn | 192 | 204 | 192 | 204 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 893 | 793 | 893 | 793 |
| Mwy na pum mlynedd | 104 | 0 | 104 | 0 |
| | **1,189** | **997** | **1,189** | **997** |

Yn 2023/24, gwnaethpwyd lleiafswm taliadau prydles o £191,794 (£180,656 yn 2022/23) gan y Cyngor mewn perthynas â'r asedau hynny a ddelir fel prydlesau cyllidol.

## NODYN 35 – PRYDLESAU (parhad)

### Prydlesau Gweithredol

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na blwyddyn | 297 | 441 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 143 | 445 |
| Mwy na pum mlynedd | 133 | 295 |
| | **573** | **1,181** |

Y gwariant a godwyd ar y gwasanaethau o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r prydlesau yma oedd:

| | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| Lleiafswm taliadau prydles | 573 | 583 |
| | **573** | **583** |

### Y Cyngor fel Prydleswr

### Prydlesau Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu eiddo ar brydles gyllidol, gan gynnwys:

- Yr Academi Hwylio ym Mhwllheli,
- Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu.

Mae'r prydlesau yma ar sail rhent enwol ac am gyfnod sydd yn cyfateb i fywyd economaidd yr asedau. Nid oes premiwm wedi ei dderbyn ar gyfer y prydlesau yma.

### Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo o dan brydlesau gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau Cymuned,
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na blwyddyn | 367 | 555 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 657 | 1,002 |
| Mwy na pum mlynedd | 4,041 | 4,818 |
| | **5,065** | **6,375** |

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymryd lle ar ôl i'r brydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2023/24 £1,033,783 oedd y lleiafswm taliadau prydles derbyniwyd gan y Cyngor (£955,502 yn 2022/23).

## NODYN 36 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae’r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae’r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i’r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i’r unigolion. Yn unol â’r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymiadau perthnasol i’r Cyngor fel a wybyddir ar 31 o Fawrth 2024. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i’r Cyngor, ble’n briodol.

| Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig) | Nifer diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill | | Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost | | Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £ | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 |
| | | | | | | | £'000 | £'000 |
| **0 - 20,000** | 5 | 17 | 3 | 7 | **8** | **24** | 44 | 161 |
| **20,001 - 40,000** | 0 | 1 | 2 | 8 | **2** | **9** | 61 | 283 |
| **40,001 - 60,000** | 0 | 0 | 0 | 2 | **0** | **2** | 0 | 99 |
| **60,001 - 80,000** | 1 | 1 | 0 | 0 | **1** | **1** | 74 | 66 |
| **80,001 – 100,000** | 0 | 0 | 1 | 0 | **1** | **0** | 85 | 0 |
| **100,001 – 150,000** | 1 | 0 | 0 | 2 | **1** | **2** | 117 | 240 |
| **Addasiad i amcangyfrif y flwyddyn flaenorol** | | | | | | | (21) | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **19** | **6** | **19** | **13** | **38** | **360** | **849** |

## NODYN 37 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor yn aelodau o’r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw’r cynllun. Er hynny, mae’r cynllun heb ei ariannu ac mae’r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i’w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw’r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o’r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o’r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2023/24 talodd y Cyngor £12.42m (£11.73m yn 2022/23) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 23.84% (22.92% yn 2022/23) o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau’r cynllun athrawon. Yn 2023/24 roedd hyn yn £1.13m (£0.93m yn 2022/23), ac yn cynrychioli 2.17% (1.81% yn 2022/23) o dâl pensiynadwy athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a’u cynhwysir yn Nodyn 38.

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyngor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir. Cyfran Cyngor Gwynedd o gyfanswm y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2023/24 oedd 36% (36% yn 2022/23).

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y prif risgiau i'r Cyngor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir ac Ymrwymiad Net | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2024** | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **Effaith addasiadau'r nenfwd asedau** | **(Ymrwymiad-au) / Asedau net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 976,244 | 0 | 0 | 976,244 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (822,438) | 0 | (822,438) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | (18,052) | 0 | (18,052) |
| Effaith y nenfwd asedau | 0 | 0 | (131,272) | (131,272) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **976,244** | **(840,490)** | **(131,272)** | **4,482** |
| Cost gwasanaeth - | | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol [1] | 0 | (25,614) | 0 | (25,614) |
| Cost gwasanaeth y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | (228) | 0 | (228) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(25,842)** | **0** | **(25,842)** |
| Llog Net - | | | | |
| Incwm llog ar asedau'r cynllun | 46,494 | 0 | 0 | 46,494 |
| Cost llog ar fuddion a ddiffinir ymrwymiad | 0 | (40,028) | 0 | (40,028) |
| Llog ar effaith y nenfwd asedau | 0 | 0 | (6,235) | (6,235) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **46,494** | **(40,028)** | **(6,235)** | **231** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **46,494** | **(65,870)** | **(6,235)** | **(25,611)** |
| Llif Arian - | | | | |
| Cyfraniadau aelodau'r cynllun | 8,157 | (8,157) | 0 | 0 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 24,969 | 0 | 0 | 24,969 |
| Buddion a dalwyd | (27,918) | 27,918 | 0 | 0 |
| Buddion heb eu hariannu a dalwyd | (1,637) | 1,637 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau buddion heb eu hariannu a dalwyd | 1,637 | 0 | 0 | 1,637 |
| **Sefyllfa Cau a Ddisgwylir** | **1,027,946** | **(884,962)** | **(137,507)** | **5,477** |
| Ailfesuriadau - | | | | |
| Newid mewn tybiaethau ariannol | 0 | 54,434 | 0 | 54,434 |
| Newid mewn tybiaethau demograffig | 0 | 5,037 | 0 | 5,037 |
| Profiad arall [2] | 0 | (25,314) | 0 | (25,314) |
| Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net | 59,068 | 0 | 0 | 59,068 |
| Newid mewn effaith nenfwd asedau | 0 | 0 | 137,507 | 137,507 |
| **Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **59,068** | **34,157** | **137,507** | **230,732** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 1,087,014 | 0 | 0 | 1,087,014 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (833,557) | 0 | (833,557) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu [3] | 0 | (17,248) | 0 | (17,248) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth [4]** | **1,087,014** | **(850,805)** | **0** | **236,209** |

1 Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddiaeth 0.6% cyflogau.
2 Mae'r profiad arall ar rwymedigaethau yn cynnwys lwfans o £25,029,000 ar gyfer effaith gorchymyn cynyddu pensiwn Ebrill 2024
3 Mae'r ymrwymiadau heb eu cyllido yn cynnwys tua £6,401,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido y CPLIL a £10,847,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido Athrawon.
4 Mae'n cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud â gweithwyr Byw'n Iach ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru sydd o dan gyfrifoldeb y cyngor.

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| **Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir ac Ymrwymiad Net** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2023** | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **(Ymrwymiadau) / Asedau net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 985,907 | 0 | 985,907 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (1,206,012) | (1,206,012) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | (21,942) | (21,942) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **985,907** | **(1,227,954)** | **(242,047)** |
| Cost Gwasanaeth - | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol [1] | 0 | (57,340) | (57,340) |
| Cost gwasanaeth y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | (390) | (390) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(57,730)** | **(57,730)** |
| Llog Net - | | | |
| Incwm llog ar asedau'r cynllun | 26,726 | 0 | 26,726 |
| Cost llog ar fuddion a ddiffinir ymrwymiad | 0 | (33,678) | (33,678) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **26,726** | **(33,678)** | **(6,952)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **26,726** | **(91,408)** | **(64,682)** |
| Llif Arian - | | | |
| Cyfraniadau aelodau'r cynllun | 7,470 | (7,470) | 0 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 24,700 | 0 | 24,700 |
| Amcangyfrif cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu | 0 | 0 | 0 |
| Buddion a dalwyd | (22,872) | 22,872 | 0 |
| Buddion heb eu hariannu a dalwyd | (1,571) | 1,571 | 0 |
| Cyfraniadau buddion heb eu hariannu a dalwyd | 1,571 | 0 | 1,571 |
| **Sefyllfa Cau a Ddisgwylir** | **1,021,931** | **(1,302,389)** | **(280,458)** |
| Ailfesuriadau - | | | |
| Newid mewn tybiaethau demograffig | 0 | 36,220 | 36,220 |
| Newid mewn tybiaethau ariannol | 0 | 502,848 | 502,848 |
| Profiadau eraill [2] | (10,033) | (77,169) | (87,202) |
| Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net | (35,654) | 0 | (35,654) |
| **Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **(45,687)** | **461,899** | **416,212** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 976,244 | 0 | 976,244 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (822,438) | (822,438) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu [3] | 0 | (18,052) | (18,052) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth [4]** | **976,244** | **(840,490)** | **135,754** |

1 Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddiaeth 0.5% cyflogau.

2 Mae'r profiadau eraill ar ymrwymiadau yn cynnwys lwfans ar gyfer y gorchymyn cynnydd pensiwn a gymhwyswyd i'r ymrwymiadau a ariennir ym mis Ebrill 2023 sy'n wahanol i'r rhagdybiaeth cynnydd pensiwn a fabwysiadwyd yn Atodlen canlyniadau'r Cyflogwr ar ddechrau'r cyfnod. O fewn yr eitem profiadau eraill hon, mae'r rhwymedigaethau a gyllidir wedi cynyddu £64,541,000 o ganlyniad i'r ffaith bod y gorchymyn cynyddu pensiwn yn wahanol i'r dybiaeth flaenorol.

3 Mae'r ymrwymiadau heb eu cyllido yn cynnwys tua £6,757,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido y CPLIL a £11,295,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido Athrawon.

4 Mae'n cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud â gweithwyr Byw'n Iach ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru sydd o dan gyfrifoldeb y cyngor.

### Asedau ac ymrwymiadau pensiwn a adnabyddir yn y Fantolen

Mae'r swm a gynhwysir yn y fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr awdurdod mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2023** | **31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 976,244 | 1,087,014 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau | (840,490) | (850,805) |
| **Isgyfanswm** | 135,754 | 236,209 |
| Effaith SCRh 19/ PDAARh 14 | (131,272) | (236,209) |
| **Ased/ (Ymrwymiad) Net yn deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir** | **4,482** | **0** |

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae prisiad actiwaraidd ymrwymiadau cynllun pensiwn a reserf pensiynau'r Cyngor a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd ased neu ymrwymiad net o ddim. Penderfynodd Actiwari'r Cyngor, Hymans Robertson LLP, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y cyngor yn fwy na gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun ar 31 Mawrth 2024 gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae PDAARh 14 a buddion gweithwyr SCRh 19 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur fel yr isaf o'r:

- Gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a'r
- Nenfwd asedau, sydd wedi'i gyfyngu i £0

Y nenfwd asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau yng nghyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd actiwari'r Cyngor y nenfwd asedau fel y gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r nenfwd asedau a gyfrifwyd ar gyfer 2023/24 yn arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth yn y dyfodol, felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i ddim. Mae'r Cyngor yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r prisiad actiwaraidd hwn.

### Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £3.05bn ar 31 Mawrth 2024, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh19.

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | | | Ar 31 Mawrth 2024 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori Ased** | **Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000** | **Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000** | **Cyfanswm £'000** | **%** | **Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000** | **Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000** | **Cyfanswm £'000** | **%** |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 61,460 | 61,460 | 6 | 0 | 56,520 | 56,520 | 5 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo'r DU | 0 | 80,458 | 80,458 | 8 | 0 | 75,708 | 75,708 | 7 |
| Eiddo Tramor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 0 | 607,742 | 607,742 | 62 | 0 | 604,921 | 604,921 | 56 |
| Bondiau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 27,717 | 27,717 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 195,820 | 195,820 | 20 | 0 | 309,044 | 309,044 | 28 |
| **Deilliadau** | | | | | | | | |
| Chwyddiant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 26,811 | 26,811 | 3 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 3,047 | 0 | 3,047 | 1 | 0 | 14,010 | 14,010 | 1 |
| **Cyfanswm** | **3,047** | **973,197** | **976,244** | **100** | **0** | **1,087,014** | **1,087,014** | **100** |

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2022, gyda phwysiad o 25% o ddata 2022, pwysiad o 0% o ddata 2021 (a 2020), llyfnu safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer gwrywod a benywod.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Cynnydd Pensiynau | 2.95 | 2.75 |
| Cyfradd Cynnydd Cyflogau | 3.45 | 3.25 |
| Cyfradd Chwyddiant | 2.95 | 2.75 |
| Cyfradd Ddisgownt | 4.75 | 4.85 |
| Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau | 4.75 | 4.85 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 65 | 65 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 65 | 65 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 20.8 | 20.7 |
| Merched | 23.8 | 23.6 |
| Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 21.9 | 21.7 |
| Merched | 25.5 | 25.3 |

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi

cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2024 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyngor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

| Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymiad Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2024 %** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2024 £'000** |
| 0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 2 | 17,153 |
| Cynnydd o 1 blwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4 | 34,032 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd cynnydd cyflog | 0 | 2,286 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd cynnydd pensiwn | 2 | 15,168 |

**Effaith ar Lif Arian y Cyngor**

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel gyllido o 100% dros y 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyngor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad bob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2024 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod y cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyngor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2022, dyddiedig 28 Mawrth 2023.

**Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir**

| | Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2024 £'000 | % |
|---|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 414,007 | 50 |
| Aelodau Gohiriedig | 124,324 | 15 |
| Aelodau Pensiynwyr | 295,226 | 35 |
| **Cyfanswm** | **833,557** | **100** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2022. Yn unol â'r sefyllfa ar ddyddiad y prisiad yma - cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yn 2023/24 yw 20 mlynedd.

**Effaith ar y Blynyddoedd i ddod**

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor fod yn £24.838m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2025.

Gan fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru, gwnaed addasiad o £761,058 yn 2023/24 (£34,331 yn 2022/23) i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2024 (cyn unrhyw addasiad nenfwd ased). Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

## NODYN 39 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyngor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â dau ymrwymiad dibynnol penodol:

- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi y Cyngor - mae'r ddarpariaeth sydd yn gynwysedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost derfynol yn wahanol i'r amcangyfrif cyfredol o gostau'r dyfodol.

- Mae'r Cyngor yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-Awdurdodau, sef Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (MMI) ar 30 Medi 1992.

  Gwnaeth MMI gynllun o drefniant gyda'i gredydwyr, ble, os oedd cyllid MMI yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992/93. Ar 13 Tachwedd 2012, daeth cyfarwyddwyr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd i'r perwyl hwn i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn derfynol. Talwyd ardoll gwreiddiol o 15% o'r taliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn ystod 2013/14, a talwyd 10% pellach yn 2016/17.

  Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun, bydd modd codi ardoll pellach os na fydd y lefi gwreiddiol yma yn ddigonol ar gyfer ymrwymiadau MMI yn y tymor hwy. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y byddai'n ddarbodus i gynnal cronfa yn y disgwyliad y bydd yr ardoll gwreiddiol yn annigonol. Uchafswm cyfredol yr ymrwymiad i'r Cyngor hwn yn seiliedig ar y ffigyrau cyhoeddedig diweddaraf oedd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw £1.3m.

## NODYN 40 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 176 o gymroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion, a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor. Mae gan y gronfa fwyaf, y Gronfa Degwm, gyfriflyfr cyfrifo sy'n hollol ar wahân, tra bo'r Cyngor yn dal eiddo 175 o'r cymynroddion hyn ond nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ddefnydd y cronfeydd. Ymhob achos, nid yw'r cronfeydd yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Cyfanswm balans y 175 o gymynroddion nad ydynt yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 oedd £1,738,131 (£1,634,434 ar 31 Mawrth 2023). Buddsoddir y cronfeydd yn llawn er mwyn creu incwm.

Manylir ar y cymynroddion mwyaf, Y Gronfa Degwm ac Ymddiriedolaeth FMG Morgan, yn atodiadau A a B i'r cyfrifon hyn.

## NODYN 41 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae GwyriAD yn gynllun Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel cynllun 'Menter Cyllid Preifat' (MCP). Dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladu yn 2012/13 a daeth y gwaith yn weithredol ym Medi 2013. Mae'n safle ar gyfer trin gwastraff bwyd sydd wedi ei ddidoli yn y tarddle gan breswylwyr a busnesau Gwynedd (yn bennaf) trwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Mae hyn yn gymorth i'r Cyngor gyrraedd ei dargedau ailgylchu, a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Bioddiraddadwy am gyfnod o 15 mlynedd.

Mae'r asedau sy'n cael eu darparu i gyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor. Gwerth yr asedau perthnasol ar 31 Mawrth 2024 oedd £2.2m (£2.2m ar 31 Mawrth 2023). Mae'r Cyngor yn gwneud taliad cytunedig (ffi giât) bob blwyddyn yn seiliedig ar isafswm o dunelli sy'n cael ei gynyddu yn flynyddol gan chwyddiant ac sy'n gallu cael ei ostwng os yw'r contractwr yn methu â chyrraedd safonau argaeledd a pherfformiad mewn unrhyw flwyddyn. Mae gan y Cyngor yr hawl i gynyddu swm y tunelli dros y 7,500 tunnell cytunedig hyd at 11,000 tunnell, a bydd yn talu ffi giât ostyngol am unrhyw beth dros 7,500 tunnell.

| | **Taliad am Wasanaethau** | **Ad-daliad Gwariant Cyfalaf** | **Llog** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Talwyd yn 2023/24 | 498 | 192 | 73 | 763 |
| Taladwy yn 2024/25 | 498 | 204 | 61 | 763 |
| Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | 1,700 | 793 | 113 | 2,606 |
| **Cyfanswm** | **2,696** | **1,189** | **247** | **4,132** |

Er bod y taliadau sy'n cael eu gwneud i'r contractwr yn cael eu disgrifio fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrifo er digolledu'r contractwr am werth teg y gwasanaeth a gyflenwir, y gwariant cyfalaf a'r llog oedd yn daladwy.

Mae'r contractwr yn derbyn incwm o ynni sy'n cael ei gynhyrchu o'r gwastraff sydd wedi eu galluogi i gadw'r taliad unedol i'r Cyngor yn isel. Os yw'r incwm yn uwch na'r hyn sydd yn y cytundeb, mae trefniant iddo gael ei rannu rhwng y contractwr a Chyngor Gwynedd.

Mae'r ymrwymiadau sy'n ddyledus i'r contractwr am y gwariant cyfalaf sydd wedi ei wneud fel a ganlyn:

| | **2023/24** | |
|---|---|---|
| | **Ymrwymiadau Prydlesau** | **Incwm Gohiriedig** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans yn sefyll 1 Ebrill 2023 | (1,189) | (790) |
| Ad-daliad o brifswm yn ystod y flwyddyn | 192 | 0 |
| Rhyddhad o incwm gohiriedig | 0 | 146 |
| **Balans yn sefyll ar 31 Mawrth 2024** | **(997)** | **(644)** |

Gellir terfynu'r cytundeb gan un o'r ddwy ochr ar unrhyw adeg ar sail diffygion, yn amodol ar roi rhybudd yn unol â'r cytundeb. Yn ogystal, gall y Cyngor derfynu'r cytundeb yn unochrog yn unol â'r amodau ynddo. Byddai costau iawndal ynghlwm ag unrhyw drefniant terfynu. Ar ddiwedd y cytundeb, mae gan y Cyngor hawl i ail-dendro am gontractwr i ddarparu'r gwasanaeth.

## NODYN 42 – CYLLIDEB CYFUN

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllidebau cyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn. Daeth y trefniant i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod lletya yn ystod cyfnod cychwynnol y cytundeb.

Mae trafodion y Cyngor wedi'u cynnwys o dan Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer y trefniant cyllideb gyfun hwn wedi'u cynnwys yn y tabl isod:

| | **Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn** | |
|---|---|---|
| **2022/23** | | **2023/24** |
| **£'000** | | **£'000** |
| | **Gwariant** | |
| 111,032 | Costau Cartrefi Gofal | 126,922 |
| **111,032** | **Cyfanswm Gwariant** | **126,922** |
| | | |
| | **Arian a gyfrannir** | |
| (10,236) | Cyngor Sir Ddinbych | (11,914) |
| (15,864) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (18,182) |
| (10,556) | Cyngor Sir y Fflint | (13,578) |
| (14,434) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (14,957) |
| (11,214) | Cyngor Gwynedd | (12,044) |
| (5,708) | Cyngor Sir Ynys Môn | (7,214) |
| (43,020) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | (49,033) |
| **(111,032)** | **Cyfanswm Arian a gyfrannir** | **(126,922)** |
| **0** | **(Gwared) / Diffyg a drosglwyddir i'r gronfa wrth gefn** | **0** |

## NODYN 43 – GWEITHREDIADAU AR Y CYD A CHYD-BWYLLGORAU

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o weithrediadau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2023/24, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o dri chyd-bwyllgor a dau gweithrediad ar y cyd, sef cyd-weithio mewn meysydd penodol rhwng awdurdodau lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y tri chyd-bwyllgor perthnasol i Wynedd yn ystod 2023/24 yw:

- GwE
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC)

Y ddau gweithrediad ar y cyd sy'n berthnasol i Wynedd yn ystod 2023/24 yw:

- Cynllun Argyfwng Bysus (yn ymwneud â'r argyfwng Covid-19)
- Gogledd Cymru Actif

Mae cyfrifon y cyd-bwyllgorau yn dilyn yr un amserlen o ran dyddiad statudol ar gyfer cwblhau y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, felly fe welir bod cyfrifon Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gwir ymrwymiad net perthnasol, er bod y sefyllfa ddadansoddol oddrychol yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa a threfniadau adrodd y gwahanol gyd-bwyllgorau (eithrio y BUEGC). Mae'r ffigyrau a'r gyfran berthnasol i Wynedd wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

| Cyd-Bwyllgor / Gweithrediad ar y Cyd | Awdurdod Lletya Cyllid | Cynghorau a Sefydliadau sydd yn rhan o'r Cyd-Bwyllgor / Gweithrediad ar y Cyd | Cyfran Cyngor Gwynedd | Gwerth Cyfran Gwynedd (Cyfrif Incwm a Gwariant) |
|---|---|---|---|---|
| | | | % | £'000 |
| **Cyd-Bwyllgor** | | | | |
| GwE | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 17.53 | 770 |
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn | 24.45 | 0 |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru * | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam<br>Coleg Cambria | Gweler y nodyn isod. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithrediad ar y Cyd** | | | | |
| Cynllun Argyfwng Bysus | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 24.04 | 1,664 |
| Gogledd Cymru Actif ** | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 16.67 | 0 |

* Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd yn cynnwys y gwir drafodion a balansau mewn perthynas â busnes y BUEGC yn ogystal â'u cyfran o'r trafodion a'r balansau sy'n weddill, a ddosbarthwyd fel 12.5% (Awdurdod Lleol) a 6.25% (Addysg Bellach/Uwch) yn unol â'r dyraniadau yn y Cytundeb Llywodraethu 2.

** Mae Gogledd Cymru Actif wedi ei ariannu gan grant.

Gellir gweld cyfrifon y cyd-bwyllgorau unigol ar wefannau y cynghorau sydd yn arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg.

## NODYN 44 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 21 Mehefin 2024. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2024, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i ddangos yr effaith.

# Y GRONFA DEGWM

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 970 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | 976 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddyn | |
| 47 | Llog ar fuddsoddiadau | 49 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn | |
| (41) | Grantiau a chostau | (47) |
| **976** | **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth** | **978** |
| | **A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol** | |
| 2 | Dyledwyr | 7 |
| 900 | Buddsoddiadau | 900 |
| 75 | Arian mewn llaw | 71 |
| 977 | | 978 |
| (1) | **Llai -** Credydwyr | 0 |
| **976** | **Cyfanswm** | **978** |

**NODIADAU I'R CYFRIFON**

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol – addysgol, adloniadol a chymdeithasol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.

2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

3. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2024 oedd £896,210.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 184 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | 167 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddyn | |
| 16 | Llog enillwyd gan yr asedau | 17 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn | |
| (33) | Grantiau | (18) |
| **167** | **Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth** | **166** |
| | **Asedau** | |
| 144 | Buddsoddiadau | 144 |
| 23 | Arian mewn llaw | 22 |
| **167** | | **166** |

**NODIADAU I'R CYFRIFON**

1. Sefydlwyd y Gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs. Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.

2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2024 oedd £369,850 (£363,635 ar 31 Mawrth 2023).

3. Mae Cronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

# Geirfa

**Amhariad** – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid anffafriol mewn amgylchedd statudol).

**Amorteiddio** – Gwarediad graddol ymrwymiad, megis benthyciad, gyda thaliadau cyson dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i glirio'r prifswm a'r llog.

**Ariannu Cyfalaf** - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

**Ased** - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Asedau Anniriaethol** – Ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd corfforol. Meddalwedd cyfrifiadurol er enghraifft.

**Asedau Cymunedol** - Asedau anghyfredol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal yn barhaus sydd heb oes benodol ddefnyddiol, ac a allai gael cyfyngiadau ar eu gwarediad. Gall esiamplau gynnwys parciau ac adeiladau hanesyddol.

**Asedau Treftadaeth** – Ased gyda rhinweddau Hanesyddol, Artistig, Gwyddonol, Technolegol, Geoffisegol neu a budd Amgylcheddol, gaiff ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

**Balansau (neu Reserfau)** - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Cost Adnewyddu Dibrisiedig** – Dull prisio sy'n darparu procsi ar gyfer gwerth marchnad asedau arbenigol.

**Cost Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymiadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwyr** - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol** - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth.

**Cronfa Ymddiriedolaeth** - Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor ar gyfer dibenion megis gwobrau, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

**Cyfrif Addasiadau Cyfalaf** – Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig** - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

**Darpariaeth** – Ymrwymiad sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

**Derbyniadau Cyfalaf** - Incwm a dderbynnir o werthu tir neu asedau cyfalaf arall.

**Dibrisio** – Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliwyd yn ystod y cyfnod.

**Dyledwyr** - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Eiddo Buddsoddi** – Eiddo a ddelir unai ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer gwerthfawrogiad cyfalaf, neu'r ddau.

**Enillion a Cholledion Actiwaraidd** - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf** - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Llyfr Net** – Gwerth lle caiff asedau sefydlog eu cynnwys ar y Fantolen, h.y. eu cost hanesyddol neu werth cyfredol llai'r gwerth cronnus a ddarperir ar gyfer dibrisiad.

**Gwerth Teg** - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

**Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (LlDR)** – Y lleiafswm sydd rhaid ei godi ar gyfrif refeniw Awdurdod yn flynyddol a'i neilltuo fel darpariaeth ar gyfer ymrwymiad credyd.

**Menter Cyllid Preifat (MCP)** – Menter llywodraeth ganolog sy'n anelu i gynyddu lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau preifat o gyllid.

**Offerynnau Ariannol** - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb dyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

**Partïon Cysylltiedig** - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Praeseptau** – Yr ardoll a wnaed gan awdurdodau archebiant ar awdurdodau sy'n bilio, gyda'r gofyn ar yr Awdurdod sy'n bilio i gasglu'r incwm gan drethdalwyr y Cyngor ar eu rhan.

**Prydlesau Cyllidol** – Les sydd yn trosglwyddo'n sylweddol holl risg a gwobr perchnogaeth ased anghyfredol i'r deiliad prydles.

**Prydlesau Gweithredol** - Math o les, gan amlaf ar offer cyfrifiadurol, cyfarpar swyddfa, dodrefn a.y.y.b. ble mae'r cydbwysedd risgiau a gwobrau o ddal yr ased ynghlwm â'r prydleswr. Mae'r ased yn aros ym mherchnogaeth y prydleswr ac mae costau'r les yn wariant refeniw i'r Cyngor.

**Rhestr Eiddo** – Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymiadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion / sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MEDI 2024** |
| TEITL | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2023/24** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI'R DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2023/24 I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR** |

---

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n datgan:

  **Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.**

  **Rhaid i'r corff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol. Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfanrwydd neu gan bwyllgor.**

  **Ar ôl yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad yn mynd gydag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi.**

- Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")
- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*.

## 2. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

2.1 Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth allweddol i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

2.2 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad llywodraethu, sydd wedi cael ei ddiweddaru gan y Grŵp Llywodraethu yn ystod y flwyddyn, mewn datganiad sydd yn dweud wrth Bobl Gwynedd beth yw ein fframwaith lywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

2.3 Mae angen i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y naratif sy’n cyfiawnhau’r sgoriau yn adlewyrchiad teg o’r Cyngor cyn belled â’i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

**3. ADNABOD RISGIAU LLYWODRAETHU**

3.1 Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA/Solace a gyhoeddwyd yn 2016.

3.2 Mae’r Fframwaith yma’n adnabod 7 Egwyddor Craidd ar gyfer Llywodraethu Da:

**A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a parchu rheol y gyfraith.**
Mae sefydliadau Llywodraeth Leol yn atebol nid yn unig am faint maent yn ei wario, ond hefyd am sut maent yn defnyddio’r adnoddau sydd o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau cadarnhaol a negyddol, ac am y deilliannau y maent wedi eu cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at y gofynion deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth. Mae'n hanfodol y gallant, yn gyffredinol, arddangos priodoldeb eu gweithredoedd ar draws yr holl weithgareddau a bod mecanweithiau ar waith i annog a gorfodi cydymffurfiaeth â gwerthoedd moesegol ac i barchu rheol y gyfraith.

**B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid**
Mae Llywodraeth Leol yn rhedeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio cyfryngau cyfathrebu ac ymgynghori clir, ac a ymddiriedir ynddynt, i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

**C. Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**
Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau Llywodraeth Leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio deilliannau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas y sefydliad, cyfrannu at y deilliannau a'r buddion a fwriadwyd, ac aros o fewn y terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwyso galwadau sy’n cystadlu â’u gilydd wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

**D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni’r deilliannau a fwriedir**
Mae Llywodraeth Leol yn cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoliadol ac ymarferol (camau gweithredu). Mae penderfynu ar y cymysgedd gywir o’r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hanfodol bwysig sydd rhaid i Lywodraeth Leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y deilliannau a fwriedir. Mae angen dulliau gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni’r deilliannau ddiffiniedig mewn ffordd sy'n darparu’r cyfaddawd gorau rhwng y mathau gwahanol o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu’r penderfyniadau a wneir yn aml er mwyn sicrhau fod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni.

**E. Datblygu capasiti’r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo**
Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth priodol ar Lywodraeth Leol, yn ogystal â pobl gyda'r sgiliau, cymwysterau addas a’r meddylfryd iawn i weithredu'n effeithiol ac effeithlon ac i gyflawni deilliannau bwriedig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y capasiti gweithredol ar gyfer y sefydliad gyfan. Gan y bydd yr unigolion a'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i

ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau staff unigol. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn Llywodraeth Leol gan gyfranogiad pobl â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, sy'n adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

**F. Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus**
Mae angen i Lywodraeth Leol sicrhau bod y sefydliadau a strwythurau llywodraethu hynny y mae'n eu goruchwylio wedi sefydlu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau cynlluniedig. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan bwysig ac annatod o'r system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni deilliannau. Dylid ystyried risg a rhoi sylw iddo fel rhan o bob gweithgaredd gwneud penderfyniad.
Mae system rheoli ariannol cadarn yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni deilliannau arfaethedig, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau mewn modd strategol, darpariaeth gwasanaeth effeithlon ac atebolrwydd.
Mae'n hanfodol hefyd bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau, llunio polisi ac adolygu atebol. Mae diwylliant gweithio positif sy'n derbyn, hyrwyddo ac annog her adeiladol yn hollbwysig i graffu llwyddiannus a darparu gwasanaethau llwyddiannus. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, rhaid wrth ymrwymiad cyhoeddus dro ar ôl tro gan y rhai mewn awdurdod.

**G. Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol**
Ystyr atebolrwydd yw sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn gallu ateb amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig gydag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond mae hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio mewnol ac allanol ill dau yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

Ffynhonnell: CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*

3.3 Mae'r Egwyddorion hyn wedi eu rhannu ymhellach i nifer o is-egwyddorion.

3.4 Mewn ymateb i'r Fframwaith, mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ystyried yr Egwyddorion Craidd a'r Is-egwyddorion yn y Fframwaith ac wedi llunio Cofrestr Risg Llywodraethu, sy'n rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cofrestr Risg Llywodraethu yn adnabod risgiau mewn 24 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

3.5 Mae cyfrifoldeb penodol am y risgiau hyn wedi eu rhannu ar draws y Cyngor, fel a ganlyn

| **Adran** | **Nifer Risgiau** |
|---|---:|
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 5 |
| Cyllid | 4 |
| Tai ac Eiddo | 1 |
| Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol | 14 |
| **Cyfanswm** | **24** |

3.6 Yr adran berthnasol sy'n gyfrifol am asesu'r risgiau hyn yn barhaus, gyda'r Grŵp Llywodraethu yn cadw trosolwg ohonynt.

3.7 Fel sy'n gyffredin mewn trefniadau rheoli risg, rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor wrth sgorio maint y risgiau yma, sef

- **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
- **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

3.8 Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

**Effaith**

| Sgôr | Effaith | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Catastroffig | Effaith **catastroffig** ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion |
| 4 | Dinistriol | Effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu **sylweddol iawn** ar nifer fawr o drigolion |
| 3 | Sylweddol Iawn | Effaith **sylweddol iawn** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd ) neu **arwyddocaol** ar nifer fawr o drigolion |
| 2 | Arwyddocaol | Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer fawr o drigolion |
| 1 | Gweladwy | Effaith **gweladwy** ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu **ymylol** ar nifer fawr o drigolion. |

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

**Tebygolrwydd**

| Sgôr | Tebygolrwydd | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Digwydd rŵan | Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd) |
| 4 | Tebygol Iawn | Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy |
| 3 | Tebygol | Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim |
| 2 | Annhebygol | Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno |
| 1 | Annhebygol Iawn | Annhebygol iawn o ddigwydd |

3.9 Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi **Sgôr Risg Presennol**, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Sgôr 20-25** | **Risg Uchel Iawn** |
| **Sgôr 12-16** | **Risg Uchel** |
| **Sgôr 6-10** | **Risg Canolig** |
| **Sgôr 1-5** | **Risg Isel** |

3.10 Mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi'r sgôr risg presennol ar gyfer y 24 maes llywodraethu. Mae asesiad adrannau a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn dod i'r casgliad:

- Nifer risgiau uchel iawn: 1
- Nifer risgiau uchel: 4
- Nifer risgiau canolig: 10
- Nifer risgiau isel: 9

3.11 Lle adnabuwyd fod y sgôr risg presennol yn parhau'n uwch nag y mae'r Cyngor yn fodlon ei dderbyn, mae camau gweithredu pellach wedi eu hadnabod a'u hamlinellu yn y Datganiad. Er hyn, pwysleisir fod mwyafrif y materion sydd wedi eu hamlygu yn y dadansoddiad systematig yma eisoes wedi cael eu hadnabod gan y Cyngor.

## 4. NEWIDIADAU ERS DATGANIAD 2022/23

4.1 Mae pob un o'r risgiau llywodraethu wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Gwneir hyn gan yr adran gyfrifol fel cam cyntaf, gyda'r Grŵp Llywodraethu yn ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd.

4.2 Mae sgôr pump o'r risgiau wedi newid yn ystod y flwyddyn:

| Risg | Sgôr flaenorol | Sgôr Effaith | Sgôr Tebygol-rwydd | Sgôr gyfredol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| <u>Cyllid</u><br>Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus | *10 (Canolig)* | Cadw yn 5 | Cynyddu o 2 i 4 | **20 (Uchel Iawn)** | Byddai methiant i reoli'r gyllideb yn drychinebus, felly roedd y sgôr effaith eisoes yn 5. Er bod y Cyngor yn parhau'n argyhoeddedig fod trefniadau rheoli cyllideb cryf yn eu lle, mae'r sefyllfa ariannol genedlaethol yn golygu fod y tebygolrwydd o fethiant yn mynd yn fwy, gyda'r sgôr tebygolrwydd felly yn cynyddu o 2 i 4. |
| <u>Iechyd, Diogelwch a Llesiant</u><br>Trefniadau a gweithredu anniogel gan Wasanaethau y Cyngor i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol | *16 (Uchel)* | Cynyddu o 4 i 5 | Gostwng o 4 i 3 | **15 (Uchel)** | Fel rhan o'r adolygu parhaus, mae'r sgôr effaith wedi cynyddu yn ôl i 5 (ar ôl gostwng yn ystod y flwyddyn flaenorol) oherwydd fod rhai gweithgareddau o fewn y Cyngor yn rhai gall beryglu bywyd heb y trefniadau priodol yn eu lle. Wedi dweud hynny, mae'r trefniadau lliniaru yn parhau i gael eu mireinio, felly mae modd gostwng y sgôr tebygolrwydd o 4 i 3. |

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.
- Herio'r Pennaeth Cyllid am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
- Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i Gyngor Gwynedd wneud trefniadau i sicrhau gwelliant wrth arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD**

3.1 Mae'r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

3.2 Er mwyn adlewyrchu Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government,* mae'r fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 24 maes o risg llywodraethu.

3.3 Rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu, y risgiau perthnasol a threfniadau'r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny, yng ngweddill y rhan yma o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4 Ar gyfer pob un o'r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:

- **Effaith** y risg petai'r digwyddiad yn cael ei wireddu
- Y **Tebygolrwydd** iddo ddigwydd.

3.5 Mae'r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a'r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol Iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi'r sgôr effaith a'r sgôr tebygolrwydd gyda'u gilydd.

3.6 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Sgôr 20-25** | **Risg Uchel Iawn** |
| **Sgôr 12-16** | **Risg Uchel** |
| **Sgôr 6-10** | **Risg Canolig** |
| **Sgôr 1-5** | **Risg Isel** |

## Diwylliant

**Risg: Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r rhaglen 6 diwrnod i hyfforddi rheolwyr gwasanaeth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) wedi'i chyflwyno ers Haf 2017. Mae pob rheolwr gwasanaeth wedi dilyn yr hyfforddiant hwn erbyn hyn gyda rhaglen i sicrhau bod pob rheolwr newydd yn derbyn yr hyfforddiant i'r dyfodol.
- Mae'r Rhwydwaith Rheolwyr wedi'i ail-sefydlu ac wedi cynnal ei gyfres cyntaf o gyfarfodydd ym Mawrth 2019. Mae'r arwyddion cynnar yn galonogol gyda'r anogaeth i reolwyr a'u timau ymgymryd ag adolygiadau o fewn eu gwasanaethau eu hunain yn hytrach na'r canolbwyntio blaenorol ar gynnal adolygiadau dwys.
- Cylchredwyd swydd-ddisgrifiad newydd i bob rheolwr/uwch-reolwr sy'n amlinellu'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt a chytunwyd ar gynnwys generig i swydd-ddisgrifiad newydd ar gyfer penaethiaid a penaethiaid cynorthwyol. Mae fersiwn terfynol swydd-ddisgrifiad diwygiedig i arweinyddion tim a gweddill staff y Cyngor sydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt wedi'u cytuno arnynt.
- Mae adolygiad o gynnydd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor wedi'i gynnal mewn cydweithrediad ag aelodau Cabinet a Grwp Tasg a Gorffen o blith aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Arweiniodd hynny at Raglen Waith 5 mlynedd o'r newydd hyd at 2028 gafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 7 Mawrth 2023. Mae'r Cynllun yn adnabod naw maes y byddwn yn canolbwyntio arno er mwyn gwreiddio'r "ffordd o weithio" ymhellach.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 4 | 3 | **12** |

## Ymddygiad

**Risg: Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg. Mae tystiolaeth o weithredu pan mae'n ymddangos fod y codau ymddygiad hyn wedi cael eu torri.
- Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 2 | **4** |

## Cyfreithlondeb

**Risg: Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd.**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae rôl y swyddogion statudol yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu y Cyngor ac mae cyd weithio agos gyda nhw ar brif faterion yn greiddiol. Mae angen diweddaru y Protocol blaenorol ac mae gwaith ar gyfer creu templed yn digwydd drwy'r LGA.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 1 | **3** |

## Bod yn agored

**Risg: Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithredig
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn.
- Fe we-ddarlledir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.
- Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiadau perfformiad yn rheolaidd fel rhan o'u cyfarfodydd sy'n agored a bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol.
- Defnyddir ddulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 1 | **2** |

## Rhanddeiliad

**Risg: Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaidd**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd.
- Mae yna waith wedi digwydd i greu Cynllun Llesiant ac mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Nid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r unig gyfrwng ar gyfer cydweithio gydag asiantaethau eraill ac mae yna risg bod yr amrediad eang o strwythurau cydweithio yn gallu llesteirio'r holl amcan o gydweithio gan greu dryswch.
- Mae gan y Cyngor Feini Prawf Partneriaethau wedi cael eu sefydlu ers sawl blwyddyn, fel bod Cyngor Gwynedd dim ond yn mynd i bartneriaethau pan mae hynny er lles pobl Gwynedd.
- Mae cydweithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol sydd ddim bob tro mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd maint yr ôl troed a'r trafferthion o adeiladu perthynas gyda nifer mor fawr o bobl. Mae yna rai engreifftiau o lwyddiant (e.e. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru).

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 3 | **9** |

## Ymgysylltu

**Risg: Methiant i ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol yn arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau gwael**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae ystod o weithdrefnau ymgysylltu corfforaethol wedi eu sefydlu i sicrhau ein bod yn derbyn barn y cyhoedd a rhan-ddeiliaid eraill fel bo'n briodol. Maent yn cynnwys trefniadau i sicrhau fod ymarferiadau ymgysylltu corfforaethol y Cyngor yn cyrraedd grwpiau a charfannau megis pobl ifanc, pobl LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, oedolion gydag anableddau dysgu a busnesau Gwynedd.
- Yn ddiweddar defnyddiwyd ymarferiad ymgysylltu Fframwaith Adfywio'r Cyngor i:
  - gynnal ymarferiad ymgysylltu ddaeth a budd i sawl Adran, Gwasanaeth a phrosiect allweddol gan gynnwys Arolwg Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Asesiad Anghenion Poblogaeth (Adran Oedolion), Arolwg Angen Tai Lleol (Adran Tai ac Eiddo), Cymunedau Glan a Thaclus (Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy (Economi a Chymuned);
  - dreialu'r defnydd o feddalwedd ymgysylltu newydd (meddalwedd "Bang The Table");
  - ddatblygu brand newydd ar gyfer y maes ymgysylltu (brand "Ardal Ni");
  - dreialu ffordd newydd o ymgysylltu ar lefel 13 ardal lleol yn hytrach na Gwynedd gyfan.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 3 | **9** |

## Cyfeiriad a gweledigaeth

**Risg: Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth bennu ei flaenoriaethau a rheoli disgwyliadau oherwydd y diwylliant o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, gyda'r mesurau perfformiad a ddefnyddir i herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau yn deillio o hyn.
- Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2023-28 gan y Cyngor llawn ar 2 Mawrth 2023. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 2 | **6** |

## Cynaliadwyedd

**Risg: Methu cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, ar y cyd â'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi gwneud gwaith cychwynnol i adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu yn unol â'r 5 egwyddor - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.
- Mae'r Cyngor eisioes yn cydymffurfio â'r holl egwyddorion ond i raddau gwahanol. Penderfynodd y Grŵp Rheoli mai'r ffordd orau oedd i Dimau Rheoli Adrannau i dalu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae adroddiadau sy'n dod gerbron y Cabinet yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol er mwyn eu hadolygu i gadw golwg ar sefyllfaoedd lle efallai nad oes sylw priodol wedi eu rhoi i'r egwyddorion. Drwy hyn y gobaith yw y byddwn yn gwreiddio'r egwyddorion yn naturiol yn hytrach na thicio bocsys ond amser a ddengys a fyddwn yn llwyddiannus.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 3 | **9** |

## Penderfyniadau

**Risg: Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Tystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod Cyngor Gwynedd yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd e.e. maes ysgolion, allanoli ei Dai Cyngor, gweithredu ar ganlyniadau anodd Her Gwynedd; newid y drefn Ieuenctid a chymryd camau i sicrhau egwyddorion gweithredu ym maes Addysg.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 2 | **4** |

## Cynllunio Gweithrediadau

**Risg: Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor eisoes yn cynnal trefniadau rheoli prosiect ar cadarn ar gyfer y prosiectau mwyaf, gan ddefnyddio fersiwn llai cynhwysfawr ond yn seiliedig ar yr un egwyddorion ar gyfer prosiectau eraill.
- Er mwyn sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu mesur mae mesurau cyflawni pob gwasanaeth yn seiliedig ar gyflawni pwrpas gan geisio sicrhau fod unrhyw weithred yn gwella ein gallu i gyflawni hynny.
- Ceisir taro cydbwysedd rhwng yr angen am drefn a'r angen i gyflawni cyn gynted ag bod modd drwy wneud cyn lleied o waith papur ag sy'n gyson gyda hynny, gan annog adroddiadau syml a byr yn gosod allan y prif bwyntiau allweddol.
- Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 2 | **4** |

## Adolygu deilliannau

**Risg: Parhau i wneud yr un pethau yn anghywir nad ydym yn dysgu gwersi**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir.
- Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni. Mae yna engreifftiau lle mae hynny wedi digwydd yn dda ac mae'r sefyllfa yn gwella.
- Mae yna drafodaethau yn parhau i geisio sicrhau fod y Blaenoriaethau gwella yn ein Cynllun Corfforaethol yn fwy pendant o ran deilliannau, gyda'r Hunanasesiad yn asesu i ba raddau y cyflawnwyd y deilliannau hynny.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 2 | **6** |

## Asedau Eiddo

**Risg: Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd 2024-2034 wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 11 Gorffennaf 2024.
- O ran y cerbydau mae yna gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd y Cyngor sydd eisoes wedi cyflwyno rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 2 | **4** |

## Asedau Technoleg Gwybodaeth

**Risg: Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Cynllun Digidol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28 wedi cael ei fabwysiadu; cafodd ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi 2023 a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2023.
- Mae'r sianel ddigidol yn ddatblygiad parhaus a gwasanaethau newydd yn cael eu rhyddhau'n gyson. Mae sawl datblygiad mewnol i wella gweinyddiaeth mewnol, gan gynnwys rhestr faith o ddatblygiadau hunanwasanaeth staff a gwelliannau sylweddol i drefniadau hyfforddi. Nid y sianeli hunanwasanaeth (mewnol ac allanol) yw'r unig ddatblygiadau. Mae oddeutu hanner cant o systemau newydd yn cael eu datblygu'n flynyddol a'r rhain wedi eu teilwra o amgylch gofynion y gwasanaethau yn hytrach na gorfod addasu gwasanaeth i gwrdd ag anghenion system penodol.Tra bod yna enghreifftiau lu o ble 'rydym wedi defnyddio technoleg i wella sut yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i drigolion Gwynedd, nid yw'n digwydd ar y cyflymder yr hoffem iddo ddigwydd a mae sawl cais yn parhau am adnodd i'w datblygu.
- Wrth ymestyn defnydd technoleg mae risgiau pellach yn ein wynebu o ran diogelwch a seibrgadernid, gyda'r elfen yma yn asesiad hanfodol o unrhyw ddatblygiad newydd neu adolygiad o ddatrysiad cynhenid.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 3 | **9** |

## Cynllunio'r Gweithlu

**Risg: Methiant i gynllunio'r gweithlu o ran denu, datblygu a chadw staff**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Mae Grŵp Prosiect wedi ei ffurfio ac amcanion tymor byr a thymor hirach yn eu lle. Mae'r Tîm Adnoddau Dynol wedi mynychu hyfforddiant ar y sgiliau perthnasol sydd eu hangen i gynllunio'r gweithlu yn effeithiol. Mae'r pwyslais pennaf ar hyn o bryd ar ddatrys y problemau recriwtio tymor byr mae'r Cyngor yn eu profi, ond yr amcan pwysicaf a thymor hirach ydi gwella sut rydym yn denu a chadw staff, gan gynllunio ein anghenion staffio rai blynyddoedd ymlaen llaw gan leihau'r risg o gael problemau denu staff yn y dyfodol.
- Mae trefniant cyfweliadau gadael a gwefan swyddi newydd yn eu lle.
- Mae'r Bwrdd Prosiect wedi cytuno ar amcanion tymor hir a rhestr o is-brosiectau ar gyfer y cyfnod yn arwain at Mawrth 2028.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 3 | **9** |

## Arweinyddiaeth

**Risg: Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae yna elfen o dystiolaeth (drwy hunan asesiad) fod arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn gwella gyda nifer o enghreifftiau o arweinyddiaeth trawsffurfiol yn cael ei arddangos yn hytrach nag arweinyddiaeth trafodaethol. Mae'r pwyslais cynyddol a roddir ar "arwain" yn hytrach na "rheoli" o fewn diwylliant Ffordd Gwynedd yn arwydd arall cadarn o'r camau breision sy'n cael eu cymryd gydag aelodau'r Cabinet yn cymryd rol blaenllaw i hyrwyddo arweinyddiaeth dda trwy ymrwymo i'w datblygiad fel arweinwyr.
- Cytunwyd ar yr hyn ddiffinir fel arweinyddiaeth o fewn Cyngor Gwynedd ac mae'r diffiniad hwnnw yn cael ei adlewyrchu mewn swydd-ddisgrifiadau diwygiedig ar gyfer pob pennaeth a rheolwr yn y Cyngor. Mae'r ymrwymiad ar lefel gwleidyddol a gweithredol yn arddangos bod y camau positif hyn wedi dwyn ffrwyth a bod yr angen a'r gallu i arwain yn gwreiddio fel y norm o fewn y Cyngor.
- Mae atgyfodiad y Rhwydwaith Rheolwyr, gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau arwain, yn gam allweddol arall yn y newid pwyslais o ddiwylliant "rheoli" i "arwain" o fewn y Cyngor tra bo'r Adolygiad Rheolaethol a'r swydd-ddisgrifiadau diwygiedig hefyd wedi cyfrannu at eglurder yng nghyswllt y disgwyliad o arwain. Yn sgil hyn oll, ystyrir y gwaith yma fel rhywbeth sy'n parhau yn allweddol ond gan gydnabod nad yw'n gymaint o risg ag y bu yn y gorffennol.
- Er mwyn adlewyrchu hynny, mae'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori o fewn rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd yn hytrach na sefyll fel prosiect ar ei draed ei hun er bod prosiect penodol yn parhau i gael blaenoriaeth gwella uchel yng nghyswllt Merched mewn Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan ac felly'n edrych i hybu'r nifer merched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.
- Mae'r Tim Rheoli Corfforaethol wedi ymrwymo i'w ddatblygiad, gyda pob aelod o'r tim wedi cwblhau proffil personol ac hefyd wedi mynychu gweithdy cychwynnol fel gweithgaredd i gryfhau'r tim ar gyfer y dyfodol.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 4 | 2 | **8** |

## Rheoli Risg

**Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg, sy'n cynyddu'r bygythiad o rhywbeth yn mynd o'i le neu fethu cymryd cyfle i wella**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol.
- Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.
- Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ar 6 Mawrth 2021. Mae'r system newydd wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud, ac i gynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwyliedig wedi cael eu cymryd.
- Mae gwersi wedi eu dysgu o'r pandemig Covid-19 sydd wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcrain.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 5 | 2 | **10** |

## Perfformiad

**Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cyfundrefn Rheoli Perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau fod unedau busnes yn cyflawni eu pwrpas, a hynny trwy adolygu'n barhaus os ydym yn mesur y pethau cywir.
- Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her. Cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd cyfrifoldeb hwy i gyfarfodydd y Cabinet. Mae trefniadau clir wedi cael eu rhoi yn eu lle.
- Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn arsylwi ar ein perfformiad mewn gwahanol feysydd drwy gyhoeddi amrywiol adroddiadau ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd trosolwg fod unrhyw argymhellion yn derbyn sylw.
- Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol yn parhau i weithio'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 2 | **4** |

## Rheolaeth Fewnol

**Risg: Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu unai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio yn cadarnhau fod modd rhoi sicrwydd ar y rheolaethau mewnol yn y Cyngor.
- Mae adolygu ac addasu rheolaethau mewnol fel eu bod yn gymesur i'r hyn sydd ei angen yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan waredu tasgau or-fiwrocrataidd. Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol.
- Mae effeithlonrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac mae hunanasesiad yn dangos fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl.
- Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gylch gorchwyl cytunedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu ei swyddogaethau.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 2 | **4** |

## Gwybodaeth

**Risg: Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol.**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae Cynllun Gwybodaeth 2021-2026 yn cynnwys nifer o gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â risgiau rheoli gwybodaeth a'r defnydd o ddata. Mae 23 o'r 45 prosiect o fewn y cynllun wedi'u cwblhau eisoes a'r gweddill ar y gweill.
- Mae'r Grŵp Gwybodaeth trawsadrannol yn cymryd trosolwg corfforaethol o'r maes yma.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 4 | 3 | **12** |

## Cyllid

**Risg: Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel Iawn** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol, gan gynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr mewnol, dan arweiniad y prif swyddog cyllid. Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.
- Credwn fod y gwaith o lywodraethu trefniadau ariannol y Cyngor yn parhau'n gadarn, gyda'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, am y tro cyntaf yn 2023/24 gwelwyd y mwyafrif  o adrannau'r Cyngor yn gorwario. Mae hyn wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet yn ystod ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ond wrth i'r angen i ddarganfod arbedion barhau, a'r galw am wasanaethau gynyddu, gellir rhagweld sefyllfa lle nad oes cronfeydd digonol yn y dyfodol i ymdrin â'r diffyg yn y gyllideb.
- Credwn felly fod hyn wedi cynyddu'r tebygolrwydd o broblemau ariannol catastroffig a heb gamau pendant mae'n debygol iawn y byddai hyn yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 5 | 4 | **20** |

## Atebolrwydd

**Risg: Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur.
- Yn ogystal ag adroddiadau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r adroddiadau a gynhyrchir hefyd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, Cynllun y Cyngor (sy'n cwmpasu cynlluniau busnes adrannol) a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhyrchir yn unol â fframwaith CIPFA/Solace.
- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol.
- Bydd monitro adroddiad Cabinet yn parhau i ddigwydd yn naturiol gyda'r Prif Weithredwr yn taro golwg ar bob un.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 2 | **4** |

## Sicrwydd

**Risg: Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae nifer o ffyrdd ar gael o fewn y Cyngor er mwyn darparu sicrwydd annibynnol fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithio fel y dylent. Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn. Mae aelodau'r Cabinet hefyd yn cwrdd yn aml i herio eu gilydd ar ddatblygiadau.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol.
- Yn cefnogi hyn mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.
- Yn ffurfiol, fodd bynnag, y drefn craffu sydd i fod i ddal y Cabinet i gyfrif. Mae yna graffu a herio penderfyniadau a pholisiau yn dryloyw a gwrthrychol ond mae ansicrwydd ynglŷn a pha mor effeithiol y mae hynny.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 2 | 3 | **6** |

## Iechyd, Diogelwch a Llesiant

**Risg: Trefniadau a gweithredu anniogel gan Wasanaethau y Cyngor i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae rhaglen waith fanwl wedi ei pharatoi gan gychwyn gyda chymwyseddau a hyfforddiant ar y Polisi Iechyd a Diogelwch wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor sy'n cael ei adolygu'n flynyddol.
- Ymgynghorwyr arbenigol ar gael er mwyn cynghori.
- Hyfforddiant Mandadol i holl staff y Cyngor yn cael ei ddarparu.
- Hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel yn cael ei ddarparu i Reolwyr a staff perthnasol.
- Amrywiol hyfforddiant arall mewn lle yn ddibynnol natur cyfrifoldebau.
- Trefniadau cyfathrebu gyda Fforwm Gorfforaethol a Panel Ymgynghorol gan gynnwys safle mewnrwyd penodol gyda llu o ganllawiau a gweithdrefnau.
- Trefn adrodd ac ymchwilio ar ddamweiniau.
- Hyfforddiant i'r Tim Rheoli Corfforaethol wedi cymryd lle a chyfarfod blynyddol er mwyn adolygu cynnydd.
- Hyfforddiant i Aelodau o ran eu cyfrifoldebau ar ffactorau i'w hystyried wrth gymryd penderfyniadau.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 5 | 3 | **15** |

## Cyswllt Cwsmer

**Risg: Diffyg ymateb yn amserol i ymholiadau**

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Dadansoddiad manwl wedi'i gyflawni ac wedi'i gyflwyno i Aelodau yn Hydref 2022 gyda rhaglen waith wedi'i hadnabod a'r risg wedi'i ychwanegu i'r risgiau llywodraethu corfforaethol.
- Galwadau Cynllunio yn cael eu derbyn yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Cynllunio ers y 1 Ebrill 2023 a modiwl hyfforddiant byr wedi'i dreialu ar gyfer holl staff sydd yn ymdrin ag ymholiadau.

Sgôr Risg Cyfredol:

| Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr risg |
|---|---|---|
| 3 | 4 | **12** |

---

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

**Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

4.1 Dengys y sgoriau uchod fod un o'r 24 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn. Mae 4 yn risg uchel a 10 yn risg canolig.

4.2 Mae camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â risg uchel iawn, uchel neu ganolig wedi eu nodi isod.

**RISG UCHEL IAWN**

| Maes Llywodraethu | Trefniadau i Ymateb | Adran Gyfrifol |
|---|---|---|
| Cyllid | Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, oddeutu £40m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau.<br><br>Cymeradwywyd cyfres o arbedion newydd â gwerth £6.4m, sydd i'w gwireddu'n bennaf dros 2023/24 a 2024/25 gan y Cabinet yn Chwefror 2023. Mae cyfres ychwanegol o arbedion, gwerth £4.8m i'w hystyried am 2024/25 a 2025/26 er mwyn gallu gosod cyllideb gytbwys.<br><br>Cafodd Cynllun Ariannol Tymor Canolig newydd ei fabwysiadu gan y Cabinet ar 14 Mai 2024.<br><br>Mae'r tebygolrwydd o fethu gwario o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn cynyddu. Mewn ymateb i'r sefyllfa, bydd angen i adrannau sy'n parhau i orwario adrodd i aelodau gydag eglurhad a chamau sydd i'w cymryd. | Cyllid |

**RISG UCHEL**

| Maes Llywodraethu | Trefniadau i Ymateb | Adran Gyfrifol |
|---|---|---|
| Diwylliant y Cyngor | Mae Grwp Arweiniol (Tim Rheoli Corfforaethol i gyd yn aelodau) wedi ei ffurfio ac wedi cyfarfod am y tro cyntaf ym Mehefin 2023. Bydd y Grwp yn cadw trosolwg ar weithrediad y Rhaglen Waith ac yn cynnig arweiniad ar wreiddio'r diwylliant o fewn y Cyngor.<br><br>Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar gynnydd y gwaith i'r dyfodol gyda'r cynnwys yn rhannol seiliedig ar hunan-asesiadau a gyflawnir gan bob Adran.<br><br>Mae swyddog penodol wedi'i adnabod ar gyfer gyrru pob un o'r naw ffrwd gwaith o fewn y Cynllun Pum Mlynedd. | Cefnogaeth Gorfforaethol |

| Maes Llywodraethu | Trefniadau i Ymateb | Adran Gyfrifol |
|---|---|---|
| Gwybodaeth | Parhau efo cynllun gweithredu'r Cynllun Gwybodaeth. | Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Iechyd, Diogelwch a Llesiant | Datblygu system electroneg er mwyn hwyluso cofnodi ac adrodd ar ddamweiniau, cynnal asesiadau risg a chynnal archwiliadau.<br>Dadansoddi bylchau yn y system bresennol er mwyn sefydlu rhaglen waith i gyfarch unrhyw ddiffyg. Hyn i gynnwys agweddau hyfforddiant penodol i bob swydd.<br>Adolygu ein trefniadau adrodd ac atebolrwydd ar ganlyniadau archwiliadau a/neu pryderon arwyddocaol. | Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Cyswllt Cwsmer | Mae Cynllun Digidol newydd y Cyngor yn cynnwys cynllun i ddiweddaru'r system ffon fydd wedi'i hintegreiddio efo *Microsoft Teams.* Mae gwaith i weithredu'r cynllun hwn yn cychwyn yn 2024/25. | Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol |

**RISGIAU CANOLIG**

| Maes Llywodraethu | Trefniadau i Ymateb | Adran Gyfrifol |
|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Mae yna ymdrechion yn mynd ymlaen mewn amryw feysydd i geisio symleiddio perthynas waith sy'n gymhleth. Fodd bynnag rhaid cydnabod mai dim ond hyn a hyn y mae modd i ni ei wneud ac mae yna le i gwestiynu mai'r ateb bellach yw ceisio darganfod ffyrdd o weithio rownd y rhwystrau deddfwriaethol sydd wedi cael eu gosod gan y Llywodraeth arnom. Rydym eisoes yn gwneud hynny yn eithaf llwyddiannus. | Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol |

| Maes Llywodraethu | Trefniadau i Ymateb | Adran Gyfrifol |
|---|---|---|
| Ymgysylltu | Yn ystod 2024/25, byddwn yn parhau i ddatblygu a chryfhau'r trefniadau ymgysylltu ar draws y Cyngor drwy:<br>• ddatblygu rôl y Grŵp Ymgysylltu Traws Adrannol a Blaen-raglen Ymgysylltu;<br>• ymgymryd a gwaith manwl i sicrhau fod aelodaeth Panel Trigolion Gwynedd yn gynrychioliadol o boblogaeth y Sir;<br>• parhau i gefnogi gwasanaethau unigol i ymgysylltu'n rhagweithiol gyda phobl Gwynedd;<br>• parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol gyda grwpiau yr ydym fel Cyngor yn ei chael yn anodd eu cyrraedd. | Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Cyfeiriad a gweledigaeth | Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol. | Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Cynaliadwyedd | Byddwn yn edrych ar ein trefniadau cynllunio (gan gynnwys Cynllun y Cyngor, Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a'r hunan asesiad corfforaethol sydd angen ei gynnal) er mwyn ceisio  sicrhau ein bod yn rhoi mwy o sylw i egwyddorion y Ddeddf gan hefyd adrodd ar y cynnydd.<br><br>Byddwn yn ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion trwy eu perthnasu hefo egwyddorion gweithredu Ffordd Gwynedd. | Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Adolygu deilliannau | Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol. | Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol |
| Asedau Technoleg Gwybodaeth | Gosod cerrig milltir penodol er mwyn gweithredu'r prosiectau unigol o fewn y Cynllun Digidol | Cyllid |
| Cynllunio'r Gweithlu | Gosod rhaglenni gwaith manwl ar gyfer pob un o'r is-brosiectau sydd wedi eu rhestru yn y cynllun gwaith, a gweithredu ar yr rhaglenni hynny. | Cefnogaeth Gorfforaethol |

| Maes Llywodraethu | Trefniadau i Ymateb | Adran Gyfrifol |
|---|---|---|
| Arweinyddiaeth | Mae Rhaglen Datblygu Potensial benodol wedi'i datblygu ar gyfer merched fel rhan o'r Prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth. Mae Cynllun Mentora ar gyfer merched hefyd wedi'i gymeradwyo ac mae hyfforddiant penodol i'r garfan gyntaf o "fentoriaid" wedi'i gynnal. Byddwn yn parhau i gynnal "sgyrsiau dros baned" ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr ar draws y Cyngor ac hefyd i gynghorwyr benywaidd yn y Cyngor newydd.<br><br>Byddwn hefyd yn datblygu'r ymddygiadau arwain a ddisgwylir o reolwyr yn gyffredinol ac hynny'n bennaf trwy gyfuniad o hyfforddiant yn ymwneud a'r "ffordd o weithio" a thrwy herio'r ymddygiadau fel rhan o'r gwerthuso parhaus sy'n cael ei hyrwyddo fel rhan o sefydlu'r diwylliant.<br><br>Byddwn yn parhau i arbrofi efo dull amgen o gynnal sesiynau y rhwydwaith rheolwyr trwy sefydlu grwpiau o 12 rheolwr fydd yn gallu cynnal a chefnogi'u gilydd. | Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Rheoli Risg | Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd.<br><br>Bydd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddaru'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.<br><br>Y Gofrestr Risg i gael ei gyflwyno'n rheolaidd i'r Grŵp Llywodraethu er mwyn cynnal gwaith gwirio ansawdd, cyn cyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Cyllid |
| Sicrwydd | Bydd y Tim Craffu yn parhau i weithio'n agos trwy'r Fforwm Craffu gyda'r Cadeiryddion er mwyn gweithredu ar y rhaglenni craffu yn ystod y flwyddyn i ddod. | Cefnogaeth Gorfforaethol |

**Rhan 5: BARN**

Rydym o'r farn fod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd fod ein trefniadau llywodraethu ar y cyfan yn gweithredu'n dda. Serch hynny, rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion a nodir yn Rhan 4 uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| **DAFYDD GIBBARD** | **Cyng. DYFRIG SIENCYN** |
| **PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD** | **ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD** |
| **DYDDIAD** | **DYDDIAD:** |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **5 MEDI 2024** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2023/24** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD**:** | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

**Crynodeb Gweithredol**

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24 arhosodd gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £3.5m o log ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £3.2m a oedd yn y gyllideb. Ni wnaeth unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda hwy fethu â thalu.

**1. Cyflwyniad**

Cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2023/24 gan y Cyngor Llawn ar yr 2il o Fawrth 2023.

Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o God CIPFA ac Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

**2. Cyd-destun allanol**

**Cefndir Economaidd**: Parhaodd chwyddiant y DU i ostwng o'r gyfradd o 8.7% a welwyd ar ddechrau 2023/24. Erbyn chwarter olaf y flwyddyn ariannol roedd y pennawd chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) wedi gostwng i 3.4% ym mis Chwefror, ond roedd yn dal yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2% ar ddiwedd y cyfnod. Arafodd mesur craidd CPI, h.y. ac eithrio bwyd ac ynni, hefyd ym mis Chwefror i 4.5% o 5.1% ym mis Ionawr, cyfradd a oedd wedi parhau'n ystyfnig am dri mis yn olynol.

Aeth economi'r DU i ddirwasgiad technegol yn ail hanner 2023, wrth i gyfraddau twf o -0.1% a -0.3% yn y drefn honno gael eu cofnodi ar gyfer Ch3 a Ch4. Dros flwyddyn galendr 2023 dim ond 0.1% yr ehangodd twf GDP o'i gymharu â 2022. O'r data misol diweddar, nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol adlam mewn gweithgarwch gyda'r economi yn ehangu 0.2% ym mis Ionawr 2024. Er y gall yr economi wella rhywfaint yn Ch1 2024, mae'r data'n awgrymu bod cynnydd blaenorol mewn cyfraddau llog a

lefelau prisiau uwch yn gostwng, a fydd yn parhau i ostwng chwyddiant trwy gydol 2024.

Roedd data marchnad lafur yn darparu neges gymysg i lunwyr polisi. Gostyngodd cyflogaeth a swyddi gwag, a chododd diweithdra i 4.3% (3m/blwyddyn) ym mis Gorffennaf 2023. Yn yr un mis gwelwyd y gyfradd twf blynyddol uchaf o 8.5% ar gyfer cyfanswm cyflog (hy gan gynnwys taliadau bonws) a 7.8% ar gyfer twf cyflog rheolaidd (hy ac eithrio taliadau bonws). Wedi hynny, dechreuodd diweithdra ostwng, gan ostwng i 3.9% (3m/blwyddyn) ym mis Ionawr a thwf cyflog hefyd yn gostwng i 5.6% ar gyfer cyfanswm cyflog a 6.1% ar gyfer tâl rheolaidd, ond arhosodd yn uwch na rhagolwg Banc Lloegr.

Ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol ar 4.25%, cynyddodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr  y Gyfradd Banc i 5.25% ym mis Awst 2023 gyda rhaniad 3-ffordd ym mhleidlais y Pwyllgor wrth i economi'r DU ymddangos yn wydn yn wynebu chwyddiant uwch a chyfraddau llog newidiol. Cynhaliwyd y Gyfradd Banc ar 5.25% hyd at fis Mawrth 2024. Roedd y bleidlais ym mis Mawrth yn 8-1 o blaid cynnal cyfraddau ar y lefel hon, gyda'r un anghytunwr yn ffafrio torri cyfraddau yn syth 0.25%. Er i farchnadoedd ariannol symud eu disgwyliadau cyfraddau llog i lawr gyda disgwyliadau o doriad ym mis Mehefin, parhaodd ffocws yr MPC ar asesu pa mor hir y byddai angen i gyfraddau llog fod yn gyfyngol er mwyn rheoli chwyddiant dros y tymor canolig.

Yn Adroddiad Polisi Ariannol chwarterol y Banc (MPR) a ryddhawyd ym mis Awst 2023 diwygiwyd yr amcanestyniad tymor agos ar gyfer chwyddiant prisiau gwasanaethau i fyny gyda chwyddiant prisiau nwyddau yn eang ar draws cynhyrchion, gan nodi pwysau chwyddiant domestig cryfach gydag effeithiau ail rownd mewn prisiau domestig a chyflogau sy'n debygol o gymryd mwy o amser i ymlacio nag y gwnaethant ddod i'r amlwg. Ym mis Chwefror 2024 roedd disgwyliadau'r Banc ar gyfer economi'r DU yn gadarnhaol ar gyfer hanner cyntaf 2024, gydag adferiad o'r dirwasgiad ysgafn yng nghalendr H2 2023 yn raddol. Rhagwelwyd y byddai CPI pennawd yn gostwng o dan y targed o 2% yn gyflymach nag a feddyliwyd yn flaenorol oherwydd gostyngiad mewn prisiau ynni. Byddai'r effeithiau hyn yn dal chwyddiant ychydig yn uwch na'r targed ar gyfer llawer o'r gorwel a ragwelir.

Yn dilyn y cyfarfod MPC hwn, cynhaliodd Arlingclose, cynghorydd trysorlys yr awdurdod, ei farn ganolog mai 5.25% yw'r uchafbwynt o hyd yng Nghyfradd y Banc ac y bydd cyfraddau llog yn debygol o ddechrau cael eu torri yn ddiweddarach yn H2 2024. Bernir bod y risgiau yn y tymor byr i'r anfantais gan y gallai toriad cyfradd ddod yn gynt na'r disgwyl, ond yna yn fwy cytbwys yn ehangach dros y tymor canolig.

Fe wnaeth Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau hefyd gynyddu cyfraddau dros y cyfnod, gan gyrraedd ystod uchafbwynt o rhwng 5.25-5.50% ym mis Awst 2023, lle mae wedi aros ers hynny. Mae llunwyr polisi'r Unol Daleithiau wedi cynnal y safiad cymharol ddôf o gyfarfod mis Rhagfyr ac yn y cyfarfod ym mis Mawrth, nododd amcanestyniadau economaidd fod cyfraddau llog yn cael eu torri gan gyfanswm o 0.75% yn 2024.

Yn dilyn llwybr i fyny yr un mor sydyn, cododd Banc Canolog Ewrop gyfraddau i lefelau hanesyddol uchel dros y cyfnod, gan wthio ei brif gyfradd ailariannu i 4.5% ym mis Medi 2023, lle mae wedi aros. Mae twf economaidd yn y rhanbarth yn parhau i fod yn wan, gyda phosibilrwydd o ddirwasgiad, ond mae chwyddiant yn parhau i fod yn gludiog ac yn uwch na tharged yr ECB, gan roi pwysau ar lunwyr polisi ar sut i gydbwyso'r ffactorau hyn.

**Marchnadoedd Ariannol:** Roedd y teimlad mewn marchnadoedd ariannol yn parhau i fod yn ansicr ac roedd cynnyrch bond yn parhau i fod yn gyfnewidiol dros y flwyddyn. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, cododd y cynnyrch wrth i gyfraddau llog barhau i gael eu gwthio i fyny mewn ymateb i chwyddiant cynyddol. O fis Hydref fe ddechreuon nhw ostwng eto cyn gostwng yn sydyn ym mis Rhagfyr wrth i chwyddiant isel ac agweddau dof y banc canolog gan achosi i farchnadoedd ariannol ddisgwyl toriadau mewn cyfraddau llog yn 2024.

Dros y flwyddyn ariannol, cododd cynnyrch gilt meincnod 10 mlynedd y DU o 3.44% i gyrraedd uchafbwynt o 4.75% ym mis Awst, cyn gostwng i 3.44% ddiwedd Rhagfyr 2023 a chodi eto i 3.92% (28 Mawrth 2024). Roedd y gyfradd dros nos sterling (SONIA) ar gyfartaledd o 4.96% dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth.

**Adolygiad credyd:** Mewn ymateb i welliant mewn rhagolygon ar gyfer marchnadoedd credyd, ym mis Ionawr 2024 symudodd Arlingclose i ffwrdd o'i safiad dros dro blaenorol o hyd uchafswm o 35 diwrnod a chynyddodd uchafswm y terfyn heb ei ddiogelu a argymhellir i 100 diwrnod ar bob banc ar ei restr gymeradwy.

Yn gynharach yn y cyfnod, diwygiodd S&P agwedd sofran y DU i sefydlog ac uwchraddiodd Banc Barclays i A+. Diwygiodd Moody’s hefyd agwedd y DU i sefydlog, rhagolwg Handelsbanken i negyddol, israddodd bum awdurdod lleol, a chadarnhau rhagolwg HSBC yn sefydlog tra’n uwchraddio ei Asesiad Credyd Sylfaenol. Diwygiodd Fitch ragolygon UOB a BMO i sefydlog.

Yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol, diwygiodd Fitch ragolygon sgôr sofran y DU o negyddol i sefydlog yn seiliedig ar eu hasesiad bod y risgiau i gyllid cyhoeddus y DU wedi gostwng ers ei adolygiad blaenorol ym mis Hydref 2022, amser y gyllideb fach.

Yn y cyfamser, uwchraddiodd Moody's raddfeydd tymor hir benthycwyr Almaeneg Helaba, Bayern LB a LBBW ar well solfedd a safleoedd cyfalaf, er gwaethaf heriau o arafu economi'r Almaen a dod i gysylltiad â'r sector eiddo tiriog masnachol. Mae Moody hefyd uwchraddio neu ei roi ar adolygiad ar gyfer uwchraddio, banciau Awstralia gan gynnwys ANZ, CBA NAB a Westpac ar gefn cyflwyno cyfundrefn bancio newydd.

Dechreuodd prisiau cyfnewid diofyn credyd y flwyddyn ariannol ar lefelau uwch yn dilyn methiant Banc Silicon Valley a chwymp / meddiannu benthycwyr eraill. O hynny ymlaen roedd y duedd gyffredinol yn un o brisiau yn gostwng ac ar ddiwedd y cyfnodd roedd CDS benthycwyr y DU ar lefelau tebyg i'r rhai a welwyd yn gynnar yn 2023. Yn gynharach yn y flwyddyn gwelodd rhai benthycwyr o Ganada eu prisiau CDS yn codi oherwydd pryderon ynghylch economi ddomestig a marchnad dai yn arafu, tra bod pryderon economaidd tebyg a datguddiad i eiddo tiriog masnachol yn effeithio ar rai benthycwyr Almaeneg tua diwedd y cyfnod, gyda LBBW yn parhau i fod y mwyaf dyrchafedig.

Disgwylir i anwadalrwydd dwysach y farchnad aros yn nodwedd, o leiaf yn y tymor agos, a bydd lefelau cyfnewid diofyn credyd yn cael eu monitro am arwyddion o straen credyd parhaus. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gymeradwy yr Awdurdod a argymhellir gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

## 3. Sefyllfa Diwedd y Flwyddyn

**Crynodeb Mantolen**

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £41m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

| | **31.3.23 Gwir £m** | **2023/24 Symudiad £m** | **31.3.24 Gwir £m** |
|---|---|---|---|
| CFR | 171 | 3 | 174 |
| Llai : Ymrwymiadau dyled eraill | (1) | 0 | (1) |
| **CFR Benthyciadau** | **170** | **3** | **173** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (134) | 6 | (128) |
| Llai: Cyfalaf Gweithredol | (86) | 0 | (86) |
| **Benthyciadau / (Buddsoddiadau) net** | **(50)** | **9** | **(41)** |

Dilynodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

**Crynodeb Rheolaeth Trysorlys**

| | **31.3.23 Balans £m** | **2023/24 Symudiad £m** | **31.3.24 Balans £m** |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau tymor hir | 100.9 | (6.9) | 94.0 |
| Benthyciadau tymor byr | 1.1 | 4.5 | 5.6 |
| PFI | 1.2 | (0.2) | 1.0 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **103.2** | **(2.6)** | **100.6** |
| Buddsoddiadau tymor byr | (89.9) | (7.7) | (97.6) |
| Arian a Chywerthoedd arian | (62.8) | 18.9 | (43.9) |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **(152.7)** | **11.2** | **(141.5)** |
| **Benthyciadau / (Buddsoddiadau) net** | **(49.5)** | **8.6** | **(40.9)** |

## 4. Gweithgaredd Benthyca

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor £99.6m o fenthyciadau, lleihad o £2.4m ers y flwyddyn cynt fel rhan o’r strategaeth i ariannu cynlluniau cyfalaf blynyddoedd blaenorol.

Y llog a dalwyd yn ystod 2023/24 oedd £5.4 miliwn ar bortffolio benthyciadau cyfartalog o £100.2 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.44%.

Gweler y sefyllfa a symudiadau benthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn yn y tabl isod.

| | 31.3.23 Balans £m | 2023/24 Symudiad £m | 31.3.24 Balans £m | 31.3.24 Cyfradd % | 31.3.24 WAM* blynyddoedd |
|---|---|---|---|---|---|
| PWLB | 84.3 | (2.2) | 82.1 | 5.7 | 16.9 |
| Banc (tymor sefydlog) | 16.2 | 0.0 | 16.2 | 4.2 | 54.4 |
| Eraill | 1.5 | (0.2) | 1.3 | 0.0 | 3.0 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **102.0** | **(2.4)** | **99.6** | | |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi’i bwyso

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca yw taro cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a derbyn sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian, gyda’r ail amcan o hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe byddai cynlluniau hir dymor y Cyngor yn newid. Mae strategaeth fenthyca’r Cyngor yn parhau i fynd i’r afael â mater allweddol fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion a, lle bo’n ymarferol, i gadw benthyca a buddsoddiadau yn is na’u lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol.

Mae cyfraddau llog wedi gweld cynnydd sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod y cynnydd hwn bellach wedi dechrau sefydlogi. Gostyngodd cynnyrch y Gilt ddiwedd 2023, gan gyrraedd isafbwyntiau ym mis Ebrill 2023 a Rhagfyr 2023 cyn adlamu i raddau yn nhri mis cyntaf 2024. Mae cynnyrch y Gilt wedi aros yn gyfnewidiol, gan weld pwysau cynyddol o chwyddiant ar adegau a phwysau disgynnol ar adegau eraill o ganlyniad i chwyddiant sy'n cwympo ac economi sy'n ei chael hi'n anodd.

Ar 31 Rhagfyr, cyfraddau sicrwydd y PWLB ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd oedd 4.74% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 5.18% ar gyfer benthyciadau 20 mlynedd a 5.01% ar gyfer benthyciadau 50 mlynedd. Eu cyfwerth ar 31 Mawrth 2023 oedd 4.33%, 4.70% a 4.41% yn y drefn honno.

Yn gyffredinol, mae cost benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill wedi codi gyda chyfradd sylfaenol dros y flwyddyn. Cyrhaeddodd cyfraddau llog uchafbwynt o tua 7% tua diwedd mis Mawrth 2024 gan fod llawer o awdurdodau angen arian parod ar yr un pryd. Disgwylir i'r cyfraddau hyn ddisgyn yn ôl i lefelau mwy arferol y farchnad ym mis Ebrill 2024.

Ni wnaed unrhyw fenthyca tymor hir newydd yn 2023/24, gyda’r benthyciadau presennol yn aeddfedu heb gymryd benthyciad newydd yn eu lle. Galluogodd y strategaeth yma i’r Cyngor leihau eu costau benthyca net (er colli incwm buddsoddi) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol.

## 5. Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys

Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys CIPFA yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel y rheiny sy'n deillio o lif arian y sefydliad neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio yn nhrefn arferol busnes.

Mae'r Cyngor wedi dal cronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, amrywiodd balansau buddsoddi'r Cyngor rhwng £139.5 miliwn a £270.2 miliwn.

### Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

| | 31.3.23 Balans £m | 2023/24 Symudiad £m | 31.3.24 Balans £m | 31.3.24 Cyfradd % | 31.3.24 WAM* (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau & Chymdeithasau Adeiladu (heb ei ddiogelu) | 29.1 | (23.2) | 5.9 | 5.27 | 29.8 |
| Awdurdodau Lleol | 20.1 | 60.9 | 81.0 | 5.84 | 134.2 |
| Cronfeydd Marchnad Arian (CMA) | 60.8 | (17.8) | 43.0 | 5.27 | 1.0 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | 34.0 | (34.0) | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Cronfeydd wedi'u pwlio | 8.7 | 2.9 | 11.6 | 5.78 | 365+ |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **152.7** | **(11.2)** | **141.5** | | |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwyso

Mae Cod Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Cynyddodd cyfradd y banc 1% dros y cyfnod, o 4.25% ar ddechrau Ebrill 2023 i 5.25% erbyn diwedd Mawrth 2024. Cyrhaeddodd cyfraddau tymor byr uchafbwynt o 5.7% ar gyfer cyfraddau tri mis a 6.7% ar gyfer cyfraddau 12 mis yn ystod y cyfnod, er bod y cyfraddau hyn wedi dechrau gostwng tua diwedd y cyfnod. Cododd Cyfraddau Marchnad Arian hefyd ac roeddent rhwng 5.2% a 5.3% erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Mae £11.6m o fuddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu dal mewn cronfeydd ecwiti, bondiau ac eiddo cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae hylifedd byrdymor yn ystyriaethau llai, a'r amcanion yn lle hynny yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd hirdymor prisiau. Cynhyrchodd y cronfeydd hyn enillion incwm o 5.8% a ddefnyddir i gefnogi gwasanaethau yn y flwyddyn a colled cyfalaf heb ei wireddu o £0.07m yn y flwyddyn ariannol yma. Oherwydd nad oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond eu bod ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod

rhybudd, adolygir eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcanion buddsoddi tymor canolig i hir y Cyngor yn rheolaidd. Gwneid buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr mewn misoedd, chwarteri a hyd yn oed blynyddoedd ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn fwy na llog arian parod.

**Meincnodi Buddsoddiadau**

| | **Sgôr Credyd** | **Graddfa Credyd** | **Datguddiad 'Bail-in'** | **WAM* (diwrnodau)** | **Cyfradd Dychwelyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2023 | 4.63 | A+ | 62% | 33 | 4.04% |
| **31.03.2024** | **5.30** | **A+** | **38%** | **36** | **5.59%** |
| **A.Ll Tebyg** | **4.06** | **AA-** | **21%** | **174** | **5.29%** |
| **Pob A.Ll** | **4.82** | **A+** | **61%** | **9** | **5.03%** |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwyso

## 6. Adroddiad Cydymffurfio

Mae'r swyddog adran 151 yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheoli'r trysorlys a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae'r cydymffurfiad gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tablau isod:

**Cyfyngiadau Dyled**

| | **2023/24 Uchafswm** | **31.3.24 Gwir** | **2023/24 Ffin Weithredol** | **2023/24 Terfyn Awdurdodedig** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | £102.0m | £99.6m | £190m | £200m | ✓ |

Gan fod y ffin weithredol yn declyn rheolaeth ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn nid yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri ar adegau oherwydd amrywiadau yn y llif arian, ac nid yw hyn yn cael ei gyfrif fel methiant cydymffurfiad.

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | 2023/24 Uchafswm | 31.3.24 Gwir | 2023/24 Terfyn | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | £102m | £0m | Diderfyn | ✓ |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | £5m | £5m | £10m | ✓ |
| Buddsoddiadau a sicrwydd | £0m | £0m | £10m | ✓ |
| Banciau (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Cymdeithasau adeiladau (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Cronfeydd marchnad arian | £10m | £10m | £10m | ✓ |
| Cronfeydd cyfun strategol | £5m | £5m | £10m | ✓ |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | £0m | £0m | £10m | ✓ |
| Buddsoddiadau eraill | £0m | £0m | £5m | ✓ |

## 7. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio'r mesuryddion canlynol:

**Diogelwch**: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i fesur ei amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwyso gan amser ar ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwyso yn ôl hyd bob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb eu graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | 31.3.24 Gwir | 2023/24 Targed | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 5.3 | Sgôr o 6 neu is | ✓ |

**Hylifedd**: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael ar gyfer cwrdd â thaliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol**.**

| | 31.3.24 Gwir | 2023/24 Targed | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £115.9m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad 1% mewn cyfraddau llog fel a ganlyn:

| | 31.3.23 Gwir | 2023/24 Terfyn | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd 1% mewn cyfraddau llog | £1,122,112 | £1,039,420 | x |
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gwymp 1% mewn cyfraddau llog | £1,122,112 | £1,039,420 | x |

Nid yw'r dangosydd yma wedi ei gydymffurfio ag o oherwydd bod y dangosydd wedi ei osod pan oedd y cyfraddau llog yn isel, ond mae'r lefelau llog wedi codi yn sylweddol yn y flwyddyn heb rybudd ac felly mae'n rhesymol bod y symiau yn uwch na'r terfyn.

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Mae'r dangosydd hwn wedi ei osod i reoli datguddiad y Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog yn:

| | 31.3.24 Gwir | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 5.6% | 25% | 0% | ✓ |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 4.0% | 25% | 0% | ✓ |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 5.9% | 50% | 0% | ✓ |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 25.2% | 75% | 0% | ✓ |
| Dros 10 mlynedd | 59.3% | 100% | 0% | ✓ |

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedu benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf gall y benthyciwr ofyn am ad-daliad.

**Prifsymiau a fuddsoddwyd am gyfnod hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled a allai ddigwydd os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|
| Gwir brifswm a buddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn | £13m | £0 | £0 |
| Terfyn ar gyfer prifswm a fuddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfiwyd** | ✓ | ✓ | ✓ |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 5ed o Fedi 2024 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 1 Archwilio Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 1 2024/25 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.

1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor hwn ar yr 8fed o Chwefror 2024. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno yn yr Hydref.

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

## Diweddariad Chwarterol: 30 Mehefin 2024

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024.** | Rhagfyr 2024 | Bydd y gwaith drafftio yn dechrau ar ôl cwblhau'r Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2023-24 y Cyngor. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2023-24 y Cyngor** | I roi barn ar 'gywirdeb a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. | Tachwedd 2024. | Cafwyd y Datganiad o Gyfrifon ar 21 Mehefin 2024 ac mae'r gwaith maes archwilio yn mynd rhagddo. |
| **Archwiliad o Ddatganiad Blynyddol Harbyrau Cyngor Gwynedd ar gyfer 2023-24** | I roi barn ar 'gywirdeb a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. | Tachwedd 2024. | Cafwyd y cyfrifon ar 17 Mai 2024. Mae'r gwaith yn parhau. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grantiau:**<br><br>Cyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 | Ardystio bod y dystysgrif diwedd blwyddyn fel a ganlyn:<br>• Wedi'i nodi'n deg<br>• Yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 31 Mai 2024 (ar-lein).<br><br>Cyflwyno i Archwilio Cymru 28 Mehefin 2024.<br><br>Dyddiad cau ardystio 29 Tachwedd 2024. | Cafwyd y ffurflen ar 31 Gorffennaf 2024. |
| **Ardystio ffurflenni grantiau:**<br><br>Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2023-24 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br>• wedi'i nodi'n deg;<br>• nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol. | Dyddiad cau 30 Ebrill 2024.<br><br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2024 | Cafwyd y ffurflen ar 29 Ebrill 2024. |
| **Ardystio ffurflenni grantiau:**<br><br>Ardrethi Annomestig 2023-24 | Ardystio bod y dystysgrif diwedd blwyddyn fel a ganlyn:<br>• wedi'i nodi'n deg<br>• nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 27 Mai 2024.<br><br>Dyddiad cau ardystio 18 Tachwedd 2024. | Cafwyd y ffurflen ar 28 Mehefin 2024. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor, gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | | |
| | • Gosod amcanion llesiant | Chwefror 2023 – Mawrth 2024 | Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2024 a chyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mai 2024 |
| **Adolygiad Thematig – Gofal Heb ei Drefnu** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy. | Awst 2022 – Hydref 2023 | Adrodd o fis Gorffennaf 2024 ymlaen. |

| **Gwaith Archwilio Perfformiad 2023-24** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad thematig – comisiynu** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Mawrth – Rhagfyr 2024 | Cwmpasu |
| **Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau, gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | Mawrth – Gorffennaf 2024 | Gwaith maes wedi'i wneud ym mis Mai 2024 – adroddiad yn cael ei ddrafftio. |
| **Prosiect Lleol – Gwastraff ac Ailgylchu** | Byddwn yn adolygu trefniadau'r Cyngor i wella ei wasanaeth rheoli gwastraff a chyrraedd targedau ailgylchu statudol. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu mewn Awdurdodau Tân ac Achub** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Medi 2023 – Awst 2024 | Gwaith maes wedi'i gwblhau. I'w gyhoeddi ym mis Awst 2024 | Na |
| **Digartrefedd** | Archwilio sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r ymateb i ddigartrefedd. | I'w gadarnhau | Cwmpasu | I'w gadarnhau |
| **Cynllunio Cyfalaf mewn Llywodraeth Leol** | Archwilio a yw buddsoddiad cyfalaf yn y sylfaen asedau mewn llywodraeth leol yn gallu ateb galw | I'w gadarnhau | Heb ddechrau | I'w gadarnhau |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfyngiadau ariannol / gwasanaethau llywodraeth leol yn ôl disgresiwn** | Archwilio'r effeithiau posibl a phrosesau penderfynu cynghorau yng nghyd-destun yr egwyddor datblygu cynaliadwy. | I'w gadarnhau | Heb ddechrau | I'w gadarnhau |

## Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol.

Gwnaethom arolygu dau wasanaeth addysg llywodraeth leol yn ystod tymor yr haf, sef Ceredigion a Chaerffili. Cyhoeddir yr adroddiadau ddiwedd mis Awst a dechrau mis Medi yn y drefn honno.

Yn ystod tymor yr haf treialwyd ein hymweliadau cyswllt manylach yn Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot. Cynhaliwyd yr ymweliadau gan dri arolygydd cyswllt yn ymweld â'r awdurdod lleol am ddau ddiwrnod, gan ganolbwyntio ar un neu ddwy agwedd benodol ar waith yr awdurdod lleol. Yn Sir Benfro, gwnaethom edrych ar y trefniadau amserlennu anghymesur mewn 24 o'r ysgolion a'r dulliau o wella presenoldeb. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, gwnaethom ganolbwyntio ar gefnogaeth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a phresenoldeb. Gwnaethom waith maes ym mron pob awdurdod lleol ar Weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ysgolion pob oed. Mae'r adolygiad hwn yn dilyn adolygiad blwyddyn 1 o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mewn ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023. Gwnaethom hefyd waith maes yn canolbwyntio ar 'effaith tlodi o ran cyrhaeddiad addysgol, cymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar' ym mron pob awdurdod lleol.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau thematig**<br><br>**Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT)** | Gan gydweithio ag AGIC, cwblhawyd arolygiad gwiriad sicrwydd yn Rhondda Cynon Taf yn canolbwyntio ar Dimau Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT). Arolygiad ar y cyd CLDT RCT | 2024-25 | Cyhoeddwyd Ebrill 2024 |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | Ail arolygiad gwiriad sicrwydd ym Mlaenau Gwent gan asiantaeth unigol | Mawrth 2024 | Wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2024 |
| | Byddwn yn parhau â rhaglen flynyddol o waith ar y cyd sy'n canolbwyntio ar CLDT a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT). | | |
| **Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)** | Byddwn yn cwblhau dau arolygiad amlasiantaeth arall ar y cyd. | Ebrill 2023 – Ebrill 2024 | Adroddiad cenedlaethol i'w gyhoeddi ym mis Medi 2024 |
| | Canfyddiadau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Pen-y-bont ar Ogwr 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Mehefin 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Ein canfyddiadau o Gyngor Dinas a Sir Caerdydd Adroddiad Arolygiad ar y Cyd Caerdydd | 7 Mai 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Canfyddiadau o Gyngor Sir Ddinbych – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Sir Ddinbych 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Chwefror 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Canfyddiadau o Gyngor Sir Powys – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Powys 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Hydref 2023 | Wedi'i gyhoeddi |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygu perfformiad Awdurdodau Lleol** | Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru | Mynd rhagddo | Ar y gweill |
| | Rydym wrthi'n adolygu ein Cod Ymarfer a byddwn yn ei gyhoeddi'n fuan. | | Adolygu |
| | Adroddiad o wasanaethau plant ac oedolion Cyngor Sir y Fflint ym mis Chwefror 2024 – Cyhoeddi adroddiad arolygu gwasanaethau oedolion a phlant Cyngor Sir y Fflint \| Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Chwefror 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Gwnaethom gyhoeddi Adroddiad ar Arolygiad Gwerthuso Perfformiad: Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Fynwy | 2 Mai 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Gwnaethom gyhoeddi Sir Benfro – Arolygiad gwiriad gwella Gwiriad gwella gwasanaethau oedolion Cyngor Sir Penfro | 13 Mehefin 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| | Gwnaethom gynnal Arolygiad Gwerthuso Perfformiad yng ngwasanaeth oedolion Abertawe ym mis Mai 2024 | 11 Gorffennaf 2024 | I'w gyhoeddi |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – Arolygiad o Wasanaethau Troseddwyr Ifanc** | Gwnaethom gefnogi'r gwaith o ddarparu Arolygiad Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc HMIP yn Sir Ddinbych a Chonwy. Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid: Conwy a Sir Ddinbych (justiceinspectorates.gov.uk) | 8 Mai 2024 | Wedi'i gyhoeddi |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers mis Mehefin 2023

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| A465 Adran 2 – diweddariad | Mehefin 2024 |
| Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol | Mai 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | Ebrill 2024 |
| Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru | Mawrth 2024 |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Chwefror 2024 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – adroddiad dilynol ar effeithiolrwydd | Chwefror 2024 |
| Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn defnyddio data o gyfrifon drafft 2022-23 | Ionawr 2024 |
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd | Ionawr 2024 |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd | Tachwedd 2023 |
| Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru | Tachwedd 2023 |
| Methiannau mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a cholledion wedi'u dioddef – Cyngor Cymuned Harlech | Tachwedd 2023 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Diffodd y galwadau diangen: Ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i Signalau Tân Dieisiau | Hydref 2023 |
| Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: dilyniant (llythyr i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) | Hydref 2023 |
| Gweithlu'r GIG – briff data | Medi 2023 |
| Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru | Medi 2023 |
| Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU | Medi 2023 |
| Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau (mewn llywodraeth leol) | Medi 2023 |
| Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2023 | Medi 2023 |
| Adroddiadau er budd y cyhoedd – Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Cymuned Llanferres | Medi 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Awst 2023 |
| 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru | Awst 2023 |
| Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig | Mehefin 2023 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru (gwaith sy'n mynd rhagddo / wedi'i gynllunio)[1, 2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | Gorffennaf 2024 |
| Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau – crynodeb cenedlaethol | Gorffennaf 2024 |
| Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2024 | Gorffennaf 2024 |
| Tai fforddiadwy | Awst 2024 |
| Teithio llesol (adroddiad ac adnodd data) | Awst / Medi 2024 |
| Canfyddiadau paru data peilot cofrestru meddygon teulu | Medi / Hydref 2024 |
| Menter Twyll Genedlaethol – adroddiad bob dwy flynedd | Hydref 2024 |
| Gwasanaethau canser | Hydref 2024 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod rhagoriaeth mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath.

[2] Mae ein Cynllun Blynyddol 2024-25 hefyd yn rhestru gwaith sy'n mynd rhagddo, y mae rhywfaint ohono wedi'i gyhoeddi ers hynny, neu waith y bwriedir ei ddechrau yn ystod 2024-25. Mae Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 –hefyd yn darparu rhai manylion ychwanegol am bynciau penodol a bydd yn parhau i lywio ein gwaith o gynllunio'r rhaglen waith ar gyfer 2025-26.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Cynllunio gweithlu'r GIG (negeseuon cenedlaethol) | Hydref 2024 |
| Gofal heb ei drefnu (negeseuon cenedlaethol – llif cleifion yn yr ysbyty ac oedi wrth ryddhau) | Hydref 2024 |
| Rheolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau tref a chymuned | Hydref 2024 |
| Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth (y sector cyhoeddus cyfan ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru) | Adolygiad ar draws y sector cyhoeddus – hydref 2024<br><br>CNC i'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Buddsoddi cyfalaf a seilwaith Llywodraeth Cymru | Diwedd hydref 2024 |
| Heriau i'r sector diwylliannol | Erbyn diwedd 2024 (adroddiadau lleol) |
| Canolfan Ganser Newydd Felindre | Dechrau 2025 |
| Canfyddiadau o archwiliadau datblygu cynaliadwy (adroddiad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Erbyn dechrau Mai 2025 |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | Cwmpasu ar y gweill, y bwriad o'i gyflawni ddechrau'r haf |
| Ailgydbwyso gofal a chymorth | I'w gadarnhau (cwmpasu) |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG (gwaith archwilio lleol mewn byrddau iechyd) | I'w gadarnhau (gwaith lleol ym mhob Bwrdd Iechyd wedi dechrau ym mis Mai 2024) |
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Cymorth i fusnesau | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Cymorth i wasanaethau bysiau a rheilffyrdd | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Cynnydd gyda buddsoddiad mewn adeiladau ysgol a choleg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Dulliau cyrff y GIG o drawsnewid digidol (gwaith archwilio lleol) | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |

## Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| **Sgwrs a Phaned gydag Alex Swift: Ail-Ddiffinio ein bywydau: Tua Dealltwriaeth Gymdeithasol o Niwroamrywiaeth** | Gallwch drefnu lle yma. |

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| **Pwyllgorau Archwilio: Arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol** Mae trefniadau llywodraethu da yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu gwasanaethau gwerth am arian i ddinasyddion a chymunedau yng Nghymru. Pwyllgorau Archwilio yw un o'r sylfeini sy'n cefnogi trefniadau llywodraethu da. Gyda phwysau sylweddol ar gyllid y sector cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol, mae angen cynyddol am arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol. Mae Pwyllgorau Archwilio yn chwarae rhan hanfodol yn hyn. Mae'r digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i rannu profiadau, dysgu, a rhwydweithio gyda chymheiriaid ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. | 9 Hydref 2024, 10:30 – 15:30<br>Canolfan Fusnes Conwy<br>Gallwch drefnu lle yma.<br>Mae'r adnoddau o'n digwyddiad yng Nghaerdydd ar 22 Mai ar gael yma. |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 5ed Medi 2024 |
| **TEITL YR EITEM** | Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 a Chynllun Archwilio Manwl 2024 Cyngor Gwynedd |
| **AMCAN** | Cyflwyno Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 a Chynllun Arwchilio Manwl Archwilio Cymru ar gyfer y Cyngor yn 2024 |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r Aelodau gynnig sylwadau ar y ddogfen a'i derbyn. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yng nghyd-destun gwaith y Cyngor.

**2. CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2024**

2.1. Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol mae Archwilio Cymru yn cwblhau gwaith bob blwyddyn sydd ynghlwm a'r dyletswyddau canlynol - Archwilio Cyfrifon, sicrhau Gwerth am Arian, gwneud Gwelliannau Parhaus a chydymffurfio a'r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy.

2.2. Fe gwblheir prosiectau penodol hefyd gan ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi ei gasglu gan reoleiddwyr eraill megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Ceir crynodeb o ganfyddiadau a'r casgliadau ar gyfer y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 (**Atodiad 1**).

2.3. Atodir y Cynllun Archwilio Manwl ar gyfer 2024 fel **Atodiad 2 .** Mae'n disgrifio'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn 2.1 uchod.

2.4. Bydd swyddogion Archwilio Cymru yn cyflwyno'r eitem i'r Aelodau a bydd cyfle i ofyn cwestiynau ar sail y cynnwys.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Gwynedd

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023

Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.



Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae gan y Cyngor 69 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Plaid Cymru 44
- Annibynnol 23
- Rhyddfrydol - Llafur 2

Gwariodd y Cyngor £311.1 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2022-23[2]

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost y gwasanaethau a ysgwyddir gan y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, gan dynnu unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, a praeseptau, ardollau a llog dyled.

[2] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2022-23

**Ffeithiau allweddol**

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor £123.4 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy[3]. Mae hyn yn cyfateb i 39.7% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau[4].

Mae 2.7% o 73 o ardaloedd Cyngor Sir Gwynedd yn rhai yr ystyrir eu bod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru; dyma'r pumed isaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[5].

Rhagwelir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 5% rhwng 2023 a 2043 o 125,500 i 132,200, gan gynnwys cynnydd o 3% yn nifer y plant, cynnydd o 1% yn nifer y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd o 17% yn nifer y bobl 65 a hŷn[6].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2022-23 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.
- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[3] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae hyn yn golygu cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a balansau ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf, na grantiau cyfalaf anghymwysedig.

[4] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2022-23

[5] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[6] Ffynhonnell: Stats Cymru, Amcanestyniadau o'r Boblogaeth

# Yr hyn a nodwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd 2022-23

**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2022-23:

- cyflwynwyd y datganiadau drafft i'w harchwilio ar 30 Mehefin 2023. Roedd hyn cyn y dyddiad cau ar 31 Gorffennaf 2023 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn cywir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 22 Ionawr 2024. Roedd hyn wedi'r dyddiad cau, sef 30 Tachwedd 2023, y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, yn bennaf oherwydd effaith gofynion safonau archwilio newydd. Nodwyd mwy o wybodaeth am effaith safonau archwilio newydd yn ein Cynllun Archwilio Manwl a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14 Rhagfyr 2023.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod a'n gwybodaeth am yr Awdurdod.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a gododd o'n gwaith archwilio, a thynnwyd sylw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y rhain yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Ionawr 2024.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae hefyd yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grant. Ni nodwyd unrhyw broblemau arwyddocaol yn ein gwaith hyd yma.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2022-23 wedi cael ei gwblhau.

## Adolygiad asesu risg a sicrwydd

Fe wnaethom adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau. Gwnaethom gynhyrchu'r adroddiadau canlynol o'n gwaith asesu risg a sicrwydd:

- Gosod amcanion llesiant – gwnaethom edrych ar ddull y Cyngor o osod ei amcanion llesiant. Canfuom fod y Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth

osod ei amcanion llesiant ac mae cyfleoedd i gryfhau agweddau ar hyn, yn ogystal â'r trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni a monitro.

- Defnydd o wybodaeth perfformiad – safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau – gwnaethom edrych ar y data safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau a ddarparwyd i aelodau ac uwch-swyddogion, a sut y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio. Canfuom bod y Cyngor yn darparu llawer iawn o wybodaeth perfformiad i uwch arweinwyr i'w helpu i ddeall safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth ond mae gwybodaeth am ganlyniadau yn gyfyngedig.

## Strategaeth Ddigidol

Yn ystod 2022-23, gwnaethom archwilio dull gweithredu strategol cynghorau o ran agweddau digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor. Canfuom nad oes gan y Cyngor ddull strategol o ymdrin â digidol ac nad yw wedi dangos y bydd ei strategaeth ddigidol nesaf yn cael ei datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Adolygiad o effeithiolrwydd craffu

Yn ystod 2023, gwnaethom adolygu a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer craffu drwy'r pwyllgorau cyhoeddus. Canfuom fod y Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar y cyfan i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol ond mae cyfleoedd i gryfhau hyfforddiant sy'n cymhwyso aelodau i ddwyn y Cabinet i gyfrif.

## Arolygiaethau eraill

Gwnaethom hefyd ystyried canfyddiadau Archwiliadau Sicrwydd a gwblhawyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac adroddiadau Estyn, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb iddynt.

## Gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2023-24

Gwnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

- Asesiad risg a sicrwydd
- Asesiad risg a sicrwydd – Gosod Amcanion Llesiant
- Prosiect rhanbarthol – Adolygiad o ofal heb ei drefnu
- Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd ariannol
- Adolygiad thematig – Comisiynu
- Prosiect Lleol – Gwastraff ac Ailgylchu

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Gwynedd – Cynllun Archwilio Manwl 2024

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4339A2024

.



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 8 |
| Perthnasedd datganiadau ariannol | 9 |
| Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol | 10 |
| Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt | 11 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol | 13 |
| Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig | 14 |
| Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grant | 15 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 15 |
| Ffi a'r tîm archwilio | 16 |
| Ansawdd archwilio | 18 |
| Cefnogi chi | 19 |

# Cyflwyniad

Mae’r Cynllun Archwilio Manwl hwn yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae’n nodi’r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i’r afael â’r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2024.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

## Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol imi gyflwyno adroddiad ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' a'r gwaith priodol o'u paratoi yn unol â gofynion cyfrifyddu.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am Cyngor Gwynedd i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen);
- Archwilio Awdurdod Harbyrau Gwynedd lle na chaiff cynllun ar wahân ei lunio;
- archwilio cyd-bwyllgorau GwE a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, lle caiff cynlluniau ar wahân eu lunio; a
- ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff cyllido.

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd.  Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain.  Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o'r fath i fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Gwaith archwilio perfformiad

Mae'n rhaid imi fodloni fy hun bod y Cyngor:

- wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.  Gwnaf hyn drwy ymgymryd â rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn.
- yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Caiff fy rhaglen waith ei llywio gan faterion a risgiau penodol sy'n wynebu'r Cyngor a llywodraeth leol yn ehangach yng Nghymru.  Rwyf hefyd wedi ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud neu y bwriedir iddo gael ei wneud gan gyrff adolygu allanol eraill a chan adrannau archwilio mewnol.

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad lleol yn parhau i gael ei darparu drwy gyfuniad o Brosiect Asesu Sicrwydd a Risg, prosiectau lleol pwrpasol a phrosiectau thematig sy'n archwilio'r risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.

Caiff fy ngwaith archwilio perfformiad ei lunio i gydymffurfio â safonau archwilio a bennir gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI), sy'n sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Sefydliad anllywodraethol ydyw sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

# Cipolwg ar eich archwiliad

**Bydd fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd pwyslais eraill**

Mae fy nghynllun archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Risg sylweddol i ddatganiadau ariannol
- Gwrth-wneud gan y Rheolwyr

Meysydd eraill y bydd y gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt
- Prisio tir ac adeiladau
- Prisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn

**Bydd fy archwiliad o berfformiad yn cynnwys:**

- Asesu Sicrwydd a Risg
- Gwaith lleol – Ymateb i'r galw presennol am ofal cartref
- Gwaith lleol – Strategaeth ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn

**Perthnasedd**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | £5.703 miliwn |
| Trothwy adrodd | £285,000 |

# Perthnasedd datganiadau ariannol

**Perthnasedd £5.703 miliwn**

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai achosi i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain fel arall.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- gwariant gros 2023-24 sef £570.3 miliwn
- Canran perthnasedd o 1%

Rwyf yn adrodd unrhyw gamddatganiad sy'n fwy na lefel ddibwys (a bennir ar berthnasedd o 5%) i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

**Meysydd o ddiddordeb penodol**

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Cydnabyddiaeth uwch-swyddogion £1,000
- Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion) £10,000

# Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

**Arddangosyn 1: risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
| --- | --- |
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. |

Nid yw'r tîm archwilio wedi cwblhau pob rhan o'r asesiad risg eto. Os bydd unrhyw risgiau ariannol sylweddol pellach yn codi ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, byddwn yn diweddaru y Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy ei gadeirydd ac yn ailgyhoeddi fy Nghynllun Archwilio Manwl os bydd angen.

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Cyflwynaf risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a nodwyd. Er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau sylweddol fel yr uchod, hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

**Arddangosyn 2: meysydd eraill y canolbwyntir arnynt**

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio rhwymedigaeth net cronfa bensiwn**<br>Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a rhwymedigaeth cronfa bensiwn fel y'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.<br>Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn ddarostyngedig i gryn dipyn o ansicrwydd gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y tybiaethau a ddefnyddir i'w gyfrifo.<br>Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth hefyd, er enghraifft, roedd y rhwymedigaeth mewn gwirionedd yn warged, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.<br>Mae yna sawl achos LGPS cyfreithiol hefyd a allai effeithio ar brisiad y gronfa. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwystra, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a roddwyd gan y Cyngor i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;<br>• profi cywirdeb rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn a datgeliadau yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy edrych ar adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen; ac<br>• asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith berthnasol ar y rhwymedigaeth net ac, os felly, cadarnhau bod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol. |
| **Prisio tir ac adeiladau**<br>Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.<br>Mae'n ofynnol i dir ac adeiladau gael eu dal ar sail brisio sy'n dibynnu ar natur yr asedau a'r defnydd a wneir ohonynt. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• adolygu'r wybodaeth a roddwyd i'r prisiwr i asesu ar gyfer cyflawnder;<br>• gwerthuso cymhwystra, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol; |

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| Mae'r amcangyfrif hwn yn ddarostyngedig i gryn dipyn o oddrychedd, yn dibynnu ar y tybiaethau arbenigol a rheoli, a gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau.<br>Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd newid hefyd o flwyddyn i flwyddyn, ac mae risg y gallai gwerth cario ymlaen asedau a adlewyrchir yn y cyfrifon fod yn wahanol iawn i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2024, yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd presennol. | • profi sampl o asedau a ail brisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, data allweddol a thybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; a<br>• phrofi'r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau. |

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Nodaf isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Manwl 2024 | Mis Mai i fis Gorffennaf 2024 | Gorffennaf 2024 |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol:<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mis Medi i fis Tachwedd 2024 | Tachwedd 2024 |

# Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Nodaf isod fanylion am fy ngwaith archwilio perfformiad a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 4: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| Teitl | Disgrifiad | Gwaith a gyflawnwyd |
|---|---|---|
| **Asesu sicrwydd a risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gall fod angen gwaith archwilio pellach yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor wrth roi trefniadau cywir ar waith i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Parhaus |
| **Gwaith prosiect lleol – Ymateb i'r galw presennol am ofal cartref** | Adolygiad o'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar waith i ymateb i'r galw presennol am gymorth gofal cartref nad yw'n cael ei ddiwallu. | Caiff yr amserlenni ar gyfer y prosiect eu trafod â'r Cyngor a'u nodi ym mriff penodol y prosiect a gaiff ei lunio ar gyfer pob archwiliad. |
| **Gwaith prosiect lleol – Strategaeth ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn** | Adolygiad o'r trefniadau sydd gan y cyngor ar waith i reoli ei gronfeydd wrth gefn a'i falensau yn strategol. | Caiff yr amserlenni ar gyfer y prosiect eu trafod â'r Cyngor a'u nodi ym mriff penodol y prosiect a gaiff ei lunio ar gyfer pob archwiliad. |

# Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grant, a swyddogaethau archwilio statudol

## Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grant

Gofynnwyd i mi hefyd gynnal gwaith ardystio ar hawliadau grant Cyngor Gwynedd, a fydd, rwy'n rhagweld, yn cynnwys Budd-daliadau Tai, Pensiynau Athrawon ac Ardrethi Annomestig.

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad;
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a'r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Ffioedd ar gyfer blwyddyn 2024-25 fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae cynnydd cyfartalog o 6.4% yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2024-25 o ganlyniad i bwysau chwyddiant na ellir ei osgoi a'r angen parhaus i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio.

Rwyf yn amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd £381,244.

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Pennaeth Cyllid yn gyntaf.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae'r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodir unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

**Arddangosyn 5: dadansoddiad o'r ffi archwilio**

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig ar gyfer 2024 (£)[1] | Ffi wirioneddol ar gyfer 2023 (£) |
|---|---:|---:|
| Archwiliad o'r datganiadau ariannol[2] | 228,859 | 215,093 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 114,215 | 107,345 |
| Gwaith ardystio grantiau[4] | 35,000-40,000 | 32,749 |
| Gwaith archwilio ariannol arall[5] | 670 | 1,259 |
| **Cyfanswm y ffi** | **381,244** | **356,446** |

Mae'r gwaith cyllunio yn parhau, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni wnaf unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

[2] Yn daladwy o fis Tachwedd 2023 hyd fis Hydref 2024.

[3] Yn daladwy o fis Ebrill 2024 hyd fis Mawrth 2025.

[4] Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud.

[5] Yn daladwy o fis Tachwedd 2023 hyd fis Hydref 2024 am waith a wnaed ar Harbyrau Cyngor Gwynedd.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Rôl | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Matthew Edwards | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | matthew.edwards@archwilio.cymru |
| Gary Emery | Cyfarwyddwr Ymgysylltu/Cyfarwyddwr Archwilio(Archwilio Perfformiad) | gary.emery@archwilio.cymru |
| Yvonne Thomas | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | yvonne.thomas@archwilio.cymru |
| Carwyn Rees | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | carwyn.rees@archwilio.cymru |
| Sioned Owen | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol) | sioned.owen@archwilio.cymru |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | alan.hughes@archwilio.cymru |

Mae rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw mewn perthynas â'r Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) a'r Arweinwyr Archwilio (Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad). Mae gan y tri ohonynt gydnabyddiaethau a/neu deulu a gyflogir gan y Cyngor. O ganlyniad, ni fyddant naill ai'n ymwneud ag unrhyw waith mewn perthynas â'r gwasanaethau perthnasol, neu bydd camau priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt.  Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.  Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd* ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd.  Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023.



### Ein Pobl

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



### Sicrwydd annibynnol

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

# Cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i helpu i graffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru ac i gefnogi'r cyrff hynny i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Gallwch ddod o hyd i'r canlynol ar ein gwefan:

| | |
|---|---|
| | ein gwaith Arfer Da, lle rydym yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli. |
| | ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da a digwyddiadau. |
| | ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu'r gwaith a gwblhawyd gennym wrth archwilio cyrff cyhoeddus. |
| | gwybodaeth am ein blaenraglen o waith archwilio perfformiad 2023-2026 a gaiff ei llywio gan weithgarwch ymgysylltu rhanddeiliaid a'n darlun o ddadansoddi gwasanaethau cyhoeddus. |
| | offer data a ffeithluniau amrywiol i'ch helpu i ddeall tueddiadau o ran gwariant cyhoeddus yn well, gan gynnwys amrywiaeth o wybodaeth arall am y gwaith o graffu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. |

Gallwch ddod o hyd i fwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 ac Ein Strategaeth 2022-27.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Dyddiad | Medi 5ed, 2024 |
| Teitl | Adroddiad Arolygiad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn |
| Pwrpas yr adroddiad | I rannu gwybodaeth am ganfyddiadau ac argymhellion o'r arolygiad uchod. |
| Awdur | Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |

**1. Y Penderfyniad a Geisir**

**1.1** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad ar ganfyddiad ac argymhellion yr archwiliad a gynhaliwyd ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

**2. Cyflwyniad**

**2.1** Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn wasanaeth sydd yn cael ei letya gan Gyngor Gwynedd ac yn gweithredu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r tim wedi ei leoli yn Felinheli ac mae'n dîm aml asiantaethol sydd yn gweithio gyda plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu wedi troseddu.

**2.2** Yn ystod mis Tachwedd 2023 cynhaliwyd arolygiad o'r gwasanaeth gan Arolygaeth Prawf ei Fawrhydi (His Majesty's Inspectorate of Probation/HMIP). Roedd yr arolygiad wedi ei drefnu yn gychwynnol ar gyfer diwedd y flwyddyn flaenorol, ond gan nad oedd yr Arolygaeth yn medru darparu unrhyw arolygwr oedd yn ddwyieithog i gynnal yr arolygiad hwnnw, bu i'r ddau awdurdod lleol wrthod derbyn tim arolygu di-Gymraeg. Derbyniodd yr Arolygaeth safbwynt yr awdurdodau lleol ac fe ohiriwyd yr arolygiad er mwyn i'r Arolygaeth sicrhau fod mwy nag un o'u harolygwyr yn medru'r Gymraeg. Roedd dau o'r pum arolygwyr a fu yma ym mis Tachwedd yn ddwyieithog.

**2.3** Mae Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Gwynedd ac Ynys Môn yn hynod falch gyda'r graddiad cyffredinol 'Da' sydd wedi ei gyhoeddi yn dilyn yr Arolygiad o'r gwasanaeth. Dymunwn ddiolch i'n partneriaid yn y ddau Awdurdod Lleol, y rhwydwaith Cyfiawnder Troseddol Lleol, a'r Sector Gwirfoddol am eu cefnogaeth yn ystod y gwaith paratoi ac yn ystod wythnos yr Arolygiad. Bu i'r arolygiaeth adnabod sawl maes o ymarfer da gan gynnwys trefniadau partneriaethol cryf sy'n llywio ac yn darparu adnoddau ar gyfer gweithio'n effeithiol â phlant a theuluoedd; grŵp o staff sy'n cael eu cefnogi a'u goruchwylio yn dda, a thystiolaeth bod plant a rhieni yn rhan weithredol o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno cefnogaeth.

**2.4** Mae gennym feysydd i'w gwella, ond nid oedd rhain yn lawer o syndod i ni. Rydym nawr yn gyfrifol am weithredu arnynt i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i blant a chymunedau Gwynedd ac Ynys Môn.

**2.5** Mae'r Bwrdd Rheoli a'r uwch reolwyr eisoes wedi cychwyn ar y broses o weithredu ar y meysydd gwella, a chynhaliwyd cyfarfod ar 31ain Ionawr i adolygu ein hadroddiad a'n canfyddiadau drafft er mwyn ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon i'r argymhellion. Cyflwynwyd Cynllun Gwella i'r Arolygaeth ar Ebrill 5ed yn manylu ar y camau gweithredu.

Derbyniwyd y Cynllun Gwella gan yr Arolygaeth ganol mis Ebrill ac mae’r Cynllun yn ei gyfanrwydd wedi ei rannu a’i dderbyn gan y Bwrdd Rheoli ar Ebrill 24ain ac yn cael ei adolygu yn rheolaidd mewn Cyfarfodydd o’r Bwrdd Rheoli.

**3 Ystyriaethau perthnasol**

**3.1** Rydym yn falch bod sylw wedi ei wneud am ansawdd uchel yr ymgysylltiad a’r gefnogaeth y mae staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ei gynnig i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd. Ac wrth gwrs ni ddylem anghofio'r plant y bobl ifanc a’u teuluoedd y bu i lawer ohonynt roi eu hamser i siarad â'r arolygwyr ac i roi adborth iddynt, ac mae’r gwasanaeth yn ddiolchgar iawn am hyn gan fod sefyllfaoedd unigol yn medru bod yn heriol ac anodd i deuluoedd.

**3.2** O ganlyniad i gwmpas yr arolygiad graddiwyd y gwasanaeth ar draws tri maes eang, sef, y trefniadau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth yn sefydliadol; ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant a ddedfrydir gan y llysoedd, ac ansawdd y gwaith gwarediadau y tu allan i'r llys (out-of court disposals/OOCD).

**3.3** Yn gyffredinol, cafodd GCI Gwynedd ac Ynys Môn ei raddio yn 'Dda', ac fe arolygwyd ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu, a raddiwyd ar wahân fel 'Angen Gwella'.

**3.4** Daethpwyd i ganlyniad fod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar blant, ac wedi ymrwymo i gynorthwyo plant i ymwrthod â throseddu pellach. Mae defnyddio dull unigol yn helpu i sicrhau bod anghenion amrywiol plant yn cael eu cydnabod, a bod adnoddau yn cael eu rhoi yn eu lle i helpu iddynt ffynnu a medru mynd ati i wneud penderfyniadau cadarnhaol.

**3.5** Adnabuwyd fod y staff a'r gwirfoddolwyr yn gryfder, gan gydnabod eu bod yn garedig, yn feddylgar, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel un tîm, ac yn eiriolwyr cadarnhaol ar gyfer y plant a’r bobl ifanc dan eu goruchwyliaeth. Mae tystiolaeth fod y gwasanaeth yn mynd ati'n effeithiol i gasglu lleisiau'r plant, pobl ifanc a'u rhieni neu ofalwyr a bod hynny yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu a gwella gwasanaethau.

**3.6** Roedd yr arolygwyr o’r farn fod gan staff fynediad at amrediad o ymyraethau i helpu plant a'u rhieni neu ofalwyr. Yn benodol, nodwyd fod yr hyn sydd gan y Tîm Emrallt (ymddygiad rhywiol problemus a niweidiol) i'w gynnig yn wych ac yn arloesol, ac yn gwneud gwir wahaniaeth i gefnogi ymarferwyr i wella agweddau ac ymddygiadau plant. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth ‘Be di'r Sgôr?’ (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau) yn darparu ymyraethau o ansawdd uchel.

**3.7** Gwnaed sylw fod gan y Bwrdd Rheoli Strategol rai aelodau ymrwymedig sy'n gweithio'n dda i sicrhau adnoddau ariannol ar gyfer y gwasanaeth. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae datgysylltu wedi digwydd rhyngddyn nhw ac ymarferwyr rheng flaen, ac o ganlyniad, nid oes gan rai staff ddealltwriaeth lawn o waith y bwrdd. Yn ogystal, nodwyd fod absenoldebau o’r Bwrdd Iechyd Iechyd ac Adrannau Addysg y ddau awdurdod wedi bod yn amlwg.

**3.8** Gwnaed sylw fod y gwasanaeth ei hun wedi adnabod bod deilliannau addysg anghymesur o wael ar gyfer eu carfan nhw o blant a phobl ifanc, ynghyd â'r angen am adnodd iaith a lleferydd o fewn y gwasanaeth. Roedd yr arolygwyr o’r farn fod angen canolbwyntio ar y canfyddiadau hyn ar lefel mwy strategol, a hynny ar fyrder. Nodwyd hefyd bod angen mwy o ffocws ar lefel strategol i sicrhau bod plant a phobl ifanc y gwasanaeth yn derbyn y ddarpariaeth gorau bosib a bod angen i’r gwasanaeth gael ei gefnogi i gyflawni ymyraethau o ansawdd uchel.

**3.9** Mae'r ymgysylltiad ac ansawdd y perthnasau sydd gan ymarferwyr â'r plant yn gryfder, ond mae gwaith sy'n gysylltiedig â chefnogi diogelwch a llesiant plant a'u potensial i beri niwed i eraill, yn amrywio a nodwyd bod angen gwella hyn. Bu i'r arolygiad ganfod ar draws y gwaith llys a thu allan i'r llys, nad oedd pob aelod staff yn deall ac yn gweithredu'r systemau a'r prosesau yn gyson er mwyn cadw plant yn saff a'u hatal rhag achosi niwed i eraill ac mae hyn yn derbyn sylw yn y Cynllun Gwella.

**4 Y camau nesaf**

**4.1** Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid le i fod yn falch iawn o'r ffordd y mae'n estyn allan i blant gyda thrugaredd ac yn eu helpu i fyw eu bywyd gorau.

**4.2** Y camau nesaf yw i ganolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolygiad hwn fel sbardun fydd yn arwain at newid a gwelliannau pellach.

**4.3** Mae saith argymhelliad wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ac mae'r Cynllun Gwella manwl a'r adroddiad arolygiad wedi eu hatodi i'r adroddiad yma. Mae'r Cynllun Gwella wedi cael ei lunio ar y cyd gydag aelodau'r Bwrdd Rheoli, y Grŵp Rheoli Gweithredol a staff y Gwasanaeth yn dilyn cyfarfod ar ddiwedd mis Ionawr i adolygu'r adroddiad drafft a chychwyn ar y broses o lunio ymateb fel bod y berchnogaeth i weithredu'r Cynllun Gwella yn cael ei dderbyn drwy'r Gwasanaeth a gyda'n partneriaid.

Arolygiaeth Prawf EF

Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid

# Gwynedd ac Ynys Môn

Arolygiaeth Prawf EF, Mawrth 2024

# Cynnwys

**Rhagair** .................... **3**
**Sgoriau** .................... **4**
**Argymhellion** .................... **5**
**Cefndir** .................... **6**
**Parth un: Darpariaeth sefydliadol** .................... **7**
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth .................... 7
1.2. Staff .................... 9
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau .................... 10
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau .................... 12
**Parth dau: Datrysiadau llys** .................... **15**
2.1. Asesu .................... 15
2.2. Cynllunio .................... 16
2.3. Gweithredu a darparu .................... 18
2.4. Adolygu .................... 20
**Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys** .................... **22**
3.1. Asesu .................... 22
3.2. Cynllunio .................... 24
3.3. Gweithredu a darparu .................... 26
3.4. Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys .................... 28
**4.1. Ailsefydlu** .................... **30**
4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu .................... 30
**Rhagor o wybodaeth** .................... **31**

**Cydnabyddiaethau**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan yr Arolygydd Avtar Singh, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio ac a gymerodd ran yn yr arolygiad; heb eu cymorth a'u cydweithrediad nhw, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

**Rôl Arolygiaeth Prawf EF**

Arolygiaeth Prawf EF yw'r arolygydd annibynnol ar wasanaethau troseddau ieuenctid a phrawf yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf a throseddau ieuenctid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, fod yr enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi cael eu newid er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolyn.

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

**Cyhoeddwyd gan:**
Arolygiaeth Prawf EF
Llawr 1af y Ganolfan Cyfiawnder Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

ISBN: 978-1-916621-10-7

**© Hawlfraint y goron 2024**

# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (GCI). Rydym wedi arolygu a graddio GCI Gwynedd ac Ynys Môn ar draws tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant a ddedfrydwyd gan y llysoedd, ac ansawdd y gwaith ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

Yn gyffredinol, cafodd GCI Gwynedd ac Ynys Môn ei sgôr 'Da'. Gwnaethom hefyd arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu, a gafodd sgôr ar wahân – 'Angen gwella'.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar blant ac yn ymrwymedig i helpu plant i ymatal rhag troseddu pellach. Mae dull gweithredu personoledig yn helpu i sicrhau bod anghenion amrywiaeth plant yn cael eu cydnabod, a bod cefnogaeth yn ei lle i'w helpu i ffynnu a gwneud penderfyniadau cadarnhaol. Mae staff a gwirfoddolwyr yn gryfder. Maent yn garedig, yn feddylgar, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel un tîm, ac yn eiriolwyr cadarnhaol dros y plant y maent yn eu goruchwylio. Mae'r gwasanaeth yn casglu lleisiau plant a'u rhieni neu ofalwyr yn effeithiol. Mae hyn yn llywio datblygiad gwasanaethau a gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae gan staff fynediad at ystod o ymyriadau i helpu plant a'u rhieni neu ofalwyr. Yn benodol, mae'r hyn a gynigir gan y Tîm Emrallt (ymddygiad rhywiol problemus a niweidiol) yn rhagorol ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran cefnogi ymarferwyr i wella agweddau ac ymddygiadau plant. Mae Be di'r Sgôr (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau) yn cynnig ymyriadau o ansawdd uchel.

Mae gan y bwrdd rheoli strategol aelodau ymroddedig sy'n gweithio'n dda i hwyluso'r defnydd o adnoddau ariannol ar gyfer y GCI. Ers y pandemig, fodd bynnag, bu datgysylltiad ag ymarferwyr rheng flaen. Mae hyn yn golygu nad yw rhai aelodau o staff yn deall gwaith y bwrdd yn llawn. Ar ben hynny, roedd partneriaid iechyd ac addysg yn nodedig yn eu habsenoldeb mewn cyfarfodydd bwrdd. Mae'r GCI wedi nodi lefel anghymesur o ganlyniadau addysg gwaeth ar gyfer ei garfan o blant, a'r angen am adnodd iaith a lleferydd. Mae angen ffocws mwy dybryd ar y canfyddiadau hyn ar lefel strategol. Mae hefyd angen mwy o ysgogiad a ffocws ar lefel strategol i sicrhau bod plant y GCI yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl ac y cefnogir y GCI i ddarparu ymyriadau o ansawdd uchel.

Mae ymgysylltu ac ansawdd y perthnasoedd sydd gan ymarferwyr â phlant yn gryfder, ond mae gwaith sy'n gysylltiedig â chefnogi diogelwch a lles plant a'u potensial i achosi niwed i eraill yn amrywiol. Mae angen i hyn wella. Canfu ein harolygiad, ar draws gwaith yn y llys a gwaith y tu allan i'r llys, nad oedd pob aelod o staff yn deall nac yn gweithredu'r systemau a'r prosesau'n gyson i gadw plant yn ddiogel a'u hatal rhag achosi niwed i eraill.

Gall y GCI fod yn haeddiannol falch o'r ffordd y mae'n estyn allan at blant â thosturi i'w helpu i fyw eu bywydau gorau. Rhaid iddo nawr ganolbwyntio ar ddefnyddio canfyddiadau'r arolygiad hwn fel sbardun i sicrhau newid pellach. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud saith argymhelliad i wella gwaith GCI Gwynedd ac Ynys Môn ymhellach. Rydym yn hyderus y byddant yn cynorthwyo'r gwasanaeth wrth iddo barhau â'i daith wella.



**Martin Jones**
Prif Arolygydd Prawf

## Sgoriau

| **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn**<br>Gwaith maes wedi dechrau Tachwedd 2023 | | **Sgôr** | **19/36** |
|---|---|---|---|
| **Sgôr cyffredinol** | | **Da** | ● |
| **1.** | **Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Angen gwella** | ● |
| 1.2 | Staff | **Da** | ● |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Da** | ● |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Da** | ● |
| **2.** | **Datrysiadau llys** | | |
| 2.1 | Asesu | **Angen gwella** | ● |
| 2.2 | Cynllunio | **Rhagorol** | ☆ |
| 2.3 | Gweithredu a darparu | **Da** | ● |
| 2.4 | Adolygu | **Angen gwella** | ● |
| **3.** | **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | | |
| 3.1 | Asesu | **Angen gwella** | ● |
| 3.2 | Cynllunio | **Angen gwella** | ● |
| 3.3 | Gweithredu a darparu | **Da** | ● |
| 3.4 | Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys | **Angen gwella** | ● |
| **4.** | **Ailsefydlu**[1] | | |
| 4.1 | Polisi a darpariaeth ailsefydlu | **Angen gwella** | ● |

[1] Nid yw'r sgôr ar gyfer Ailsefydlu yn dylanwadu ar sgôr cyffredinol y GCI.

## Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad, rydym wedi gwneud saith argymhelliad y credwn y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid yn GCI Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddau ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

**Dylai Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn wneud y canlynol:**

1. gwella ansawdd y gwaith asesu a chynllunio i gadw plant yn ddiogel a rheoli'r risg o niwed y maent yn ei achosi i eraill
2. sicrhau bod goruchwyliaeth reoli yn gyson effeithiol wrth adolygu gweithgarwch Asset Plus a chynllunio wrth gefn, er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn glir ynghylch yr hyn y mae angen iddynt ei wella
3. rhoi arweiniad cynhwysfawr i ymarferwyr sy'n ei helpu i gwblhau gwaith asesu a chynllunio effeithiol ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys
4. gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr i nodi pryd mae plant yn cael eu hecsbloetio er mwyn sicrhau bod camau amserol yn cael eu cymryd i gadw plant yn ddiogel.

**Dylai Bwrdd Rheoli Strategol Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn wneud y canlynol:**

5. sicrhau presenoldeb cyson uwch arweinwyr addysg ac iechyd yn y bwrdd rheoli er mwyn sicrhau canlyniadau addysg ac iechyd cadarnhaol i bob plentyn
6. mynd i'r afael â'r datgysylltiad rhwng y bwrdd rheoli strategol ac ymarferwyr rheng flaen
7. mynd i'r afael â'r bwlch mewn darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu sy'n asesu ac yn ymateb i anghenion cyfathrebu plant.

# Cefndir

Cynhaliwyd gwaith maes yn GCI Gwynedd ac Ynys Môn dros gyfnod o wythnos, gan ddechrau ar 20 Tachwedd 2023. Gwnaethom arolygu achosion lle dechreuodd y ddedfryd neu'r drwydded rhwng dydd Llun 21 Tachwedd 2022 a dydd Gwener 15 Medi 2023; datrysiadau y tu allan i'r llys a gyflwynwyd rhwng dydd Llun 21 Tachwedd 2022 a dydd Gwener 15 Medi 2023; ac achosion ailsefydlu a gafodd eu dedfrydu neu eu maddau rhwng dydd Llun 21 Tachwedd 2022 a dydd Gwener 15 Medi 2023. Gwnaethom hefyd gynnal 20 cyfweliad gyda rheolwyr achos.

Comisiynir GCI Gwynedd ac Ynys Môn ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd. Cyngor Sir Gwynedd yw'r awdurdod cynnal, ac mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr. Mae'r GCI yn cael ei lywodraethu gan yr uwch fwrdd rheoli a'i gefnogi gan y grŵp rheoli gweithredol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau pobl ifanc (Be di'r Sgôr) a thîm ymddygiad rhywiol niweidiol Gwynedd (Tîm Emrallt). Mae'r gwasanaeth wedi'i integreiddio i bartneriaethau lleol drwy ystod o fforymau, sy'n cwmpasu darpariaeth gwasanaethau cyfiawnder troseddol a phlant. Mae'r rhain yn cynnwys y bartneriaeth diogelwch cymunedol, grŵp cyflawni diogelu lleol, bwrdd cyfiawnder troseddol rhanbarthol, panel craffu rhanbarthol ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gangiau troseddol cyfundrefnol/grwpiau troseddau cyfundrefnol difrifol, paneli camfanteisio ar blant, a rheolaeth troseddwyr integredig.

Mae swyddfa GCI Gwynedd ac Ynys Môn yn Y Felinheli. Nid yw'r lleoliad hwn wedi'i gysylltu â rhwydweithiau cymunedol arbennig o dda nac yn cynnig mynediad hawdd i blant a'u rhieni a'u gofalwyr.

Mae gan Wynedd ac Ynys Môn boblogaeth amcangyfrifedig o 186,016 a phoblogaeth ieuenctid (10-17 oed) o 16,450 (8.8 y cant). Mae grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cyfrif am lai na phedwar y cant o gyfanswm poblogaeth Gwynedd ac Ynys Môn (SYG, 2022). Roedd y ffigurau ar gyfer Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth yn 2020-2023 yn llai na thri y cant (YDS 113,114 a 115)[2].

Yng nghyfrifiad 2021, roedd 59.3 y cant o boblogaeth Gwynedd ac Ynys Môn yn uniaethu fel gwyn Cymreig yn hytrach na gwyn Prydeinig neu wyn Cymreig/Prydeinig. Gwynedd ac Ynys Môn sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru: 65 y cant yng Ngwynedd a 57 y cant ar Ynys Môn. O'r 32 aelod o staff (ar draws y tri gwasanaeth), mae 29 (91 y cant) yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

Mae nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â'r GCI am y tro cyntaf yn parhau i fod yn uchel o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru. Rhwng 2020 a 2022, er bod y niferoedd yn is o ganlyniad i'r pandemig, gwelwyd cynnydd o bron i 40 y cant. Rhwng 01 Hydref 2022 a 30 Medi 2023, darparodd y GCI wasanaethau y tu allan i'r llys i 183 o blant. Roedd hyn yn cynrychioli 73% o'i lwyth achosion.

Mae llysoedd ieuenctid cofrestredig yn digwydd bob pythefnos ac yn Llys y Goron pan fo angen. Mae un ddalfa'r heddlu yn ardal y gwasanaeth, sydd wedi'i lleoli yng Nghaernarfon. Gweledigaeth GCI yw ceisio 'cefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial trwy fyw bywydau di-drosedd.' Mae plant dan oruchwyliaeth y GCI wedi cynhyrchu'r arwyddair, 'ein cefnogi i wneud ein gorau glas drwy gadw draw o drosedd' i egluro rôl y GCI o'u safbwynt nhw.

[2] Gwybodaeth a roddwyd gan GCI Gwynedd ac Ynys Môn

## Maes un: Darpariaeth sefydliadol

Er mwyn arolygu darpariaeth sefydliadol, gwnaethom adolygu tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ymlaen llaw gan y GCI a chynnal 12 cyfarfod, gan gynnwys gyda staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau'r bwrdd, a staff partneriaeth a'u rheolwyr.

Roedd y canfyddiadau allweddol ynghylch darpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

### 1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Mae trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y GCI yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r ddarpariaeth o wasanaeth personoledig ac ymatebol o ansawdd uchel i bob plentyn. | Angen gwella |

**Cryfderau:**

- Mae'r bwrdd rheoli strategol wedi gosod gweledigaeth a strategaeth glir trwy ei ymgysylltiad effeithiol â phartneriaid a rhanddeiliaid.
- Mae aelodau'r bwrdd yn teimlo bod y cadeirydd yn ysgogi ymrwymiad clir i wella'r gwasanaeth a rhoi plant yn gyntaf.
- Mae partneriaid anstatudol yn dod â gwerth ychwanegol i'r bwrdd rheoli strategol.
- Mae'r rhan fwyaf o drefniadau partneriaeth y GCI yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gwaith effeithiol gyda phlant y GCI.
- Mae tîm arwain y GCI yn hyrwyddo didwylledd a her adeiladol, gan greu lle diogel i bawb gyfrannu.
- Mae protocolau rhannu gwybodaeth yn galluogi cyfnewidiadau cyfathrebu effeithiol.
- Mae arweinwyr yn deall risgiau busnes i'r GCI yn dda ac mae rheolaethau priodol ar waith i liniaru risg.
- Mae amcan o fewn cynllun y GCI sy'n cynnwys gwrando ar leisiau plant a'u rhieni/gofalwyr. Mae'r mecanweithiau ac offer archwilio a ddefnyddir i fesur pa mor dda y caiff safbwyntiau eu casglu a'u defnyddio i ddatblygu ymarfer, yn gryfder amlwg.

**Meysydd ar gyfer gwella:**

- Mae angen i bresenoldeb a chynrychiolaeth yn y bwrdd rheoli strategol fod yn rheolaidd ar draws yr holl bartneriaid statudol. Ar hyn o bryd, mae partneriaid addysg ac iechyd yn nodedig yn eu habsenoldeb neu'n anghyson yn eu hymgysylltiad.
- Mae angen i'r bwrdd rheoli strategol fod ymateb i anghenion a nodwyd yn fwy rhagweithiol ac fel mater o frys – er enghraifft, darparu adnodd iaith a lleferydd.

- Dylai gwirfoddolwyr a staff GCI gael mwy o gyfleoedd i gyfrannu at y cynllun cyfiawnder ieuenctid.
- Nid yw pob aelod o staff yn ymwybodol o weithgareddau'r bwrdd rheoli strategol. Mae hyn wedi arwain at ddatgysylltiad rhwng y bwrdd ac ymarferwyr rheng flaen yn y bartneriaeth.
- Nid yw cynllun busnes GCI (2023–2025) yn eglur wrth nodi neu fynd i'r afael ag anghymesuredd ac anghenion plant â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Cyfyngedig iawn yw'r dystiolaeth o sgyrsiau cadarn am nodweddion gwarchodedig ac amrywiaeth yng nghyfarfodydd y bwrdd rheoli strategol.
- Mae profiad aelodau'r bwrdd o gynefino yn amrywiol.

## 1.2. Staff

| Mae staff yn y GCI yn cael eu grymuso i ddarparu gwasanaeth personoledig, ymatebol o ansawdd uchel i bob plentyn. | Da |
|---|---|

**Cryfderau:**

- Mae GCI Gwynedd ac Ynys Môn yn cynnig gofal bugeiliol a chefnogaeth dda i'w staff.
- Mae'r gweithlu'n amrywiol ac yn gallu gweithio gyda phlant yn Gymraeg neu Saesneg.
- Mae adnoddau staffio yn cael eu cynllunio, eu defnyddio'n effeithiol a'u hadolygu'n briodol i ymateb i anghenion a phroffil newidiol y plant sydd dan oruchwyliaeth y GCI.
- Mae llwythi gwaith staff a rheolwyr, gan gynnwys gwirfoddolwyr, yn realistig.
- Mae trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod ansawdd gwaith yn cael ei gynnal yn ystod absenoldebau a gynlluniwyd a rhai heb eu cynllunio.
- Dyrennir achosion yn gywir i ymarferwyr sydd â sgiliau a chymwysterau addas. Mae gweithio ar y cyd ar achosion yn darparu atebolrwydd, dysgu a datblygiad ychwanegol.
- Mae staff yn cael eu cefnogi'n dda yn eu datblygiad proffesiynol.
- Mae staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd mewn cysylltiad â rheoli achosion ac mae staff yn benderfynol o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Mae gan ymarferwyr fynediad at ystod o gyfleoedd dysgu a hyfforddiant.
- Mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus.
- Mae cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu hysbysebu'n agored.

**Meysydd ar gyfer gwella:**

- Nid yw dysgu, datblygu a hyfforddiant eto yn arwain at waith effeithiol a chyson i fynd i'r afael â diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill.
- Nid oes goruchwyliaeth glinigol ar gael i'r rhan fwyaf o staff.
- Nid oes cysondeb o ran goruchwyliaeth rheolwyr o waith i fynd i'r afael â diogelwch a lles a'r risg o niwed.
- Prin yw'r trefniadau gwobrwyo a chydnabod, a gellid eu cryfhau neu eu datblygu.
- Nid yw pob rheolwr wedi derbyn y lefel briodol o hyfforddiant, ar gyfer eu rôl neu eu cyfrifoldebau, yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Nid yw pob aelod o staff wedi cael arfarniad ffurfiol.
- Nid yw pob gwirfoddolwr yn cael goruchwyliaeth ffurfiol.

## 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar waith, gan alluogi darpariaeth bersonoledig ac ymatebol i bob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Mae yna ddadansoddiad cynhwysfawr a chyfredol o anghenion ymatal plant y GCI. Mae'r dadansoddiad yn ystyried diogelwch a lles, a risg o ffactorau niwed yn ogystal ag anghenion amrywiaeth. Mae hyn yn cael ei lywio gan wybodaeth reoli o Asset Plus, archwiliadau, adroddiadau thematig a phrosesau sicrhau ansawdd.
- Gwahoddir plant a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol i roi adborth i gefnogi datblygiad y gwasanaeth – mae hwn yn gryfder nodedig.
- Mae mynediad at wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol sy'n helpu plant i ymatal rhag troseddu, a'u cadw nhw ac eraill yn ddiogel, yn gryf. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys lles emosiynol, camddefnyddio sylweddau (Be di'r Sgôr), a'r 'Tîm Emrallt', gwasanaeth sy'n cynnig cyngor, arweiniad, asesiad a chymorth ymarferwyr i blant sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol problemus.
- Mae cydleoli rhai asiantaethau partner yn caniatáu cydweithredu da.
- Mae yna gysylltiadau a chydberthnasau sefydledig gyda gwahanol bartneriaid, darparwyr ac asiantaethau statudol sy'n darparu ymyriadau ymatal, diogelu (canolfan ddiogelu amlasiantaeth, canolfan cymorth cynnar, a thîm ecsbloetiaeth), a diogelu'r cyhoedd (paneli rheoli risg). Darperir goruchwyliaeth trwy femoranda cyd-ddealltwriaeth, cytundebau lefel gwasanaeth, a chylchoedd gorchwyl amrywiol ar gyfer gwahanol ddarparwyr gwasanaeth.
- Mae gan y GCI gysylltiadau da â dedfrydwyr lleol, sy'n helpu i sicrhau bod llysoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi dedfrydu.
- Mae'r ffocws ar adeiladu gwytnwch (fel y'i hysbysir gan ymchwil gan Brifysgol Bangor) yn amlwg mewn rhyngweithiadau â phlant.

**Meysydd ar gyfer gwella:**

- Gallai'r GCI wneud mwy i nodi ymyriadau yn benodol ar gyfer merched.
- Gallai'r GCI ystyried sut y gellid achredu prosiectau gwneud iawn i ddarparu cymhwyster.
- Nid yw deilliannau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn ddigon uchel.
- Nid oes swyddog prawf yn y GCI, sy'n ofyniad statudol.
- Nid yw hyfforddiant trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) yn cael ei roi i'r holl staff i ddarparu dealltwriaeth fwy cadarn o ehangder a dyfnder y gwaith sydd ei angen i reoli risg yn effeithiol.

- Llys y Goron ac Ieuenctid Caernarfon yw'r unig lys sy'n cael ei gefnogi gan y gwasanaeth yn yr ardal, ac mae hyn yn creu problemau i deuluoedd sy'n byw’n bell o'r llys.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau

| | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael ac mae cyfleusterau priodol ar waith i gefnogi dull gweithredu personoledig, ymatebol o ansawdd uchel i bob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Mae gan y GCI bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau perthnasol ar waith sy'n galluogi staff i ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Dywedodd yr holl staff yn arolwg staff Arolygiaeth Prawf EF eu bod yn deall 'yn eithaf da', neu'n 'dda iawn' y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd yn berthnasol i'w rolau.
- Mae gwasanaethau i blant yn cael eu darparu mewn amgylcheddau a lleoliadau hygyrch a diogel.
- Mae plant a'u rhieni/gofalwyr yn derbyn talebau teithio, pan fo angen, i'w helpu i dalu'r costau ychwanegol o deithio i Swyddfa Menai yng Ngwynedd.
- Mae yna fynediad da at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sy'n galluogi staff i gynnal asesiadau, cynllunio, darparu gwasanaethau ac adolygu.
- Gall staff gwblhau eu gwaith yn effeithiol o'r swyddfa a lleoliadau o bell.
- Mae yna amrywiaeth o brosesau sicrhau ansawdd ac archwilio, sy'n helpu'r GCI i gael gwell dealltwriaeth o berfformiad.
- Mae prosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn dysgu o bethau sy'n mynd o'i le. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau ac arolygiadau ar draws y bartneriaeth. Mae'r hyn a ddysgir yn cael ei ledaenu'n dda.
- Mae trefniadau rhannu gwybodaeth, memoranda cyd-ddealltwriaeth a threfniadau llywodraethu yn gadarn.
- Ar lefel weithredol, mae'r GCI yn casglu ac yn clywed llais plant mewn modd arloesol.

**Meysydd ar gyfer gwella:**

- Nid yw'r gwaith o sicrhau ansawdd gwaith achos yn gyson.
- Mae angen dadansoddiadau manwl ychwanegol er mwyn cael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o anghenion plant a phennu camau gweithredu.
- Mae angen meincnodi perfformiad yn erbyn adroddiadau thematig Arolygiaeth Prawf EF a chanfyddiadau ymchwil eraill.
- Nid yw'r holl bolisïau a gweithdrefnau wedi'u dyddio neu'n cynnwys dyddiadau adolygu.
- Mae angen bod yn fwy eglur ynghylch anghenion amrywiaeth mewn polisïau.
- Nid yw pob aelod o staff yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau gan bartneriaid a darparwyr.
- Mae angen mwy o weithgarwch i gofleidio'n llawn yr ystod o nodweddion gwarchodedig sydd gan blant.
- Mae angen adnewyddu'r gofod swyddfa a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd â phlant a'u rhieni/gofalwyr.

## Cynnwys plant a'u rhieni/gofalwyr

Cysylltodd y GCI, ar ein rhan, â phlant yr oedd ganddynt achosion agored adeg yr arolygiad, i gael eu cydsyniad ar gyfer arolwg testun. Cyflwynom yr arolwg yn annibynnol i'r 13 o blant a gydsyniodd, ac atebodd dau o blant. Gwnaethom hefyd siarad â chwech o blant a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth, a phedwar rhiant neu ofalwr.

Mae'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi, yn casglu ac yn ystyried safbwyntiau plant a'u rhieni/gofalwyr yn rhagweithiol. Mae'n casglu eu hadborth mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys digwyddiadau ymgynghori rheolaidd, arolygon, archwiliadau, holiaduron 'eich llais', ac adborth ar ddiwedd ymyriadau. Gwahoddir plant i fynd i gynhadledd staff y GCI, sy'n cael ei chynnal yn flynyddol, ac mae eu lleisiau'n cael eu clywed mewn ffyrdd creadigol. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2023, defnyddiodd ymarferydd recordiad fideo steil 'carpool' i gyfleu barn plentyn ar y gwasanaeth.

Dywedodd nifer o blant fod ymarferwyr wedi cyfathrebu â nhw mewn ffyrdd ystyrlon – er enghraifft, addasu deunyddiau a defnyddio lluniau i feithrin dealltwriaeth a gwytnwch. Yn ogystal, dywedodd nifer o blant a'u rhieni/gofalwyr fod gorchmynion atgyfeirio’n cael eu dychwelyd i'r panel i’w dirymu’n gynnar er mwyn gwneud cynnydd da. Atgyfnerthodd hyn newid cadarnhaol a gweithredu fel anogaeth y gallai plant ei defnyddio i gymryd y cam nesaf wrth sefydlu eu hunain yn y gymuned.

Yn ein cyfweliadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, dywedodd pob un o'r 10 plentyn a'u rhieni/gofalwyr eu bod yn deall yr hyn y mae'r GCI yn ceisio'i gyflawni. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn credu bod gan y staff y sgiliau cywir, ymatebodd pob un ohonynt 'ydw'. Roedd sylwadau gan blant yn cynnwys:

> *"Maen nhw (ymarferwyr GCI) yn gwrando arna i ac yn gwneud yn siŵr ’mod i'n cadw ar y trywydd iawn. Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau ’mod i ddim yn mynd i drwbl eto. Byddaf i’n mynd i’r gwasanaeth prawf yn fuan ac maen nhw wedi fy helpu i ddeall beth fydd yn wahanol.”*

> *"Dydyn nhw (ymarferwyr GCI) ddim yn siarad i lawr ata i ac maen nhw'n gwrando arna i. Mae gweithio gyda nhw wedi fy nhawelu a’m helpu i fod yn fwy aeddfed."*

> *"Mae'r staff yn gwrtais, caredig, a phroffesiynol".*

> *"Mae fy ngweithiwr i'n 'cŵl iawn', a dwi'n dod ’mlaen yn dda efo fo. Dydi o ddim yn 'hen na dim byd' ac mae’n deall sut beth yw bod yn ifanc".*

> *"Mae Cyfiawnder Ieuenctid wedi fy helpu a dwi’n meddwl ’mod i am wneud cwrs iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, i helpu pobl ifanc eraill."*

> *"Dwi eisiau tyfu i fyny a bod fel fy rheolwr achos".*

Dywedodd rhieni neu ofalwyr:

> *"Dwi'n hapus iawn gyda'r staff - mae rhywun yn gweld fy mab bob wythnos yn ddi-ffael yn yr ysgol ac maen nhw’n dod i'r tŷ 'bob hyn a hyn' i siarad efo fi a dweud wrtha i sut mae pethau'n mynd. Mae’n hawdd siarad â nhw ond maen nhw hefyd yn broffesiynol yn y ffordd maen nhw'n gweithio."*

> *"Cafodd fy hogyn ei atgyfeirio at y panel iechyd - roedd hwn yn wasanaeth defnyddiol a’i helpodd i gael help gyda materion nad oedden nhw’n gysylltiedig â throseddu ond a oedd yn bwysig iddo fo".*

> *"Maen nhw (ymarferwyr GCI) yn edrych ar fy mab fel person cyfan, nid dim ond ei droseddu"*

## Amrywiaeth

Mae'r wybodaeth isod yn tynnu sylw at rywfaint o ddata'r GCI ar amrywiaeth ei staff a'i blant.

- Mae 27% o'r plant ar y llwyth achosion presennol yn ferched.
- Mae 69% o'r staff sy'n gweithio yn y GCI yn fenywaidd.
- Mae plant Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn cyfrif am lai na 4% o blant yn yr ardal a gwmpesir gan y GCI, a 2.7 y cant o blant ar y llwyth achosion presennol.
- Mae gan 18 y cant o blant ar y llwyth achosion presennol anabledd dysgu, anhawster dysgu, neu gynllun addysg, iechyd a gofal.
- Mae 40 y cant o blant 16 oed ac iau sy'n rhan o'r llwyth achosion presennol mewn uned cyfeirio disgyblion neu addysg neu ysgol amgen gydag amserlen wedi'i chwtogi.
- Nid yw 26% o'r unigolion 17 oed neu hyn sy'n rhan o'r llwyth achosion presennol mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Mae uchelgais glir gan y BRhS i fynd i'r afael ag amrywiaeth a chanlyniadau anghymesur i blant. Ceir mynediad at rywfaint o ddata anghymesuredd, ond nid yw bob amser yn glir sut mae'n cael ei ddefnyddio ar lefel strategol. Yn ogystal, mae angen sgyrsiau am nodweddion gwarchodedig ehangach. Mae angen i gynllun GCI 2023–2025 fod yn fwy eglur ynghylch amrywiaeth ac ymgorffori'r holl nodweddion gwarchodedig, fel y nodir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*.

Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i blant yn bersonoledig ac wedi'u tystiolaethu'n dda yn y gwaith achos a adolygwyd gan yr arolygwyr. Gwelsom rai enghreifftiau rhagorol lle rheolid anghenion dysgu (anhwylder gorfywiogrwydd diffyg sylw neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth) plant mewn modd sensitif ac effeithiol. Yn ogystal, roedd y 'pecyn gwaith hiliaeth' yn helpu ymarferwyr i weithio gyda phlant a oedd yn dangos agweddau gwahaniaethol. Roedd lefel dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a hyder staff wrth ddelio â materion amrywiaeth wedi creu argraff. Dangosodd ein canfyddiadau achos fod materion amrywiaeth mewn achosion a ddatryswyd y tu allan i'r llys wedi'u dadansoddi'n dda mewn 10 o'r 12 o achosion a arolygwyd, a bod gwasanaethau wedi'u darparu gyda ffocws canolog ar amrywiaeth mewn 11 o 12 achos.

Mae amrywiaeth y staff gweithredol a strategol yn adlewyrchu'r boblogaeth leol. Gwynedd ac Ynys Môn sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru: 65 y cant yng Ngwynedd a 57 y cant ar Ynys Môn. Ar hyn o bryd, o'r 32 aelod o staff (ar draws y tri gwasanaeth), mae 29 (91 y cant) yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, mae dau yn ddysgwyr Cymraeg (canolradd), ac mae gan un allu Cymraeg cyfyngedig (sylfaenol). Mae pob plentyn yn cael cynnig gwasanaethau yn eu dewis iaith; Cymraeg neu Saesneg.

Mae yna ddadansoddiad cynhwysfawr a chyfredol o anghenion ymatal plant GCI. Mae'r dadansoddiad yn ystyried diogelwch a lles, risg o ffactorau niwed, ac anghenion amrywiaeth. Mae hyn yn cael ei lywio gan wybodaeth reoli o Asset Plus, archwiliadau, adroddiadau thematig, a phrosesau sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, o fewn y polisïau ailsefydlu a datrysiadau y tu allan i'r llys, mae'r ffocws ar amrywiaeth yn gyfyngedig ac yn gysylltiedig yn bennaf â theilwra ymyriadau. Nid oes unrhyw gyfeiriadau at ystyried nodweddion gwarchodedig ehangach. Mae'r cyfeiriadau at ddeall trawma a phrofiad byw y plentyn yn llawer gwell.

# Maes dau: Datrysiadau llys

Gwnaethom edrych yn fanwl ar wyth dedfryd gymunedol a reolwyd gan y GCI.

## 2.1. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae gwaith asesu'n seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoleiddio, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni/gofalwyr yn weithredol. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[3] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith asesu'n dadansoddi sut i gefnogi ymataliaeth y plentyn yn ddigonol? | 100% |
| A yw'r gwaith asesu'n dadansoddi sut i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddigonol? | **63%** |
| A yw'r gwaith asesu'n dadansoddi sut i gadw pobl eraill yn ddiogel yn ddigonol? | **63%** |

Roedd y gwaith asesu i gefnogi plant i ymatal rhag troseddu pellach yn gryfder. Roedd ymagwedd ymarferwyr tuag at ddeall y rhesymau dros droseddu plentyn yn ddadansoddol ac roeddent yn gwneud defnydd da o wybodaeth hanesyddol a chyfredol. Roeddent yn deall anghenion amrywiaeth ac amgylchiadau personol yn dda. Canfuom fod ymarferwyr wedi gwneud defnydd da o wybodaeth a gedwir gan asiantaethau eraill yn eu hymholiadau asesu. Yn ogystal, roeddent wedi adolygu cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn gadarn. Roedd y gwaith o ymgysylltu â rhieni neu ofalwyr y plentyn wedi creu argraff. Fodd bynnag, ni chafodd anghenion dioddefwyr eu trin yn ddigon cyson.

Nid oedd gweithgarwch asesu bob amser yn nodi'r holl risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn. Yn ogystal, nid oedd ymarferwyr yn casglu gwybodaeth berthnasol yn gyson gan asiantaethau eraill ac yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn. Lle roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu (addysg a gwasanaethau cymdeithasol), roedd yn cael ei defnyddio'n dda i gael gwell dealltwriaeth o anghenion diogelwch a lles y plentyn.

Roedd asesiadau i nodi'r holl ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig â chadw pobl eraill yn ddiogel yn wannach. Mewn rhai achosion, nid oedd yn glir i bwy yr oedd y plentyn yn peri risg, na natur y risg hon. Lle bo angen, roedd ymarferwyr yn casglu gwybodaeth gan asiantaethau eraill, ond nid oedd yr wybodaeth hon yn cael ei hintegreiddio bob amser yn eu hasesiadau. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol am adroddiadau o achosion newydd o droseddu gan y plentyn. Gwelsom dystiolaeth o dangofnodi mewn sawl achos, yn enwedig wrth asesu diogelwch a lles, a'r risg o niwed. Fodd bynnag, yn ystod cyfweliadau ag arolygwyr, roedd y rhan fwyaf o reolwyr achos yn gallu mynegi dealltwriaeth ehangach o'r agweddau hyn ar waith achos.

[3] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf a gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio – dynodir hyn mewn print bras yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael ar ein gwefan.

## 2.2. Cynllunio ☆

| | |
|---|---|
| Mae gwaith asesu'n seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy, yn gyfannol, ac wedi'i bersonoleiddio, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni/gofalwyr yn weithredol. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[4] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliaeth y plentyn? | **88%** |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **88%** |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **88%** |

Roedd gwaith cynllunio i gefnogi plant i roi'r gorau i droseddu yn ddigonol yn gyson. Gwelsom fod cynlluniau amserol ar waith a oedd yn nodi'n briodol y gwaith yr oedd angen ei wneud i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant. Roedd y cynlluniau'n cynnwys disgrifiad manwl o amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys ei sefyllfa deuluol ehangach. Yn ogystal, roedd cynlluniau'n cael eu llywio gan y trawma a'r profiadau plentyndod niweidiol yr oedd llawer o blant wedi'u profi. Roedd hyn yn golygu bod ymarferwyr yn nodi gwasanaethau priodol yn y rhan fwyaf o achosion. Gwelsom enghreifftiau da o gynlluniau a oedd yn cynnwys ymyriadau statudol a gwirfoddol (celf a chrefft, a phrosiectau ffotograffiaeth).

Roedd gwaith cynllunio i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei wneud yn dda yn bennaf. Canfuom fod ymarferwyr wedi ystyried yn ofalus sut i gadw plant yn ddiogel. Er enghraifft, roeddent wedi ystyried y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer cwrdd â nhw, ac wedi cynnal asesiadau risg trylwyr ar brosiectau gwneud iawn. Roedd cynlluniau gydag asiantaethau eraill wedi'u halinio'n dda ar y cyfan, ac roedd pob darparwr gwasanaeth yn glir am y camau angenrheidiol i gadw'r plentyn yn ddiogel. Roedd ymarferwyr yn ymwybodol o ymyriadau wedi'u teilwra ac yn nodi'r rhain yn briodol wrth gynllunio. Roeddent wedi cysylltu â gwasanaethau fel yr ymarferydd lles emosiynol, nyrs y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau (Be di'r Sgôr), ac wedi atgyfeirio unigolion atynt. Roedd rheolaethau i sicrhau'r lefelau diogelwch a lles uchaf posibl wedi'u harchwilio'n dda ond roedd gwaith cynllunio wrth gefn yn arbennig o wan ac yn gofyn am sylw pellach.

Roedd y gwaith cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel yn fanwl. Roedd cyfrifoldebau darparwyr gwasanaeth eraill wrth reoli risg yn glir. Er enghraifft, roedd yna brotocolau rhannu gwybodaeth effeithiol, wedi'u hategu gan bresenoldeb mewn ystod o gyfarfodydd amlasiantaethol, gan gynnwys cyfarfodydd y panel iechyd a rheoli risg. Roedd ymarferwyr wedi nodi rheolaethau allanol i liniaru risgiau yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd. Roedd ymyriadau i fynd i'r afael â phryderon am

[4] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf a gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio – dynodir hyn mewn print bras yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael ar ein gwefan.

ymddygiadau niweidiol, a oedd yn cynnwys y 'Tîm Emrallt', yn amlwg, gan gynnwys cysylltiadau cyfoedion ac ymyriadau personoledig i atal niwed i eraill. Roedd ymarferwyr wedi ystyried dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn y rhan fwyaf o'r achosion gofynnol, ac roedd pwyslais clir ar ddiogelwch dioddefwyr. Fodd bynnag, nid oedd gwaith cynllunio wrth gefn yn gyson. Roedd angen i drefniadau fod yn llawer manylach ynghylch y camau gweithredu angenrheidiol pe bai lefel y risg yn cynyddu.

## 2.3. Gweithredu a darparu

| | |
|---|---|
| Darperir gwasanaethau cydlynol o ansawdd uchel, sydd â ffocws clir ac sydd wedi'u personoleiddio, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i gynorthwyo. | Da |

Mae ein sgôr[5] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau yn effeithiol yn cefnogi ymataliaeth y plentyn? | 100% |
| A yw'r gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau yn effeithiol yn cefnogi diogelwch y plentyn? | 88% |
| A yw'r gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau yn effeithiol yn cefnogi diogelwch pobl eraill? | **75%** |

Roedd ymarferwyr yn gallu datblygu cydberthnasau gwaith ystyrlon ac effeithiol gyda phlant a'u rhieni/gofalwyr. Roeddent yn greadigol a dychmygus ac yn personoleiddio ymyriadau yn unol â chryfderau a ffactorau amddiffynnol plant er mwyn eu hannog i gymryd rhan. Er enghraifft, gwnaethant helpu plant i gael mynediad at Be di'r Sgôr, cwblhau sesiynau 'Ymddygiad Rhywiol Niweidiol: Newid er Gwell' a sefydlu prosiectau gwneud iawn personoledig. Roedd y ddarpariaeth yn seiliedig ar gryfderau, gyda ffocws ar wneud y defnydd gorau o adnoddau cymunedol (fel aelodaeth campfa neu glybiau bocsio). Roedd ymarferwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau a oedd ar gael ac yn eu defnyddio'n dda. Gwnaed gwaith i ddiwallu anghenion amrywiaeth yn dda, yn enwedig wrth ymateb i anghenion plant ag awtistiaeth ac anghenion ychwanegol eraill.

Roedd trefniadau amlasiantaethol sefydledig ar waith i gefnogi diogelwch a lles plant. Fodd bynnag, roedd cydberthnasau gweithredol â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn aml yn heriol ac nid oeddent bob amser yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i bob plentyn. Roedd gwasanaethau wedi'u trefnu'n dda i raddau helaeth, ac roedd partneriaid yn rhannu'r cyfrifoldeb am reoli risg. Roedd ymarferwyr yn ymatebol pan roedd risgiau i'r plentyn yn newid, ac yn addasu cynlluniau ac ymyriadau i gadw'r plentyn yn ddiogel, megis darparu cymorth lles emosiynol yn dilyn argyfwng.

Canfu arolygwyr nad oedd y bartneriaeth bob amser yn monitro risgiau i eraill. Er bod cydberthnasau cadarnhaol a phrotocolau rhannu gwybodaeth ar waith gyda phartneriaid, roedd y gwaith o gydlynu gwasanaethau ymarferwyr yn amrywiol. Yn gyffredinol, roedd rheolwyr achos yn gweithio'n dda gyda phlant a'u rhieni/gofalwyr i'w helpu i ddeall rheolaethau allanol a'u hannog i weld sut roedd y rhain yn cefnogi diogelwch dioddefwyr. Cyflwynodd ymarferwyr ystod o ymyriadau'n greadigol, gan fynd i'r afael â gyrru peryglus, niwed yn deillio o gael gafael ar bornograffi, a gwaith ar empathi dioddefwyr. Daeth arolygwyr o hyd i atgyfeiriadau priodol at uned

[5] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf a gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio – dynodir hyn mewn print bras yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael ar ein gwefan.

diogelu'r cyhoedd yr heddlu, a arweiniodd at ymweliadau cartref i wirio dyfeisiau symudol a gliniaduron a oedd yn cael eu cadw gan blant.

## 2.4. Adolygu

| | |
|---|---|
| Mae gwaith asesu'n seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoleiddio, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni/gofalwyr yn weithredol. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[6] ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliaeth y plentyn? | 88% |
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 75% |
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **63%** |

Roedd y broses o adolygu gwaith i asesu effaith ymyriadau ar leihau aildroseddu yn cael ei gwneud yn dda yn y rhan fwyaf o achosion. Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr yn cynnal adolygiadau ffurfiol, anffurfiol a deinamig wrth i amgylchiadau personol newid. Roedd yr ystyriaeth o gryfderau ac anghenion amrywiaeth plentyn, lle bo hynny'n berthnasol, yn ogystal â dadansoddiad o amgylchiadau personol a theuluol, yn amlwg yn gyson yn y rhan fwyaf o waith achos a arolygwyd.

Pan fo angen, roedd ymarferwyr yn adolygu cymhelliant plant yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd ac yn ystyried yn briodol unrhyw rwystrau a nodwyd ganddynt yn unigol neu'n strwythurol. Roedd tystiolaeth dda o ymgysylltu rheolaidd â phlant a'u rhieni/gofalwyr ym mhob achos a arolygwyd bron. Gwnaeth hyn helpu ymarferwyr i gael dealltwriaeth lawnach o brofiadau beunyddiol cyffredinol y plant a chaniatáu i rieni neu ofalwyr gymryd rhan weithredol yng ngoruchwyliaeth eu plant.

Nid oedd ansawdd y gweithgarwch adolygu o ran cadw plant yn ddiogel yn dda ym mhob achos a arolygwyd. Yn gyffredinol, lle'r oedd angen, roedd gwaith adolygu'n ymateb yn briodol i newidiadau a oedd yn gysylltiedig â diogelwch a lles, fel y tystiolaethir gan un ymgynghoriad rheoli achos manylach a gwblhawyd gan seicolegydd clinigol. Arweiniodd hyn at gyfarfod rhwng gweithwyr proffesiynol i greu cynllun gweithredu i gefnogi'r plentyn. Yn siomedig, nid oedd gwybodaeth bob amser yn cael ei cheisio gan asiantaethau cysylltiedig eraill, ac roedd hyn yn golygu nad oedd cynlluniau wedi newid.

Nid oedd ymarferwyr bob amser yn ymateb yn effeithiol i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â risg o niwed, a oedd yn golygu na chafodd cynlluniau i amddiffyn eraill rhag niwed eu haddasu. Mewn nifer o achosion â risg ganolig o niwed, canfuom oedi yn ymatebion rheolwyr achos i wybodaeth newydd gan blant, fel cael eu harestio am droseddau pellach. Yn ogystal, ni weithredwyd penderfyniadau a wnaed mewn paneli rheoli risg i gadw eraill yn ddiogel bob amser mewn modd amserol. Fodd bynnag, cwblhawyd adolygiadau ysgrifenedig yn effeithlon ym mhob achos a

[6] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf a gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio – dynodir hyn mewn print bras yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael ar ein gwefan.

arolygwyd. Roedd hyn yn sicrhau bod gan ymarferwyr eraill sy'n ymwneud â chyflawni gwaith risg o niwed, fynediad at yr wybodaeth fwyaf cyfredol.

## Maes tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Gwnaethom arolygu 12 achos a reolwyd gan y GCI a gafodd ddatrysiad y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys dau rybuddiad ieuenctid amodol, dim rhybuddiadau ieuenctid, 10 datrysiad cymunedol, a dim datrysiadau eraill. Gwnaethom gyfweld â'r rheolwyr achos mewn 11 achos.

### 3.1. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae gwaith asesu yn seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoleiddio, ac mae'n cynnwys y plentyn a'i rieni/gofalwyr yn weithredol. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[7] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliaeth y plentyn? | 92% |
| A yw'r gwaith asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **50%** |
| A yw'r gwaith asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 75% |

Yn gyffredinol, cwblhawyd dadansoddiad o ymataliaeth yn dda, ac roedd ymarferwyr wedi ceisio deall faint o gyfrifoldeb a gymerodd y plentyn am ei ymddygiad, ei agwedd tuag at droseddu, a'i esboniadau am gymryd rhan. Gwnaeth y dull hwn alluogi ymarferwyr i edrych yn fanylach ar sut y gallai profiadau byw plant fod wedi cyfrannu at eu troseddu. Roedd sylw ymarferwyr i'r rôl yr oedd ffactorau amrywiaeth wedi'i chwarae yn nhroseddu'r plant yn gryf yn gyffredinol. Yn ogystal, roeddent yn mynd ati'n weithredol i geisio gwybodaeth gan asiantaethau eraill. Roedd hyn yn eu helpu i ystyried tueddiadau mewn ymddygiad blaenorol ac unrhyw rwystrau i ymgysylltu.

Roedd gwaith asesu i nodi a dadansoddi risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn yn wannach o lawer. Nid oedd ymarferwyr, er eu bod yn cael mynediad at wybodaeth yn dda yn gyffredinol, yn defnyddio'r wybodaeth gan asiantaethau eraill yn rheolaidd. Gwnaethom nodi methiannau o ran ystyried neu ymateb yn briodol i bryderon camfanteisio ac awgrymu bod hwn yn faes sy'n gofyn am hyfforddiant, dealltwriaeth a ffocws ychwanegol gan y gwasanaeth. Nid oedd arolygwyr yn cytuno â bron i hanner y dosbarthiadau risg a bennwyd gan reolwyr achos.

Roedd gweithgarwch asesu, gan ddadansoddi'r risg o niwed y mae'r plentyn yn ei pheri i eraill, yn well ond nid oedd yn cael ei gwblhau'n dda yn gyson yn yr holl achosion a arolygwyd. Gwelsom sawl enghraifft lle roedd deiliaid achos wedi tanbrisio'r risg o niwed i eraill. Roedd hyn yn cynnwys methiant i nodi pwy oedd mewn perygl a natur y risg honno. Nid oedd dadansoddiad fforensig wedi'i gynnal ar rai asesiadau, ac ni chydnabuwyd cyd-destun y risg o niwed yn yr achosion hyn yn

[7] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf a gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio – dynodir hyn mewn print bras yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael ar ein gwefan.

ddigon da. Roedd y gwaith o gasglu gwybodaeth gan asiantaethau eraill am y risg bosibl o niwed i ddioddefwyr hysbys yn cael ei wneud yn dda ar y cyfan.

## 3.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoleiddio, gan gynnwys y plentyn a'i rieni/gofalwyr yn weithredol. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[8] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliaeth y plentyn? | 100% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **58%** |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 83% |

Roedd gwaith cynllunio'n cael ei gysylltu'n briodol â gwaith i gefnogi ymataliaeth y plentyn. Roedd cynlluniau'n cynnwys gwasanaethau allweddol ar y cyfan, neu'n nodi pa asiantaethau a fyddai'n darparu'r ymyriadau hyn, ac o fewn pa amserlenni. Roedd y sylw a roddir i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys y cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach, wedi creu argraff. Roedd dymuniadau ac anghenion dioddefwyr yn cael eu hintegreiddio'n dda wrth gynllunio, ac roedd rhieni neu ofalwyr plant yn cael eu gwahodd i gyfrannu at nodi'r ymyriadau a fyddai'n helpu eu plant i osgoi troseddu pellach. Cynorthwywyd hyn gan y swm mawr o amser y mae ymarferwyr yn ei dreulio gyda rhieni neu ofalwyr y plant.

Fodd bynnag, nid oedd gwaith cynllunio yn hyrwyddo anghenion diogelwch a lles plant yn gyson mewn ychydig llai na hanner yr achosion a arolygwyd. Mae angen i'r maes gwaith hwn wella. Yn yr achosion hyn, nid oedd digon o dystiolaeth i roi sicrwydd i arolygwyr bod yr holl staff yn cydnabod yn llawn yr angen am gynlluniau cynhwysfawr a fyddai'n helpu i gadw plant yn ddiogel. Yn aml, roedd diffyg manylion yn yr wybodaeth a oedd yn cael ei chynnwys mewn gwaith cynllunio. At hynny, nid oedd ymarferwyr bob amser yn alinio eu cynlluniau â'r rhai a baratowyd gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant i gefnogi diogelu. Yn ogystal, ni chafodd gwaith cynllunio wrth gefn ei gwblhau'n ddigon da mewn chwech o'r 11 achos.

Roedd gwaith cynllunio i hyrwyddo diogelwch pobl eraill yn well. Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr yn cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, ac roedd risgiau i ddioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau.

Roedd gwaith cynllunio wrth gefn yn rhy amhenodol mewn nifer o'r achosion a arolygwyd, ac nid oedd bob amser yn cynnwys amserlenni o ran pryd y gallai fod angen gweithredu. Gallai absenoldeb trefniadau cadarn arwain at niwed pellach i eraill, yn aml pobl y mae'r plentyn yn eu hadnabod neu unigolion yn y cartref. Yn galonogol, canfu arolygwyr fod ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â'r gweithiwr dioddefwyr a nodwyd i gyflawni gwaith ymwybyddiaeth dioddefwyr a chyfiawnder

[8] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf a gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio – dynodir hyn mewn print bras yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael ar ein gwefan.

adferol. Roedd angen cynlluniau mwy cynhwysfawr a oedd yn ystyried diogelwch yr holl ddioddefwyr gwirioneddol a phosibl, gan helpu ymarferwyr i sicrhau, wrth oruchwylio plant, eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar leihau niwed i eraill.

## 3.3. Gweithredu a darparu

| | |
|---|---|
| Darperir gwasanaethau cydlynol o ansawdd uchel, sydd â ffocws clir ac sydd wedi'u personoleiddio, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i gynorthwyo. | Da |

Mae ein sgôr[9] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliaeth y plentyn yn effeithiol? | 100% |
| A yw'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | **75%** |
| A yw'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | 92% |

Roedd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i helpu plant i osgoi troseddu pellach yn llawer gwell. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymarferwyr yn cefnogi plentyn i sefyll arholiadau ar ôl iddo fethu â mynd i wers lle'r oedd yr amserlen arholi wedi'i dosbarthu. Yn ogystal, roedd nifer o blant wedi gallu cael mynediad at weithgareddau cyfoethogi a chawsant eu helpu i ymaelodi â champfa. Roedd y mentrau hyn yn gwella lles emosiynol plant ac yn cefnogi ymataliaeth. Roedd gwaith gwneud iawn yn cael ei bersonoleiddio i'r plentyn unigol ac yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r gweithgaredd i gynnal sgyrsiau a arweiniodd at wella eu dealltwriaeth o'u hymddygiad troseddol.

Roedd ymarferwyr yn cysylltu'n rheolaidd â phlant a'u rhieni/gofalwyr, gyda lefelau uchel o ymgysylltu. Nid oedd hyn wedi'i gyfyngu i 'alwad gyflym' a chasglu gwybodaeth; roedd hefyd yn cynnwys darparu ystod o ymyriadau a oedd yn cefnogi datblygiad a chynnydd y plentyn. Roedd yn galonogol gweld bod y gofal a'r sensitifrwydd a ddefnyddiwyd wrth ddarparu ymyriadau yn dangos pa mor dda yr oedd ymarferwyr yn deall anghenion dysgu unigol plant.

Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd i gadw plant yn ddiogel yn cael eu cynnal yn dda at ei gilydd. Gwnaeth ymarferwyr ddefnydd da o wasanaethau arbenigol, megis Be di'r Sgôr (camddefnyddio sylweddau) a'r Tîm Emrallt (ymddygiad rhywiol problemus a niweidiol). Mewn sawl achos, defnyddiodd ymarferwyr yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu am effaith trawma i gefnogi gwaith ar ddiogelwch.

Nid oedd gwaith gyda phartneriaid i gadw plant yn ddiogel yn gyson, ac roedd y cydweithio wrth wneud gwaith o'r fath yn amrywiol. Ni thalwyd digon o sylw i ddatrys yr amrywioldeb yma'n ymarferol. Mewn rhai achosion, canfu arolygwyr fod gweithwyr cymdeithasol yn aml yn lleihau lefel eu cyswllt neu'n cau achosion pan mae ymarferwyr y GCI yn dechrau ymwneud ag achos yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud yn weithredol ag ef. Roedd angen uwchgyfeirio'r mater hwn i lefel reoli er mwyn sicrhau y byddai anghenion plant bregus yn cael eu diwallu'n llawn. Yn y rhan fwyaf o achosion a arolygwyd, darparwyd digon o

[9] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei llywio gan y sgôr isaf a gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio – dynodir hyn mewn print bras yn y tabl. Mae eglurhad manylach ar gael ar ein gwefan.

wasanaethau i gadw pobl eraill yn ddiogel. Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd panel rheoli risg ac iechyd yn cael eu cynnal. Roedd yn amlwg fod sylw'n cael ei dalu i anghenion dioddefwyr posibl a gwirioneddol, ac roedd hyn yn cael ei gyfuno'n dda â gwaith empathi dioddefwyr a pharatoi llythyrau ymddiheuro.

## 3.4. Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys

| | |
|---|---|
| Mae'r gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi ymataliaeth gynaliadwy. | Angen gwella |

Gwnaethom hefyd archwilio ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

**Cryfderau:**

- Roedd cyd-brotocol clir ar waith rhwng GCI Gwynedd ac Ynys Môn a Heddlu Gogledd Cymru yn esbonio sut y dylid gwneud gwaith atal (cynnar ac wedi'i dargedu) a gwaith ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yn y rhanbarth. Roedd y polisi datrysiadau y tu allan i'r llys ('y Biwro') yn ymdrin â chasglu gwybodaeth cyn y panel, yn ystod y panel ac ar ôl y panel, meini prawf cymhwysedd, gorfodi, trefniadau uwchgyfeirio, gwneud penderfyniadau mewn achosion lle roedd gan blant hanes troseddu blaenorol, a gweithdrefnau cysylltu â phartneriaid i gefnogi dargyfeirio.
- Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod llais dioddefwyr, a hefyd lais y plant a'u rhieni/gofalwyr, yn cael ei gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Roedd plant yn derbyn gwasanaethau effeithiol o ran datrysiadau y tu allan i'r llys, ac roedd y gwaith o ddarparu a chyflawni ymyriadau yn gryf.
- Roedd gan y GCI broses benderfynu ar y cyd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys a oedd yn caniatáu mynediad at wybodaeth gan ystod o asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr addysg. Roedd trefniadau craffu allanol y broses benderfynu ar y cyd yn gweithio'n dda. Roedd mecanweithiau cydymffurfedd yn glir, gyda'r defnydd o rybuddion, ymgysylltu â phartneriaid ac, fel dewis olaf, rhybuddion terfynol a chyhuddiadau i'r llys.
- Roedd yr un ystod o ymyriadau ar gael i blant sy'n derbyn datrysiad y tu allan i'r llys ac achosion ar ôl y llys. Cyflawnwyd ymyriadau gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau.

**Meysydd ar gyfer gwella:**

- Nid oedd meysydd sy'n ymwneud â diogelwch a lles plant wedi'u cynnwys yn benodol yn y polisi. Cyfyngedig oedd y sylw i anghenion lles, bregusrwydd, a chanfyddiad y plentyn am ei bryderon diogelwch.
- Nid oedd canllawiau i gefnogi ymarferwyr yn well i asesu, dadansoddi a chynllunio ar gyfer gwaith i gadw plant yn ddiogel ac amddiffyn eraill rhag niwed.
- Nid oedd yr offeryn asesu rhanbarthol yn rhoi digon o fanylion i helpu ymarferwyr i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt ar gyfer asesiadau effeithiol i gadw plant yn ddiogel ac amddiffyn eraill rhag niwed.

- Nid oedd unrhyw brosesau na gweithdrefnau craffu mewnol i roi sicrwydd mewn perthynas â phenderfyniadau. Nid oedd trefniadau, gan gynnwys cynrychiolaeth staff gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn y Biwro, wedi'u hymgorffori eto.
- Nid oedd plant a'u rhieni/gofalwyr wedi ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw werthusiad o'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys.
- Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i gyflwyno Canlyniad 22.

## 4.1. Ailsefydlu

### 4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu

| | |
|---|---|
| Mae yna wasanaeth ailsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa. | Angen gwella |

Gwnaethom arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Er mwyn arddangos y gwaith hwnnw, gwnaethom arolygu un achos a reolwyd gan y GCI lle rhoddwyd dedfryd o garchar. Roedd ein canfyddiadau allweddol fel a ganlyn.

**Cryfderau:**

- Roedd gan GCI Gwynedd ac Ynys Môn bolisi ailsefydlu dyddiedig Medi 2022. Roedd yr hyn yr oedd angen i ymarferwyr ei wneud wedi'i ddisgrifio'n dda. Roedd llwybrau, gan gynnwys llety addas, iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, i gyd yn cael sylw da yn y polisi. Roedd y pum egwyddor ailsefydlu adeiladol wedi'u hymgorffori yn briodol.
- Roedd y polisi'n pwysleisio arwyddocâd yr egwyddorion ailsefydlu adeiladol, gan gynnwys gwasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu'n dda â phartneriaid. Roedd yr angen am gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn effeithiol gyda darparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael ei gyfleu'n glir yn y ddogfen.
- Roedd pwysigrwydd datblygu hunaniaeth gadarnhaol (adeiladu gwytnwch) a darparu gwasanaethau personoledig wedi'i integreiddio'n dda i'r trefniadau.
- Roedd pwyslais cryf ar bwysigrwydd cynnal ymgysylltiad ag aelodau o'r teulu ac ymweld â'r cartref.

**Meysydd ar gyfer gwella:**

- Nid oedd digon o sylw wedi'i roi i gefnogi ymarferwyr i hybu diogelwch a lles plant (diogelu) a risg o niwed i eraill.
- Nid oedd diwallu anghenion dioddefwyr gwirioneddol a phosibl wedi'i nodi'n glir yn y polisi.
- Nid oedd unrhyw sôn am MAPPA yn y polisi.
- Nid oedd y rhestr ddarllen a argymhellir wedi'i diweddaru i gynnwys gwybodaeth fwy cyfredol am amrywiaeth a meysydd ymarfer ailsefydlu eraill.
- Nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i nodweddion gwarchodedig ehangach.

## Rhagor o wybodaeth

Mae’r canlynol ar ein gwefan:

- Data arolygu, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol am y GCI
- Rhestr o dermau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

# *Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn*
# *Arolygiad HMIP Tachwedd 2023*
# *Cynllun Gwella*

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Gwynedd a Môn yn hynod falch gyda graddiad cyffredinol **'Da'** yn dilyn ein Harolygiad HMIP o Gyfiawnder Ieuenctid. Dymunwn ddiolch i'n partneriaid yn y ddau Awdurdod Lleol, y System Cyfiawnder Troseddol Lleol, a'r Sector Gwirfoddol am eu cefnogaeth yn ystod y gwaith paratoi ac yn ystod wythnos yr Arolygiad.

Bu i'r arolygiaeth adnabod: trefniadau partneriaeth uwch cryf sy'n llywio ac yn darparu adnoddau ar gyfer gweithio'n effeithiol â phlant a theuluoedd, grŵp o staff sy'n cael eu cefnogi a'u goruchwylio yn dda, a bod plant a rhieni yn rhan weithredol o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno cefnogaeth.

Mae gennym feysydd i'w gwella, ac nid oedd y rhain yn llawer o syndod i ni, ac rydym nawr yn gyfrifol am weithredu arnynt i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i blant a chymunedau Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae'r Bwrdd Rheoli GCI a'r uwch reolwyr eisoes wedi cychwyn ar y broses o wella, a chynhaliwyd cyfarfod ar 31ain Ionawr i adolygu ein hadroddiad a'n canfyddiadau drafft er mwyn ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon, ac mae gennym hyd at y 5ed o Ebrill i gyflwyno ein Cynllun Gwella.

Rydym yn benodol hapus a balch y tynnwyd sylw penodol at staff y GCI am ansawdd uchel yr ymgysylltiad a'r gefnogaeth y maent yn eu rhoi i blant a'u teuluoedd. Ac ni ddylem anghofio'r plant, y bu i lawer ohonynt roi eu hamser i siarad â'r arolygwyr ac i roi adborth iddynt, ac rydym yn ddiolchgar iawn am hyn.

## 2. Canfyddiadau (Adroddiad HMIP)

2.1 Mae'r archwiliad hwn yn rhan o'n rhaglen arolygu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (GCI). Rydym wedi arolygu ac wedi graddio GCI Gwynedd ac Ynys Môn ar draws tri maes eang: y trefniadau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant a ddedfrydir gan y llysoedd, ac ansawdd y gwaith gwarediadau y tu allan i'r llys (*out-of court disposals*).

Yn gyffredinol, cafodd GCI Gwynedd ac Ynys Môn ei raddio yn 'Dda'. Hefyd, bu i ni arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu, a raddiwyd ar wahân fel 'Angen Gwella'.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar blant, ac wedi ymrwymo i gynorthwyo plant i ymwrthod â throseddu pellach. Mae defnyddio dull unigol yn helpu i sicrhau bod anghenion amrywiaeth plant yn cael eu cydnabod, a bod adnoddau yn cael eu rhoi yn eu lle i helpu iddynt ffynnu a medru mynd ati i wneud penderfyniadau positif. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn gryfder. Maent yn garedig, yn feddylgar, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel un tîm, ac maent yn eiriolwyr positif ar gyfer y plant dan eu goruchwyliaeth. Mae'r gwasanaeth yn mynd ati'n effeithiol i gasglu lleisiau'r plant a'u rhieni neu ofalwyr. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu gwasanaethau a gwella gwasanaethau. Mae gan staff fynediad at amrediad o ymyraethau i helpu plant a'u rhieni neu ofalwyr. Yn enwedig, mae'r hyn sydd gan y Tîm Emrallt (ymddygiad rhywiol problemus a niweidiol) i'w gynnig yn wych ac yn gwneud gwir wahaniaeth i gefnogi ymarferwyr i wella agweddau ac ymddygiadau plant. Mae'r gwasanaeth Be di'r Sgôr? (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau) yn darparu ymyraethau o ansawdd uchel.

Mae gan y bwrdd rheoli strategol rai aelodau ymrwymedig sy'n gweithio'n dda i sicrhau adnoddau ariannol ar gyfer y GCI. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae datgysylltu wedi digwydd rhyngddyn nhw ac ymarferwyr rheng flaen. O ganlyniad, nid oes gan rai staff ddealltwriaeth lawn o waith y bwrdd. Yn ogystal, mae absenoldebau'r partneriaid iechyd ac addysg yng nghyfarfodydd y bwrdd wedi bod yn amlwg. Mae'r GCI wedi nodi bod deilliannau addysg anghymesur o wael ar gyfer eu carfan nhw o blant, ynghyd â'r angen am adnodd iaith a lleferydd. Mae angen canolbwyntio ar y canfyddiadau hyn ar lefel mwy strategol, a hynny ar fyrder. Hefyd, mae angen mwy o hwb a ffocws ar lefel strategol i sicrhau bod plant y GCI yn derbyn y gwasanaeth gorau bosib a bod y GCI yn cael ei gefnogi i gyflawni ymyraethau o ansawdd uchel.

Mae'r ymgysylltiad ac ansawdd y perthnasau sydd gan ymarferwyr â'r plant yn gryfder, ond mae gwaith sy'n gysylltiedig â chefnogi diogelwch a llesiant plant a'u potensial i beri niwed i eraill, yn amrywio. Mae angen gwella hyn. Bu i'n harolygiad ganfod, ar draws y gwaith llys a thu allan i'r llys, nad oedd pob aelod staff yn deall ac yn gweithredu'r systemau a'r prosesau yn gyson er mwyn cadw plant yn saff a'u hatal rhag achosi niwed i eraill.

Mae gan y GCI le i fod yn falch iawn o'r ffordd y mae'n estyn allan i blant gyda thrugaredd ac yn eu helpu i fyw eu bywyd gorau. Nawr, rhaid iddo ganolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolygiad hwn fel sbardun fydd yn arwain at newid pellach. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud saith argymhelliad i fynd ati ymhellach i wella gwaith GCI Gwynedd ac Ynys Môn. Hyderwn y byddant yn cynorthwyo'r gwasanaeth wrth iddo barhau ar ei siwrne o wella.

2.2 <u>Paratoadau Lleol</u>

Yn y Bwrdd Rheoli Strategol ym mis Ionawr 2024, estynnodd y Bwrdd wahoddiad i aelodau'r Grŵp Rheoli Gweithredol a'r staff rheoli i ymuno â nhw i adolygu'r adroddiad Arolygiad drafft ac i ddechrau ar y broses o ymateb iddo. Mae'r Cynllun Gwella a ganlyn wedi cael ei hysbysu gan y trafodaethau hynny a'r cyfraniadau a wnaed gan y grŵp.

Yn ogystal, cynhaliodd y Grŵp Rheoli Gweithredol gyfarfod pellach ar 23 Mawrth, lle y gwnaed cyfraniadau ychwanegol i gynllunio'r ymateb.

3. Parth 1 (**Cyflwyniad Sefydliadol**)

3.1

**Argymhellion**

1. ***Sicrhau presenoldeb cyson yn y bwrdd rheoli gan uwch arweinwyr addysg ac iechyd, i gyflawni deilliannau addysg ac iechyd positif i'r holl blant.***
2. ***Ymdrin â'r datgysylltiad rhwng y bwrdd rheoli strategol ac ymarferwyr ar y rheng flaen.***
3. ***Ymdrin â'r bwlch yn y ddarpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu sy'n asesu ac yn ymateb i anghenion cyfathrebu plant.***

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 1 - R1) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| *a) Mae angen i amlder presenoldeb a chynrychiolaeth yn y Bwrdd Rheoli Strategol fod yn gyson ar draws yr holl bartneriaid statudol.* | Bydd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn ategu pa mor bwysig yw cael presenoldeb cyson yng Nghyfarfodydd Bwrdd y GCI.<br><br>Bydd Staff Gweinyddol y GCI yn cadw log presenoldeb ac yn darparu adroddiad i gadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol ddwywaith y flwyddyn.<br><br>Bydd angen i gynrychiolwyr adrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol ar gynrychiolaeth a phresenoldeb pan fo problemau yn codi.<br><br>Bydd gofynion newydd yn cael eu hychwanegu i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Rheoli. | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol<br><br>Rheolwr a Swyddog Gweinyddol y GCI<br><br>Holl aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol | Parhaus ers 1 Ebrill 2024. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| b) *Mae absenoldebau'r partneriaid iechyd ac addysg yng nghyfarfodydd y bwrdd wedi bod yn amlwg.* | Bydd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol a’r Rheolwr Gwasanaeth yn ysgrifennu at y Cyfarwyddwyr Addysg ac Iechyd yn amlinellu canfyddiadau'r Arolygiad ac yn gwneud cais am gydweithrediad llawn gyda'r camau gweithredu a amlinellir yn **R1a.** | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol, Rheolwr y Gwasanaeth | Ebrill 2024 |
| c) *Nid yw cynllun busnes y GCI (2023-2025) yn glir o ran adnabod neu ymdrin ag anghymesuredd ac anghenion plant sydd â nodweddion gwarchodedig amrywiol.* | Bydd gan Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn 2024-25 adran ar Anghymesuredd a nodweddion gwarchodedig, a bydd hyn yn cynnwys;<br>• *Rhywedd*<br>• *Anghenion Dysgu Ychwanegol*<br>• *Iechyd Meddwl a Niwro-ddatblygiadol*<br>• *Ethnigrwydd*<br>• *Iaith a Lleferydd*<br>• *Plant sydd wedi bod mewn Gofal* | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol<br><br>Rheolwr y GCI | Gorffennaf 2024 |
| d) *Mae'r gofyniad statudol o gael swyddog prawf yn y GCI yn absennol.* | Bydd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a'i aelodau (gyda chefnogaeth gan y rheolwr gwasanaeth) yn parhau i gyfathrebu â'r NPS Lleol a'r HMPPS Cenedlaethol i sicrhau bod Swyddog Prawf yn cael ei secondio i'r gwasanaeth.<br><br>Yn ogystal, bydd y gwasanaeth yn cefnogi gweithrediadau Rheolwyr YOT Cymru a YJB Cymru yn eu negodi â'r HMPPS er mwyn ymdrin â'r materion cenedlaethol sy'n gysylltiedig â secondiadau'r Gwasanaeth Prawf i Gyfiawnder Ieuenctid. | Aelodau'r Bwrdd Rheoli<br><br>Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br><br>Rheolwr Gwasanaeth | Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y Bwrdd/Cadeirydd yn ysgrifennu at Arweinydd yr NPS Lleol a HMPPS Cymru i'w hysbysu ynghylch canfyddiadau arolygiad GCI Gwynedd ac Ynys Môn. | | |

3.2

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 2 - R2) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| a) *Ers y pandemig, mae datgysylltiad wedi digwydd gydag ymarferwyr rheng flaen. O ganlyniad, nid oes gan rai staff ddealltwriaeth lawn o waith y bwrdd.*<br><br>b) *Mae profiad anwytho aelodau'r bwrdd yn amrywiol.* | Mae **Llawlyfr Canllawiau Anwytho Gwasanaeth** newydd **wedi'i ddatblygu (Rhagfyr 2023),** y ddogfen i'w Staff, Gwirfoddolwyr ac aelodau'r Bwrdd Rheoli ac yn cynnwys manylion ar<br>• ymweliadau'r Bwrdd Rheoli i'r Swyddfa Cyfiawnder Ieuenctid<br>• Cynrychiolaeth staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol<br>• Camau gweithredu a phenderfyniadau o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol i'w rhannu gyda staff a gwirfoddolwyr.<br>Llawlyfr Canllawiau Anwytho Newydd i'w adolygu gan y Bwrdd Rheoli yn y cyfarfod ym mis Ebrill 2024. | Aelodau'r Bwrdd Rheoli<br>Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br>Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Cadeirydd y Grŵp Rheoli Gweithredol, Rheolwr Gwasanaeth, | Mehefin 2024<br><br>Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y Grŵp Rheoli Gweithredol yn adolygu ei Rôl a Chylch Gorchwyl ac yn adrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol ar newidiadau a datblygiad, gyda'r bwriad o sicrhau bod atebolrwydd clir i'r Bwrdd Rheoli Strategol ac nad oes unrhyw rwystr yn cael ei greu rhwng y gwasanaeth a'r Bwrdd Rheoli Strategol. **(Cytunwyd gan y Grŵp Rheoli Gweithredol ar 20/3/24)** | Rheolwyr Gweithredol. | |
| *c) Dylid rhoi rhagor o gyfleoedd i wirfoddolwyr a staff y GCI gyfrannu at y cynllun cyfiawnder ieuenctid.* | Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Grŵp Rheoli Gweithredol yn estyn gwahoddiad i staff a gwirfoddolwyr adolygu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid cyn iddo gael ei gyflwyno i'r YJB. | | |
| *d) Mae angen meincnodi perfformiad yn erbyn adroddiadau thematig HMIP a chanfyddiadau gwaith ymchwil arall.* | Bydd yr holl Adroddiadau Arolygiadau Thematig HMIP yn cael eu rhannu a'u hadolygu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Grŵp Rheoli Gweithredol.<br><br>Bydd adroddiadau yn cael eu paratoi i hysbysu'r Bwrdd ynghylch sefyllfa'r gwasanaethau o ran y canfyddiadau Thematig a'r argymhellion.<br><br>Eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd Rheoli Strategol pan fo hynny'n briodol. | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br><br>Rheolwr Gwasanaeth | Parhaus ers 1 Ebrill 2024 |

3.3

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 3 - R3) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| a) *Mae angen i'r Bwrdd Rheoli Strategol fod yn fwy rhagweithiol a chyflym wrth ymateb i angen sydd wedi'i adnabod - e.e. darparu adnodd iaith a lleferydd.*<br><br>b) *Nid yw'r deilliannau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant yn ddigon uchel.* | Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn parhau i gyfathrebu â'r Gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Rhanbarthol i ystyried yr opsiynau am secondiad neu gefnogaeth.<br><br>Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn parhau gyda'i ymrwymiad i sicrhau cyllid ar gyfer adnodd Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu.<br><br>O ran gweithred **R1(b)**, bydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn blaenoriaethu anghenion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE) a Chyfathrebu plant yn y system cyfiawnder drwy wneud cais am adroddiadau ar y ffactorau sy'n effeithio ar ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant am y 12 mis nesaf. Bydd hyn yn cynnwys data KPI Cenedlaethol a data lleol/carfan ac astudiaethau achos unigol.<br><br>*Ystyried yr opsiynau ar gyfer comisiynu gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cyfiawnder Ieuenctid yn rhanbarthol.* | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, Cynrychiolwyr Iechyd ac Addysg a'r Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, Cynrychiolwyr Iechyd ac Addysg a'r Rheolwr Gwasanaeth<br><br>*YJS Rhanbarthol (Cadeiryddion a Rheolwyr Gwasanaeth)* | Parhaus ac yn cael ei adolygu yn chwarterol |
| c) *Ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael o sgyrsiau cadarn ynghylch nodweddion gwarchodedig ac amrywiaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol.* | Bydd adroddiadau chwarterol yn cael eu darparu i'r Bwrdd Rheoli Strategol ar y nodweddion gwarchodedig a'r lefelau amrywiaeth ymysg y garfan o blant sy'n | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hysbys i'r system gyfiawnder, bydd hyn yn cynnwys;<br>• *Rhywedd*<br>• *Anghenion Dysgu Ychwanegol*<br>• *Iechyd Meddwl a Niwro-ddatblygiadol*<br>• *Ethnigrwydd*<br>• *Iaith a Lleferydd*<br>• *Plant sydd wedi bod mewn Gofal*<br>Bydd adroddiadau chwarterol a'r ymatebion gan y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol. | Cadeirydd y Bwrdd Rheoli<br>Aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol a'r Rheolwr Gwasanaeth. | |

4. <u>Parth 2</u> (**Gorchmynion Llys**)

4.1

**<u>Argymhellion</u>**

1. **Gwella ansawdd y gwaith asesu a chynllunio i gadw plant yn ddiogel a rheoli'r risg o niwed y maent yn ei beri i eraill.**
2. **Sicrhau bod y trosolwg gan reolwyr yn gyson effeithiol o ran adolygu gweithgarwch Asset Plus a chynllunio wrth gefn, fel bod ymarferwyr yn glir ynghylch beth sydd angen iddynt ei wella.**
3. **Rhoi arweiniad cynhwysfawr i ymarferwyr sy'n cefnogi cwblhau gwaith asesu y tu allan i'r llys a chynllunio effeithiol.**
4. **Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr i adnabod pa bryd mae plant yn cael eu hecsbloetio fel bod camau prydlon yn cael eu cymryd i gadw plant yn saff.**

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 1 - R1) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| **a)** Ni wnaeth y gweithgarwch asesu bob amser nodi'r holl risgiau i ddiogelwch a llesiant y plentyn.<br>**b)** Roedd yr asesiadau i adnabod yr holl ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig â chadw pobl eraill yn saff, yn wan.<br>**c)** Mewn rhai achosion, nid oedd yn glir tuag at bwy yr oedd y plentyn yn peri risg, a natur y risg honno. | Mae angen comisiynu Hyfforddiant Diogelwch a Llesiant a Risg o Niwed ar gyfer yr holl staff yn y gwasanaeth.<br>Bydd y rheolwr gwasanaeth a'r rheolwyr gweithredol yn sgopio'r darparwyr hyfforddiant Diogelwch a Llesiant sydd ar gael gyda phartneriaid lleol (Gwasanaethau Plant a'r Bwrdd Diogelu) er mwyn ymarfer cysondeb.<br>Bydd y gwasanaeth yn ystyried yr opsiynau Hyfforddiant Rheoli Risg gyda:<br>• LDU Gwasanaeth Prawf<br>• Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br>• YMC<br>ac yn comisiynu hyfforddiant priodol ar gyfer staff rheoli achos a staff cefnogi ehangach<br>*(Ymgynghori â'r Adran Hyfforddi yn yr Awdurdod Lleol i sicrhau cydraddoldeb o ran y comisiynu a'r ymarfer)* | Rheolwr Gwasanaeth<br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br>Rheolwr Gwasanaeth<br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Cwblhau erbyn mis Mehefin 2024<br>Cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2024 |
| **d)** Nid oedd ymarferwyr yn mynd ati'n gyson i gasglu gwybodaeth berthnasol gan asiantaethau eraill a dadansoddi rheolaethau ac ymyraethau i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn.<br>**e)** Lle bo'r angen, roedd ymarferwyr yn casglu gwybodaeth gan asiantaethau | Bydd y gwasanaeth yn ail-sefydlu Fforwm Rheoli Achosion bob deufis.<br>• Adolygu ansawdd asesiadau. | Rheolwr Gwasanaeth | Mai 2024<br>Comisiynu Hyfforddiant erbyn Awst 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| eraill ond, nid oedd hyn yn cael ei integreiddio i'w hasesiadau bob amser. | • Hyrwyddo safon uchel o ddadansoddi diogelwch a llesiant a Risg o Niwed.<br>• Bydd y Fforwm yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am Sicrhau Ansawdd.<br><br>Hefyd, bydd y fforwm yn adolygu ansawdd y wybodaeth y gwneir cais amdani gan asiantaethau eraill yn ystod y camau asesu a chynllunio.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn comisiynu hyfforddiant Sgiliau Dadansoddi ar gyfer y staff Rheoli Achosion, i sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chasglu o asesiadau a chan bartneriaid yn cael ei defnyddio i wella'r Asesiad Diogelwch a Llesiant a Risg o Niwed, Cynllunio ac Adolygu.<br><br>Dadansoddi a rhannu risg | Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Adolygu gwelliannau drwy Archwiliad Sicrwydd Ansawdd, Hydref 2024, adrodd i'r Bwrdd Rheoli yn mis Rhagfyr 2024. |
| **f)** Nid yw'r hyfforddiant ar drefniadau gwarchod y cyhoedd aml-asiantaethol (MAPPA) yn cael ei gyflwyno i'r holl staff, er mwyn darparu dealltwriaeth fwy cadarn o hyd a lled y gwaith sydd angen ei wneud i reoli risg yn effeithiol. | Cynhaliwyd hyfforddiant MAPPA ar gyfer yr holl staff rheoli achosion ar 23 Ionawr 2024 (Darparwr: Cydlynydd MAPPA Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru).<br><br>Ail-gyflwyno'r hyfforddiant MAPPA blynyddol gorfodol ar gyfer y gwasanaeth fel rhan o Gynllun Hyfforddi'r Gwasanaeth. Hyn | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Parhaus ers 1 Ionawr 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i'w adolygu gan y Grŵp Rheoli Gweithredol bob blwyddyn. | Cadeirydd y Grŵp Rheoli Gweithredol | |

4.2

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 2 - R2) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| **a)** Nid oedd y cynllunio wrth gefn yn gyson. Angen i drefniadau fod yn llawer mwy penodol o ran y camau gweithredu angenrheidiol pe bai lefel y risg yn cynyddu.<br><br>**b)** Roedd mesurau rheoli i uchafu diogelwch a llesiant wedi cael eu hystyried yn dda, ond roedd y cynllunio argyfwng yn benodol wael ac angen sylw pellach.<br><br>**c)** Nid oedd ymarferwyr yn ymateb yn effeithiol bob amser i newidiadau mewn ffactorau yn ymwneud â'r risg o niwed, oedd yn golygu nad oedd y cynlluniau i warchod eraill rhag niwed yn cael eu haddasu. | Fel rhan o'r trefniadau comisiynu hyfforddiant sydd wedi'u hamlinellu yn **R1 (a,b,c)**, bydd y gwasanaeth angen i'r darparwr hyfforddiant sicrhau bod cynllunio wrth gefn o ran diogelwch a llesiant a'r risg o niwed, yn cael ei gynnwys.<br><br>Bydd cynllunio wrth gefn yn cael ei gynnwys yn natblygiad y prosesau sicrhau ansawdd rheoli achosion newydd **(R2 e)** i sicrhau cysondeb a monitro effeithiol. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Hydref – Tachwedd 2024 |
| **d)** Yn ogystal, ni chafodd penderfyniadau a wnaed mewn paneli rheoli risg i gadw eraill yn saff, eu gweithredu'n brydlon bob amser. | Bydd y gwasanaeth yn adolygu gweithrediad a swyddogaeth y 'Panel Risg' gyda'r bwriad o wella penderfyniadau a bod y camau | Rheolwr Gwasanaeth | Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithredu yn cael eu cofnodi a bod y panel yn cyfrannu at reoli diogelwch a llesiant a'r risg o niwed, yn well. | Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | |
| **e)** Nid yw trosolwg rheolwyr o ran gwaith diogelwch a llesiant, a'r risg o niwed, yn gyson. | Bydd y gwasanaeth yn datblygu proses a pholisi Sicrhau Ansawdd Newydd yn unol â Chanllawiau Rheoli Achosion YJB a chanfyddiadau Arolygiad HMIP;<br>• *Ymatal rhag troseddu (Desistance)*<br>• *Plentyn yn Gyntaf/Cryfderau*<br>• *Diogelwch a Llesiant*<br>• *Risg o Niwed*<br>• *Cynllunio wrth Gefn*<br>• *Cofnodi*<br>• *Dadansoddiad*<br>• *Deilliannau* | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Medi 2024 |
| **f)** Nid yw'r holl reolwyr wedi derbyn y lefel briodol o hyfforddiant, ar gyfer eu rôl neu gyfrifoldebau, yn y 12 mis diwethaf.<br><br>**g)** Nid yw pob aelod staff wedi cael gwerthusiad ffurfiol. | Bydd y gwasanaeth yn diweddaru'r Cynllun Hyfforddi Staff ac yn gwerthuso'r hyfforddiant rheoli i Reolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn diweddaru'r Polisi Goruchwylio a Gwerthuso (wedi'i gynnwys yn Llawlyfr Canllaw Anwytho'r Gwasanaeth, **Parth 1 R2a**).<br><br>*Angen cyfeirio at Ganllawiau CG*<br><br>Bydd y Gwasanaeth yn adrodd bob blwyddyn i'r Bwrdd Rheoli Strategol ar Oruchwylio a Gwerthuso staff. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Hydref 2024<br><br>Chwefror 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **h)** Ymyraethau penodol i ferched | Bydd y Gwasanaeth yn archwilio adnoddau o fewn y gwasanaeth sy'n targedu cefnogaeth i ferched yn benodol.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn gwneud ymholiadau gyda chydweithwyr yng Nghymru a'r YJB a'r Fforwm Ymarfer Rhanbarthol, am arferion gorau o ran datblygu adnoddau gyda Merched.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn ymgynghori â merched sy'n hysbys i'r gwasanaeth ynghylch y math o adnoddau a chefnogaeth fyddai'n cwrdd â'u hanghenion | Rheolwr Gwasanaeth<br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Rheolwyr achos a staff cefnogi.<br><br>Gweithiwr cyfranogi | Medi 2024. |

4.3

| **Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 4 - R4)**<br><br>**Rhannu â Pharth 3 (Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys - OoCD)** | **Gweithred** | **Pwy** | **Pryd** |
|---|---|---|---|
| a) Nid yw'r dysgu, datblygu a hyfforddiant hyd yma yn arwain at waith effeithiol a chyson i ymdrin â diogelwch a llesiant, a'r risg o niwed i eraill. | Bydd y gwasanaeth yn adolygu Cynllun Hyfforddi'r Gwasanaeth ac yn sicrhau bod hyfforddiant ar Ddiogelwch a Llesiant a Risg yn elfennau allweddol o'r Cynllun.<br><br>Cyfeiriwch at Barth 2 **R1 a,b,c** | Rheolwr Gwasanaeth<br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Mehefin-Gorffennaf 2024 |
| b) Mae angen rhagor o weithgarwch i lwyr gofleidio'r amrediad o nodweddion gwarchodedig sydd gan blant. | Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff a rheolwyr ar Nodweddion Gwarchodedig ac amrywiaeth/anghymesuredd.<br><br>Bydd ystyriaethau o ran gwneud penderfyniadau ar nodweddion | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Awst 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwarchodedig ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys mewn adolygiad o'r Paneli Iechyd ac Addysg - data yn cael ei gasglu ar gyfer adrodd i'r Grŵp Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli Strategol. | | |
| c) Bu i ni adnabod methiannau i ystyried neu ymateb yn briodol i bryderon am ecsbloetio/cam-fanteisio ac rydym yn awgrymu bod hwn yn faes lle y mae angen rhagor o hyfforddiant arno, ynghyd â dealltwriaeth a ffocws gan y gwasanaeth. | Bydd y gwasanaeth yn gofyn i'r Swyddogion Arweiniol Cam-fanteisio ar Blant o'r ddwy Sir a Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu sesiynau briffio / Hyfforddiant *'Exploitation and Extra Familial Harm*' i staff a rheolwyr y GCI, bydd hyn yn cynnwys;<br>• Ymwybyddiaeth ac Adnabod<br>• Proses ac Ymarfer y Panel Cam-fanteisio ar Blant<br>• Caethwasiaeth Fodern a'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Mehefin 2024 |

5. <u>Parth 3</u> (**Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys**)

5.1

| Maes ar gyfer gwella (Argymhelliad 3 - R3) | Gweithred | Pwy | Pryd? |
|---|---|---|---|
| a) Nid oedd meysydd yn ymwneud â diogelwch a llesiant plant yn cael sylw amlwg yn y polisi. Sylw cyfyngedig oedd yn cael ei roi i anghenion llesiant, bregusrwydd a chanfyddiad y plentyn ynghylch ei bryderon/phryderon diogelwch. | Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi cyflwyno'r isod, sy'n newydd:<br>• *Principles and Guidance for Prevention and Diversion (PaD) (Llywodraeth Cymru)* | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Mai 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • *Case Management Standards for Prevention and Diversion (YJB)*<br><br>Bydd yr ymarfer yn cael ei ymgorffori yn llawn erbyn mis Mai 2024. | | |
| b) Nid oedd unrhyw ganllawiau i gefnogi ymarferwyr yn well i asesu, dadansoddi a chynllunio ar gyfer gwaith i gadw plant yn ddiogel a gwarchod eraill rhag niwed. | Bydd y gwasanaeth yn adolygu ac yn diweddaru'r Polisi Risg a Bregusrwydd i adlewyrchu ar fabwysiadu'r dogfennau PaD newydd a sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o sut i ddiogelu a rheoli risg plant sy'n destun Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Gorffennaf 2024 |
| c) Nid oedd y teclyn asesu rhanbarthol yn darparu digon o fanylder i helpu ymarferwyr i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth y maent ei hangen ar gyfer asesiadau effeithiol i gadw plant yn saff a gwarchod eraill rhag niwed. | Y teclyn cenedlaethol *Prevention and Diversion Assessment Tool* mandadol newydd wedi'i fabwysiadu gan y gwasanaeth ar 1 Ebrill 2024.<br><br>Hyfforddiant Cenedlaethol ddim ar gael hyd nes mis Medi-Hydref 2024.<br><br>Pob achos newydd<br><br>Cefnogaeth fewnol a chanllawiau yn cael eu darparu gan reolwyr ac uwch staff sydd â phrofiad o Asset+.<br><br>Bydd y Grŵp Rheoli Gweithredol yn cynnal archwiliad i sicrhau ansawdd. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Aelodau'r Grŵp Rheoli Gweithredol (Archwiliad) | Wedi'i gwblhau yn rhannol ym mis Ebrill 2024<br><br>Hydref – Tachwedd 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| d) Nid oedd unrhyw brosesau neu weithdrefnau craffu mewnol i sicrhau ansawdd y penderfyniadau a wneir. | Bydd y gwasanaeth yn ailsefydlu'r Panel Craffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys;<br>• Rheolwyr Gwasanaeth a Gweithredol<br>• Cadeirydd y Fainc o Ynadon<br>• Arolygydd Lleol (Heddlu Gogledd Cymru) | Rheolwyr Gwasanaeth a Gweithredol | Medi 2024 |
| e) Nid oedd trefniadau, yn cynnwys cynrychiolaeth staff gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn y Bureau, wedi'u hymgorffori hyd yma. | Mae cynrychiolwyr y Gwasanaethau Plant ac Addysg yn rhan o'r Paneli Dyrannu ac Adolygu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys (Bureau); fodd bynnag, yn gynamserol i werthuso eu cyfraniad a'u profiad, bydd y gwasanaeth yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn ymgynghori â'r Grŵp Rheoli Gweithredol a Heddlu Gogledd Cymru ynghylch datblygiadau pellach. | Rheolwr Gwasanaeth | Hydref 2024 |
| f) Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i gyflwyniad Deilliant 22. | Lansiodd Heddlu Gogledd Cymru a'r YJS Rhanbarthol y trefniadau ymarfer 'Second Chance' ym mis Mawrth 2024. Roedd yr ymarfer hwn yn cyflwyno Deilliant 22 fel opsiwn ar gyfer y Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.<br>Mae'r ymarfer hwn yn y camau 'profi' cynnar; bydd y gwasanaeth yn darparu briff i'r Grŵp Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli Strategol ynghylch y cynnydd a'r problemau, ac yn parhau i gydweithredu â Heddlu Gogledd Cymru (Hwb Atal a'r OPCC) ar y datblygiad a'r cyflwyno. | Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr | Parhau (yn cael ei lywio'n rhannol gan gynllunio rhanbarthol a Hwb Atal Heddlu Gogledd Cymru) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y gwasanaeth yn darparu peth trosolwg a Sicrhau Ansawdd wrth ailsefydlu'r Panel Craffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. | | |

6. <u>Ailsefydlu</u> **(Polisi a Gweithdrefnau)**

6.1

| Maes ar gyfer gwella (**Ailsefydlu**) | Gweithred | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| a) Ni roddwyd digon o sylw i gefnogi ymarferwyr i hyrwyddo diogelwch a llesiant plant (diogelu) a'r risg o niwed i eraill.<br>b) Nid oedd cwrdd ag anghenion dioddefwyr gwirioneddol a phosib yn glir yn y polisi.<br>c) Nid oedd unrhyw gyfeiriad at MAPPA yn y polisi.<br>d) Nid oedd y rhestr ddarllen sy'n cael ei hargymell wedi'i diweddaru i gynnwys gwybodaeth fwy cyfredol am amrywiaeth a meysydd ymarfer eraill sy'n ymwneud ag adsefydlu.<br>e) Ni roddwyd digon o sylw i nodweddion gwarchodedig ehangach. | Bydd y gwasanaeth yn creu Dogfen Ymarfer Adsefydlu newydd. Byddwn yn:<br>• Chwilio am arferion gorau yng Nghymru.<br>• Ail-gadarnhau gyda Chadeirydd ac Aelodau'r Grŵp Rheoli Gweithredol eu cyfrifoldeb i lunio Panel Adsefydlu pan fo'r angen.<br>• Ymgynghori â YJB Cymru ar y deunydd darllen a'r dogfennau polisi perthnasol.<br>• Sicrhau bod Amrywiaeth a Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn y ddogfen. | Rheolwr Gwasanaeth Rheolwyr Gweithredol ac Uwch Ymarferwyr<br><br>Grŵp Rheoli Gweithredol (Cadeirydd) | Mai 2024 |

7. <u>Siwrne'r Cynllun Gwella</u>

7.2 Wedi'i gymeradwyo gan Aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol ac wedi'i gyflwyno i HMIP a YJB ar 5 Ebrill 2024. Adborth gan HMIP ac ymateb erbyn diwedd mis Ebrill 2024.

7.3 Papur Cynllun Gwella HMIP i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Rheoli Strategol ar 23 Ebrill 2024.

7.4 Cynllun Gwella HMIP i'w gyflwyno i Bwyllgorau Cabinet y Cynghorau ym mis Ebrill 2024.

7.5 Bydd Cynllun Gwella HMIP yn cael ei ymgorffori yng Nghynllun Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn (2024-25) ym mis Mehefin 2024. Bydd gweithrediad y camau gweithredu yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Rheoli Strategol (YJB yn bresennol) a'r Grŵp Rheoli Gweithredol.

8. Llofnodi a Chwblhau

| Enw<br>Dynodiad | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| ***Fôn Roberts***<br>Cadeirydd Bwrdd Rheoli GCI Gwynedd a Môn. |  | 08.04.2024 |
| ***Stephen Wood***<br>Rheolwr Gwasanaeth GCI Gwynedd a Môn. |  | 08.04.2024 |

| | |
|---|---|
| **ENW’R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 5ed Medi 2024 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2023/24 |
| **AMCAN** | Cyflwyno drafft o ddogfen Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2023/24 ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau ystyried cynnwys y ddogfen drafft ar gyfer 2023/24 gan gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion. |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

**1. CEFNDIR**

1.1. Dyma adroddiad sy’n cyflwyno Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad y Cyngor gan edrych yn ôl ar 2023/24. Nodir fod yr hunanasesiad yn ofyn statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.2. Fel y flwyddyn diwethaf mae hunanasesiad y Cyngor wedi’i ymgorffori o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae Adroddiad Perfformiad ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2023/24 **(Atodiad 1)** wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

1.3. Mae’r ddogfen wedi ei chyflwyno fel testun yn unig gan fod gwaith pellach i’w wneud i gwblhau’r diwyg a’r dyluniad. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau ar gyfer cyflwyno i’r Cabinet ac i’r Cyngor Llawn yn ddiweddarach ym mis Medi.

1.4. Noda canllawiau statudol fod angen cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses hunanasesu gan roi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion. O ystyried hynny gofynnir i aelodau’r Pwyllgor ganolbwyntio ar **Ran 2** o’r adroddiad, (sef yr Hunanasesiad) gan gynnig unrhyw sylwadau neu argymhellion.

**2. HUNANASESIAD O BERFFORMIAD Y CYNGOR**

2.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae’n disodli’r ddyletswydd a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

2.2. Golyga hyn bod yn rhaid i Gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn

cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Y gofynion perfformiad yw i ba raddau:-

i. y mae’n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae’n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion i. a ii

2.3. Ar ei lefel symlaf, mae a wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac yn ymateb i’r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda rydyn ni’n gwneud?
- Sut rydyn ni’n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

2.4. Fel y nodwyd eisoes mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ac i gwblhau’r gwaith “cyn gynted ag bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae’n ymwneud â hi.”

2.5. Nodir dyletswydd hefyd i ymgynghori o leiaf unwaith mewn blwyddyn ariannol gyda phobl leol, busnesau lleol, staff y Cyngor a’r undebau llafur. Dylid defnyddio’r ymgynghoriadau hyn i gael adborth ar y graddau y mae'r awdurdod yn cyflawni'r gofynion perfformiad.

2.6. Mae’r Cyngor eisoes yn casglu llawer o’r dystiolaeth ac yn cyhoeddi dogfennau sy’n cynnwys y math o wybodaeth sy’n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis (ond ddim yn gyfyngedig i) adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Nodir hefyd fod yna gyswllt agos rhwng y ddogfen hon a’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy’n cael ei chyflwyno i’r un cyfarfod. O ganlyniad, rydym wedi ceisio cadw’r ddogfen hunan asesiad yn gymharol gryno gan gyfeirio tuag at nifer o’r dogfennau lle ceir gwybodaeth bellach er mwyn ceisio osgoi dyblygu.

2.7. Y Grŵp Llywodraethu sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o’r broses hyn o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a’i arwain ar lefel strategol. Nodir hefyd fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael cyfle i ddarparu sylwadau ar fersiwn ddrafft dros yr wythnosau diwethaf.

2.8. Fel y nodir uchod mae angen cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion fel yr amlinellir yn y blwch isod (sydd wedi ei dynnu’n uniongyrchol o’r ddogfen).

**<u>Cynnwys pwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor</u>**

*Para 2.40 Mae'n rhaid i'r Cyngor drefnu bod drafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Mae'n rhaid i'r pwyllgor adolygu'r adroddiad drafft a gall wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd.*

> *Para 2.41 Os na fydd y Cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y cyngor y newid yn yr adroddiad hunanasesu terfynol.*

2.9. Byddai peidio â chyhoeddi Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, fyddai hefo goblygiadau i enw da'r Cyngor.

2.10. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar y 23ain o Fai 2024 bydd y gwaith o gynnal Asesiad Perfformiad Panel (fydd yn cynnwys aelodau annibynnol) yn digwydd o fewn y Cyngor yn yr Hydref. Mae angen cynnal Asesiad Panel o leiaf **unwaith** o fewn cylch etholiadol ac mae'n gysylltiedig a'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad gyda'r dogfennau hyn yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth.

**3. CAMAU NESAF**

3.1. Bydd drafft o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad, ynghyd â unrhyw sylwadau neu argymhellion gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr hunanasesiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 17eg o Fedi ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo ar y 3ydd o Hydref, 2024.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad drafft ar gyfer 2023/24 sy'n ymddangos yn Atodiad 1 a chynnig unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau os oes rhai.

**Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Perfformiad a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2023/24**

# Adroddiad Blynyddol 2023-24

CYNGOR GWYNEDD

**Rhagair yr Arweinydd – Adroddiad Perfformiad ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd Blynyddol 2023-24**

Pleser gennyf yw cyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad, sy'n amlygu gwaith y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma'r adolygiad perfformiad cyntaf o Gynllun y Cyngor 2023-28.

Eleni, fe ganolbwyntiwyd ar leddfu'r baich ariannol ar deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â chostau byw uchel. Llwyddwyd i uwchraddio cyfleusterau bwyta, offer a cheginau yn ein hysgolion, gan sicrhau bod pob disgybl cynradd bellach yn cael cynnig cinio ysgol am ddim. Erbyn hyn rydym wedi mabwysiadu Cynllun Lliniaru ac Atal Tlodi, gan arwain at sefydlu Grŵp Tlodi Gwynedd a rhwydwaith rhannu bwyd, sydd oll yn elwa o gefnogaeth sefydliadau ar draws y sir.

Ymdrechwyd i gefnogi unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref a lleihau ymhellach ein dibyniaeth ar lety dros dro, megis gwely a brecwast a gwestai. Agorwyd datblygiadau tai â chymorth ym Mangor, Dolgellau a Phwllheli, ac, mae gwaith adeiladu hefyd wedi ei gwblhau ar bedwar fflat newydd yng Nghaernarfon i helpu pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i symud tuag at fyw'n annibynnol. Bu'r Cyngor hefyd yn cydweithio â chymdeithasau tai i adeiladu dros 150 o unedau tai cymdeithasol newydd a dod â thua 50 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd er mwyn ymateb i'r galw cynyddol am dai fforddiadwy ac addas i bobl leol.

Rwy'n falch fod Cyngor Gwynedd yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o gyd-weithio gyda'n partneriaid. Yn ystod y flwyddyn fe gyhoeddwyd Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035, gyda'r bwriad o sicrhau bod ein cymunedau yn elwa o dwristiaeth, tra hefyd yn gwarchod ein hamgylchedd, iaith a diwylliant unigryw. Rydym eisoes wedi dechrau gweithredu'r gwaith pwysig hwn drwy agor safle peilot cyntaf Aros-fan yng Nghricieth, gan gynnig lle priodol i aros dros nos ar gyfer cartrefi modur, gyda rhagor o safleoedd ar y gweill yn 2024.

Cymerwyd camau pellach i leihau ôl troed carbon y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae paneli solar wedi eu gosod mewn 55 o safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor, gan leihau costau ynni ac allyriadau carbon. Fe gychwynnodd y broses o newid cerbydau fflyd am rhai trydan, gan osod rhagor o bwyntiau gwefru mewn mannau cyhoeddus ar gyfer trigolion yn ogystal â cherbydau'r Cyngor.

Wrth inni ddathlu ein llwyddiannau, fodd bynnag, byddai'n esgeulus i mi beidio â phwysleisio'r heriau ariannol sylweddol a difrifol iawn sy'n wynebu cynghorau lleol dros y blynyddoedd nesaf. Yn syml, nid oes gennym ddigon o arian i gyflawni popeth y dymunwn ei wneud. O ganlyniad, bu'n rhaid i ni flaenoriaethu ein cynlluniau ar sail risg a cheisio ffynonellau cyllid ychwanegol, megis grantiau, sy'n dod yn fwyfwy prin. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn gweld mwy o alw nag erioed am wasanaethau lleol.

Rwy'n pryderu am ein gallu i gynnal gwasanaethau o ansawdd yn yr hinsawdd sydd ohoni, ac rydym yn gorfod edrych o ddifri ar beth allwn ei ddarparu i'r dyfodol. Fel Arweinydd, byddaf yn parhau i eiriol dros fwy o fuddsoddiad mewn llywodraeth leol, gan bwysleisio'r angen am gyllid digonol a sefydlog gan Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru.

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn , Arweinydd Cyngor Gwynedd

**Cyflwyniad**

Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28' ym mis Mawrth 2023 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd dan sylw. Mae 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28' yn cynnwys cyfres o brosiectau uchelgeisiol fydd yn ein galluogi i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau i drigolion y sir dros gyfnod o bum mlynedd. Daw'r prosiectau dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory**
  *Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc*
- **Gwynedd Lewyrchus**
  *Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng*
- **Gwynedd Glyd**
  *Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau*
- **Gwynedd Ofalgar**
  *Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau*
- **Gwynedd Gymraeg**
  *Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*
- **Gwynedd Werdd**
  *Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd*
- **Gwynedd Effeithlon**
  *Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac yn effeithlon*

Dyma ein hadroddiad cyntaf sy'n edrych ar gyflawniadau Cynllun y Cyngor 2023-28. Mae'r adroddiad wedi ei rannu i benodau sy'n adlewyrchu'r meysydd blaenoriaeth uchod, gan ddisgrifio'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â'r prif gyflawniadau yng ngwaith dydd i ddydd ein hadrannau, er enghraifft gofal plant ac oedolion, yr amgylchedd ac addysg gynradd ac uwchradd.

Y Meysydd Blaenoriaeth o fewn y ddogfen hon yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr Amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r pum ffordd o weithio o fewn y Ddeddf trwy ystyried yr hirdymor, atal, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Gweler dabl ar dudalen 29 yn dangos cyfraniad pob prosiect blaenoriaeth tuag at y pum ffordd o weithio.

Bydd rhan olaf yr adroddiad perfformiad yn ymgorffori ein hunan-asesiad ar gyfer y flwyddyn. Dyma fydd ein trydydd hunan-asesiad. Disgwylir i'r Cyngor gyflwyno hyn yn flynyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

I lwyddo yn ein cynlluniau mae angen i ni gydweithio a pharhau i fagu perthynas iach gydag ystod eang o bartneriaid - y trydydd sector, y sector breifat, gwasanaethau cyhoeddus eraill ac wrth gwrs ein cymunedau brwdfrydig.

Cyflwynwyd rhaglen arbedion newydd fel un o brif flaenoriaethau'r Cyngor wrth ymateb i'r sefyllfa ariannol, ac mae'r Cyngor wedi cytuno ar raglen arbedion gwerth £6.4miliwn wrth osod cyllideb 2023/24, ac arbedion pellach o £5.2miliwn wrth osod cyllideb 2024/25. Er gwaethaf heriau ariannol, mae'r Cyngor yn arloesi yn gyson gan geisio canfod ffyrdd gwell a mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau.

Fel rhan o'n trefniadau perfformiad rydym yn cynnal cyfres o gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad adrannol yn rheolaidd sy'n gyfle i ni weld sut gynnydd mae'r adrannau yn ei wneud gyda'u gwaith dydd i ddydd yn ogystal â'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir sydd wedi eu gosod ar gyfer y prosiectau o fewn y saith maes blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yma. Nid tynnu sylw at y pethau da yn unig yw bwriad yr adroddiad, ond rhoi darlun teg a gonest o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn. Wrth wneud hynny, rydym yn gallu dathlu ein llwyddiannau a gweld pa agweddau o'n gwaith sydd angen sylw pellach, er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i drigolion y sir o fewn yr adnoddau sydd gennym.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ac i gyfarfod y Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth.

**GWYNEDD YFORY**

Ein huchelgais yw sicrhau bod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:

- Eu trin yn gyfartal, eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.
- Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.
- Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.
- Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas hyd orau ein gallu.
- Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.
- Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol yn ddi-gost i gymaint o ddisgyblion â phosibl.
- Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol.
- Sicrhad bod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.

**Prosiectau**

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
- Cinio ysgol am ddim
- Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu
- Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol
- Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Rydym wedi cyflwyno strategaeth ddrafft ar gyfer y blynyddoedd cynnar a fydd yn ymateb i'r egwyddorion, ac wedi sefydlu trefniadau cydweithio gyda'n partneriaid iechyd.

**Cinio ysgol am ddim**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Rydym wedi uwchraddio i offer trydan, gan osod llai o offer nwy yn ein ceginau, er mwyn lleihau allyriadau carbon.
- Sicrhawyd fod digon o staff cegin a goruchwylwyr yn ein hysgolion cynradd i ddelio gyda'r cynnydd yn y nifer sy'n cael cinio ysgol.
- Rydym wedi llwyddo i gynnig cinio am ddim i bob disgybl cynradd gan sicrhau bod y gofod bwyta yn addas, bod offer digonol yn ein ceginau i ddarparu cinio ac ymdrechu bod cymaint â phosib o'r disgyblion cynradd yn manteisio ar y cynllun, ac o ganlyniad mae'r prosiect hwn wedi ei gwblhau eleni.

**Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cymeradwywyd achos busnes i gyllido ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ym Mangor, gyda lle ar gyfer 150 o ddysgwyr ar hen safle Ysgol Glanadda.
- Cymeradwywyd achos busnes i ariannu gwelliannau i Ysgol Hirael ym Mangor.
- Ystyriwyd opsiynau posib ar gyfer gwella cyflwr yr adeiladau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Tryfan, Bangor, a bydd yr achos busnes yn cael ei gyflwyno yn fuan.
- Mae'r gwaith o adeiladu Ysgol Gynradd newydd yng Nghricieth yn parhau, a bydd yr ysgol yn agor fis Medi 2024.
- Addysg Ôl-16 yn Arfon - Yng nghyfarfod Cabinet 28 Tachwedd 2023 penderfynwyd peidio â symud ymlaen efo'r adolygiad o drefniadau addysg ôl-16 yn Arfon.

**Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Sefydlwyd grwpiau prosiect i lunio rhaglen waith a gofynion ymchwil manwl i'r gost ariannol o anfon plant i'r ysgol, ac i'r gost emosiynol a seicolegol i rai plant o fynychu'r ysgol.
- Cynhaliwyd gwaith ymchwil a chasglwyd data am y gost ariannol a'r gost emosiynol o fynychu'r ysgol.

**Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Lluniwyd rhaglen waith i wella caeau chwarae, ac edrychwyd am gyfleon i gydweithio gyda phartneriaid lleol.
- Cyflwynwyd ceisiadau am grantiau er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Casglwyd gwybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a chynhaliwyd arolygon barn.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Drafft o Strategaeth Addysg wedi ei lunio ac wedi ei drafod yn y Grŵp Strategol Penaethiaid Uwchradd a gerbron y Grŵp Ymgynghorol Cynradd ac Arbennig, ac mae'r drafft hefyd wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.
- Mae trefn Byrddau Prosiect mewn lle i sicrhau bod rheolaeth prosiectau cyfalaf addysg yn gadarn. Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni'n ystod y flwyddyn i gwrdd â gofynion gwariant grantiau cyfalaf un tro yn ystod y flwyddyn megis y grant Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ysgolion bro, ac mae prosiectau cyfalaf Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl erbyn hyn.
- Mae gan bob ysgol a Chorff Llywodraethol berson dynodedig sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu lefel 2 yn ystod y 3 blynedd diwethaf.
- Rydym wedi creu pecyn Hyfforddiant ar y cyd â Therapyddion Iaith a Lleferydd er mwyn uwch-sgilio staff ysgolion i'w galluogi i gefnogi dysgwyr gydag anawsterau iaith a lleferydd ymhellach.
- Rydym wedi llwyddo i ddenu arian grant gan Lywodraeth Cymru i gyflogi tair swyddog lles ychwanegol am flwyddyn. Mae'r swyddogion ychwanegol wedi ein galluogi i gyflawni gwaith ataliol er ymateb yn fuan i bryderon sy'n cael eu hamlygu. Mae'r adnoddau hyn i weld yn gwneud gwahaniaeth ac mae'r ysgolion yn hapus gyda'r gefnogaeth ychwanegol.

- Mae'r tîm nam golwg wedi creu adnoddau a llyfrau wedi eu haddasu ar gyfer disgyblion penodol.
- Mae meini prawf ar gyfer asesu dysgwyr y Blynyddoedd Cynnar wedi eu diweddaru ac yn profi yn ddull effeithiol o asesu ar y cyd gyda'r holl ran-ddeiliaid sy'n ymwneud â'r plant.
- Bu cydweithio gyda'r Tîm Datblygiad Cynnar, Gwasanaeth Dechrau'n Deg er mwyn sefydlu strwythur i agor proffil electroneg ar gyfer plant ifanc iawn sydd yn derbyn cefnogaeth ar lefel targedu yn y cartref. Mae hyn yn caniatáu plant i drosglwyddo i leoliadau blynyddoedd cynnar efo proffil mewn lle. Mae'r lleoliadau wedi datgan bod hyn yn sicrhau continwwm yn y ddarpariaeth ar y lefel targedu.

**Ystadegau wedi eu dylunio i ddilyn**

| |
|---|
| Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd. Mae pob ysgol sydd wedi derbyn ymweliad monitro yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio gyda'r gofynion. |
| Nifer dyddiau aros am wasanaeth cwnsela wedi gostwng o 51 i 23 ers dechrau'r flwyddyn addysgol. |
| Cefnogi plant a phobl ifanc sydd a chyflwr meddygol/corfforol/synhwyraidd i gael mynediad i addysg - 91% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth |
| Mae ein pobl ifanc wedi llwyddo i ennill 728 o achrediadau drwy Gwasanaeth Ieuenctid eleni. |

**GWYNEDD LEWYRCHUS**

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau bod swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Ein huchelgais yw i sicrhau:

- Swyddi o safon.
- Cefnogaeth i fusnesau ffynnu.
- Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
- Cymunedau cryf a gwydn.
- Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm.

**Prosiectau**

- Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy
- Adfywio cymunedau a chanol trefi
- Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith
- Cadw'r Budd yn Lleol

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Lansiwyd Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 a sefydlwyd Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035.
- Dechreuwyd ar y gwaith o ymgynghori ar ddatblygu Cynllun Diwylliant i Wynedd.
- Penodwyd Cydlynydd Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru ar y cyd efo Cadw.
- Datblygwyd safleoedd Aros-fan ar draws Gwynedd er mwyn rhoi llefydd addas i gartrefi modur barcio dros nos.
- Cynhaliwyd rhaglen o weithgareddau yn ystod wythnos yr Eisteddfod, a rhoddwyd cefnogaeth i gymunedau, busnesau a'r sector ddiwylliannol i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod.
- Gwnaethpwyd gwelliannau i Neuadd Dwyfor ym Mhwllheli sy'n ganolfan ddiwylliannol bwysig i ardal Dwyfor ac yn ehangach.

**Adfywio cymunedau a chanol trefi**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Lluniwyd Cynlluniau Adfywio Lleol drafft ar gyfer pob un o'r 13 ardaloedd adfywio yn y sir.
- Cynhaliwyd gweithdai ym mhob ardal adfywio lleol i drafod ac addasu'r Cynlluniau Adfywio Lleol drafft; ac i ddiweddaru sefydliadau lleol ynghylch rhaglenni ariannol newydd.
- Sefydlwyd Cronfeydd Allweddol ar gyfer cefnogi prosiectau o fewn Cynlluniau Adfywio Lleol.
- Lluniwyd Cynlluniau Canol Tref ar gyfer Bangor, Caernarfon a Phorthmadog
- Casglwyd gwybodaeth am eiddo gwag yn ein prif drefi, ac adolygwyd ymyraethau presennol Adrannau'r Cyngor sy'n delio gyda eiddo gwag.
- Penodwyd Rheolwr Prosiect Eiddo Gwag (Hyfforddai Proffesiynol Datblygu'r Economi fel rhan o raglen Cynllun Yfory 2023).

**Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Targedwyd arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i gryfhau seiliau economi Gwynedd
- Roeddem yn cydweithio gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru i sicrhau budd i Wynedd o Gais Twf Gogledd Cymru
- Gweithredwyd ail wedd Rhaglen Arfor, sef rhaglen gwerth £11 miliwn gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithio ar draws Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i gefnogi cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu. Mae'r rhaglen yn darparu ymyraethau economaidd sydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu'r cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.
- Sefydlwyd trefniadau newydd i ymgysylltu gyda busnesau er mwyn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iddynt
- Lansiwyd Cronfa Cymorth Busnes i roi cefnogaeth ariannol ychwanegol i fusnesau'r sir.
- Llwyddwyd i sicrhau caniatâd cynllunio i ddatblygu 10 o unedau gwaith newydd
- Daethpwyd i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen Cymorth i Waith

**Cadw'r Budd yn Lleol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cynhaliwyd hyfforddiant ymysg swyddogion er mwyn esbonio sut y gall y cyngor gefnogi'r economi leol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau
- Cynhaliwyd gweithdai i fusnesau lleol
- Datblygwyd canllawiau ar y trefniadau newydd
- Diweddarwyd ein polisïau caffael

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

**Datblygu'r economi ac adfywio cymunedau**

Darparodd Cyngor Gwynedd amrywiaeth eang o gefnogaeth i gynnal a chynorthwyo busnesau i ffynnu yn ystod y flwyddyn aeth heibio.
Roedd y Cyngor yn gyfrifol am:

- Gynnig £120 miliwn i 167 o gynlluniau ar draws y Gogledd, oedd yn cynnwys £23 miliwn i 40 o brosiectau yng Ngwynedd.
- Sefydlu timau a gweithdrefnau i reoli a gweinyddu rhaglen ARFOR ar draws gorllewin Cymru ac yng Ngwynedd. Roeddem yn llwyddiannus yn dyrannu 99% (£1.04M) o gyllideb Cymunedau Mentrus Gwynedd i 23 o fentrau lleol, ac fe elwodd Gwynedd yn fwy na siroedd eraill o bob ffrwd gwaith ARFOR.
- Rhannu dros £600,000 i 27 o fusnesau lleol yn ystod 2023/24 o ganlyniad i arian SPF, a chafodd cyfanswm o dros £2m ei ymrwymo i helpu busnesau ddatblygu.
- Rhoi cyngor a chymorth ymarferol i 149 o fusnesau fel rhan o gynlluniau wedi eu comisiynu gan y Cyngor gydag arian SPF.
- Sicrhau swyddi i 166 o drigolion lleol oedd ddim yn gweithio yn dilyn derbyn cefnogaeth tîm Gwaith Gwynedd yn ystod y flwyddyn – cynnydd o 25 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Trefnu 13 o ffeiriau swyddi leded y sir, gyda 218 o gyflogwyr yn mynychu a 1,075 o unigolion yn chwilio am waith.
- Adnoddau wedi eu sicrhau ar gyfer datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer canol trefi Pwllheli, Dolgellau a'r Bala yn ystod 2024/25.
- Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, paratowyd Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Cynllun Canolfan Iechyd a Lles Bangor.
- Sefydlu strwythur rheoli a gweithredu prosiect ar gyfer Rhaglen Llewyrch o'r Llechi gyda chytundebau cyfreithiol wedi eu gosod efo partneriaid allanol. 1 cynllun wedi'i gwblhau gyda'r mwyafrif ar waith. Cynllun LleChi wedi ei weithredu a'i gwblhau gyda chais am y wedd weithredol wedi ei gyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri gyda dyddiad dyfarnu Mehefin 2024.
- Sefydlu a lansio Cronfa Adfywio Ein Cymunedau, gyda £1.5m wedi ei ymrwymo mewn prosiectau fydd yn cael eu cwblhau yn 2024/25.

**Diwylliant a Hamdden**

- Cwblhawyd y gwaith adfer ac agorwyd Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy erbyn mis Gorffennaf 2023. Yn ogystal, derbyniwyd grant SPF ar gyfer buddsoddi yn yr ail-ddehongli a fydd wedi ei gwblhau ar gyfer tymor 2025.
- Gosodwyd System Netloan ac argraffu cwmwl ym mhob llyfrgell er mwyn gwella'r gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.
- Ariannodd Llywodraeth Cymru yr elfen cyfalaf o'r platfform llyfrgell ddigidol cenedlaethol a fydd yn cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd.
- Agorwyd Neuadd Dwyfor yn llawn yn mis Mehefin 2023 ac mae'r holl welliannau wedi cael derbyniad cadarnhaol gan ddefnyddwyr. Mae rhaglen amrywiol yn cael ei datblygu, gyda phwyslais ar nosweithiau cerddorol byw gan unigolion a bandiau yn y Gymraeg.
- Cyflwynwyd ceisiadau grant ar gyfer gwella isadeiledd canolfannau hamdden – goleuadau LED newydd i'r Canolfan Tennis, ail wynebu cyrtiau Canolfan Tennis, gwelliannau i MUGA Dolgellau.
- Cafodd Safle y Glyn ei ail wynebu a chadarnhawyd gorchymyn parcio ar gyfer y safle.
- Pedwar safle Aros-fan wedi eu datblygu ar gyfer cartrefi modur yng Nghricieth, Pwllheli, Llanberis a Chaernarfon gyda chymorth arian y Cyngor a rhaglen Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru.
- Yn sgil grant o £80,000, mynychodd 81,000 o bobl 21 digwyddiad gwahanol yn y sir. Cyfrifwyd budd i'r economi o £2,663,813 o ganlyniad.
- Bu 844,000 ymweliad â gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr yn 2023/4 lle rhoddwyd pwyslais ar ddarparu gwybodaeth ar y cynnig cerdded, prynu'n lleol, treftadaeth a diwylliant a mwyniant diogel o'r arfordir a'n hardaloedd dynodedig.
- Lleolwyd cymhorthion mordwyo yn Nhywyn ac Abersoch sy'n golygu cydymffurfiaeth lawn gyda gofynion Tŷ'r Drindod. Cafodd bwiau tramwyo harbyrau Aberdyfi ac Bermo eu hadnewyddu a'u gosod ar eu safleoedd priodol.
- Cwblhawyd y gwaith o uwchraddio maes parcio traeth Dinas Dinlle, gyda threfniadau rheoli newydd yn cael eu treialu yn ystod tymor yr haf 2024.
- Lluniwyd Cynllun Strategaeth Hirdymor Harbwr Pwllheli, sy'n adnabod fframwaith fuddsoddi ar gyfer yr harbwr.

**Ystadegau wedi eu dylunio i ddilyn**

| |
|---|
| Lefel boddhad cwsmeriaid Canolfannau Byw'n Iach yn 85.69% (Cynnydd o +2.15%) |
| Boddhad cwsmer Hafan Pwllheli yn 91% |
| Canran o gyfranogwyr yn gweld cynnydd yn eu llesiant neu'n gwella eu sgiliau yn sgil eu profiad celfyddydol yn 100% |
| Canran boddhad cwsmer Llyfrgelloedd yn 98.2% |
| Canran boddhad Cwsmer Neuadd Dwyfor yn 93.5% |
| Buddsoddiad mewn Rhaglenni Adfywio Canol Tref gwerth o £8,336,970 |

**GWYNEDD GLYD**

Ein huchelgais yw sicrhau bod gan pob person yng Ngwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy’n fforddiadwy ac sy’n gwella ansawdd eu bywydau. Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy osod uchelgais i:

- Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned.
- Sicrhau bod tai newydd yng Ngwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Sicrhau bod tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir.

**Prosiectau**

- Cynyddu’r cyflenwad o dai i bobl leol
- Ymdrin efo’r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd
- Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Cynyddu’r cyflenwad o dai i bobl leol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Crëwyd dros 200 o gartrefi ychwanegol ar gyfer trigolion Gwynedd.
- Cyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar gyfer safle datblygiad tai yn Llanberis a byddwn cyn bo hir yn barod i godi’n tai cyntaf.
- Prynwyd 13 o dai (gan ddod â’r cyfanswm i 23 o dai) ar gyfer eu gosod ar lefelau rhent fforddiadwy.
- Aseswyd nifer o safleoedd a prynwyd 3 safle datblygu (ym Mynytho, Llanystumdwy a Chaernarfon) ar gyfer datblygiadau newydd trwy negodi ac ymgysylltu gyda thirfeddianwyr.
- Daethpwyd â 53 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy gymorth grantiau i adnewyddu tai gwag i brynwyr tro cyntaf.
- Trwy gydweithio gyda’n partneriaid tai, adeiladwyd dros 170 o dai cymdeithasol newydd.

**Ymdrin efo’r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cefnogwyd trigolion y sir i wneud y mwyaf o gynlluniau i leihau costau ynni fel ECO4 a Nyth.
- Roeddem yn cydweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys y trydydd sector, i ddelio gyda galwadau gan y cyhoedd, ac yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o'r holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt.
- Rhannwyd arbenigedd a gwybodaeth ddefnyddiol ar wefan Costau Byw Cyngor Gwynedd sydd ar gael i bawb.
- Cyfeiriwyd pobl at Cyngor ar Bopeth i dderbyn cyngor ar ddyledion a cheisiadau arian Annibyniaeth Bersonol (PIP), sef arian ychwanegol i helpu gyda bywyd bob dydd os oes gan rywun salwch, anabledd neu gyflwr iechyd meddwl.
- Cyfeiriwyd trigolion at y Banc Bwyd am gymorth ychwanegol.
- Cynhaliwyd clinigau cymunedol i gyfeirio pobl at y gwasanaethau a’r gefnogaeth sydd ar gael.

**Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cwblhawyd y datblygiadau isod er mwyn cynorthwyo unigolion a theuluoedd digartref:
    - Caertref – podiau Caernarfon
    - 35 Ffordd y Coleg, Bangor
    - 20 Ffordd yr Ala, Pwllheli
    - Dôl Sadler, Dolgellau
- Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar gyfer Lle Da, Caernarfon, gan ddarparu pedwar fflat ychwanegol a fydd hefyd yn cefnogi pobl ifanc fregus i wneud camau pwysig tuag at fyw'n annibynnol.
- Denwyd 17 eiddo ar gyfer Cynllun Lesu Cymru sydd yn galluogi mwy o bobl i rentu'n breifat yng Ngwynedd, a'i wneud yn opsiwn mwy fforddiadwy, a byddwn yn parhau i drafod gyda landlordiaid a'r Llywodraeth i edrych am opsiynau i gynyddu'r cyfleoedd dros oes y cynllun.

**Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, er mwyn rheoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y mwyafrif llethol o gwsmeriaid a holwyd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth Cynnal a Chadw.
- Cymeradwywyd cais grant a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru am £1.7m ar gyfer cynllun peilot i osod pympiau gwres mewn tri adeilad, a derbyniwyd sêl bendith y Cabinet i achos busnes ar gyfer cynllun PV gwerth £500K, a chynllun peilot ar gyfer gosod goleuadau LED mewn 6 adeilad gweithredol.
- Cymeradwywyd 546 cais ECO yn ystod 23/24 sydd wedi helpu i wneud tai yn fwy ynni-effeithlon a lleihau'r gost o'u gwresogi.
- Bu cydweithio parhaus gyda'r trydydd sector a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn gwneud y mwyaf o'r cymorth sydd ar gael i drigolion.
- Mae ôl troed carbon y Cyngor wedi derbyn ystyriaeth mewn cyswllt â phob datblygiad newydd. Mae Ysgol newydd Treferthyr yng Nghricieth wedi ei datblygu yn ddi-nwy, gan gael ei gwresogi gan dechnoleg 'Air source heat pump' sy'n defnyddio trydan wedi'i gynhyrchu gan baneli solar ar y safle. Dechreuwyd ar y gwaith cefndirol o baratoi cynlluniau ar gyfer datblygu Ysgol newydd Bontnewydd sydd yn mynd gam ymhellach, gan fod yn Ysgol Sero-net.
- Cwblhawyd datblygiad tai â chefnogaeth newydd yn Nôl Sadler, Dolgellau, yn ystod y flwyddyn. Mae'r adeilad yn cynnwys pum uned fydd yn cartrefu unigolion bregus i allu byw yn annibynnol a chynnig cefnogaeth i fagu sgiliau fydd yn galluogi iddynt symud i denantiaeth eu hunain. Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys swyddfa ar gyfer staff y safle, i sicrhau cefnogaeth a chymorth parhaus i'r tenantiaid.
- Daethpwyd â 208 o dai gwag yn ôl i ddefnydd trwy ymyrraeth a chefnogaeth y Cyngor.
- Darparwyd 178 o grantiau Galluogi a grantiau cyfleusterau i bobl anabl (DFG neu Disabled Facilities Grant) i helpu pobl i fyw yn annibynnol yn eu cartref.

- Mae’r ganran o'r holl osodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson lleol gyda chysylltiad â Gwynedd yn gyson uchel (97%) gyda’r ffigwr diweddaraf yn 100%.
- Mae dros 4800 o bobl wedi derbyn cymorth i fyw yn lleol ers dechrau’r Cynllun Gweithredu Tai.
- Mae 23 o dai wedi’u prynu dan y Cynllun Prynu i Osod, a 5 arall ar y gweill, sy’n golygu ein bod wedi cyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer 23/24.
- Mae 278 o dai cymdeithasol bellach wedi’u datblygu ar y cyd â’n Partneriaid Tai.

**Ystadegau wedi eu dylunio i ddilyn**

| |
|---|
| Mae 208 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd trwy ymyrraeth a chefnogaeth y Cyngor. |
| Mae’r nifer o ddyddiau ar restr aros wedi gostwng yn raddol ers Awst 2023 ac ar ei isaf ers blwyddyn (685 diwrnod). |
| Mae’r ganran o'r holl osodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson lleol gyda chysylltiad Gwynedd yn gyson uchel (97%) |
| Mae 21 o dai wedi’u prynu dan y Cynllun Prynu i Osod, a 5 arall ar y gweill. |

**GWYNEDD OFALGAR**

Mae gofalu am unigolion bregus yn un o’n prif gyfrifoldebau a’n huchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau drwy:

- Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy’n agored i niwed.
- Cefnogi trigolion i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda'u cymunedau, ac i leihau tlodi a’i effeithiau.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a’u lles.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion Gwynedd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
- Galluogi trigolion Gwynedd i fyw’n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl.
- Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Cefnogi ein cymunedau i sicrhau hygyrchedd ac i ddatblygu'n Wynedd Oed Gyfeillgar.

**Prosiectau**

- Cefnogaeth Ataliol yn Lleol
- Byw’n Annibynnol
- Gofal Arbenigol o Ansawdd
- Cefnogi Llesiant Pobl
- Cynllun Awtistiaeth
- Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Cefnogaeth Ataliol yn Lleol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cyfrannwyd at ddatblygiad Canolfan Lles Bangor fel rhan o Gynllun Adfywio Canol Bangor.
- Gwnaed y gwaith o baratoi cynlluniau manwl cyn tendro am y gwaith adeiladu i addasu Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau. Bydd hyn yn ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol sy’n cefnogi a chreu cyfleon i unigolion ag anableddau dysgu, a sicrhau ein bod yn defnyddio’n safleoedd i’w llawn botensial ar gyfer y gymuned yn ehangach. Disgwylir cychwyn ar y gwaith adeiladu ddiwedd yr haf 2024.
- Datblygwyd cynlluniau ar gyfer hwb iechyd a gofal integredig ym Mhenygroes gyda ffocws ar ddatblygu cydweithio ac integreiddio rhwng y gymuned leol, trydydd sector a chyrff statudol i wneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn cwrdd â’r hyn sy’n bwysig i’r gymuned.
- Sefydlwyd Prosiect Dewis Cymru er mwyn mynd i’r afael â’r her o sicrhau bod rhaglen o weithgareddau a chyfleon cymdeithasol ar gael ar gyfer ystod eang o unigolion a gofalwyr ar draws y sir.
- Cynhaliwyd ymgynghoriadau eang gyda’r gweithlu a’r cyhoedd er mwyn llywio ein gwaith ar ddatblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y maes gofal. Disgwylir i’r cynllun gael ei gyhoeddi ddiwedd yr haf 2024 a’i fwriad yw i

sicrhau ein bod yn cynnwys ein cymunedau'n effeithiol wrth ddatblygu ein gwasanaethau ac yn gwella hygyrchedd yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.
- Codwyd ymwybyddiaeth o'r agenda Oed Gyfeillgar ymysg y Cyngor a'i bartneriaid gan gytuno ar flaenoriaethau am y 5 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd cais i Sefydliad Iechyd y Byd am achrediad sir Oed Gyfeillgar hefyd.

**Byw'n Annibynnol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Agorwyd y ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol Ysgafn ym Mhwllheli, gyda'r bwriad o greu datblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir, gyda blaenoriaeth i ardaloedd Dolgellau a Chaernarfon.
- Ychwanegwyd at yr opsiynau llety addas ar gyfer unigolion ag Anableddau Dysgu drwy ddatblygu Tai â Chefnogaeth newydd i annog byw yn annibynnol yn hytrach nag ariannu lleoliadau all-sirol. Rydym yn edrych ar ddatblygu safle Frondeg, Caernarfon hefyd ac wrthi'n adnabod ac addasu nifer o dai ar draws y sir i gynyddu'r ddarpariaeth Tai â Chefnogaeth ymhellach.
- Gweithredu'r rhaglen i wreiddio'r model gofal cartref newydd gan sicrhau bod darparwyr gofal mewnol ac allanol yn dod yn rhan o'r Timau Adnoddau Cymunedol ac felly'n cydweithio'n effeithiol â'r cymunedau'n ehangach.
- Datblygwyd Cynllun Gofalwyr (Oedolion a Phlant) i sicrhau ein bod yn adnabod, cydnabod a chefnogi'r gwaith amhrisiadwy mae gofalwyr di-dâl ar draws Gwynedd yn ei wneud.
- Dechrau adolygu ein darpariaethau gofal dydd ac ysbaid er mwyn cytuno ar fodel newydd i gefnogi llesiant unigolion a gofalwyr.
- Rydym wedi cychwyn cefnogi'n trigolion drwy'r broses o drawsnewid digidol erbyn 2025 – hyn yn cynnwys datblygu fframwaith ar gyfer prynu offer teleofal digidol, ac rydym ar ganol uwchraddio offer teleofal ein trigolion fesul ardal. Rydym hefyd yn treialu ac ymchwilio i dechnoleg a systemau newydd ac arloesol i'n galluogi i weithio'n fwy ataliol.
- Wedi ailedrych ar y ffordd yr ydym yn cefnogi'r broses o dderbyn a darparu gofal drwy daliadau uniongyrchol, gan fewnoli'r gwasanaeth. Rydym yn pwyso a mesur gwahanol opsiynau a disgwylir dod i benderfyniad ar sut bydd y gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol yn edrych i'r dyfodol erbyn diwedd haf 2024.

**Gofal Arbenigol o Ansawdd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Fe wnaethom gydweithio gyda darparwyr preswyl a nyrsio er mwyn deall eu costau. Defnyddiwyd system 'CareCubed' i feincnodi costau gofal a sicrhau bod y ffioedd sy'n cael eu talu gennym wedi eu selio ar dystiolaeth gadarn. Fe wnaethom barhau i ystyried opsiynau posib ar gyfer datblygu gwelyau nyrsio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, gyda'r nod o sicrhau gwelyau nyrsio digonol.
- Datblygu a gweithredu ar achos busnes safle Penrhos er mwyn datblygu gwelyau nyrsio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal ag ystod eang o ddarpariaeth llety gyda gofal.
- Parhau i edrych am opsiynau i ehangu'r ddarpariaeth dementia yn ein cartrefi ymhellach
- Penodwyd swyddog prosiect i arwain ar y gwaith o ddatblygu'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd). Y bwriad yw eu galluogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd drwy ddileu unrhyw rwystrau.

- Cynhaliwyd adolygiad o'n model darparu gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau ein bod yn cyfarch ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Cyfrannu at brosiect corfforaethol, Cynllunio'r Gweithlu, gan sicrhau sylw priodol i'r heriau penodol a chyfleon gyrfaol sy'n bodoli'n y maes gofal.

**Cefnogi Llesiant Pobl**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mabwysiadwyd Cynllun Lliniaru ac Atal Tlodi (sefydlwyd Grŵp Tlodi Gwynedd, Rhwydwaith Fwyd a Siarter Fwyd).
- Gwerthuswyd y rhwydwaith bresennol o Hybiau Helpu Pobl gyda'r bwriad o'i ehangu i ardaloedd pellach.
- Adolygwyd trefniadau cydweithio a chyfeirio rhwng ein prif ddrysau ffrynt i adnabod gwelliannau posibl yn y system.
- Cydweithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo i gyflawni'r Cynllun Atal Digartrefedd drwy'r Grant Cymorth Tai.

**Cynllun Awtistiaeth**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Parhau gyda'r rhaglen hyfforddiant i staff rheng flaen.
- Cydweithio gyda'r trydydd sector i ddatblygu gwasanaethau i gefnogi plant / pobl ifanc awtistig.
- Sefydlu'r swyddi angenrheidiol er mwyn datblygu gwasanaeth i roi cyngor a chymorth i blant awtistig a'u rhieni.

**Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Penodwyd Rheolwr Prosiect fydd yn gweithio i ddatblygu'r cynllun newydd.
- Cwblhawyd Achos Busnes ar gyfer sefydlu'r Cartrefi Grŵp Bychan.
- Cyflwynwyd Cais Cyfalaf ar gyfer prynu / addasu eiddo.
- Datblygwyd Datganiad o Bwrpas a pholisïau ar gyfer y datblygiad gan y bydd eu hangen i gofrestru'r uned gydag Arolygaeth Gofal Cymru.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Prynwyd y tŷ cyntaf ar gyfer y gwasanaeth Cartrefi Grŵp Bychan i blant. Bydd hyn yn caniatáu i ni wella profiadau'r plant sydd yn ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.
- Mae Canolfan Hafan y Sêr ers mis Ionawr 2024 yn agored 7 diwrnod yr wythnos, yn cynnig gofal ysbaid i blant anabl.
- Cyhoeddwyd tudalen wybodaeth newydd ar wefan y Cyngor er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth 12.5 awr yr wythnos o ofal am ddim sydd ar gael lle mae modd gwirio codau post.
- Mae gwaith yn parhau yn Neiniolen, ardal sydd wedi ymuno â'r gwasanaeth Dechrau'n Deg, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth a'r gwasanaeth sydd ar gael i

deuluoedd yn y pentref. Bydd adeilad newydd i'r gwasanaeth newydd gan gynnwys swyddfa i'r tîm ac adeilad mwy ar gyfer y lleoliad gofal plant yn parhau i ddatblygu yn ystod 2024-25 gan ein bod wedi derbyn £590k o gyfalaf gan y Llywodraeth. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2025.

- Er y cynnydd sylweddol yn y nifer o alwadau ynglŷn â lles plant, llwyddodd y Tîm Tu Allan i Oriau i ymateb iddynt i gyd.
- Cynigwyd 615 noswaith o ofal egwyl fer i blant dros y flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu i'r plentyn dderbyn y gofal a chefnogaeth orau, a chael cyfleoedd a phrofiadau i annog eu datblygiad a'u lles, tra mae rhieni yn medru mwynhau cyfnodau o seibiant ac amser iddynt o'u rôl gofalu. Mae'r nosweithiau yma yn helpu teuluoedd drwy roi egwyl fer ac atal plant sydd ag anableddau dwys rhag mynd i ofal.
- Llwyddodd y Timau Adnoddau Cymunedol i ymdopi â chynnydd sylweddol mewn galw drwy lwyddo i gynnal 150 o asesiadau anghenion gofal y mis (ar gyfartaledd) yn ystod 2023/24. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â 101 yn ystod 22/23.
- Llwyddodd y gwasanaeth Anabledd Dysgu i gwrdd ag anghenion lletya 16 o unigolion yn ystod y flwyddyn.
- Wedi gwobrwyo tendr i gwmni Agoriad i roi cefnogaeth ymarferol i unigolion ag anableddau dysgu lwyddo yn y byd gwaith. Cynyddodd y nifer o unigolion ag anableddau dysgu sydd yn rhan o'r cynllun cyfleon gwaith o 58 ar ddechrau Ebrill 2023 i 99 erbyn diwedd Mawrth 2024.
- Cynllun Gofalwyr wedi'i gyd-ddatblygu gydag amrediad eang o fudd-ddeiliaid, a meysydd blaenoriaeth cychwynnol wedi'u hadnabod.
- Strategaeth Dementia Gwynedd wedi'i chyd-gynhyrchu gan grŵp o fudd-ddeiliaid, a blaenoriaethau wedi'u hadnabod.
- Bu gwaith adeiladu i wella ein cartref preswyl yn Nolgellau oedd yn cynnwys ailosod lifft a rhyddhau gwelyau ar y llawr cyntaf. Gwnaethpwyd gwelliannau i'n cartrefi yn y Bermo, Bangor a Nefyn hefyd.
- Rydym wedi trosglwyddo'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol o gwmni allanol i ddwylo'r Cyngor yn llwyr bellach, ac er bod mwy o waith i'w wneud i gwblhau'r trawsnewid, mae gennym fwy o reolaeth ar safon y gwasanaeth o ganlyniad.
- Gwaith wedi mynd rhagddo i baratoi i sefydlu Gwasanaeth Cymdeithasol Iechyd Meddwl newydd ar wahân i'r Bwrdd Iechyd, a fydd yn weithredol o fis Mai, 2024.
- Cais 'Gwynedd Oed Gyfeillgar' wedi'i gyflwyno i Sefydliad Iechyd y Byd a rhaglen waith yn cael ei datblygu.

**Ystadegau wedi eu dylunio i ddilyn**

| |
|---|
| Cyfartaledd o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed) yn 95%. |
| Mae pob person ifanc ôl-ofal wedi neu yn cael cynghorydd personol ac felly yn 100% dros y flwyddyn ddiwethaf |
| Canran asesiadau DERWEN sydd wedi ei gwblhau o fewn 42 diwrnod yn 76%. |
| Y canran o adolygiadau gofal lle mae'r unigolyn yn nodi eu bod yn llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn 82% |
| Canran o'r adolygiadau lle ydym wedi cyflawni hyn sy'n bwysig. (Anableddau Dysgu) yn 90% o'r achosion |
| Cynyddwyd nifer y dosbarthiadau wyneb yn wyneb Dementia Actif o 13 i 16 |

**GWYNEDD GYMRAEG**

Fel arweinydd cenedlaethol byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Ein huchelgais yw:

- Sicrhau bod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir a sicrhau bod cyfleoedd digonol i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.
- Cydweithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r gallu i drigolion Gwynedd gael mynediad at yr holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.
- Sicrhau mynediad at wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon.

**Prosiectau**

- Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant
- Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Achos busnes gwerth £1.1m ar gyfer moderneiddio amgylchedd dysgu'r tair Canolfan Iaith Gynradd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru
- Yn sgil derbyn grant trochi hwyr gan Lywodraeth Cymru, llwyddwyd i ychwanegu rhagor o leoliadau i bentref rhithwir Aberwla ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Yn 2023-24, datblygwyd yr Amgueddfa, Caffi Puw Paned a'r Ganolfan Hamdden. Erbyn hyn mae'r adnodd yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd yn yr unedau trochi i gefnogi'r dysgu ac yn cael ei dreialu yn draws sirol. Mae'r adborth yn gadarnhaol iawn.

**Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Dadansoddwyd canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf i sefydlu anghenion ieithyddol ar draws y sir. Blaenoriaethwyd ardaloedd i gael ymyrraeth a chefnogaeth ar lefel gymunedol.
- Datblygwyd a mabwysiadwyd Strategaeth Iaith newydd ar gyfer 2023-33 gan y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2023.
- Datblygwyd a gweithredwyd rhaglen waith Prosiect 15 sy'n rhoi sylw i greu cynnwys digidol yn y Gymraeg ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, ar wahanol blatfformau ac mewn gwahanol arddulliau a chreu cyfleoedd newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Gweithredwyd rhaglen waith Prosiect Gwarchod Enwau Llefydd er mwyn sicrhau bod yr enwau Cymraeg yn cael eu gwarchod ac yn parhau i gael eu defnyddio.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Adolygwyd cynnydd ar y strategaeth iaith (2018-23) yn unol â gofynion y Comisiynydd gan gyhoeddi'r adroddiad monitro ym mis Ionawr 2024.

- Cyfrannwyd at waith is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau sy’n ceisio ymateb i’r heriau o recriwtio gweithlu gyda sgiliau Cymraeg.
- Parhawyd gyda’r gwaith o gynorthwyo i sefydlu menter iaith annibynnol – Menter Iaith Gwynedd er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ar lawr gwlad i gynyddu defnydd o’r Gymraeg
- Yn 2023-24, llwyddodd 100% o newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gyflawni gofynion lefel 1 o ran dysgu’r Gymraeg yn yr unedau trochi.
- Mae pecyn cefnogol digidol ar ffurf dosbarthiadau Google yn cynnwys adnoddau i gefnogi newydd-ddyfodiaid wedi iddynt ddychwelyd i’r ysgol ar ôl mynychu’r Gyfundrefn Drochi wedi eu creu a’u rhannu hefo staff ysgolion.
- Adroddwyd i Fforwm Iaith yr Adran, y Pwyllgor Iaith a Llywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn 7 deilliant Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd yn ystod y flwyddyn. Mae’r Cynllun Strategol yn ddogfen statudol ar gyfer cynllunio’r Gymraeg, a dyma brif lwyddiannau’r flwyddyn:
    - 100% Darpariaeth Feithrin yn Gymraeg;
    - 100% o staff arbenigol a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael yn Gymraeg;
    - Bwrlwm gweithgarwch y siarter iaith yn amlwg ar draws y sir i hyrwyddo’r defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg;
    - 87.01% o holl ddisgyblion Gwynedd yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith gyntaf.
- Mae pob ysgol yng Ngwynedd wedi nodi eu categori ieithyddol yn y cyfrifiad blynyddol eleni. Ag eithrio 3 ysgol drosiannol mae pob ysgol yng nghategori 3 cyfrwng Cymraeg. Rydym yn cydweithio efo’r ysgolion trosiannol i'w cefnogi wrth iddynt gynllunio eu taith i gynyddu’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Yn 2023-24, bu i 99% o ddysgwyr cynradd ysgol gyfan nodi eu bod yn ymgymryd ag o leiaf 70% o’u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg (Ysgolion Categori 3).
- Yn 2023-24, bu i 96% o ddysgwyr uwchradd ysgol gyfan nodi eu bod yn ymgymryd ag o leiaf 70% o’u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg (Ysgolion Categori 3).
- Gweithredwyd a hyrwyddwyd elfennau newydd o’r polisi iaith gan gynnwys arddel enwau Cymraeg fel Cyngor Gwynedd.
- Cydweithiwyd gyda Phrifysgol Bangor er mwyn ymchwilio i agwedd a defnydd iaith trigolion.

**Ystadegau wedi eu dylunio i ddilyn**

| |
|---|
| Mae 100% o hwyrddyfodiaid Gwynedd wedi cyflawni gofynion lefel 1 yn yr unedau trochi cynradd |
| Llwyddodd 73% o hwyrddyfodiaid Gwynedd i gyflawni gofynion lefel dau (cyfartaledd blwyddyn yn y cynradd) |
| Mae 100% o hwyrddyfodiaid Gwynedd wedi cyflawni gofynion lefel 1 yn yr unedau trochi Pontio cynradd/Uwchradd |
| Llwyddodd 85% o hwyrddyfodiaid Gwynedd i gyflawni gofynion lefel dau (cyfartaledd blwyddyn Cynradd /Uwchradd) |

**GWYNEDD WERDD**

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, a'n nod yw i fod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Ein huchelgais yw i sicrhau:

- Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd natur.
- Rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.
- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

**Prosiectau**

- Gweithredu ar risgiau llifogydd
- Gwastraff ac ailgylchu
- Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Cymunedau Glân a Thaclus

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Gweithredu ar risgiau llifogydd**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Lluniwyd Strategaeth Llifogydd a cynhaliwyd ymgynghoriad ar y ddogfen ddrafft. Bydd y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried cyn y bydd y Strategaeth derfynol yn cal ei mabwysiadu yn ystod haf 2024.

**Gwastraff ac ailgylchu**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Adolygwyd trefniadau a rheolaeth casglu gwastraff er mwyn mabwysiadu rhaglen o welliannau o fewn y gwasanaeth oedd yn cynnwys lleihau lefelau salwch, cryfhau iechyd, diogelwch a lles a bodlonrwydd cyffredinol y gweithle, gostwng lefelau cwynion a thaclo materion oedd yn achosi gorwariant.
- Rhoddwyd sylw penodol hefyd i gryfhau trefniadau Iechyd, Diogelwch a Lles ar draws y gwasanaethau gwastraff, a dechreuwyd ar raglen i wella isadeiledd a threfniadau trin ailgylchu yn ein safleoedd.
- Ystyriwyd y data a'r wybodaeth er mwyn rhoi cyfeiriad clir i hwyluso'r gwaith o gyrraedd y targedau ailgylchu cenedlaethol.

**Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Aseswyd anghenion fflyd y Cyngor i'r dyfodol a chytunwyd i fuddsoddi £1,048,400 dros gyfnod o ddwy flynedd yn 2023/24 a 2024/25 er mwyn newid cerbydau am rhai trydan yn unol â'r Cynllun Fflyd Werdd 2023-2029.
- Gosodwyd 37 pwynt gwefru newydd, oedd yn cynnwys rhai ar gyfer fflyd y Cyngor, a rhai ar gyfer defnydd trigolion mewn mannau cyhoeddus, gyda rhaglen waith i osod rhagor o bwyntiau dros 20 safle ychwanegol eisoes wedi cychwyn yn ystod 2023/24.

- Cytunwyd i fuddsoddi £416,617 mewn cynllun peilot i uwchraddio goleuadau i rai LED ar 6 o safleoedd
- Llwyddwyd i ddenu grant o £1.75m gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal prosiect peilot o osod pympiau gwres ar 3 safle. Cytunwyd i fuddsoddi £175,478 o gyllideb y Cyngor er mwyn gallu hawlio'r grant.
- Derbyniodd brosiect Tirlenwi Gwyllt 'safon aur' gan Restor (www.restor.eco), yr hwb rhyngwladol ar gyfer adferiad natur. Mae hwn yn brosiect sy'n trosi cyn safleoedd tirlenwi gwastraff yn gynefinoedd natur.
- Darparwyd hyfforddiant wedi ei achredu gan y "Carbon Literacy Project" ar gyfer staff ac aelodau'r  Cyngor.

**Teithio Llesol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cyflwynwyd ceisiadau grant i ymestyn ein rhwydwaith o lwybrau teithio llesol.
- Cyflawni'r prosiectau oedd wedi bod yn llwyddiannus yn denu arian grant gan y Llywodraeth, gan gynnwys:
    - Ffordd Penrhos, Bangor – Rhan 1.
    - Gwella isadeiledd Lôn Las Ogwen.
    - Darparu llochesi beics yn Ysgol Cymerau, Pwllheli.
    - Gwella llwybrau teithio llesol a mynediad i Ysgol Godre'r Berwyn, Bala.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cwblhau adolygiad o'r rhwydwaith bysiau cyhoeddus traws-sirol gyda'r nod o:
    - wella'r ddarpariaeth cludiant drwy addasu'r amserlenni i gryfhau cysylltiadau rhwng bysiau a threnau gan greu posibiliadau teithio ehangach.
    - addasu ein hamserlenni i weithredu'n fwy cynaliadwy er mwyn ceisio cynyddu posibiliadau teithio i ardaloedd gwledig sydd heb ddarpariaeth ddigonol ar hyn o bryd.

Roedd allbynnau yr adolygiad yn cynnwys:

- Cyflwyno rhwydwaith newydd i ardaloedd Dyffryn Nantlle, Caernarfon a Meirionnydd gyda amserlenni a phrisiau tocynnau safonol sydd wedi ymateb i adborth a dderbyniwyd gan ran-ddeiliaid ac wedi optimeiddio adnoddau.
- Gwella lefel yr amlder ar y G23 rhwng Abermaw a Porthmadog.
- Gwell integreiddio rhwng gwasanaethau lleol a rhai TrawsCymru.
- Cyflwyno dau wasanaeth fflecsi newydd yn Dyffryn Dulas a Dolgellau sy'n cynnig cyswllt trafnidiaeth pwysig yn rhai o ardaloedd gweledig y sir.

- Cyflwyno gwasanaeth T22 (Caernarfon-Porthmadog-Blaenau Ffestiniog) sy'n gweithredu â bysiau trydan gyda depo gwefru newydd ym Mhorthmadog.

**Cynllun Datblygu Lleol newydd**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Sefydlwyd Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol Gwynedd, ar ôl i'r trefniadau cydweithio gyda Ynys Môn ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2023.
- Sefydlwyd a gweithredwyd ar drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwaith polisi cynllunio oedd yn cynnwys cynnal cyfarfodydd o'r Gweithgor Polisi Cynllunio newydd.

- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Gytundeb Cyflawni Drafft y Cynllun Datblygu Lleol newydd, sef y cam cyntaf statudol o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni Drafft i Lywodraeth Cymru am eu sêl bendith.

**Cymunedau Glân a Thaclus**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Mae 5 Tîm Tacluso bellach yn weithredol ar draws y Sir ac yn brysur yn harddu ein cymunedau. Mae modd i gynghorwyr lleol greu cais am waith yn eu hardaloedd, ac mae modd i'r gweithwyr ddiweddaru ceisiadau ar eu tabledi tra maent allan yn gweithio o fewn ein cymunedau.
- Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori o fewn ein cymunedau er mwyn rhannu egwyddorion y Timau Tacluso ac i roi cyfle i aelodau lleol fynegi barn ynglŷn â'r math o waith sydd angen ei dargedu a'r ffordd orau o'i gyflawni.
- Er mwyn ceisio cyrraedd ein nod o wireddu Cymunedau Glân a Thaclus drwy Wynedd, rydym bellach wedi ymgorffori'r gwasanaethau canlynol o fewn un Gwasanaeth newydd, sef y Gwasanaeth Edrychiad Stryd, er mwyn gallu canolbwyntio ar edrychiad a delwedd ein strydoedd a ffyrdd:
    - Glanhau Strydoedd
    - Gorfodaeth Stryd
    - Tîm Tacluso Ardal Ni

Ers sefydlu'r Timau Tacluso, mae eu gwaith wedi cyfrannu'n sylweddol at wella edrychiad a delwedd ein strydoedd a'n hamgylchedd ac rydym yn falch o adrodd eu bod wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan Aelodau, chynghorau cymuned a thref a thrigolion lleol.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Mae'r safle Aros-fan cyntaf, sy'n cynnig man aros dros-nos i gartrefi modur, wedi ei agor gan Gyngor Gwynedd yng Nghricieth. Dyma'r cyntaf o bedwar safle peilot mae Cyngor Gwynedd yn eu datblygu er mwyn cael gwell rheolaeth o gartrefi modur yn y sir. Mae gwaith hefyd yn cael ei gwblhau ar safle Aros-fan Llanberis ar hyn o bryd, gyda gwaith yn bwrw ymlaen ar safleoedd Cei'r Gogledd, Pwllheli a maes parcio Doc Fictoria, Caernarfon.
- Mae'r mwyafrif llethol (99%) o fusnesau bwyd sy'n cael eu harchwilio yn parhau i gyrraedd sgôr o 3+, a threfnir ail-ymweliad o fewn 3 mis ar gyfer y rhai sy'n cael sgôr is na hynny.
- Mae'r amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio yn parhau i wella ac mae perfformiad y Cyngor yn rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol, gyda Gwynedd yn hanner uchaf cynghorau Cymru.
- Mae gwaith y Gwasanaeth i baratoi a gweithredu ar gyfer y trefniadau cyflymder 20mya wedi ei ganmol yn gyffredinol, yn dilyn ymgysylltu helaeth gyda chymunedau a chynrychiolwyr lleol.
- Wedi sicrhau cyllid y Llywodraeth, dechreuwyd ar wedd gyntaf cynllun teithio llesol Ffordd Penrhos ym Mangor, llochesi beics yn Ysgol Cymerau, Pwllheli, a chynllun diogelwch yn y gymuned ger ysgol Godre'r Berwyn yn Y Bala. Mae gwaith hefyd wedi ei gynnal i uwchraddio pontydd ar Lôn Las Ogwen trwy gynllun Llewyrch o'r Llechi.

- Yn ystod 2023/4, llwyddwyd i osod 16 o bwyntiau gwefru 7kW, a 7 pwynt gwefru 50kW sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd ar safleoedd y Cyngor a bydd gwaith yn parhau i gomisiynu rhagor yn fuan yn 2024/5.
- Mae gwaith canfod barn cymunedau wedi ei gynnal sydd wedi bwydo i mewn i'r gwaith o ddrafftio'r Cynllun Adfer Natur newydd sydd wedi mynd rhagddo yn 2023/24 – ac rydym yn anelu i gwblhau'r gwaith yn 2024/25.
- Lansiwyd gwasanaeth bws newydd (T22) ar gyfer llwybr Blaenau Ffestiniog – Porthmadog – Caernarfon ym mis Chwefror.
- Cyflwynwyd rhwydwaith bysus newydd yn Nyffryn Nantlle a Chaernarfon yn ardal Arfon a hefyd yn ardal Meirionnydd.
- Mae ein lefelau ailgylchu yn gyson ar draws y cyfnod, gan gyrraedd y targed cenedlaethol presennol o 64%.
- Rydym yn cydweithio gyda Wrap Cymru a Phartneriaethau Lleol ar y gwaith o baratoi Strategaeth Wastraff ar gyfer y Cyngor, a fydd yn ei le yn 2024/5.
- Derbyniodd 8 Canolfan Ailgylchu'r Cyngor bron i 14,800 tunnell o wastraff, ac fe ailgylchwyd 76.8% o hwn.
- Atgyweiriwyd lampau stryd diffygiol o fewn 2.4 diwrnod ar gyfartaledd bob mis. Mae hyn yn wella na'r targed o 3 diwrnod.
- Roedd ein cyfradd pasio MOT Cerbydau Trwm yn uwch na'r cyfradd pasio cenedlaethol bob mis eleni, sy'n dangos ein bod yn cynnal a chadw ein cerbydau mewn modd effeithiol.
- Roedd canlyniadau arolwg annibynnol gan Cadwch Cymru'n Daclus yn dangos fod y canran o strydoedd glân yng Ngwynedd yn 96% sydd yn uwch na'r cyfradd cenedlaethol 2023/24.
- Sefydlwyd Gwasanaeth Edrychiad Stryd newydd ar ddechrau'r flwyddyn

**Ystadegau wedi eu dylunio i ddilyn**

| |
|---|
| Lefel ailgylchu yn cyrraedd y targed cenedlaethol o 64% |
| 8 Canolfan Ailgylchu wedi derbyn bron i 14,800 tunnell o wastraff gyda 76.8% wedi ei ailgylchu |
| 99% o fusnesau bwyd sy'n cael eu harchwilio yn parhau i gyrraedd sgôr o 3+ |
| 100% o gwynion parcio anghyfreithlon yn derbyn ymweliad o fewn tridiau |
| Nifer o ddiwrnodau ar gyfartaledd i atgyweirio lampau stryd - 2.4 diwrnod |
| Canlyniadau arolwg annibynnol gan Cadwch Cymru'n Daclus yn dangos fod y canran o strydoedd glan yng Ngwynedd yn 96% sydd yn uwch na'r cyfradd cenedlaethol 2023/24 |
| Achosion tipio i fyny 126% eleni oherwydd penodi Wardeiniaid newydd sydd wedi llwyddo i gofnodi mwy o achosion |
| Adborth gan gleientiaid YGC - dim sgôr oedd yn is na 9 allan o 10 |

**GWYNEDD EFFEITHLON**

Er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod ein trefniadau gweithredu mewnol o'r safon uchaf bob amser. Ein huchelgais yw:

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

**Prosiectau**

- Cynllunio'r Gweithlu
- Datblygu diwylliant y Cyngor
- Sicrhau tegwch i bawb
- Merched mewn arweinyddiaeth
- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Cynllun Digidol
- Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch
- Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

**Diweddariad ar y prosiectau**

**Cynllunio'r Gweithlu**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Datblygwyd delwedd y Cyngor fel cyflogwr, trwy amlygu'r amrediad o gyfleoedd gyrfa a'r buddion cystadleuol sydd ar gael o fod yn gweithio i Gyngor Gwynedd.
- Datblygwyd ac ehangwyd cynllun datblygu talent ar gyfer staff y Cyngor.
- Penodwyd rhagor o brentisiaid a hyfforddeion proffesiynol, gan roi ffocws ar feysydd blaenoriaeth.
- Gweithiwyd â sefydliadau addysgol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n cael ei chynnig i brentisiaid / hyfforddeion.

**Datblygu diwylliant y Cyngor**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cyflwynwyd Cynllun Pum Mlynedd newydd ar gyfer datblygu diwylliant y Cyngor drwy raglen "Ffordd Gwynedd". Dyma'r enw ar y ffordd o weithio yr ydym wedi'i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Newid diwylliant, ymddygiadau a meddylfryd sydd wrth wraidd hyn, ac mae'n digwydd ar draws pob rhan o weithgaredd y Cyngor.
- Cefnogwyd rheolwyr i addasu a chymhwyso trefniadau gweithio '*hyblyg*' i gadarnhau a chryfhau egwyddorion Ffordd Gwynedd.
- Cynnal mwy o adolygiadau bychain Ffordd Gwynedd er mwyn cefnogi adrannau i wella a datblygu eu perfformiad.

**Sicrhau tegwch i bawb**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:
- Ehangwyd ein hyfforddiant cydraddoldeb, yn arbennig ar gyfer gweithwyr rheng flaen ac ynglŷn â nodweddion penodol.
- Cyflwynwyd ein trefn asesu effaith newydd.
- Enillwyd achrediad lefel 2 Hyderus o ran Anabledd ac achrediad 'Inclusive Employers'.
- Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb newydd y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2024-28.

**Merched mewn arweinyddiaeth**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:
- Cynhaliwyd rhagor o weithgareddau sy'n sylfaen i waith y prosiect megis y Rhaglen Datblygu Potensial a'r Sgyrsiau dros Baned.
- Hyrwyddwyd a chodwyd ymwybyddiaeth o faterion rhagfarn heb wybod a hunan-ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr a staff.
- Cynhaliwyd digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion.
- Ystyriwyd y broses benodi o safbwynt treialu gwneud ymgeiswyr ar gyfer swyddi yn anhysbys wrth lunio rhestr fer.
- Ystyriwyd beth mae Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ei wneud i annog merched i ymgeisio am swyddi uwch er mwyn adnabod a rhannu arfer da.
- Rhoddwyd sylw i gyfansoddiad pwyllgorau a grwpiau er sicrhau bod cydbwysedd o ran cynrychiolaeth fenywaidd a gwrywaidd.

**Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:
- Monitro bod yr arbedion gwerth £5.2m ar gyfer 2023/24, a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn 02/03/23, yn cael eu blaenoriaethu gan yr Adrannau i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol.
- Monitro bod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol.
- Cynnal adolygiad gwedd 2 o weithredu arbedion ar gyfer eu gweithredu yng nghyllideb 2024/25 ymlaen.

**Cynllun Digidol**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:
- Mabwysiadwyd strategaeth ddigidol newydd ar gyfer y Cyngor a phobl Gwynedd gan y Cabinet ar 07/11/23. Mae'r Cynllun yn amlinellu cynlluniau gwella, risgiau ac unrhyw oblygiadau ariannol, unai drwy fuddsoddiad neu arbedion.
- Mae rhaglen waith fanwl bellach yn weithredol, gyda threfniadau llywodraethu ar waith er mwyn cadw trosolwg ar weithrediad y strategaeth ddigidol.

**Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch**
Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:
- Adolygwyd sefyllfa hyfforddiant Rheolwyr a Phenaethiaid Cynorthwyol ar draws y Cyngor.
- Cyflwynwyd cynllun gweithredu manwl drafft i dîm rheoli y Cyngor ar sut i gyrraedd model integredig o reoli iechyd a diogelwch.

**Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol**

Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Cynhaliwyd trafodaethau gyda phob Adran i asesu a yw eu hasedau yn addas i bwrpas ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Adolygwyd ein holl bolisïau mewn cyswllt â rheolaeth a chynnal a chadw eiddo.
- Sefydlwyd beth fydd ein hanghenion swyddfeydd i allu cyflawni ein cynllun gweithio'n hyblyg.

**Rhai o'n prif gyflawniadau**

- Atebwyd 138,597 o alwadau gan y cyhoedd i'n canolfan alw Galw Gwynedd.
- Cyflwynwyd 257,077 o geisiadau ar-lein drwy wefan y Cyngor yn ystod 2023/24, sef cynnydd o 30,734 o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r prosiect sylweddol i wella hygyrchedd y wefan yn parhau.
- Dadansoddiad o aelodaeth y Panel Trigolion wedi'i gwblhau a chamau i recriwtio aelodau newydd wedi cychwyn gyda chymorth Aelodau etholedig mewn wardiau penodol.
- Mae'r Tîm Ymchwil wedi cwblhau 10 o brosiectau sydd yng Nghynllun Gwybodaeth y Cyngor ac wedi cyfrannu ymchwil a thystiolaeth at nifer o brosiectau allweddol y Cyngor gan gynnwys trawsnewid gwasanaethau gofal, yr economi ymweld gynaliadwy, a chydraddoldeb.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn ystod y flwyddyn. Bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio i adnabod anghenion y gweithwyr o ran llesiant ac i lunio Strategaeth Llesiant Cyngor Gwynedd.
- Llwyddwyd i gaffael system rheoli achos newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol ar y cyd â phartneriaid. Mae'r system wedi ei mewnosod ac yn weithredol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor barhau i gynnal gwasanaethau cyfreithiol electroneg sydd bellach yn hanfodol a datblygu sustemau fwy integredig i gefnogi gwaith allweddol megis amddiffyn plant.
- Erbyn diwedd mis Mawrth roedd y gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn ar gyfer Treth Cyngor yn 94.4% ac Ardrethi Annomestig yn 94.81%. Rydym yn gweithio i gynyddu hyn ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Mae'r Adran Gyllid yn cefnogi adrannau'r Cyngor i fonitro gwireddu arbedion gwerth £5.2m yng nghyllideb 2023/24 ac hefyd yr arbedion pellach gwerth £5.6m yng nghyllideb 2024/25.
- Bydd y Cynllun Digidol newydd yn ein galluogi i fanteisio ar gyfleoedd i arloesi ac i wreiddio technoleg ddigidol er mwyn gwella safon byw ein trigolion, cydweithio yn well â phartneriaid, a chryfhau a gwella ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid.
- Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried sut mae'n "ychwanegu gwerth" ac wedi addasu ei bwrpas
- Mae'r cyd-weithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru wedi mynd o nerth i nerth gyda'r gronfa wedi dechrau pŵlio ein buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd, a datblygu opsiynau i bŵlio asedau eiddo. Mae'r pŵl wedi darparu'r opsiynau buddsoddi er mwyn gweithredu y dyraniad asedau newydd yn raddol yn unol ag amodau'r farchnad.
- Mae'r gronfa wedi buddsoddi mewn Cronfa Ecwiti Cynaliadwy ac ymgysylltu gyda chwmnïau er mwyn parhau i weithredu ein polisi buddsoddi cyfrifol.

**Ystadegau wedi eu dylunio i ddilyn**

| |
|---|
| Sgôr am y wefan: 82% o'r rhai oedd wedi defnyddio'r teclyn bodlonrwydd yn nodi sgôr bodlonrwydd o 5 allan o 5 |
| Mae cyfwerth oddeutu £200k o fuddion cymdeithasol wedi gynnig o gytundebau'r peilot |
| Cyflwynwyd 257,077 o geisiadau ar-lein drwy wefan y Cyngor, cynnydd o 30,734 |
| 77% o geisiadau rhyddid gwybodaeth wedi'u hateb ar amser |
| 40,985 tunelli o garbon o weithgareddau caffael o gymharu a 54,584 y flwyddyn blaenorol (seiliedig ar fformiwla Llywodraeth Cymru) |
| Nifer dyfeisiadau newydd gyflwynwyd i'r ysgolion<br>Ipads 2,066<br>Chromebooks 5,966<br>Gliniaduron 5,904<br>Cyfanswm 13,936 |
| Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd wedi gostwng i 19.39 dyddiau o'i gymharu â 20.29 diwrnod yn 2022/23 |
| Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dal) wedi gostwng i 3 diwrnod o'i gymharu â 4.27 diwrnod yn 2022/23 |

## Cyfraniad at y 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWYNEDD YFORY - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc** | | | | | |
| Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cinio ysgol am ddim | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng** | | | | | |
| Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld cynaliadwy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adfywio cymunedau a chanol trefi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cadw'r Budd yn Lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD GLYD - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau** | | | | | |
| Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD OFALGAR - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau** | | | | | |
| Cefnogaeth Ataliol yn Lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Byw'n Annibynnol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gofal Arbenigol o Ansawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi Llesiant Pobl | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun Awtistiaeth | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | | | | | |
| Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant | ✓ | ✓ | | | |
| Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd** | | | | | |
| Gweithredu ar risgiau llifogydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwastraff ac ailgylchu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Teithio Llesol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun Datblygu Lleol newydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymunedau Glân a Thaclus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon** | | | | | |
| Cynllunio'r Gweithlu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu diwylliant y Cyngor | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sicrhau tegwch i bawb | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Merched mewn arweinyddiaeth | | | | ✓ | |
| Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllun Digidol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

Rhan 2

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2023/24

### Cefndir a Chyflwyniad

Dyma'r trydydd hunanasesiad i Gyngor Gwynedd ei gynnal dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-

i. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad i. a ii.

Bwriad y broses hunanasesu yw annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys ei gydberthnasau allweddol rhwng arweinwyr gwleidyddol a swyddogion a'r ffordd y maent yn cael eu rheoli. Byddai dull gweithredu effeithiol yn cael ei berchenogi a'i arwain ar lefel strategol, ond byddai hefyd yn cynnwys aelodau a swyddogion ar bob lefel o'r sefydliad ac amrywiaeth o bobl ar draws cymunedau a phartneriaid.

Er bod y ddyletswydd hon yn un eithaf newydd, mae'r Cyngor eisoes yn paratoi nifer o ddogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunan asesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Y Grŵp Llywodraethu, sy'n cynnwys swyddogion megis y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ymysg eraill, sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r gwaith hyn o fewn y Cyngor. Bwriad hyn yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

Yn y gorffennol mae ein trefniadau adrodd ar berfformiad wedi bod yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau o dan ein blaenoriaethau gwella ynghyd â pherfformiad gwaith dydd i ddydd Gwasanaethau ac Adrannau o fewn y Cyngor. Ceir copi o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar wefan y Cyngor yma.

Eleni, fel y llynedd, rydym wedi integreiddio'r gwaith gyda threfniadau herio a chefnogi perfformiad y Cyngor gan gynnwys yr hunanasesiad o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel bod yr holl wybodaeth o fewn yr un ddogfen.

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel o hunan asesiad strategol o berfformiad y Cyngor yn ystod 2023/24 gyda'r canlyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth o'r dogfennau a nodir uchod. Cynhelir cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad ar lefel Adrannol bob yn ail fis sy'n

edrych ar gynnydd prosiectau blaenoriaeth, perfformiad gwasanaethau a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynir gan bob Aelod Cabinet yn ystod y flwyddyn ynghyd ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'n trefniadau llywodraethu gan ddefnyddio'r saith maes corfforaethol sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus, fel yr awgrymir o fewn canllawiau statudol Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ymateb i'r 3 gofyniad perfformiad y disgwylir i Gynghorau ymateb iddynt fel rhan o'r hunanasesiad. Rydym hefyd wedi ystyried y fethodoleg ddrafft a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Asesiadau Panel wrth baratoi'r hunanasesiad ar gyfer 2022/23 gan ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?
- Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni wneud er mwyn gwella, a sut?

Yr hunanasesiad ar gyfer 2021-22 oedd ein hasesiad cyntaf a rhoddwyd camau mewn lle er mwyn cyfarch y gwelliannau oedd wedi eu hadnabod. Gwelwyd fod nifer o'r gwelliannau hynny yn parhau yn asesiad 2022-23 gan eu bod yn faterion hirdymor, ond ategwyd nifer o bwyntiau ychwanegol hefyd. Eleni, gwelir y patrwm yn parhau, gyda'r materion hirdymor yn ail-ymddangos ond gydag ystyriaethau newydd yn cael eu hychwanegu yn ogystal.

## Gofyniad Perfformiad Un: Y graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol.

**Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?**

Llynedd, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun newydd ar gyfer 2023-28. Y Cynllun hwn sydd yn arwain ein dyheadau a'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun fe ystyriwyd ystod eang o faterion i'w blaenoriaethu a bu i ni ymgysylltu ac ymgynghori gyda phobl leol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a phartneriaid. Un rhan o waith oedd yn allweddol yn natblygiad Cynllun y Cyngor oedd gwaith Ardal Ni sy'n amlinellu'r hyn sy'n dda am yr ardal, yr hyn sydd ddim cystal, a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn creu gwell ardal erbyn 2035.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n swyddogaethau yn effeithiol, rydym yn gosod mesurau perfformiad mewn lle er mwyn herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau. Rydym yn adolygu'r mesurau hyn o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, ac rydym yn ymwybodol o'r angen i herio ein hunain yn barhaus a gosod mesurau sydd yn ystyrlon er mwyn ein caniatáu ni i wella yn gyson. Rydym yn cydnabod fod gennym le i wella o safbwynt y gwaith o flaengynllunio llif gwaith manwl dros gyfnod Cynllun y Cyngor 2023-28, ac o ganlyniad rydym wedi cyflwyno cyfres o gerrig milltir blynyddol er mwyn caniatáu i ni fesur cynnydd yn ogystal â chynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith i wella hyn ymhellach yn parhau.

Nodir fod y Cyngor yn rhan o nifer o bartneriaethau lleol a rhanbarthol megis Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Teg fyddai nodi fod effeithiolrwydd y partneriaethau hyn yn amrywio ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i weithio er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn elwa o'r trefniadau hyn. Yn yr un modd mae ein perthynas gyda'r trydydd sector yn parhau i esblygu ac rydym gyda chefnogaeth y Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yn edrych ar hyn ystod 2023/24.

Fel y nodwyd yn yr hunanasesiad diwethaf mae ein cynlluniau corfforaethol yn cyd-fynd hefo gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth berthnasol ond mae lle i gryfhau'r cyswllt hwn. Wrth ddatblygu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 rhoddwyd camau yn eu lle i gyfarch gofynion statudol penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd gennym ei fod wedi treiddio fel elfen sylfaenol o osod cyfeiriad ac wedi ei brif ffrydio.

Mae 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30' y Cyngor yn gosod uchelgais sy'n nodi y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad eang o brosiectau i leihau allyriadau carbon ac i amsugno carbon ar draws nifer o feysydd: adeiladau ac ynni, symud a thrafnidiaeth, gwastraff, caffael, llywodraethu, defnydd tir, ecoleg. Rydym yn cydnabod mai gwaith hirdymor yw cyrraedd sero net, ond mae'r cynllun hwn yn gosod nifer o gerrig milltir penodol er mwyn i ni fesur ein cynnydd bob blwyddyn hyd at 2030. Mae yna gymaint o ffactorau polisi, deddfwriaethol a chyllidol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, ac yn cael dylanwad enfawr ar allu'r Cyngor i wireddu nifer o'n prosiectau, megis cyflenwadau rhwydwaith grid trydan neu buddsoddiad mewn ynni a gwresogi adeiladau. Er hynny, mae'r Cyngor wedi dewis gwario cyllid sylweddol o'n coffrau er mwyn gwireddu nifer o'r

prosiectau yn ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac fe neilltuwyd £3M ar gyfer y gwaith.

Yn ystod 2023/24 buddsoddwyd £1,640,495 er mwyn prynu fflyd o 67 o gerbydau trydan, cynllun peilot uwchraddio goleuadau a chynllun pympiau gwres. Dylid nodi mai parhad o batrwm blynyddol o geisio buddsoddi mewn cynlluniau arbed carbon sy'n mynd nôl i 2010 yw hyn. Byddwn yn parhau i bwyso a mesur ble gallwn fuddsoddi cyllid prin er mwyn cael y budd mwyaf yn nhermau lleihau ein hallyriadau carbon, ac yn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd i ddenu grantiau a chyllid.

Mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, ac adroddir ar gynnydd yn erbyn y prosiect i gyfarfodydd y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur. Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynion statudol eraill yn integreiddio'n llawn o fewn ein fframweithiau cynllunio corfforaethol, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog ei natur. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, cyflwynwyd templed newydd ar gyfer llunio adroddiadau i'r Cabinet, sy'n arwain swyddogion i gyfeirio at y gwahanol ofynion statudol gan gynnwys y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth baratoi eu hadroddiadau.

Er mwyn cefnogi hyn bydd Asesiad Effaith newydd yn cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau fod sylw yn cael ei roi i faterion megis Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg, Newid Hinsawdd ac Ardrawiad Economaidd Cymdeithasol. Yn anffodus, rydym wedi dod ar draws problemau technegol gyda'r Asesiad Effaith sydd wedi arwain at oedi cyn ei gyflwyno, ond rydym mewn trafodaethau gyda gwneuthurwyr yr ap ar hyn o bryd i geisio datrys hyn.

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus iawn i sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd. O ganlyniad, datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 er mwyn rhoi fframwaith i ni i wella tegwch o fewn y Cyngor, a sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl eu anghenion.

Rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb yma yw'r Amcanion Cydraddoldeb. Rydym ni wedi bod yn gofyn am farn y cyhoedd dros gyfnod o rai misoedd, gan gynnwys grwpiau amrywiol ac unigolion, er mwyn gweld beth yw'r amcanion gorau allwn ni wneud ar gyfer pobl Gwynedd. Mae'r Amcanion yma wedi eu selio ar yr hyn sydd wedi ei ddweud wrthym, ond hefyd ar nifer o ffactorau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys data o ffynonellau gwahanol, cynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru a'r hyn sy'n bosib o fewn y Cyngor.

Darparwyd rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod 2023/24 oedd yn cynnwys hyfforddiant craidd mewn saith maes penodol:

- Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol
- Cod Ymddygiad
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Diogelu Plant ac Oedolion
- Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb
- Eich Cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol
- Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi

Yn ogystal a hyn roedd hyfforddiant yn cael ei gynnig mewn sawl maes arall ynghyd a chyfle i bob Cynghorydd dderbyn cyfweliad datblygiad personol er mwyn adnabod meysydd datblygol penodol. Mae cynnig i gynghorwyr gael sesiynau penodol cyn iddynt ymgymryd â rolau ar wahanol bwyllgorau e.e. Aelodau Cabinet, hyfforddiant i'r holl aelodau craffu fel rhan o'r gweithdai cyn i'r aelodau gychwyn ar eu gwaith craffu, a nifer o bwyllgorau eraill megis Cynllunio, Trwyddedu, a Llywodraethu ac Archwilio.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae ymdrech wedi ei wneud i wella a chryfhau rôl yr Aelodau Craffu yn y gwaith Cynllunio Corfforaethol gan sicrhau fod cyswllt rhwng y rhaglen Craffu a gwireddu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a hefyd dal y Cabinet i gyfrif ynghylch perfformiad. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau Cynllun y Cyngor wrth bennu'r rhaglen graffu ar gyfer y flwyddyn ac ers cyflwyno'r drefn herio a chefnogi perfformiad newydd mae cynrychiolaeth o'r Pwyllgorau Craffu wedi eu henwebu i fynychu'r cyfarfodydd perfformiad adrannol ddwywaith y flwyddyn.

Nodir hefyd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei chael hi'n anodd i ddenu aelodau lleyg ac aelodau etholedig i fod ar y pwyllgor fel sy'n ofynnol o fewn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 sy'n golygu nad oedd gennym y nifer ddisgwyliedig o aelodau lleyg ac etholedig yn ystod y flwyddyn. Mae cydnabyddiaeth bellach nad ydi'r drefn draddodiadol o hysbysebu wedi cynnig digon o ymgeiswyr addas i lenwi'r gofyn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda cyrff proffesiynol ayb er mwyn adnabod unigolion addas.

Mae trefn herio a chefnogi perfformiad newydd wedi ei gweithredu ers y cylch cyntaf o gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yn 2022/23. Yn unol â'r drefn newydd mae holl Adrannau'r Cyngor yn cynnal cyfarfod herio a chefnogi perfformiad mewnol pob yn ail fis, ac yn adrodd i'r Cabinet dwywaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd mewnol yn gyfle i herio cynnydd prosiectau blaenoriaethau gwella a mesurau perfformiad gwasanaethau'r Adran (hynny yw, y gwaith dydd i ddydd). Gyda'r trefniadau newydd wedi cael peth amser i wreiddio erbyn hyn, mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu ein trefniadau perfformiad gyda'r bwriad o wneud addasiadau pellach, ac fel rhan o hynny, byddwn yn adrodd i'r Pwyllgorau Craffu yn hytrach na'r Cabinet o 2025/26 ymlaen.

Yn unol â'r gofyn i ymgynghori ar berfformiad bu i ni gynnal sawl ymgynghoriad ac arolwg barn yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys edrych ar fodlonrwydd cwsmer. Rydym hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol am gwynion, ac yn addasu ein gwasanaethau yn barhaus pan fydd sylwadau neu gwynion yn awgrymu gwelliannau.

Y llynedd gwelwyd fod y nifer o Gwynion Ffurfiol wedi cynyddu gyda'r nifer o gwynion aeth at yr Ombwdsmon wedi gostwng ychydig. Rydym yn gweithio i leihau'r amser a gymerir hi i ymateb i gwynion, a rydym wrthi yn datblygu Siarter Cwsmer newydd.

Yn ystod mis Mai/Mehefin 2023 bu i ni gynnal ymarferiad ymgynghori hefo'n Panel Trigolion, Cynghorau Tref a Chymuned, Aelodau Etholedig, Staff ac Undebau i ganfod barn ar berfformiad y Cyngor. Ychydig yn siomedig oedd lefel yr ymateb gyda 221 o ymatebwyr yn unig. Er hynny, fe adnabuwyd sawl mater i weithredu arnynt ac mae camau wedi eu cymryd er mwyn ymateb gyda nifer ohonynt yn parhau fel gwelliannau a amlinellir o fewn y ddogfen hon.

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar ein perfformiad wrth lunio'r ddogfen hon gan ein bod yn edrych ar y ffordd fwyaf effeithiol o gasglu barn ein poblogaeth, ac yn ystyried y posibilrwydd o gymryd rhan mewn Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Data Cymru.Byddai cymryd rhan yn y gwaith hwn yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth ynghylch barn preswylwyr am ein perfformiad gan hefyd roi y gallu i edrych ar dueddiadau dros amser a chaniatáu elfen o feincnodi ein perfformiad gyferbyn a chynghorau eraill. Os bydd cytundeb rhagwelir cynnal ymgynghoriadau yn gyson fel eu bod yn cyfrannu tuag at hunanasesiadau i'r dyfodol.

Rydym yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus i osgoi 'blinder ymgynghori' ('consultation fatigue') gan ein bod eisoes yn gofyn barn ein trigolion am nifer o bynciau a chynlluniau amrywiol, ac o ganlyniad mae Grŵp Ymgysylltu traws adrannol wedi'i sefydlu bellach, sy'n cyfarfod bob 2-3 mis i gasglu gwybodaeth am ymgynghoriadau arfaethedig ac i rannu canlyniadau ac arfer da. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod digon o amser i gynllunio ymgynghoriadau ac yn osgoi dyblygu.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys Strategaeth Gyfranogiad ddrafft, cyflwynwyd canlyniadau'r ymgynghoriad ynghyd a'r Strategaeth Ddrafft i'r Cabinet cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn fis Mawrth 2023 ble cafodd ei fabwysiadu. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu nod Cyngor Gwynedd i annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Ynddi rydym yn egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl yng Ngwynedd. O fewn pob amcan, rydym wedi nodi canlyniadau clir a'r camau gweithredu.

**Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?**

Mae'r dystiolaeth a amlinellir uchod yn cynnwys cyfeiriad at rai o'r uchafbwyntiau o ran materion lle'r ydym yn perfformio yn dda neu ddim cystal. Ceir tystiolaeth bellach a manylder o fewn y dogfennau/ffynonellau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

I grynhoi, mae'r Cyngor yn cydnabod fod gennym le i wella o safbwynt gwaith o flaengynllunio llif gwaith dros gyfnod Cynllun y Cyngor ac o ganlyniad mae cyfres o gerrig milltir flynyddol wedi eu gosod. Rydym am barhau i gydweithio gyda nifer o'n partneriaethau ac rydym am edrych ar dystiolaeth o sut mae ein cynlluniau corfforaethol yn treiddio fel elfen sylfaenol ac yn gosod cyfeiriad.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd templed newydd ar gyfer llunio adroddiadau i'r Cabinet, sy'n arwain swyddogion i amlygu sut y cyfarchwyd y gwahanol ofynion statudol gan gynnwys y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth baratoi eu hadroddiadau.

Mae Aelodau etholedig wedi derbyn rhaglen hyfforddiant eang a mae cyfle i bob cynghorydd gael cyfweliad datblygol a sesiynau i'w cefnogi mewn rolau penodol. Mae rôl aelodau craffu hefyd wedi ei gryfhau.

Mae trefn herio a chefnogi perfformiad newydd mewn lle a bwriad i fod yn adrodd i'r Pwyllgorau Craffu yn hytrach na'r Cabinet o 2025/26 ymlaen. Rydym hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol am gwynion, ac yn addasu ein gwasanaethau yn barhaus pan fydd sylwadau neu gwynion yn awgrymu gwelliannau.

Rydym yn edrych ar y ffordd fwyaf effeithiol o gasglu barn ein poblogaeth ac yn ystyried y posibilrwydd o gymryd rhan mewn arolwg cenedlaethol a drefnir gan CLlLC a mae Strategaeth Gyfranogiad wedi ei cyhoeddi sy'n egluro sut yr ydym yn annog pobl leol i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

**Beth sydd angen ei wella?**

| **Gwelliannau ychwanegol wedi eu hadnabod eleni** |
|---|
| • Gwella ein blaengynllunio dros gyfnod Cynllun y Cyngor 2023-28, drwy osod cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer y gwahanol brosiectau yng Nghynllun y Cyngor |
| • Cymryd rhan mewn arolwg cenedlaethol a drefnir gan CLlLC er mwyn cael gwybodaeth defnyddiol gan drigolion y sir ar ein perfformiad. Bydd hyn yn caniatáu i ni feincnodi ein perfformiad a chymharu gyda Awdurdodau eraill yng Nghymru. |

| **Gwelliant** | |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | **Ein cynnydd hyd yma** |
| • Parhau hefo gwaith i gryfhau ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth yn elfen greiddiol ac wedi eu hintegreiddio'n well hefo ein gwaith cynllunio corfforaethol. | • Ers haf 2023 mae templed wedi ei gyflwyno lle mae angen i adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet gyfeirio at sut mae'r hyn sydd yn yr adroddiad yn adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r trefniant hyn wedi disodli'r trefniadau blaenorol lle'r oedd y gofynion yn cael eu gorfodi drwy brosesau llywodraethu eraill.<br>• Yn ogystal mae disgwyliad i adrodd ar ganfyddiadau unrhyw asesiadau perthnasol megis Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ardrawiad Economaidd-Gymdeithasol.<br>• Dros y misoedd nesaf bwriedir cynnal sesiwn hefo'r Tîm Arweinyddiaeth ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol fydd yn cael ei harwain gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghyd a chynnal sesiynau hyfforddiant pellach i weddill yr aelodau. |
| • Parhau gyda gwaith i gyfathrebu perfformiad gwasanaethau a'r Cyngor yn gyffredinol yn fwy effeithiol i drigolion. | • Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ar gais adrannau, yn anfon datganiadau ar berfformiad y Cyngor e.e. roedd Cynllun cyfathrebu wedi ei greu o gwmpas adroddiad blynyddol y Cyngor a oedd yn cynnwys datganiad a chyfres o negeseuon cyfryngau |

| | |
|---|---|
| | cymdeithasol; cynnydd adrannau ar brosiectau allweddol e.e. cynyddu'r stoc o dai sydd ar gael i bobl leol, a datblygu rhwydwaith gwefru ceir ledled y sir.<br>• Yn ogystal mae agenda a phapurau pwyllgorau'r Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar y wefan gorfforaethol ac mae cyfres o negeseuon yn cael eu cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol i amlygu adroddiadau unigol i'r Cabinet.<br>• Fel a nodir uchod, mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn ddibynnol ar Adrannau unigol i ddod a materion perthnasol i'w sylw, ac efallai nad yw hyn yn digwydd yn gyson ar draws y sefydliad. |
| • Gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o feysydd gwaith y Cyngor ymysg trigolion y Sir. | • Gwaith cyfathrebu sylweddol yn cael ei wneud ar godi ymwybyddiaeth o feysydd gwaith y Cyngor gan gynnwys datganiadau i'r wasg, eitemau ar ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol, a'r wasg. Yn ogystal darperir ymatebion manwl i ymholiadau gan y wasg am waith y Cyngor a/neu adroddiadau pwyllgor. |
| • Gwneud gwaith i sicrhau cyd-ddealltwriaeth a pherchnogaeth o'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad. | • Gwaith cyfathrebu yn digwydd i godi ymwybyddiaeth yn fewnol. |

## Gofyniad Perfformiad Dau: Y graddau y mae'r cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon

**Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?**

Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn ystod 2023. Mae'r Cynllun yn un uchelgeisiol a hynny mewn hinsawdd gyllidol heriol tu hwnt. Er bod ystyriaeth wedi ei roi i'r capasiti i gyflawni'r hyn sydd o fewn y Cynllun wrth iddo gael ei ddatblygu, mae'r sefyllfa gyllidol wedi newid yn sylweddol ers hynny, ac os yw'r wasgfa ariannol yn parhau, gall olygu y bydd rhaid i'r Cyngor addasu neu leihau ein gweledigaeth ac o ganlyniad nifer y prosiectau y byddwn yn medru eu cwblhau yn llawn o fewn y cyfnod.

Ceir sawl enghraifft o gydweithio da mewn partneriaeth hefo sefydliadau allanol ar draws ein gwasanaethau, gan gynnwys y maes gofal ac addysg e.e dywedodd Estyn "Mae adran addysg Gwynedd yn cydweithio'n agos ac effeithiol gyda gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol y gogledd (GwE) er mwyn gwella'r ddarpariaeth mae ysgolion yr awdurdod yn ei gynnig." yn eu hadroddiad a gyhoeddwyd ym Mehefin 2023.

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli'n ariannol i sicrhau parhad gwasanaeth. Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.

Mae'r Adran Gyllid, mewn cyswllt agos â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cynnal adolygiadau parhaus o ragolygon ariannol y Cyngor dros y 3 blynedd nesaf, gan ddiweddaru'r model yn rheolaidd pan dderbynnir gwybodaeth newydd gan adrodd yn rheolaidd i aelodau'r Cabinet ac i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid adran).

Mae'r cylch cynllunio corfforaethol yn cyd-fynd â chylch statudol cynllunio'r gyllideb ac rydym yn anelu i gyflwyno diweddariad blynyddol Cynllun y Cyngor i'r un cyfarfod o'r Cyngor Llawn â'r gyllideb.

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn paratoi ei Strategaeth Ariannol sy'n sicrhau Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o'r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dangos ei wariant blynyddol. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Yn Medi 2021, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad oedd yn cadarnhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn dda. Mae'r adroddiad i'w weld ar wefan Archwilio Cymru . Mae Archwilio Cymru wrthi'n cynnal adolygiad tebyg eto yn 2024 fel rhan o adolygiad cenedlaethol ar y 22 awdurdod unedol. Cynhaliwyd cyfweliadau yn ystod Mai 2024 a disgwylir y bydd adroddiad Archwilio Cymru ar ganlyniad eu gwaith (gydag adroddiadau lleol i'r cynghorau ac un adroddiad i roi'r darlun cenedlaethol) yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr Hydref 2024.

Cyflwynwyd rhaglen arbed newydd fel un o brif flaenoriaethau'r Cyngor wrth ymateb i'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a chytunodd y Cyngor ar raglen arbedion gwerth £6.4miliwn wrth osod cyllideb 2023/24, ac arbedion pellach o £5.2miliwn wrth osod cyllideb 2024/25.

Yn ogystal, fis Mai 2024, cymeradwyodd y Cabinet 'Cynllun Ariannol Tymor Canolig' ar gyfer Cyngor Gwynedd hyd at flwyddyn ariannol 2027/28. Fel rhan o'r Cynllun yma, gofynnwyd i'r Prif Weithredwr sefydlu ac arwain ar ystod o fesurau a phecynnau gwaith i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yng nghyllideb y Cyngor dros y tair mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor hefyd angen rhoi ystyriaeth bellach i sut y gall gynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol arwyddocaol. Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar ei gynlluniau i gyflawni arbedion yn achlysurol, er enghraifft, drwy ymarferiad Her Gwynedd yn 2016 ac ymgynghoriad Strategaeth Ariannol yn 2019.

Mae hefyd yn cynnal gweithdai gydag Aelodau ar lefel y dreth Cyngor ac yn ymgysylltu ar Drethi Annomestig yn flynyddol. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen bod yn fwy agored ynghylch penderfyniadau ariannol gan ymgysylltu yn fwy aml, er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn cael mewnbwn ar benderfyniadau. Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2027/28 gan y Cabinet ar 14 Mai 2024, ond dechrau'r daith oedd hynny. Mae'r Cynllun yn adnabod bwlch sylweddol yng nghyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i droi pob carreg wrth lenwi'r bwlch yma fel mater o frys. Bydd y Cyngor yn ystyried nifer o gamau, felly, a byddwn yn cynnwys trigolion Gwynedd yn y trafodaethau fel bo'n briodol wrth weithredu camau i lenwi'r bwlch.

Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac yn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae'r asesiad cyfredol yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar draws pob un o'r safonau.

Mae mesur gwerth am arian yn faes sydd yn derbyn sylw ar hyn o bryd, gyda golwg ar ddatblygu fframwaith effeithlon ar gyfer mesur gwerth am arian o fewn ein trefn herio a chefnogi perfformiad. Mae'n destun gweithgor o swyddogion sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Wrth i'r gwaith yma ddatblygu rydym wedi ymgysylltu ag arbenigwyr allanol (e.e. CIPFA) i'n cefnogi gyda'r gwaith yma.

Byddwn fel Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd i arloesi a gwreiddio technoleg ddigidol i wella bywydau ein trigolion, i gydweithio yn well â phartneriaid, a chryfhau a gwella ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. I'n cynorthwyo gyda hyn, cymeradwywyd Cynllun Digidol newydd Cyngor Gwynedd ar gyfer 2023-28 yn ystod y flwyddyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd heriau cynyddol mewn recriwtio staff mewn nifer o feysydd gwaith allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r maes hwn eisoes yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae prosiect 'Cynllunio'r Gweithlu' wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28. Nodir hefyd y bu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio awgrymu y dylid ystyried cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol fel meysydd posib i'r Asesiad Perfformiad Panel (fydd yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2024) edrych arno.

Prif nod y prosiect Cynllunio'r Gweithlu ydi sicrhau fod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, a bod modd i ni sicrhau fod y cyflenwad hwnnw yn ei le am y tymor hir.

Mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i 56 o brentisiaid ers 2019 (sy'n un o'r niferoedd uchaf yn Gymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill). Mae enghreifftiau hefyd o lwyddiant y Cynllun, gydag unigolion sydd wedi cychwyn ar y Cynllun Prentisiaethau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor. Yn yr un modd mae Cynllun Graddedigion (Cynllun Yfory) wedi rhoi cyfle i 32 hyfforddai proffesiynol ers 2017 gyda nifer ohonynt wedi cael cynnig swydd gyda'r Cyngor.

Fel rhan o'r prosiect blaenoriaeth 'Merched mewn Arweinyddiaeth' sefydlwyd Cynllun Datblygu penodol i ferched, gan eu bod wedi eu hadnabod fel un garfan sy'n gyndyn o ymgeisio am swyddi uwch.. Mae'r cynllun yma yn parhau fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28.

Tra bod y prosiect cynllunio gweithlu yn dod a sawl adran at ei gilydd i gydweithio er mwyn mynd ati i daclo problemau denu a chadw staff, mae'r Cyngor yn tueddu i fod yn ymatebol ei natur yn hytrach na chynllunio yn hirdymor. Un gwendid gan Reolwyr (ar y cyfan) yw'r methiant i edrych ymlaen 5-10 mlynedd gan ystyried oedran staff presennol a'r arbenigeddau sydd eu hangen i'r dyfodol, sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol ar barhad gwasanaeth.

Mae canlyniadau'r Arolwg Llais Staff eleni yn adlewyrchu y cyfnod heriol sydd wedi bod tros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dod allan o gyfnod pandemig, a hynny mewn amser o doriadau ariannol, a chyfnod trosiannol o ran sefydlu ein trefniadau gwaith 'gweithio i'r dyfodol.' I adlewyrchu hyn, roedd gostyngiad yn y sgôr ar gyfer y datganiad 'mae'r Cyngor yn le da i weithio' o'i gymharu â chanlyniadau'r arolwg blaenorol. Roedd 4 rhan i'r arolwg eleni, ac yn gyffredinol ar draws y Cyngor roedd y sgôr ar gyfer datganiadau yn y categorïau 'fy swydd' a 'fy ngwasanaeth' yn uwch na'r sgôr ar gyfer y datganiadau 'fy nghyflogwr' a 'fy llesiant.' Mae hyn yn adlewyrchu fod timau wedi bod yn gweithio yn fwy ynysig tros gyfnod y pandemig a nad oedd yr un cyfleoedd yn codi o gyd-weithio traws-adrannol. Mae'r tystiolaeth bendant o rai o brif egwyddorion Ffordd Gwynedd yn gwreiddio yn rhai o'r ymatebion mwyaf cadarnhaol e.e. Rydw i yn deall y cyfraniad sydd gan fy Ngwasanaeth wrth wasanaethu pobl Gwynedd' tra fod themâu blaenorol ynglŷn â derbyn gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth yn parhau yn bwyntiau i'w gwella.

Mae'r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn dilyn rheoliadau ac ymarfer orau yn y maes caffael. Nod y tîm yw galluogi'r Cyngor i gyflawni gwerth am arian, cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi'r farchnad leol. Mae yna hefyd trefniadau Rheolaeth Categori yn ei le, ble mae tri Tîm Categori (Amgylchedd, Corfforaethol a Phobl) yn gyfrifol am bryniant mewn meysydd penodol gan edrych ar gaffael yn strategol a rhoi pwyslais ar gydweithio, cynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad i geisio sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian.

Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y Sir.

Mae prosiect wedi dod i gasgliad yn 2023/24 er mwyn asesu ymarferoldeb cyflwyno methodoleg asesu buddion cymdeithasol i Wynedd h.y. rhannu'r dull o asesu tendrau sy'n

cael ei wneud ar hyn o bryd trwy fesur Pris ac Ansawdd i un sy'n mesur Pris, Ansawdd a Gwerth Lleol. Fel rhan o'r prosiect, cwblhawyd tri gynllun peilot pellach gan ddefnyddio'r dull asesu tendrau ar sail buddion cymdeithasol. Mae'r tri cynllun wedi creu dros £100k o fuddion cymdeithasol i drigolion Gwynedd.

Yn ystod 2023/24 byddwn hefyd yn datblygu mesurau ar gyfer ein cytundeb arlwyaeth y Sir, bydd disgwyl adrodd ar yr effaith cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn ystod 2024/25 o ganlyniad cynnwys y mesurau hyn.

Mae gwaith parhaus yn digwydd i gefnogi busnesau i ymateb i ofynion mewn tendrau yn sgìl unrhyw ddatblygiadau yn y maes, fel ennill achrediadau neu ymateb i ofynion y Ddeddf Llesiant. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi i asesu'r effaith amgylcheddol a cheisio lleihau ôl- troed carbon.

Mae gan y Cyngor broses i reoli risgiau drwy gael Cofrestr Risg Corfforaethol yn ei lle. Yn ogystal mae trefniadau ar gyfer Archwilio Mewnol yn bodoli a chynhelir gweithdy blynyddol ar sicrwydd a risgiau gydag archwilwyr allanol (Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn).

Er mwyn sicrhau fod trefniadau yn eu lle i ymateb i unrhyw argymhellion gan gyrff archwilio, rhoddir ystyriaeth i adroddiadau diweddaru chwarterol gan Archwilio Cymru yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ceir trefniadau priodol hefyd i ymateb i unrhyw adroddiadau gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).

Noder bod prif risgiau llywodraethu wedi eu sgorio yn gorfforaethol ac ar lefel Adran gan fod lefel y risg yn amrywio. Mae'r Grŵp Llywodraethu mewnol gyda throsolwg ac yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd o fewn Cyngor Gwynedd.

Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2021 ac mae'r system wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddwyr ym mhob Adran. Bellach mae'n llawer haws i wneud cysylltiad rhwng y risgiau wrth i Adrannau ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud fel ymateb, ac mae hefyd yn cynorthwyo Aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwyliedig wedi cael eu cymryd i leihau'r risg.

Rydym yn ymwybodol fod angen parhau i adolygu'r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio. Yn ychwanegol, rydym am adolygu i ba raddau y mae'r mesurau penodol sy'n cael eu cyflwyno er mwyn cyfarch y risg yn llwyddo i leihau risgiau yn effeithiol. Byddwn hefyd yn ystyried os y dylem ychwanegu cofnod o'r sgôr sy'n cymryd i ystyriaeth unrhyw ymyrraeth (mitigation), yn ogystal a'r sgôr risg presennol (sy'n ganlyniad i'r *effaith x tebygolrwydd* yn unig).

Y Pennaeth Cyllid sydd i baratoi a hybu datganiad polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod. Mae'r strategaeth i reoli risgiau wedi'i berchnogi ar lefel gorfforaethol drwy'r Grŵp Llywodraethu y cyfeirir tuag ato uchod, gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn herio'r sgoriau risg llywodraethu.

Fel rhan o'i drefniadau parhad gwasanaeth, mae'r Cyngor wedi categoreiddio Gwasanaethau o 1 i 4 ar sail blaenoriaeth adfer ar ôl trychineb. Bu i hyn alluogi'r sefydliad flaenoriaethu yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 gan sicrhau parhad gwasanaethau

‘hanfodol’. Mae gwersi sydd wedi eu dysgu wrth ddelio ag argyfwng Covid-19 wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcráin.

Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i’r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae angen i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni eu hunain fod trefniadau yn eu lle i ddelio hefo risgiau mewn modd priodol ac mae’r gwaith yma wedi cael ei gynnwys ar flaen raglen y Pwyllgor.

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2023/24, fydd wedi cael ei nodi yn Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Archwilio, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu’r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Fel rhan o Gynllun y Cyngor 2023-28 byddwn yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo newydd er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol. Mae’r gwaith ar hwn eisoes wedi dechrau a bydd yn sicrhau fod ein Asedau Eiddo yn addas i bwrpas ac yn gost effeithiol, yn enwedig yn dilyn y newidiadau a fu i batrymau gweithio a darparu gwasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf.

O ran cerbydau'r Cyngor mae yna gynllun ar waith i wneud gwell defnydd o fflyd sydd eisoes wedi arwain at rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy i’r dyfodol. Bydd y defnydd cynyddol o gerbydau trydan hefyd yn cyfrannu tuag at leihau allyriadau carbon gan y Cyngor.

**Sut ‘rydym ni’n gwybod hynny?**

Mae’r dystiolaeth a amlinellir uchod yn cynnwys cyfeiriad at rai o’r uchafbwyntiau o ran materion lle’r ydym yn perfformio yn dda neu ddim cystal. Ceir tystiolaeth bellach a manylder o fewn y dogfennau/ffynonellau ar ddiwedd yr adroddiad hwn:

I grynhoi, mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn uchelgeisiol ac yn rhinwedd yr hinsawdd gyllidol heriol bydd ystyriaeth yn cael ei roi i gapasiti i gyflawni’r hyn sydd o fewn y Cynllun. Mae’r Cyngor yn cydweithio gyda sefydliadau allanol ar draws ein gwasanaethau ac mae hyn yn bwysig i sicrhau effeithlonrwydd. Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i gynllunio a rheoli arian, gyda’r Adran Gyllid mewn cyswllt agos gyda’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr i gynnal adolygiadau parhaus o’r rhagolygon ariannol. Yn flynyddol mae’r Cyngor yn paratoi Strategaeth Ariannol i sicrhau cyllideb gytbwys i sicrhau parhad gwasanaeth ac yn cyhoeddi Datganiad o’r cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae gwaith wedi ei wneud i gyfarch y bwlch yng nghyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen rhoi ystyriaeth i sut gall gynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol i’r dyfodol.

Yn flynyddol mae’r Pennaeth Cyllid yn cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu fframwaith effeithlon ar gyfer mesur gwerth am arian o fewn ein trefniadau herio a chefnogi perfformiad.

Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y Sir.

Mae gan y Cyngor broses i reoli risgiau trwy ei Gofrestr Risg a mae trefniadau Archwilio Mewnol yn bodoli.

**Beth sydd angen ei wella?**

| **Gwelliannau ychwanegol wedi eu hadnabod eleni** |
|---|
| • Adolygu'r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio. |

| **Gwelliant** | |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | **Ein cynnydd hyd yma** |
| • Edrych i'r dyfodol er mwyn rhagweld sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor drwy baratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. | Cafodd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y Cyngor am y cyfnod 2025/26 – 2027/28 ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 14 Mai 2024. |
| • Ystyried y ffyrdd mwyaf addas o ymgysylltu a chynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol arwyddocaol a gweithredu (paratoi cyllideb 2024/25) | • Mae cyfres o ddatganiadau i'r wasg eisoes wedi eu rhannu i egluro'r cyd-destun ariannol, a bydd rhagor yn cael eu rhyddhau dros y misoedd nesaf. |
| • Parhau hefo gwaith o adolygu Cynllun Asedau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol yn sgil profiadau a datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf. | • Mae llunio Cynllun Rheoli Asedau newydd yn brosiect yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28.<br>• Mae rhai trafodaethau a chamau cychwynnol eisoes wedi eu cymryd a bydd y camau nesaf yn cynnwys cynnal trafodaethau cychwynnol gydag adrannau'r Cyngor i adnabod a yw eu hasedau eiddo yn addas i bwrpas, a sicrhau awdurdod y Cabinet i'r Polisïau Rheoli Eiddo wedi eu addasu.<br>• Pan gymeradwyir y Strategaeth Reoli Eiddo Corfforaethol gellir symud ymlaen at baratoi Cynllun Gweithredu Asedau Eiddo (amserlen hynny yn amodol ar y Strategaeth Corfforaethol). |

| | |
|---|---|
| • Edrych i ddatblygu ffordd o fesur gwerth am arian (effeithlonrwydd) ar lefel gwasanaeth fel rhan o'n trefniadau herio perfformiad. | • Byddwn yn cydweithio gyda chyfoedion mewn cynghorau eraill a chyrff proffesiynol fel CIPFA er mwyn datblygu fframwaith i allu adnabod gwerth am arian. Mae'r gwaith yma wedi cychwyn yn 2023/24 a bydd yn parhau yn 2024/25. |
| • Parhau i weithredu prosiect er mwyn mynd i'r afael a'r problemau recriwtio staff presennol y mae'r Cyngor yn ei brofi. | • Mae Prosiect 'Cynllunio'r Gweithlu', sy'n rhan o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, yn mynd i'r afael â hwn.<br>• Mae nifer o gamau cychwynnol eisoes wedi eu cymryd yn unol a cherrig milltir blwyddyn 1 y Prosiect. Bydd y camau nesaf yn cynnwys sefydlu rhaglenni gwaith manwl ar gyfer rhaglen o hyd at saith o is-brosiectau sydd yn cyfrannu i'r prosiect llawn. |
| • Parhau i roi arweiniad a chyngor i wasanaethau er mwyn sefydlu arferion cynllunio gweithlu tymor hir, fel bod modd ceisio osgoi problemau recriwtio a chadw staff i'r dyfodol. | • Gweler uchod |

## Gofyniad Perfformiad Tri: Y graddau y mae gan y cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad un a dau.

### Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?

Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefn llywodraethu addas yn ei le. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae Canllaw i'r Cyfansoddiad yn cael ei ddarparu er mwyn yn atgyfnerthu hyn. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government.

Ym mis Ebrill 2024 cynhaliwyd gweithdy o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn cynnal hunanasesiad o effeithiolrwydd y pwyllgor. Mae'r rhaglen waith oedd yn deillio o'r asesiad yma wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor gyda'r nod o wella ymhellach ei ffordd o weithio, a'r materion mae'n rhoi sylw iddynt.

Bu Archwilio Cymru yn cynnal 'Adolygiad o effeithiolrwydd craffu' yn ystod 2022/23 a chyhoeddwyd yr adroddiad mis Medi 2023. Mae'r adroddiad a dderbyniwyd yn galonogol, yn cydnabod y newidiadau sydd wedi eu gwneud dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn cryfhau ein trefniadau craffu a rhoi statws uwch i craffu yng Ngwynedd. Canfuwyd "bod y Cyngor wedi adolygu a chyflwyno newidiadau i drefniadau trosolwg a chraffu, a bod statws uwch i graffu o fewn y broses ddemocrataidd. Er hynny, mae cyfleoedd i gryfhau cyfraniad, statws a thraweffaith craffu ymhellach". Mae hyn yn cynnwys argymhellion megis hyfforddiant i aelodau etholedig, cryfhau yr aliniad rhwng rhaglen waith flynyddol craffu a rhaglen waith y Cabinet a Cynllun y Cyngor a bod angen trefn ffurfiol ar olrhain effaith craffu. Mewn ymateb fe adolygwyd ein trefniadau craffu ac yng Nghyfarod y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2024 mabwysiadwyd opsiwn i gadw at y trefniadau pwyllgorau craffu cyfredol gan gymeradwyo'r camau gweithredu i wella effeithlonrwydd er mwyn ymateb i argymhellion adroddiad Archwilio Cymru.

Mae rolau y Cyngor, Cabinet, Aelodau Unigol a Prif Swyddogion, ynghyd â chynllun dirprwyo clir, wedi eu gosod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi blaenoriaethu datblygu ei Raglen Arweinyddiaeth ac mae hwnnw yn rhan o'r Cynllun Pobl a fabwysiadwyd gan y Cabinet.

Mae diwylliant sefydliadol cadarnhaol gan y Cyngor sydd wedi ei gefnogi gan "Ffordd Gwynedd" sef yr enw a roddir ar y "ffordd o weithio" yr ydym wedi'i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Newid diwylliant, ymddygiadau a meddylfryd sydd wrth wraidd hyn oll ac mae'r nod o wireddu'r uchelgais ar draws pob rhan o weithgaredd y Cyngor yn her sylweddol ac yn un sydd angen rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth.

Mae cynnydd wedi bod ar y rhan helaethaf o'r naw ffrwd gwaith sy'n ffurfio Cynllun Ffordd Gwynedd 2023-28. Dyma'n gryno y cynnydd amlycaf ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun cyfredol:

**Arweinyddiaeth** - Mae'r hunan-asesiadau adrannol diweddaraf (Mawrth/Ebrill 2024) yn gadarnhaol iawn o ran y symudiad i 'arwain' yn hytrach na 'rheoli'. Mae pob Adran, yn ddi-eithriad yn cydnabod mai dyma yw'r nod a'r arfer gan y mwyafrif o reolwyr ond mae cydnabyddiaeth nad yw y newid hwnnw wedi gwreiddio cystal ym mhob gwasanaeth. Yn hynny o beth, mae'r angen am hyfforddiant pellach yn cael ei ystyried fel rhan o'r symudiad pellach i sicrhau mai arwain yw y norm a'r disgwyliad pan fo rhywun yn ymuno a'r Cyngor.

Mae aelodau'r Cabinet wedi parhau i fuddsoddi eu hamser mewn datblygiad personol ac fel tîm yn ystod y flwyddyn a fu, gyda bwriad clir i adeiladu ymhellach ar y datblygiad hwnnw yn ystod 2024/25. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cynnal tair sesiwn diwrnod cyfan yn ystod y flwyddyn er mwyn datblygu fel tîm o arweinwyr yn y Cyngor (mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol bellach yn gweithredu fel Grŵp Arweiniol Ffordd Gwynedd ac wedi ymrwymo fel tîm i hyrwyddo'r diwylliant ac i ddatblygu'r sefydliad yn unol ag egwyddorion y ffordd yma o weithio).

Ymhellach, mae cyfres o raglenni datblygol wedi'u cyhoeddi ar gyfer datblygiad rheolwyr, uwch-reolwyr a darpar-reolwyr ar draws y Cyngor e.e. Rhaglen Datblygu Rheolwyr, Rhaglen Datblygu Uwch-Arweinyddiaeth. Rhannwyd manylion am y rhaglenni hyn yn ystod cyfres yr Hydref o'r Rhwydwaith Rheolwyr (mae Arweinyddion Tîm hefyd erbyn hyn yn derbyn gwahoddiad) ac mae'r garfan gyntaf eisoes wedi dechrau ar y Rhaglen Datblygu Rheolwyr yn gynharach yn ystod 2024.

Adnabuwyd un bwlch yn y cyfleon i ddatblygu darpar uwch-reolwyr y dyfodol yn ystod y flwyddyn, ac hynny ymysg y garfan o benaethiaid cynorthwyol ar draws adrannau'r Cyngor. Mewn ymateb i hyn, sefydlwyd Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol fel cam cyntaf gyda golwg i gynnig cyfleon pellach i'r unigolion hyn trwy'r Rhaglen Uwch-Arweinyddiaeth i'r dyfodol.

**Dysgu, Arbrofi a Gweithredu i Wella** – Sefydlwyd Grŵp Ymarferwyr er mwyn rhannu arferion gorau yn ogystal â gwersi a ddysgwyd, gyda chofrestr o adolygiadau yn cael eu cynnal. Cynyddwyd y nifer o adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gyda rhai ohonynt eisoes wedi arwain at wella gwasanaeth e.e. darpariaeth cyngor dros y ffôn y Gwasanaeth Trethi wedi'i ail-sefydlu rhwng 9 a 5 Llun i Gwener ers yr 11 o Fedi, 2023. Ymhellach, er mwyn gwella dealltwriaeth aelodau'r Cabinet o'r hyn sy'n deillio o gynnal adolygiadau, cyflwynwyd trefniant ple bo swyddogion sy'n arwain adolygiadau unigol yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ystod y flwyddyn i rannu profiadau, llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd.

**Trawsnewid Digidol** – cymeradwywyd Cynllun Digidol corfforaethol ar gyfer 2023-28 gan y Cabinet ar y 7 o Dachwedd. Mae cyfnod y Cynllun hwn yn cyd-redeg efo cyfnod Cynllun y Cyngor (yn yr un modd ag y mae cyfnod Cynllun Ffordd Gwynedd). Mae cyllid eisoes wedi'i sicrhau er mwyn gyrru rhaglen waith dwy flynedd cyntaf y Cynllun Digidol gydag un o'r prif flaenoriaethau, sef sicrhau system ffôn integredig newydd, i'w wireddu yn ystod 2024/25.

Mae datblygiadau addawol ymhob un o'r ffrydiau gwaith eraill ond adnabuwyd y ffrwd gwaith ar gyfer lledaenu'r arfer o "werthuso parhaus" ar draws y Cyngor fel y prif ffocws ar

gyfer y flwyddyn i ddod. Mae arweiniad a chefnogaeth ar gyfer gwneud hyn wedi'i lunio a bydd angen lawnsio a chenhadu yn hyn o beth dros fisoedd cyntaf ail flwyddyn y Cynllun cyfredol.

Mae'r hunan-asesiadau adrannol diweddaraf yn adnabod materion megis ffurfioli yr arfer o gynnal gwerthusiadau parhaus a sicrhau cyfathrebu gwell ynglŷn a materion megis perfformiad o fewn timau yn ogystal a nodi'r angen i gynnig dilyniant i'r hyfforddiant ar gyfer rheolwyr yng nghyswllt cynnal adolygiadau o systemau a phrosesau a datblygu'r diwylliant o fewn timau. Bydd yr adborth yma yn ogystal a'r ymateb a gafwyd i'r Arolwg Llais Staff blynyddol diweddaraf yn llywio'r hyn sydd i'w flaenoriaethu yn ystod y flwyddyn i ddod. Rhagwelir cyflwyno yr adroddiad blynyddol, fydd yn ymgorffori ac yn manylu ar hyn oll, i'r Cabinet ym mis Medi yn ôl pob tebyg.

O safbwynt gweithgareddau mewnol y Cyngor, mae gennym drefniadau ymgysylltu a chyfathrebu da yn eu lle gyda negeseuon pwysig yn cael eu rhannu hefo staff mewn amrywiol ffyrdd. Yn yr un modd mae'n bwysig casglu barn staff a'u bod yn cael cyfle i ddarparu adborth ar sut gyflogwr yw'r sefydliad. I'r perwyl hyn mae Holiaduron Llais Staff wedi bod yn cael eu cylchredeg yn rheolaidd yn holi am feysydd yn gysylltiedig â'i swydd, eu gwasanaeth a hefyd y Cyngor fel sefydliad. Rhennir y canlyniadau hefo Penaethiaid, fel bod cyfle iddynt ymateb i'r prif negeseuon neu unrhyw her benodol yn ogystal â'r gweithlu cyfan drwy'r fewnrwyd, y bwletin wythnosol a hunanwasanaeth staff. Yn ychwanegol i'r arolwg corfforaethol, mae rhai adrannau wedi ymgymryd â gwaith pellach er mwyn canfod barn staff yn rheolaidd.

Mae gennym drefniadau effeithiol i fonitro'r gyllideb gyda'r Adran Gyllid yn cyflogi swyddogion gyda sgiliau, gwybodaeth a phrofiad addas er mwyn ymgymryd â'r ddyletswydd yma. Cynhelir adolygiad ffurfiol o sefyllfa gwariant refeniw ar ddiwedd mis Awst a Tachwedd gan adrodd ar y canlyniadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Cabinet am gymeradwyaeth. Cyflwynir diweddariad ar raglen cyfalaf i'r un cyfarfodydd hefyd.

Mae trefniadau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn, ac maent o dan oruchwyliaeth timau annibynnol o fewn yr Adran Gyllid. Adroddir ar weithgareddau Rheolaeth Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarterol.

Mae'r ddadl os yw gorwariant yn ganlyniad i fethu rheoli gwariant, neu oherwydd cyllideb annigonol yn un parhaus. Bydd gwaith o adolygu darpariaethau mewn cyllidebau yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf wrth baratoi cyllideb 2025/26.

Mae perthynas adeiladol iawn rhwng y Cyngor a'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r archwilwyr mewnol ac allanol. Gwelir hyn o gofnodion cyfarfod y Pwyllgor, a bydd Adroddiad Blynyddol y pwyllgor hefyd yn amlygu hyn.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Cytunwyd ar brotocol a meini prawf ar gyfer asesu cyflawniad y ddyletswydd mewn gweithdy rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r Arweinyddion. Mabwysiadwyd y rhain gan y Pwyllgor Safonau a byddent yn cyfrannu at baratoi adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae'r gwaith yma wedi ei gefnogi gan gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd gyda'r Swyddog Monitro.

Bydd y gwelliannau sydd wedi eu hadnabod o fewn yr hunanasesiad yn derbyn sylw gan Adrannau penodol o fewn y Cyngor a byddant yn adrodd yn ôl ar gynnydd i'r cyfarfod herio a chefnogi perfformiad perthnasol.

**Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?**

Mae'r dystiolaeth a amlinellir uchod yn cynnwys cyfeiriad at rai o'r uchafbwyntiau o ran materion lle'r ydym yn perfformio yn dda neu ddim cystal. Ceir tystiolaeth bellach a manylder o fewn y dogfennau/ffynonellau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

I grynhoi, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan trefniadau llywodraethu a mae Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau. Cafwyd adolygiad gan Archwilio Cymru ar ein effeithlonrwydd craffu ac mae gwaith eisoes yn digwydd i fynd i'r afael â nifer o'r argymhellion ac mae eraill yn waith parhaus. Mae'r gwaith yn cyd-fynd gyda'r adolygiad i drefniadau craffu.

Mae diwylliant sefydliadol cadarnhaol gan y Cyngor drwy egwyddor Ffordd Gwynedd ac mae cynnydd wedi bod yn y rhan helaethaf o'r naw ffrwd gwaith sy'n ffurfio'r cynllun. Mae gweithgaredd ymgysylltu a chyfathrebu mewnol yn dda a negeseuon pwysig yn cael eu rhannu gyda holl staff. Mae hefyd trefniadau effeithiol i fonitro'r gyllideb gyda threfniadau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn.

**Beth sydd angen ei wella?**

| **Gwelliannau ychwanegol wedi eu hadnabod eleni** |
|---|
| • Cwblhau'r camau gweithredu i wella effeithlonrwydd craffu mewn ymateb i argymhellion adroddiad Archwilio Cymru. |

**Beth sydd angen ei wella?**

| **Gwelliant** | |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | **Ein cynnydd hyd yma** |
| • Cynnal arolwg llais staff (fel y cynhaliwyd yn y gorffennol) er mwyn cynnal trafodaeth gyson gyda'r gweithlu a darparu cyfle iddynt ddweud beth sy'n gweithio'n dda a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. | • Arolwg Llais Staff wedi ei gynnal yn Medi / Hydref 2023 a gwaith dadansoddi manwl wedi ei gynnal.<br>• Erbyn mae'r prif ganfyddiadau wedi eu rhannu ag aelodau y Tîm Rheoli Corfforaethol, ac hefyd yn y broses o gael eu cyflwyno i dimau rheoli pob Adran yn unigol. Bydd y cynllun gwaith corfforaethol ar gyfer gweithredu ar y prif ganfyddiadau yn cael ei fonitro fel rhan o waith grwp Swyddogion Ffordd Gwynedd. |

| | |
|---|---|
| • Cynnal arfarniad o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn sefydlu a yw'n effeithiol. | • Mae'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad yn Ebrill 2024 a byddwn yn llunio rhaglen waith allan o ganlyniad yr asesiad hwnnw. |
| • Parhau i weithredu ar y camau sydd eisoes wedi eu rhoi yn eu lle mewn ymateb i archwiliad o drefniadau herio perfformiad a wnaed gan Archwilio Cymru yn ystod 2021/22 a pharhau i edrych ar lwyddiant y trefniadau hynny gan adolygu os oes angen. | • Wedi bod yn gweithredu y trefniadau herio a chefnogi perfformiad presennol ers mis Ebrill 2022 (sy'n cynnwys camau sydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i argymhellion wnaed gan Archwilio Cymru yn ystod 2021/22).<br>• Dros y flwyddyn diwethaf mae adolygiadau pellach wedi eu cynnal gan Archwilio Cymru yn ymwneud hefo trefniadau craffu a defnyddio gwybodaeth am berfformiad wedi eu cynnal a rydym ar hyn o bryd yn y broses o adolygu'r trefniadau gyda'r bwriad o sicrhau fod aelodau Pwyllgorau Craffu yn chwarae rôl mwy canolog. |
| • Gweithredu Rhaglen Waith Cynllun Ffordd Gwynedd 2023-28 er mwyn parhau i wella perfformiad a darparu'r gwasanaethau gorau posib ar gyfer trigolion y Sir. | • Mae adolygiadau ffurfiol yn digwydd neu wedi'u cwblhau mewn sawl gwasanaeth, ac mae'r enghreifftiau hyn o arfer da wedi'u dwyn ynghyd mewn cofrestr. Ar Ionawr 25, 2024, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Ymarferwyr Ffordd Gwynedd i rannu a chofnodi profiadau a ddysgwyd wrth gynnal adolygiadau gwasanaeth neu wrth weithredu egwyddorion Ffordd Gwynedd.<br>• Mae pecynnau drafft o'r hyfforddiant Ffordd Gwynedd wedi'u datblygu, hynny gyda'r bwriad o'u lansio'n ystod 2024. Mae hyn yn cynnwys dogfen ar ymddygiadau Ffordd Gwynedd at bwrpas gwerthuso parhaus. Yma, mae cynnydd yr is-ffrwd arweinyddiaeth yn berthnasol hefyd: mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cwblhau tair sesiwn datblygu tîm ers mis Tachwedd 2023; sefydlwyd y Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol llynedd, ac; bydd y Rhaglen Datblygu Rheolwyr cyntaf yn rhedeg eleni, ynghyd â Rhaglen Datblygu Uwch- |

| | |
|---|---|
| | Arweinyddiaeth o'r Gwanwyn ymlaen.<br>• Mae rhai is-ffrydiau'r Cynllun Ffordd Gwynedd yn gorwedd ar gynllunio strategol ehangach yn y Cyngor. E.g., mae'r is-ffrwd digidol wedi gwneud cryn gynnydd ers mabwysiadu'r Cynllun Digidol llynedd; ac felly hefyd yr is-ffrwd cynllunio'r gweithlu a datblygu talent oherwydd y Cynllun Cynllunio'r Gweithlu newydd.<br>• O ran yr is-ffrwd gweithlu bodlon ac iach, un agwedd bwysig yw sicrhau bod y Grŵp Absenoldebau yn parhau i dargedu ymyrraeth ple bo lefelau uchel o salwch. |

**Atodiadau Defnyddiol**

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24
- Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2022-23
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2022-23
- Datganiad Llywodraethu 2022/23
- Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2023-24
- Adroddiad Blynyddol 2022-23 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Adroddiad Blynyddol 2023-24 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Strategaeth Cyfranogiad 2023
- Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 - 28
- Cofrestr Risg Corfforaethol
- Gweithdy blynyddol gyda'r Rheoleiddwyr a'r Aelodau Cabinet
- Adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol
- Adroddiad Blynyddol ar y Weithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2022-23
- Polisi a Chanllaw Caffael Cynaliadwy
- Gwybodaeth Cyflogaeth 2022-23
- Datganiad o'r Cyfrifon 2022-23
- Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019/20 – 2028/29
- Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2023
- Adroddiad Blynyddol 2023-24 Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd
- Cyfrifon Terfynol 2023/24 – Alldro Refeniw
- Strategaeth Cynllun Pobl
- Adroddiad Llamu Ymlaen Archwilio Cymru 2021-2022
- Cyngor Gwynedd – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)
- Diweddariadau Archwilio Mewnol yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethau ac Archwilio drwy'r flwyddyn - CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL.pdf (llyw.cymru)
- Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd
- Adroddiadau Rheolaeth Trysorlys –
  - Medi 2023 - Adroddiad Allbwn Rheolaeth Trysorlys 2022-23.pdf (llyw.cymru)
  - Rhagfyr 2023 - Rheolaeth Trysorlys Hanner Blwyddyn 2023-24.pdf (llyw.cymru)
- Asesiad Buddsoddwyr Mewn Pobl – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd
- Arolygon Staff
- Adolygiad o effeithiolrwydd craffu – Cyngor Gwynedd (archwilio.cymru)

**Blaenraglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd Medi 2025**

**10 Hydref 2024**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Awst 2024
Rhaglen Gyfalaf 2024/25 – Adolygiad Diwedd Awst 2024
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25
Adolygiad o'r Cyfansoddiad
Adroddiadau Archwilio Cymru:
*Llif Allan o'r Ysbyty*
Blaenraglen y Pwyllgor

**28 Tachwedd 2024**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024 a'r Archwiliad Perthnasol
Rheolaeth Trysorlys 2024-25 Adolygiad Canol Blwyddyn
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25
Adroddiadau Archwilio Cymru
Adroddiadau Archwilio Cymru Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch2
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Blaenraglen y Pwyllgor

**16 Ionawr 2025**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2024
Rhaglen Gyfalaf 2024/25 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2024
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Adroddiadau Archwilio Cymru
Blaenraglen y Pwyllgor

**6 Chwefror 2025**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Arbedion 2025/26
Strategaeth Gyfalaf 2025/26 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg)
Cyllideb 2025/26
Diweddariad Canol Blwyddyn ar Risgiau Llywodraethu Cyngor Gwynedd
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Adroddiadau Archwilio Cymru Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch3

Blaenraglen y Pwyllgor

**22 Mai 2025**
Ethol Cadeirydd
Ethol Is-Gadeirydd
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024-25
Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025
Cyfrifon Terfynol 2024/25 – Alldro Refeniw
Rhaglen Gyfalaf 2024-25 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2025)
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2024/25
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Siarter Archwilio Mewnol
Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol 2025/26
Archwilio Cymru - Diweddariad Chwarter 4
Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Gwynedd 2024
Adroddiadau Archwilio Cymru a’r Ymateb Sefydliadol
Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys
Blaenraglen y Pwyllgor

**Medi 2025**
Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor
Datganiad o Gyfrifon 2024/25 (Amodol ar Archwiliad)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar Gyfer 2024/25
Rheolaeth Trysorlys 2024/25
Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Gwynedd 2024
Adroddiadau Archwilio Cymru - Diweddariad Ch1
Adroddiad Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio Manwl 2025
Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25
Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol
Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion
Blaenraglen y Pwyllgor